



# Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD


This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>




This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



289. e 5.



Ina Haney  
Chatham  
Northampton  
Mass  
Sep. 14<sup>th</sup> 1838



DRYCH BARDDONOL ;

NEU,

DRAETHAWD AR FARDDONIAETH :

AC HEFYD,

*Yr Awdl Fuddrygol*

AR

DDRYLLIAD Y ROTHSAÏ CASTLE.

---

GAN WILLIAM WILLIAMS.

(G. CALEDFRYN.)

---

“ Poetry is the art of uniting pleasure with truth, by calling imagination to the help of reason.”—DR. JOHNSON.

---

CAERNARFON :

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA YR ‘HERALD,’ GAN J. REES.

1839.



I'R

PARCH. WALTER DAVIES, M.A.,

*Periglor Manafon,*

(GWALLTER MECHAIN,)

CADEIRFARDD A HYNAFIAETHYDD,

*Un o Brif-feirniaid yr Oes,*

CYNORTHWYWR HAEL A CHEFNOGWR GWRESOG POB PETH  
SYDD YN TUEDDU AT LESAD AC ANRHYDEDD

*Cymru, Cymro, a Chymraeg,*

Y CYFLWYNIR Y GWAITH HWN,

FEL TEYRNGED O BARCH DIDWYLL,

GAN EI OSTYNGEIDDIAF

WASANAETHYDD,

YR AWDWR.





## RHAGLITH.

---

Y MAE yn ddigon naturiol i'r anwybodus ofyn wrth weled llyfr fel hyn yn cael ei gyhoeddi ar natur barddoniaeth, I ba beth y mae barddoniaeth da? ond yr un peth yn union fyddai iddo ofyn i ba beth y mae llyfrau y proffwydi da? I ba beth y mae y 'Salmau, hymnau, a'r odlau ysbrydol,' y sonia Paul am danynt da? I ba beth yr oedd y Salm a ganodd Crist gyda'i ddysgyblion cyn gwynebu ar Galfaria da? I ba beth y mae yr holl lyfrau emynau sy'n ein cynulleidfaoedd Cristionogol da? ac i ba beth y byddai dysgu tônau newyddion i'w canu mewn addoldai da, oni bai barddoniaeth? Hyderir na olygir mai'r swm, a'r swm yn unig yw y mawl a orchymynir ei ganu â'r ysbryd ac â'r dyall hefyd: gan hyny, ymddengys yn wyneb hyn fod barddoniaeth yn dda; neu os dyfernir hi fel peth aflesol, rhaid rhwygo ymaith, ar yr un pryd, rai o brif ranau Llyfr Duw; oblegyd beirdd santaidd oedd Moses, Job, Dafydd, Solomon, Esaiah, Ezeciel, Joel, Nahum, Habacuc, &c., &c.; ac y mae rhanau o'u proffwydoliaethau, y darnau barddonawl goreu yn yr holl fyd: y mae yr iaith yn ymddangos yn brydyddol, i bob un a fedr ddarllen, a dyall y peth a ddarlleno, er eu bod wedi eu cyfieithu; ac er nad oes ynddynt na chynghanedd, nac odl, yn ol y rheolau cymreig: wrth hyny y mae llawer o'r rhai a ofynant *i ba beth y mae barddoniaeth da?* wedi bod yn darllen barddoniaeth, os buont yn darllen y Bibl.

#### RHAGLITH.

Y mae Iago yn gofyn, 'A oes neb yn esmwyth arno? Caned Salmau.' Caned fawl i Dduw. Y mae yn dda canu mawl i Dduw, medd pawb; a gan mai drwy gyfansoddiadau barddonawl y byddai yr eglwys, yn mhob oes, yn canu mawl, yna rhaid fod darllen barddoniaeth yn dda. Ië, medd yr angredadyn eto, ond yn y mater y mae'r sylwedd, ac nid yn y dull. Y mae yn y dull hefyd rywbeth, gan mai un dull a ddewiswyd gan y beirdd dwyfol i ganu mawl. Er yr addefir mai yn eu dawn eu hunain yr oedd y proffwydi yn gosod allan bethau Duw, ac mai y mater oedd o dan ddwyfol ysbrydoliaeth, eto proffwydi awenyddol oeddynt o'r bron i gyd; ac y mae yn ddiameu bod gan yr Arglwydd olwg neillduol ar i'w hysgrifeniadau gael eu gosod allan yn brydyddol, ac onidê pa fodd y goddefwyd y dull hwn iddynt, gyda chyn lleied o eithradau? Ond y gofyniad naturiol yw, A oes modd canu mawl heb fod gan farddoniaeth law yn y gwaith? Neu a oes rhywbeth, heb wreichionen o dân awenyddol ynddo, yn deilwng o'r enw mawl? Os atebir nad oes, yna addefir ar unwaith nad oes fodd canu mawl i Dduw, â dim ond â pheth fyddo yn cyfranogi o ansawdd farddonawl. Os nad ydoedd syniadau Moses yn ei gân ar foddiaid yr Aifftiaid, yn fwy ardderchog mewn gwisg farddonawl nag y buasent mewn iaith rydd, pa fodd y goddefwyd iddo eu gosod allan yn y dull hwnw? A phaham na fuasai y beirdd santaidd oll yn ysgrifenu eu proffwydoliaethau mewn iaith rydd? &c. Ond y mae pob peth yn ein cadarnhau fod y Bibl, nid yn unig, wedi ei lefaru drwy ddwyfol ysbrydoliaeth, ac yn nawn briodol pob un o'r proffwydi, ond mai y dull barddonawl oedd y dull penodol i osod y proffwydoliaethau, &c. allan, ac onidê ni chawsai ei gymeradwyo gan yr Arglwydd.

Dywed y Dr. Watts, yn ei *Improvement of the Mind*, bod yn fuddiol darllen barddoniaeth, oblegyd fod llawer o honi yn cynwys amrywiaeth o addysgiadau, neu egwyddorion perthynol i fywyd cyffredin, yn gystal ag i bethau crefyddol: ac fod llaws o ymadroddion dillyn, a rhagorol, yn nghyfansoddiadau y beirdd, yn werth eu doddi yn y cof, er codi ein sylw oddiwrth bethau isel, a gwael. Pwy a all ddyweyd y llesâd a wnaeth emynau y Dr. ei hun i blant a rhai mewn oed? Hefyd, fod weithiau, mewn prydyddiaeth, y fath ddyrchafiad mawreddog o feddwl a theimlad, ag sy'n goleuo pob peth o'n hamgylch, gan drosglwyddo i'r enaid y cyffelybiaethau mwyaf ardderchog, a'r meddylddrychau mwyaf goruchel; bydd y rhai'n yn ardderchogi ein hamgyffredion; yn gwresogi ein henidiau; ac yn deffro ein teimladau goreu, gan eu codi i sefyllfa uchel o dduwioldeb a chrefydd. Y mae darllen penillion crefyddol wedi bod yn gynhaliaeth i feddwl llawer Cristion gwan a thrallodedig, ac yn ei ail gyfnerthu ar ei yrfa drwy yr anialwch. Canu ei gân ryfeddol oedd y peth cyntaf a wnaeth Moses a meibion Israel ar ol eu dyfodiad drwy y Môr Coch. Y mae dyben arall hefyd o ddarllen prydyddiaeth, sef cyfoethogi y meddwl ag amrywiaeth o'r ymadroddion a'r geiriau mwyaf toreithiog, a dillyn, ar bob achosion, naturiol, a chrefyddol. Drwy ddarllen llawer o brydyddiaeth, deawn, yn ddiarwybod i ni ein hunain, i allu amrywio ein ymadroddion ar bob achosion, ac i fedru dangos ein meddylddrychau yn yr iaith mwyaf priodol, ac ardderchog, pan fyddwn yn ysgrifenu, neu yn llefaru, am bethau Duw neu ddynion.

Y mae darllen prydyddiaeth hefyd yn fath o orphwysiad i'r meddwl, ar ol llafur, a lludded, mewn as-

tudiaeth ar bethau ereill. Y mae difyrwch i'w gael mewn gwir farddoniaeth, nes y bydd yr ysbrydoedd llesg yn cael eu hail fywiogi, a'u hwyluso i ddilyn eu ho'rheiniadau gydag egni newydd.

As for books of poetry, whether in the learned, or in the modern languages, they are of great use to be read at hours of leisure, by all persons that make any pretence to good education or learning.—*Dr. Watts.*

Wedi, fel hyn, ceisio dangos y dyben o ddarllen barddoniaeth, efallai, y dysgwylia'r darllenydd glywed ychydig o hanes y Drych Barddonol, ac amgylchiadau ei gyfansoddiad.

Fe'i cyfansoddwyd mewn ufydd-dod i gais cyfeillion; yn, ac ar ol Eisteddfod Le'rpwll, yr hon a gynhaliwyd Mawrth 1, 1839, mewn canlyniad i ddarlith, ar natur barddoniaeth, a draddodwyd gan yr awdwr yn yr Eisteddfod hono. Yr oedd efe wedi cael anogaeth cyn hyny, hefyd, gan amryw i gyhoeddi rhywbeth o'r natur yma.

Derbyniwyd yr enw, sef, Drych Barddonol, oddiwrth gyfaill dysgedig; un o brif-feirdd yr oes.

Addefa pawb, cydnabyddus ag ansawdd llenoriaeth gymreig, fod angen mawr ar y Cymry unieithog am waith o'r natur yma. Yr unig sylwadau beirniadol, o werth, a gawsom erioed, oedd ychydig yn y 'Gwyllydd,' ar ol Eisteddfod Gwreccsam; o gyfansoddiad, fel y tebygir, yr hybarch Walter Davies; y rhai ydynt synhwyrddoeth, craffus, a miniog; gresyn na fuasai ychwaneg o honynt ar glawr. Y mae awdwr y Drych yn teimlo arno ei hun rwymau i ddiolch i'r gwr parchedig am yr awgrymau cryhwylledig, oblegyd buont yn foddion i oleuo mwy ar ei feddwl ef, na dim a ddar-

llenodd erioed yn y Gymraeg, cyn, nac wedi hyny. Pe dilynasid dull tebyg i hyn ar ol pob Eisteddfod, buasai y Cymry, yn ddiameu, yn llawer pellach yn mlaen nag ydynt; ond yn lle hyny y mae amryw Eisteddfodau, wedi eu cynal yn rhwysgfawr, heb ateb un dyben i neb heblaw i'r *rhai a dderbyniasant y gwobrywion*; canys ni welwyd gair o'r feirniadaeth, ac ni chlybuwyd byth na siw na miw am y cyfansoddiadau ychwaith! Pa fodd y dysgwylir i feirdd gynyddu mewn gwybodaeth, os na ddywedir yn mha le y maent yn feius, ac yn ddiffygiol; ac yn mha bethau y bydd y cyfansoddiadau buddygol yn rhagori? Nid beirniadaeth yw dyweyd pa gyfansoddiad *sydd yn oreu*, ond dylid dyweyd hefyd *paham y mae yn cael ei farnu yn oreu*.

Os na wna cyhoeddiad y Drych ddim arall, bydd yn foddion, efallai, i gynhyrfu rhywun eto i gymeryd y mater yma mewn llaw, ac i'w drin yn helaethach; gellir honi, o'r hyn lleiaf, fod hwn yn agoriad drws yn y Gymraeg, i rai pethau ag oeddynt dra dyeithr i laweroedd.

Cafwyd y defnyddiau at y bennod ar farddoniaeth yr ysgrythyrau o weithion y Dr. Lowth, yn y Biblical Companion, gan Carpenter; y Dr. Watts; T. Campbell, Ysw.; a'r Dr. Blair.

Nid ydyw yr awdwr yn honi gwreiddioldeb yn y manau hyny lle yr eglurir egwyddorion y gelfyddyd farddonawl. "It must be considered that no man, who undertakes merely to methodize or illustrate a system pretends to be its author."—*Johnson's Life of Dr. Watts*.

Cafwyd awgrymau (*hints*) mewn perthynas i natur barddoniaeth, &c. o'r Doctor Aikin; Meistri Jeffreys, Mitchell, ac o'r 'Christian Examiner,' &c.; ond yr egwyddorion gan mwyaf a gymerwyd o'r Dr. Blair.

Gyda golwg ar y Rheolau barddonawl cymreig, digon yw dyweyd yr ymgeisiwyd at ddilyn y Cadben W. Myddleton; Bardd Nantglyn; a'r rheolau yn Ngeirlyfr Richards.

Y mae orgraff y Gymraeg yn y fath sefyllfa gymysglyd, fel y mae yn anhawdd gwybod pa lwybr i'w ddilyn. Myn rhai ddyblu y cydseiniaid fel y canlyn, accen, ateb, amlyccach; bann, byrr; cymmwys, cymmysg; honn; llymm; penn; ammherffaith; ym mhob, yng nghyd, &c. &c.

Ereill a ysgrifenant acen; ateb; amlycach; ban; byr; cymhwys; cymysg; hon; llym; pen; ammherffaith; yn mhob; yn nghyd, &c. &c.

Ceir ereill yn ysgrifenu yn wahanol i'r ddau ddull a grybwyllwyd, mewn rhai pethau; megys, a'mherffaith; y'ng hyd, ynghyd; y'mhob; yng hyd, &c., cytuna y tri dosbarth i ddyblu y cydseiniaid mewn rhai geiriau; megys, cynnal; ammaeth; pennill; etto, &c. &c.

Y dull a ddilynir yn y gwaith hwn yw peidio a'u dyblu mewn un man, oddieithr mewn geiriau fel hyn, annoeth, annhrefn, &c. pennod, *chapter*: ac ysgrifenu ammherffaith, amharch, &c.

Arferir *sy* o flaen gair a chydsain yn ei ddechreu; megys *sy dros* ben; a *sydd* o flaen geiriau a ddechreuir â bogeiliaid; megys, *sydd enwog* &c.

Y mae yr awdwr hefyd dros ysgrifenu y geiriau

*anghyson, anghywir, &c.* gyda yr *ng* yn unig; ac nid *annghyson; annghywir, &c.*

Arferir yr arddawd *yn*, yn mhob man yn ddiwahan-iaeth; megys, yn mhob; yn nghyd, &c.

Ni arferir *h* yn y gair cymorth, &c. ond fe'i hys-grifener fel cymysg, gydag un *m*.

Arferir yr *h*, yr hon sydd arwydd uchenaïd, neu gyd-sain anmherffaith, mewn geiriau megys, cenhedlu cynhwysiad, cymharu, &c.

Tybia yr awdwr ei hun yn gyfiawnhäol am arferu orgraff fel hyn, gan nad oes un dull neillduol, a phenodol wedi ei sefydlu; ond, efallai, mai nid anfuddiol fyddai iddo yntau ddynodi y rhesymau sydd yn foddhäol iddo ef ei hun, dros y dull y mae wedi gymeryd.

Ystyria efe mai un o brif ragorion iaith yw symledd a llithrigrwydd; ac mae yr iaith mwyaf cymeradwy gan y dysgedig yw y bur, y ddyalladwy, a'r ddirodres; a methai a gweled pa fodd y gallai iaith fod yn syml, a dirodres, os beichid eu geiriau â llythyrenau heb un angen am danynt.

Un wrthddadl a ddygir yn erbyn peidio a dyblu y cydseiniaid, yw y collir yr acen felly; ac fod doddi dwy *r* yn y gair *tori*, dwy *m* yn y gair *camu*, &c. yn eu gwneud yn fwy grymus; fel hyn, *torri, cammu*; ond digon prin y gallwn gredu fod amddiffynwyr y drefn yma yn credu eu hunain; oblegyd nid ar gydseiniaid byth gwelir hwy yn doddi arwyddion yr acen; megys · · ^ ^, ond ar y llafariaid bob amser: a seiniaid chwyrn, neu araf y llafariaid sy'n gwneyd yr holl wahanïaeth; er engraff sylwer ar y geiriau canlynol,

Y môr a'r dôn yn rhuo,

O môr felys yw y dôn.

cân, cân; glân, glân; mân, mân; tân, tân.



Ni fedd pob cydsain ond un swm; ac nid ellir gwneyd i bump o honynt, mewn gair cyfansawdd, mwy nag un, ychwanegu dim at swm yr un hono; er engraff, pa faint mwy o swm acenol sydd yn y gair *camu* yn y dull canlynol, gyda phum *m*, megys *cammmmmu*, na phe'r ysgrifenid ef gydag un, megys, *camu*? ar ol swmio yr *m* gyntaf, yr ydys yn colli gafael ar y lleill yn hollol; ond pe'r ysgrifenid y gair fel hyn, *cam-mu-mu-mu-mu* byddai y swm yn wahanol; yr un peth a ellir ei ddywedyd am yr holl eiriau sydd a'r cydseiniaid dyblyg ynddynt er cynal yr acen; megys, *tòri*, *tynu*, *gyru*, &c.

Gwrthddadl arall a ddygir, yw y collir gwreiddiau y geiriau drwy beidio ag arfer cydseiniaid dyblyg; ymddengys hon eto yn wrthddadl a llai o bwys ynddi nag a ellid dybio ar yr olwg gyntaf; oblegyd y mae gwreiddiau geiriau yn dra ansicr; ac y mae geiriau mewn amser yn newid eu hystyr; ac yn cael eu dyall yn wahanol mewn gwahanol barthau o'r un wlad. Y mae canoedd o eiriau nad ydyw gwybod eu gwreiddiau yn taflu un math o oleuni ar eu hystyron; er engraff, ysgrifenyd y gair *ameu* yn *ammhau* gan rai, er cadw ei wraidd meddant yn y golwg; yr hwn yw *pau*; o *am* a *pau*; a'r *p* yn *pau* wedi ei throï yn *mh*, yn ol y rheol *porth*, *fy mhorth*: ond pa beth yw *pau*? arferir ef am beth fyddo a pharhad, helaethiad, neu ymdaeniad o amgylch yn perthyn iddo; peth fyddo yn cynwys, neu yn cyfyngu: hefyd gwlad drigianol; neu le y mae y llwythau yn ymdaenu o amgylch ac yr atelir hwy yn eu gyrfa; ond pa berthynas sy rhwng hynny a *doubt*, amheuaeth, petrusder, annilysrwydd; yr hyn yw ystyr y gair *ameu*?

*Ameg*, *allegory*, *parable*, a ysgrifenyd â dwy *m* ynddo, am ei fod yn tarddu o *meg* meddir; ond beth yw *meg*? *meg* sydd yn tarddu o *my-eg*, yr hyn a ar-

wyddda, peth a gymer i fewn, neu a gynwys; *meg* hefyd yw llyfethair. Y feg fawr, *a large old fetter, kept at Dinas Mawddwy*.—*Gwel y Dr. O. Puw.*

Pa beth yw yr *am* a arferir yn y geiriau yma? Ystyr *am* yw *round, about*; arwydda cylch hefyd: am ben, *cymysgedig gyda*; am, *for; because, &c.*—*Gwel y Dr. O. Puw.*

Nid i'r dyben o ddirmygu gwreiddiau geiriau, ond er dangos bethau mor dywyll, ac ansicr ydynt y defnyddiwyd yr engrauffau uchod.

Ysgrifeni'r y gair *meddianu*, &c. â dwy *n* ynddo, am ei fod yn tarddu o *meddiant*; a bod *y t* yn dychwelyd i *n*, megys yn *tad, fy nhad*; ond a fydd rhyw anhawsder i gael hyd i'r gwraidd os tynir un o'r ddwy *n* ymaith? Na fydd tra bo y gair *meddu* a *meddianu* yn arwyddo mor agos yr un peth: ond boddlonir ar un *n* yn y gair *disflaniad* a *disflanu*, er fod hwnw yn tarddu o *disflant*.

Arferir dwy *m* yn y gair *cymod*; dwy *n* yn *cynal*, a dwy *t* yn y gair *cytundeb*, a hyny er dangos y gwraidd; y mae yn amlwg mai o *cyd* a *bod* y tarddodd *cymod*; o *cyd* a *dal* y tarddodd *cynal*; ac o *cyd* ac *undeb* y tarddodd *cytundeb*; ond y rhyfeddod ydyw, gan mai yr un peth yw *cy, cyd, cyf, cym, cyn, cyt*; sef, "A prefix in composition. It denotes a mutual act or effect, having the force of the English prefixes *com* and *con*, in compact and concord."—*Dr. O. Puw.* Paham na wnai y tro ysgrifenu y geiriau uchod gydag un *m*, un *n* ac un *t*? Y mae *cy* yn gystal blaenddawd ag un o honynt; ac ymddengys yn debyg iawn mai efe yw gwreiddyn y cwbl. Y mae yn gorfod gwneyd y tro mewn llawer o eiriau; megys, yn *cymath*, o *cyd* a *math*; *cyni*, o *cyd* a *gni*; *cysain*, o *cyd* a *sain*; *cywir*,

o *cyd* a *gwir*; gan hyny, paham y mae yn rhaid ymdrafferthu i ddyblu y cydseiniaid mewn rhai geiriau, a geiriau ereill, o'r un cyfansoddiad yn union, yn cael eu gollwng gydag un gydsain? Efallai, mewn geiriau, y byddai yn berygl camgymeryd eu hystyr drwy adael y gydsain allan, y byddai yn dda arfer y cydseiniaid dyblyg, megys yn y gair *cynnelw*, yr hwn a arwydda *cyn* a *delw*, ac nid cynelw; y gair *pennod*, yr hwn a arwydda *pen* a *nod*, &c., ac yn y geiriau lle yr arferir y negidydd *an*, megys, *annoeth*, *annhrefn*, &c. oblegyd y byddai dilëu yr *an* o un o'r rhai hyn yn dilëu haner eu hystyr, canys o *an* a *doeth*, ac *an* a *trefn* y tarddasant; ond ni byddai dim o ystyr y geiriau ammhau, ammeg, meddiannau, cymmod, cynnal, a chyttundeb, &c. yn cael ei ddilëu er tynu y cydseiniaid dyblyg o honynt; ond byddent yn llawn mor ddyalladwy, ac yn llawer rhwyddach i ysgrifenydd ac argraffydd. Yn ol sefyllfa bresenol pethau, nid oes gan nemawr awdwr un trefniant cywir i fyned wrtho, ond y mae weithiau yn dyblu, ac weithiau yn peidio, a hyny efallai, yn yr un tu dalen.

Nid oes gan yr awdwr, yn bresenol, wrth derfynu, ond gadael y pethau hyn i sylw a hynawsedd y dysgedig; pob camgymeriadau sydd yn y gwaith tafier mantell cariad drostynt.

Dymuna ddychwelyd ei ddiolchgarwch gwresocaf, i'w gynorthwywyr haelfrydig yn y Gogledd a'r Deheubarth, am eu hymdrech o blaid cyhoeddiad y 'Drych Barddonol.' Dan ddymuno eu llwydd, y gorphwys,

Eu hufyddaf wasanaethydd,

W. WILLIAMS.

# CYNHWYSIAD.

---

## NATUR BARDDONIAETH.

	TU DAL.
Prydyddiaeth Fugeiliol . . . . .	5
Prydyddiaeth Delydol . . . . .	<i>ib.</i>
Prydyddiaeth Hanesol . . . . .	6
Prydyddiaeth Hyfforddiadol . . . . .	7
Prydyddiaeth Alarnadol . . . . .	8
Prydyddiaeth Ddarluniadol . . . . .	9
Prydyddiaeth Arwrol . . . . .	12
Prydyddiaeth Ddychanol . . . . .	13
Prydyddiaeth Englynol . . . . .	14

## BARDDONIAETH YR YSGRYTHYRAU.

Cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth Wrthrychau naturiol	17
Arferion, Celfyddydau, ac Amgylchiadau Bywyd cyffredin .	22
Y Cyffelybiaethau a gymerid oddiwrth Bethau Santaidd .	24

## Y GYNGHANEDD GYMREIG.

Engraffau o Farddoniaeth gynghaneddol . . .	53
---	----

## AM Y PEDWAR MESUR AR UGAIN.

Hyfforddiadau i gyfansoddi yn mhob un o honynt . . .	73
--	----

## EMYNAU.

	TU DAL.
Cyfansodddwyr Emyrau . . . . .	99

## Y BRYDDEST NEU Y GAN RYDD.

Sylwadau arni . . . . .	103
-------------------------	-----

## GWALLAU Y SYRTHIR IDDYNT.

Mewn Ffurgrau Ymadrodd . . . . .	107
Camarferiad Geiriau . . . . .	110
Yr Arferiad gormodol o Ansoddeiriau . . . . .	118
Cynghaneddion heb Weithredeiriau neu Berwyddiaid ynddynt	120
Mewn Chwaeth . . . . .	121
Y Chwyddiaeth . . . . .	124

## Y BEIRDD CYMREIG.

Anfanteision Beirdd cymreig . . . . .	127
Testynau i farddoni arnynt . . . . .	132
Pa beth yw Awen . . . . .	133
Y Bardd gynt . . . . .	135
Eisteddfodau . . . . .	137

## BEIRNIADAETH.

Eisteddfod Llanerchymedd . . . . .	139
Cyngan Llwydiarth . . . . .	145
Eisteddfod Lle'rpwell . . . . .	154

## AWDL AR DDRYLLIAD Y ROTHSAY CASTLE.

Criticism . . . . .	169
Beirniadaeth . . . . .	171
Yr Awdl . . . . .	173
AWENYDD . . . . .	191

# TRAETHAWD AR FARDDONIAETH,

&c. &c.

---

## NATUR BARDDONIAETH.

CYTUNIR, yn gyffredin, mai iaith y nwydau, neu y dychymyg, wedi ei fywiogi, a hono wedi ei ffurfio yn fynychaf mewn mesur penodol yw barddoniaeth. Metha yr athronwyr a phenderfynu yn mha le i osod y llinell rhwng prydyddiaeth a rhyddiaeth, neu, draethawd. Celfyddyd greadigol yw prydyddiaeth, a'i dyben yw difyru y serch, a chynhyrfu y teimladau gyda nerth ac egni. Golygid prydyddiaeth, a hyny, efallai, yn briodol, y fwyaf dwyfol o'r holl gelfyddydau; oblegyd anadliad, neu amlygiad, o'r egwyddor hono sy ddyfnaf a goruchelaf yn y natur ddynol ydyw,—mewn geiriau ereill, egwyddor y chwenychiad neu yrymgeisiad hwnw, nad oes un meddwl dynol yn ddyeithr iddo, am ryw beth cryfach, uchelach, a mwy treiddiol, nag a all bywyd cyffredin ei roddi. Nid oes un athrawiaeth yn fwy hysbys yn mhlith Cristionogion nag anfarwoldeb dyn; ond nid ydyw hyny mor ddyalladwy i lawer, fod egin, neu egwyddorion, bywyd dyfodol y credadyn, yn awr, wedi eu hamdoi yn ei enaid, fel y mae egwyddorion y planhigyn yn yr hedyn. Fel canlyniad anocheladwy i'r cyfansoddiad hwn, y mae yr enaid, wrth gael ei feddianu a'i gynhyrfu gan y galluoedd nerthol hyn, yn

ymestyn beunydd tu draw i'r hyn sy'n bresenol ac yn weladwy, gan ymdrechu yn erbyn rhwymau ei garchardy daiarol, a cheisio gwaredigaeth a llawenydd mewn pethau anweladwy. Yn ddebyg i hyn y mae ysbryd prydyddol yn meddwl dyn; nid yw y bardd yn foddolawn ar bethau gweladwy yn ei ymyl, ond y mae yn ymestyn at bethau anweladwy a dychymygol: y mae hyn yn ein cludo at wir ffynhonell darddiol prydyddiaeth. Y mae yr hwn nad all ddeongli, drwy ei wybodaeth ei hun, yr hyn a ddywedwyd, yn awr, heb feddu y gwir agoriad i weithion o athrylith. Nid ydyw efe wedi treiddio i ddirgelfäoedd cysegredig yr enaid, lle y genir ac y megir prydyddiaeth, ag sy'n tynu i fewn nerth anfarwol, gan barotoi ei hadenydd i'w ehediad nefol. Prydyddiaeth yw un o'r moddion penaf i goethi a dyrchafu cymdeithas. Y mae yn codi y meddwl uwchlaw bywyd cyffredin, rhydd iddo seibiant oddiwrth ofalon trwmfrydig. Y mae yn tueddu, pan fo yn gweithredu yn briodol, fel Cristionogaeth, i ysbrydoli ein natur. Y mae yn wir fod prydyddiaeth wedi cael ei gwneuthur yn offeryn o ddrygioni, &c., ond pan y mae yn ym-ostwng fel hyn y mae yn tywyllu ei than, ac yn colli llawer o'i grym. Y mae prydyddiaeth yn perthyn yn agos i'n serchiadau goreu. Y mae yn ymhyfrydu yn nhlynsni a gorucheled natur yn allanol, ac yn yr enaid. Ei dyben mawr hi yw cludo y meddwl tu draw, ac uwchlaw llwybrau sathredig, llychlyd, a blinderus bywyd cyffredin, a'i ddyrchafu i elfen burach. Y mae y gair *poet*, yn ei ystyr wreiddiol yn arwyddo crewr: y mae y gair prydydd yn arwyddo un yn darlunio, neu yn dangos; ffurfiwr neu gyfansoddwr; darluniwr yr hyn sy brydferth. Y mae prydydd yn darlunio gwrthrychau i'r meddwl, yn debyg fel y mae y paentiwr yn eu gosod o flaen y llygaid; a gofynol ydyw i'r darluniadau fod yn naturiol. Anerch y nwyd a'r dychymygyw gwaith y bardd, er eu cyffroi a'u tanio; ail bethau yw addysgu a hyfforddi yn ei gelfyddyd ef. Gwisgir gwir brydyddiaeth â'r iaith mwyaf dilyn, bywiog, a

thanllyd; iaith uwchlaw iaith y cyffredin yw iaith brydyddol; nid ydyw y prydydd, yn edrych ar bethau cyffredin, â llygad cyffredin, megys dynion ereill.—Y mae prydyddiaeth yn henach na thraethawdyddiaeth. Yr oedd achlysuron ar ba rai y cyfarfyddai dynion yn nechreuad cymdeithas, pan fyddai peroriaeth, dawn, a chaniadau yn brif ddifyrwch ganddynt. Y mae caniadau yn mhlith henafiaethau pob gwlad; a chyfeiriant, yn gyffredin, at bob amgylchiadau mewn bywyd. Dysgir hwy i'r plant yn fore. Ceir ynddynt orchestion y duwiau yn mysg y paganiaid, a champwri eu harwyr a'u gwrolion, a chenir hwy, ar amgylchiadau cyhoeddus, gyda brwdfrydedd a bloddest; y mae eu caniadau traddodiadol yn cael eu hystyried yn awdurdod ddigonawl i derfynu dadleuon a ddichon gyfodi yn eu mysg: ac y mae eu dygwyddiadau hanesiol, gan mwyaf, yn cael eu cadw drwy y caneuon hyn; a mawr yw yr effaith a gant arnynt. Nid oes nemawr ddyn mor ddideimlad na effeithia barddoniaeth arno. Teimlai ein cenedl ni gynt fawr effeithiau barddoniaeth eu gwlad er eu gwroli yn wyneb ymosodiadau eu gelynion, ac er eu lleddfu, a'u tawelu ar ol brwydrau gwaedlyd a dinstriol. Gwelir effeithiau yn dilyn prydyddiaeth sant-aidd yn ein haddoliadau Cristionogol. Rhan arbenig o wasanaeth Duw yw canu. Dylai dirmygwyr y ddawn brydyddol, od oes y cyfryw i'w cael, gofio nad oes fodd iddynt ei dirmygu heb ddirmygu un o osodiadau Duw yn ei eglwys. Cynulleidfa ryfedd yr ystyridd cynulleidfa Gristionogol heb ganu mawl. Er nad oes genym hanes am gantorion yn yr eglwys dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, yn debyg i'r hyn oedd yn nyddiau Solomon, eto, y mae genym ninau ein "Salmau a'n hymnau, a'n hodlau ysprydol."

Maethlawn i dueddiadau prydyddol yw y blodau,—y gwllith a'r dwfr gloew,—awyr esmwyth a swm,—wybr ddysglaer,—neillduedd y goedwig,—dystawrwydd y nos,—y deildai yn ngolau y lloer,—cysgod yr ywen,—y clogwyni garw,—y moelydd yn gwisgo eu moledau a'u



gwddfdyrc, — y caddug llwyd yn wisg laes dros eu hysgwyddau anghyddfurf, — yr afon ddolenog yn sio wrth ymddirwyn ar lawr y ddol, — y rhaiadr, — y don yn ymryson à'r clogwyn, ac yn ymdori ar draws ei ddanedd yn fil o ddarnau. — Gwrthrychau a effeithiant ar y dychmyg barddonawl hefyd yw y storm, — y mellt a'r taranau, — golygfa ar faes rhyfel, lle y penderfynwyd tynged ymerodraeth, — tyrau duwawr, ydynt ymwybodol o weithredoedd o erchyllder, — llysoedd adfeiliedig, fuont unwaith yn fawrion a theg, — trefydd wedi eu gadael yn garneddi, a fuont unwaith yn faethleoedd i'r celfyddydau, — y gantorgell wedi ei didoi, a'r mynachdy wedi ei adael i falurio: dyma faesydd eang i'r bardd; ond ni wel dyn cyffredin ddim yn yr holl olygfaoedd rhyfeddol hyn; y mae efe fel pe byddai heb deimladau yn perthyn iddo; a dyna un achos paham y mae cymaint o sothach dan enw prydyddiaeth yn cael ei ddanfon allan i'r byd; sef, dynion, heb feddu teimladau na syniadau beirdd, yn cruglwytho geiriau, ac os cant hwy i ateb i fesur, tybiant mai prydyddiaeth fydd. Y mae rhyw wrthrychau i dynu sylw y bardd yn mhob gwlad; ac un o'r profion goreu o fod un yn fardd natur yw ei fod ef yn sylwi ar y gwrthrychau mwyaf nodedig fyddant yn ei amgylehu. Chwith yw gweled y prydydd yn ddy-eithr i'r pethau mwyaf hynod yn ei wlad ei hun: dylai nid yn unig fod yn gydnabyddus à'r rhai hyny, ond hefyd yn hysbys o bob peth sy fawreddog yn mhob gwlad arall; mwyaf eang fyddo ei wybodaeth mewn natur, mewn celfyddyd, ac mewn hanesiaeth, mwyaf fydd ei gymhwysderau fel cyfansoddwr. Nid anmhriodol yw darluniad y Trioedd o wir fardd; y maent yn ei osod allan fel un yn meddu "Llygad yn gweled anian, calon yn teimlo anian, a glewder a faidd gydfyned ág anian." Y mae dadl fwy wedi bod, ac yn bod i raddau, yn mysg y Cymry, mewn perthynas i'r dull o farddoni, nac mewn perthynas i farddoniaeth ei hun; myn rhai nad oes dim yn deilwng o'r enw barddoniaeth os na fydd wedi ei gyfansoddi yn ol rheolau caethion y gyng-

hanedd; ac ereill a edrychant ar bob cyfansoddiad cynghaneddol yn farbaraidd, ac yn amddifad hollol o ysbryd y gân, gan honi nad oes ond caneuon rhydd yn farddoniaeth deilwng; ond debygid, gydag ychydig ymbwyll, na fyddai un anhawsder i brofi fod barddoniaeth gampus i'w chael, yn y Gymraeg, yn y ddau ddull uchod.

Gellir dosbarthu prydyddiaeth, yn gyffredin, i'r gwahanol fathau a ganlyn, Bugeiliol, Telynol, Hanesiol, Hyfforddiadol, Galarnadol, Darluniadol, Arwrol, Dychanol, ac Englynol.

#### I.—PRYDYDDIAETH FUGEILIOL.

BERNIR mai y cerddi bugeiliol, neu fugail-gerddi, oedd y caneuon boreuaf; oblegid yr oedd anifeiliaid mewn bod, a dynion mewn bod i'w bugeilio cyn ffurfio trefydd na bod gan y cyfryw ond ychydig wybodaeth am y celfyddydau; a difyrai oeswyr bore y byd eu hunain â chaniadau yn eu neillduedd, wrth olygu dros eu praid. Tynid eu sylw, yn eu sefyllfa ddiniwed, heddychol, a rhinweddol, at y golygfäoedd hyfryd, a tharawiadol, oedd yn eu cylchynu; sef, yr afonydd, y mynyddoedd, y dyffrynoedd, a'r bryniau, y creigiau, &c., a gosodent allan gynyrch eu myfyrdodau yn eu caneuon difyrus. Cynhwysai y caniadau hyn syniadau amlwg, dirodres, a naturiol; y galon yn ymdywallt mewn diniweidrwydd teilwg o ddynion yn y fath sefyllfäoedd. Ychydig, mewn cymhariaeth, sy genym o'r cerddi hyn yn ein hiaith.—Cyfansoddwyd rhai gan Mr. Richards, Ystrad Meurig, &c.

#### II.—PRYDYDDIAETH DELYNOL.

Y CANIADAU telynol (*lyric poems*) neu awdlau, oedd-ynt y rhai a ddadgenid gyda rhyw offeryn; byddai y

beirdd boreuaf yn canu eu penillion eu hunain, gan chware yr offerynau ar yr un pryd. Galwai Elizeus am gerddor cyn dechreu proffwydo, 2 Bren. iii. 15. Neillduodd Dafydd gantorion, “Y rhai a broffwydent â thelynau, ac â nablau, ac â symbalau,” (1 Cron. xxv. 1.) Hyny ydyw, canent eu cerddi, ac adroddent eu gweddïau ar y pryd y chwareuid yr offerynau uchod. Dadgenid amryw o’r Salmau gyda’r offeryn cerdd a elwid *Neginoth*; math o delyn wythdant; ac y mae yn debygol mai oddiyma y tarddodd yr arferiad o ganu gyda’r delyn, am yr hyn y mae y Cymry mor nodedig. Gellir dosbarthu y canïadau telynol (*lyric poems*) fel y canlyn:—1. Englynion, neu Salmau, yn y rhai y cenir mawl i’r Goruchaf, ac y gosodir allan deimpladau a phrofiadau y saint. 2. Awdlau, neu gerddi arwraidd, yn y rhai y coffeir am arwyr (*heroes*), ac am weithredoedd nerthol a phenigamp cenedl, neu wlad. 3. Canïadau moesol, ac athronyddol, yn y rhai y gosodir allan rinwedd, cyfeillgarwch, a dyngarwch; megys y gwelir yn amryw o ganiadau moesol D. Ddu, Eryri. 4. Caneuon, neu awdlau, o lawenydd a dyddanwch, y rhai a gyfansoddir, megys o groesawiad, ar ddyfodiad etifedd i’w oed; neu ryw amgylchiadau gorfoleddus cyffelyb.

### III.—PRYDYDDIAETH HANESIOL.

CANIADAU hanesiol ydynt y cyfryw a osodant allan hanesion, achau, personau, amgylchiadau, gwledydd, teyrnasoedd, &c. Dylai cyfansoddiadau o’r natur yma fod wedi eu sylfaenu ar ffeithiau diymwad; fel y gweinyddont fel math o goflyfrau, ac y byddont yn brofion i gyfeirio atynt: ond o bob caneuon, dyma y rhai sychaf a mwyaf diflas, os na fydd ynddynt ambell wreichionen awenyddol. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng awldraethawd hanesiol, ag awdl wedi ei chyfansoddi oddiwrth hanes; dylai cynhygwyr testynau fod yn ofalus i fynegu, wrth roddi testynau hanesiol i gyfansoddi

arnynt, pa un ai awdl yn traethu yr hanes yn gywir, a phob dygwyddiad, a dyddiad, perthynol iddo; ynte awdl o adeiladaeth gywrain, ac ehediadol, wedi ei chyfansoddi oddi wrth yr hanes fyddant yn ddisgwyl. Collodd amryw feirdd y gamp, oblegid na ddyallasant y gwahaniaeth hwn; canys pan gwrddent â thestyn a fyddai yn cyfranogi o ansawdd hanesiol, cyfyngent eu hunain yn hollol at yr hanes; a gallai, y crybwyllent bob peth yn yr hanes yn ddigon cywir; ond dygwyddai i ryw un arall, gyfansoddi ar yr un testyn, heb olygu yr hanes ond megys y canllaw i fyned wrtho, er ysgatfydd, y crybwyllai yntau bob peth fyddai yn yr hanes mor gywir a'r llall; ond cymerai ef ei ryddid, a dygai ei addurniadau, ei flodau, a'i dân awenyddol i fewn, yr hyn a wna i'w gân ragori yn ddirfawr ar eiddo ei gydymgeisydd. Fel cyfansoddiadau hanesiol gellir dynodi y rhai hyn, Hanes Owen Glyndyfrdwy, gan Bardd Nantglyn; Dymchweliad yr Aifftiaid yn y môr coch, gan Pedr Fardd; Awdl y Jubili, gan Gutyn Peris; Coffadwriaeth am hynafiaid y Cymry, gan Gwyndaf, a G. Morganwg; Dyfodiad teulu Tudur i orsedd Prydain, gan Padarn; ac Awdl ar Dderwyddon Ynys Prydain, gan Taliesin, ab Iolo.

#### IV.—PRYDYDDIAETH HYFFORDDIADOL.

DYBEN caniadau hyfforddiadol, neu egwyddorol, (*didactic*,) yw cyfleu addysg, gwybodaeth, a chyfarwyddyd. Gall y bardd, mewn prydyddiaeth o'r natur hyn, ymosod yn erbyn rhyw feiau, neu gyfansoddi math o draethawd prydyddawl ar ryw destyn pwysig; golygir mai cyfansoddiadau o'r natur ddiweddfaf yw y rhai penaf yn y dosbarth hwn, megys yr *Essay on Criticism*, gan Pope; *the Pleasures of Imagination*, gan Akenside; Armstrong, *on Health, &c.* Colled fawr i'r Cymro uniaith yw na byddai rhywbeth tebyg i'r rhai hyn yn Gymraeg. Mewn caniadau o'r fath yma, addysg yw y

dyben proffesedig. Dymunol ar yr un pryd yw i'r bardd fywiogi ei wersi drwy ffugrau a blodau awenyddol. Y mae yn ofynol fod cysylltiad hefyd rhwng y meddylddrychau; fel y byddo y cyfansoddiad yn ffurfio un cyfanwaith.

#### V.—PRYDYDDIAETH ALARNADOL.

GELLIR cyfleu caneuon galarnadol (*elegiac*) i ddau ddosbarth; sef, galarnadau o herwydd adfyd a thrychineb, a gyferfydd dynion oddiwrth wahanol amgylchiadau, a siomedigaethau; a galarnadau ar ol y meirw. Y mae caneuon o'r natur yma, i'w cael yn aml, yn y byd trallodus a chyfnewidiol hwn, fel nad oes gymaint o angen eu nodi pa fath ydynt; ond, efallai, mai nid anfuddiol fyddai rhoddi awgrym fod beirdd yn dilyn gormod ar lwybr eu gilydd yn hyn, ac heb dori ond ychydig iawn o dir newydd; rhaid addef mai lled anhawdd ydyw hyny, pan y mae galarnadau, yn enwedig am y meirw, wedi myned mor gyffredin; y mae hyd yn nod y mwyaf anwybodus mewn cymydogoeth yn barod i dybio ei hun yn alluog i ddyfod i ben â'r gorchwyl hwn; ac mor gynted ag y clywir fod yr anadl wedi dianc, ac fod y cymydog wedi gwynebu byd arall, eir ati i gyfansoddi marwnad iddo; a cheir ei chlywed, ond odid, yn cael ei chanu ar hyd yr heolydd yn ddioed. Coffadwriaeth pa sawl un o'n henwogion a geisiwyd lychwino gan y cerdd-fasnachwyr hyn? Rhaid addef fod llawer o fusgrellni a diffyg chwaeth yn ngalarnadau amryw o'n beirdd. Ni chynhwysa y rhan fwyaf o honynt ond ebychiadau; ychydig iawn a roddir o ddarluniadau o'r gwrthrychau y galerir ar eu hol: beio ar angau y byddir; a'i holi paham y bu mor greulawn; rhydd ambell un gofrestr o'r enwogion a laddwyd gan angau; efallai, y dechreua efe mor fore ag Abel: y mae hyn yn ormod mewn un gân. Y mae clywed y bardd yn ebychu llawer ei hunan, yn hytrach nag yn

gosod allan rinweddau, a rhagoriaethau, y trengedig, fel y gweithier y darlennydd i deimlad, yn beth rhy debyg i'r cri gwyddelig (*Irish cry*); dyfod at ein teimladau ni yw ei ddyledswydd ef; ac nid cymeryd arno drafferth fawr i gyfansoddi galarnad, er dangos mor fedrus yw efe yn y gelfyddyd o alaru ar ol y marw. Dylai pob galareb fod yn ddarluniad cywir o'i gwrthrych, nes y gweinyddo, pe byddai raid, yn goffadwriaeth o hono i'r oes a ddel; eithr ychydig iawn a geir yn ateb i'r darlun hwn; ond rhaid addef fod marwolaeth llawer un wedi cael ei roddi yn destyn i alaru ar ei ol nad oedd un math o ragoriaeth ynddo; gwelwyd marwnadau ar ol personau, na wybu neb ag oeddynt yn byw o fewn ugain milldir iddynt, eu bod hwy erioed wedi eu geni, hyd nes y clywsant am eu marwolaeth; y mae yn anhawdd, yn ddiameu, cyfansoddi dim o werth ar ol rhai mor anhynod. Ystyrir y galarebau canlynol yn gampus, ac yn ymrestru yn mhlith pigion ein gwlad; sef, Awdl Goronwy Ddu, i Llywelyn Ddu; Awdl Gwallter Mechain, i Syr T. Picton; Awdl Bardd Nantglyn, i Sior III; Awdl R. ab G. Ddu, i Mr. J. Jones, Ramoth; a Cherdd Blackwell, i Esgob Heber, yr hon na ddaeth neb i fyny â hi eto, er maint a efelychwyd arni.

#### VI.—PRYDYDDIAETH DDARLUNIADOL.

Er y dengys y bardd, bob amser, ei fedrusrwydd yn mha ddullwedd (*style*) bynag y cyfansoddo; eto, drwy y dull darluniadol (*descriptive*) y daw mwyaf o deithi (*quality*) yr awen i'r golwg. Dyma'r prawf o nerth ei ddychymyg. Dengys hyn y gwahaniaeth dirfawr sy rhwng awen o'r radd uwchaf a'r un ganolradd; rhwng esgyniad mawreddog yr eryr cryfadeiniog, ag ehediad byrneidiol y dryw; rhwng oslef yr eos, agoernad y ddylluan. Nid ydyw yr ysgrifenydd canolig a chyffredin yn canfod dim newydd, na hynod yn y gwrthrychau a geisia eu darlunio; y mae efe fal y dyn mynyddig, yn myned

i'r brifddinas, yn methu a gweled yn mha beth y mae ei rhagoroldeb ar ryw drefydd a dinasoedd cyffredin yn yn gynhwysedig : y mae pob peth ynndi yn ymddangos iddo ef yn yr un goleuni. Llac, ansafadwy, a gwanllyd hefyd, yw yr ysgrifenydd canolig, a chyffredin, o ran ei syniadau ; tra o'r ochr arall, y mae y bardd penigamp yn graffus, ac yn dreiddiol ; yn afaelus, ac yn myned o'i lwybr cyffredin wrth drin ei destyn ; ni foddlonir ef â syniadau isel ; gesyd y gwrthrych a baentia o flaen y llygad yn ei holl harddwch a'i oleuni. Y mae yn wir fod rhyw fath o flodau i'w cael yn ddamweiniol yn ngweithiau y canolradd ; ond y maent yn ymddifad o fywyd ac arogl, yn debyg i'r blodau a wneir o gotwm a sidan ; ymddengys y rhai hyny yn deg, ond pan arogl-och hwynt y maent yn hollol ddiwerth ; y mae blodau rhai ereill mal pe byddent wedi eu rhoi ar draws eu gilydd mewn cawell. Y mae modd dynwared prydyddiaeth ; ond nid oes ond y gwir fardd a all roi bywyd yn ei waith, a'i osod allan mor naturiol, a chelfydd nes y gallo y paentiwr dynu darlun o'i feddylddrychau. Dylid astudio natur yn fanwl cyn y gellir ei darlunio i ereill. Os darlunio gwrthrych a mawredd yn perthyn iddo y byddir, dylid gofalu am beidio ag arferu dim a fyddo yn tueddu i'w leihau ; rhag bod yn debyg i wr yn ceisio darlunio maint y môr, drwy ei gymharu i lyn Tegid. Ac os prydfferthwch fyddir yn ei baentio, dylid ymgadw oddiwrth bob peth fyddo yn tueddu i hacru y darlun : hacrwch fyddai brychau ar foch angyles o baentiad Angelo. Dylai pob meddylddrych mewn prydyddiaeth ddarluniadol, ychwanegu at brydfferthwch y darlun, ac nid tyngu oddiwrtho. A gofynol yw hefyd i'r bardd graffu a mynu cael allan y prif bethau yn m'nob gwrthrych, a'u darlunio yn eu gwir liwiau. Pe byddai dyn o alluoedd cyffredin yn darlunio llongddrylliad, ni byddai dim yn ei waith a gyffroai un gradd ar y nwyd, nac a effeithiai ddim ar y teimlad ; ond odid, na ddywedai efe fod y gwynt yn chwythu yn gryf ; a'r llestr yn ysgwyd ; a'r bobl wedi dychryn yn fawr cyn iddi daro yn erbyn

y graig; ysgatfydd, y gofalai ef hefyd am ddywedyd pa sawl un oedd ar y bwrdd; a pha ddydd o'r mis, ac yn mha flwyddyn y dygwyddai y trychineb; a beth oedd enw y cadben; a pha bryd y cychwynasant i'w mordaith; ni chlywech ddim ganddo ef am yr Arglwydd yn dwyn y gwynt allan o'i drysorau; y nen yn duo gan gymylau; y tonau yn ymgodi, ac yn ymrolio yn fynyddau mawrion; y llong yn esgyn i'r nefoedd ac yn disgyn i'r dyfnder; y morynau (*breakers*) yn golchi y cwbl dros y bwrdd; angau safnrwth yn tremio yn ngwynebau y mordeithwyr; tywylliad goleuadau y wybrenau; yr ergyd dinystriol yn erbyn y graig; ymollyngiad y llestr oddiwrth eu gilydd; y tonau cynddeiriog fel myrdd o lewod ffyrnig yn ymryson am y llwyth; natur wedi pruddhau; pob gobaith am fywyd wedi diflanu, &c. &c. na, elai ef heibio i'r pethau hyn yn ddisylw.—*Gwel y Shipwreck gan Falconer*; darluniad o longddrylliad yn ngweithion *Byron*, ac yn *Winter Thomson*.

Yn ei ddarluniad o ddinystr dinas gan elynion, y mae yn debyg y paentiaid y bardd ei chaerydd, a'i phyrth; ei heolydd, a'i phetrualau (*squares*); ei muriau, a'i phinoglau; ei masnachdai, a'i llysoedd; ei synagogau, a'i themlau; ei gerddi a'i dyffrynoedd; ei ffynhonau, a'i hafonydd; ei mawredd, a'i chyfoeth; doethineb, ac enwogrwydd ei llywodraethwyr; glendid a harddwch ei rhianod, yn y lliwiau cryfaf a mwyaf dymunol, a dangosai hi yn ei holl ogoniant, cyn darlunio un cwmwl cuchiog yn hongian wrth ei phen; nac un arwydd o ddialedd dwyfol ar gael ei dywallt arni; ac yna, gosodai allan, â holl nerth, a medrusrwydd, awen wedi ei chynhyrfu gan brydferthwch y golygfäoedd a ddynodwyd, y cadfridogion byddinog yn dynesu; y banerau yn chwyfio; yr offerynau cerdd yn chware; gweryriad y meirch; tinciadau yr eirf dinystriol; mellit, a tharanau y cyfleg-rau; y daiargryn a deimlid gan bwysau y muriau yn cwympto; adwyau mawrion yn y caerâu; yr aneddau ar dân, y mwg yn esgyn yn dyrch hyd y wybr; gwaedd-



iadau yr archolledigion ; cyflwr tost gwragedd a phlant ; y newyn ; yr haint ; cyrff y lladdedigion yn bentyrau ; y cwbl yn adfeilion llosgedig ; sawyr y tân ar y murddynod. Dangosai darlun o'i gogoniant a'i huchder cyn ei chwyp, ddyfnder y trueni a'i goddiweddai yn llawer mwy ; cai y darllenydd gyfle i edrych arni yn y ddau olygiad ; ac i gymharu ei chyflwr presenol ; pan y mae yn garnedd adfeiliedig, â'r hyn fuasai, pan oedd yn degwch y fro, ac yn llawenydd yr holl genhedloedd o'i hamgylch. Y mae darluniadau penigamp o wahanol wrthrychau yn Awdlau Dewi Wyn, ar Elusengarwch, ar Amaethyddiaeth, ac i ynys Prydain ; Marwnad Picton, gan Gwallter Mechain ; Gwledd Belshazar, gan Ieuan Glan Geirionydd ; Rhaglywiaeth Sior IV., gan Cawrdaf ; a dinystr Jerusalem, gan E. Thomas ; ond yn hyn y mae y beirdd Cymreig yn syrthio iselaf yn gyffredin ; cyfansodda llawer o honynt emynau a chaniadau moesol a difyrol yn lled ganolig ; a cherddi ac awdlau ar wahanol bethau, yn lled wych ; ond pan y dygir hwy i sengyd y tir hwn, y maent yn debyg i Dafydd yn llurig a botasau Saul. Y mae eu hanadl yn diffygio. Y mae llawer un yn fardd da am gyfansoddi rhyw ddernyn byr : bydd hwnw yn dlws iawn ; ond bydd yn fyr iawn : y mae yn gofyn galluoedd barddonol cryf, a llygad craff i dynu darlun a maint ynddo.

#### VII.—PRYDYDDIAETH ARWROL.

Y DULL nesaf o farddoni y sylwn arno yw y dull arwrol (*epic*) ; barddoniaeth hanesiol yw yr arwrol, wedi ei ffurfio ar ystori, mewn rhan yn wirioneddol, ac mewn rhan yn ffugiol ; gan osod allan mewn dullwedd (*style*) oruchel (*sublime*) ryw weithred nodedig a ffodus, wedi ei hynodi drwy amryw o addysgiadau mawr a phwysig, er ffurfio y cymhwysiad, ac effeithio ar y meddwl i'w dueddu i garu rhinwedd arwrol. Hefyd llunio ystori

ddifyrus, bwysig, ac addysgiadol ; a dethol rhyw berson i fod yn arwr y gân, a chynnal ei gymeriad drwyddi. Y pethau a ddylai arwrgerdd osod o flaen y meddwl yw dewrder, gwirionedd, cyfiawnder, ffyddlondeb, cyfeillgarwch, duwioldeb, a mawrfrydigrwydd. Y mae ein cenedl ni yn ddyeithr iawn i'r dull hwn o gyfansoddi. Er mwyn cael cip-drem ar natur ansoddau, a theithi y gân arwrol, cynghorem y darllenydd i astudio dull Coll Gwynfa, ac Iliad Homer ; oblegyd efe oedd tad yr arwrgerdd, yn ei gân ryfeddol ar ryfel Caerdroia. Un o'r cyfansoddiadau tebycaf yn yr oes hon i arwrgerdd, yn y Gymraeg, yw yr awdl fuddugol yn eisteddfod Le'rpwll, 1839, o gyfansoddiad Mr. T. Pierce.

#### VIII.—PRYDYDDIAETH DDYCHANOL.

Bu y Cymry yn nodedig am ganeuon dychanol (*satirical*), sef, gogan-gerddi. Teithi y rhai hyn yw ffraeth-lymder, a gerwinder, yn erbyn pechodau, a moesau drwg ; ond byddai yr hên feirdd yn chwanog i arferyd y dull hwn i senu, ac i boeni eu cymydogion : yr oedd T. Edwards, o'r Nant, a H. Morris, yn nodedig am ganeuon dychanol ; teimlai y werinos ugain, neu ddeg ar hugain o flynyddau yn ol, gymaint o arswyd y dychangerddi, ag a deimlent o ofn melldithion ffynon Eilian ! Cyfansoddai J. Jones, Glanygors, lawer o ddychangerddi digrif, yn erbyn amryw bethau ffol oedd yn mhlith y Cymry ; ac yn erbyn twyll a drwg arferion ; ond yr oedd ei ddychanwaith ef o rywogaeth wahanol i ddychangerddi yr hen brydyddion ; yr oedd yn fwy esmwyth, gwawdus, a digrifol ; yr oedd efe am ynill ei gydgenedl oddiwrth eu harferion ffol, drwy wawdio yr arferion ; ond yr oedd tuedd y lleill i archolli y teimladau a'u gwaedu ; yr oeddynt yn llawnach o fustl, a mwy o ymadroddion brwnt, ac anoddefol, i oes wareiddiedig, mewn llawer o honynt.

## IX.—PRYDYDDIAETH ENGLYNOL.

Y DULL englynol (*epigrammatic*) sydd led adnabyddus yn Nghymru; y rhagoroldeb a berthyn i englyn yw byrder, tlyzni, a diweddiad ffraethlym. Crynhoir cryn lawer o synwyr, weithiau, mewn englyn; y mae lluaws o feirdd da, a champus, nad ellir eu golygu yn englynwyr da. Dylai englyn fod yn ddyalladwy iawn o ran ei syniadau a'i iaith; ac onidê, ni fydd dim prydfferthwch ynddo. Y mae arfer geiriau ansathredig mewn englyn, yn brawf naill ai o ddiotalwch, neu o chwaeth isel. Peth i ddifyru y gymdeithas am y munud ydyw; ac os bydd raid chwilio y geirlyfr am ystyr ei eiriau, a gofyn i'r adroddwr beth mae yn feddwl, bydd y difyrwch wedi colli; bydd yr ergyd wedi ei gollwng heb wneud dim o'i hol. Dylai englyn fod mor hawdd ei adrodd a diareb.

Y mae englyn yn un o'r mesurau mwyaf cyffredin y cyfansoddir arno; ac y mae cyfansoddwyr yn llwyddo yn anamlach i wneud englyn da na chywydd da, &c. Bydd y rhan fwyaf o'r englynion sydd ar gerig beddau yn warth mewn oesau dyfodol. Y mae lluaws o rai da wedi eu cam gerfiaw, a chanoedd o rai gwael, ac annheilwng wedi eu gosod ar feddau, yr hyn sydd yn ddiameu, yn fwy o sarhad i goffadwriaeth y trengiedigion nag o barch.

## BARDDONIAETH YR YSGRYTHYRAU.

Y MAE pawb ag ydynt wedi talu sylw i'w Biblau yn gofidio fod dawn mor ragorol a'r ddawn brydyddol wedi ei hiselu gymaint drwy lygredigaeth. Yn y Nef y mae ffynon y ddawn hon; ond y mae wedi ei defnyddio, ysywaeth, gan ddynion halogedig, i ddybenion annheilwng iawn. Y mae rhai Cristionogion gweiniaid, o herwydd y camddefnydd a wnaed o honi, wedi bod mor ffol a thybio fod *prydyddiaeth* a *phechod* yn berthynasau agos i'w gilydd; ac nad oes fodd bod yn *brydydd mawr*, fel y dywedir, heb fod yn *bechadur mawr* hefyd; ac mai pechod, yn ddiarnheuol, yw ymyraeth dim â'r fath beth; ond y mae yn resyn fod neb sydd a Bibl yn ei law mor gamsyniol a hyn, ac mor dywyll, am un o ddoniau, ac addurniadau, penaf yr eglwys yn mhob oes. Y mae canoedd yn ein gwlad wedi darllen rhanau o'u Biblau, ac erioed heb ddyall mai prydyddiaeth oedd-ynt yn ddarllen; er, y mae yn wir, nad ydyw y rhanau hyny yn eu gwisg farddonawl yn y Gymraeg; ond y mae y syniadau yn hollol farddonawl. Y gân henaf a ddygodd hanesiaeth i'n clustiau yw cân Moses, yr hon a geir yn Exodus, (pen. xv.), ar ol gwaredigaeth Israel o'r Aifft. Maethwyd y gelfyddyd santaidd hon yn yr eglwys, drwy yr oesau dilynol; a defnyddiwyd hi gan frenhinoedd, a phroffwydi; gan Dafydd, Solomon, ac Esaiiah, i ddarlunio natur a gogoniant Duw. Trwy y ddawn hon dygasant gymaint o'r nefoedd i'r ddaiar ag a ganiatai tywyllwch yr oruchwyliaeth hono; ac yn awr a phryd arall codai perlewyg prydyddawl (*poetic rapture*) eu heneidiau yn mhell uwchlaw y cysgodau, gan eu cludo i ardaloedd goleuach a mwy ysplenydd; a rhoddi iddynt gip olwg ar ddydd yr efengyl. Y mae

dadl wedi bod rhwng rhai o'r dysgedigion penaf, mewn perthynas i'r farddoniaeth Hebraidd; sef, pa un a oedd iddi fesurau penodol ac odliadau ai peidio; rhai yn dyweyd fod, ac ereill yn gwadu hyny; ond cynwys y nodiadau canlynol sylw ar bethau, yn y farddoniaeth Hebraidd, y cytunir arnynt gan y rhai enwocaf sydd wedi ysgrifenu ar hyn. Wrth graffu ar natur y farddoniaeth a'i theithi, ni fydd hyny yn tueddu mewn un modd i geisio lleihau dwyfol ysbrydoliaeth y gwirionedd; oblegid golygir mai y materion a osodai y proffwydi a'r apostolion allan oedd yn *ddwyfol ysbrydoledig*, ac nid y dull; yr oedd pob un, pa un bynag ai proffwyd ai apostol, yn gosod y gwirionedd allan yn ei ddawn ei hun; ac y mae rhagor mawr i'w ganfod rhwng eu gwahanol ddoniau, o ran eu dull. Yr oedd yr athrawiaeth a draddodent goruwch naturiol; ond eu dawn eu hunain a arferent i'w thraddodi. Yr oedd ysgol i'r proffwydi wedi ei sefydlu gan Samuel; ond byddai yn anmhriddol i ni feddwl mai dysgu i'r gwyr ieuainc *broffwydo* yr oeddid. Ond dygid hwy i fyny mewn gwybodaeth grefyddol. Yr oedd rhai o honynt yn cael eu dysgu mewn peroriaeth, ac ereill, yn ddiau, mewn barddoniaeth, &c. Er fod yr holl broffwydi, i raddau mwy neu lai, yn ysgrifenywyr ffugrol, y mae amryw o honynt yn mhell o gyraedd yr hyn a ellir ei olygu yn radd farddonol, yr hyn ar unwaith a'n hetyl rhag cymysgu yr awen brydyddol â'r ysbryd proffwydol a roddwyd iddynt. Gan hyny sylwn ar natur y farddoniaeth cyn belled ag yr oedd a wnelai eu dawn a'u galluoedd hwy fel beirdd â hi: ac mewn trefn i gael allan wir natur eu barddoniaeth, y mae yn rheidiol i ni sylwi ar yr arluniaeth (*imagery*), neu y gyffelybiaeth farddonawl a arferai yr ysgrifenywyr santaidd. Y mae y dysgedig Esgob Lowth yn rhanu hon yn bedwar dosbarth; a dywed ei bod yn cael ei chymeryd, (1.) Oddiwrth wrthrychau naturiol. (2.) Oddiwrth arferion, celfyddydau, ac amgylchiadau bywyd cyffredin. (3.) Oddiwrth bethau santaidd. Ac, (4.) Oddiwrth y ffeith-

iau mwyaf hynod sydd wedi eu cofrestru yn yr hanes-iaeth santaidd.

I.—CYFFELYBIAETH WEDI EI CHYMERYD ODDIWRTH WRTHRYCHAU NATURIOL.

WRTH gymeryd cyffelybiaeth o wrthrychau naturiol, byddai y beirdd Hebraidd yn dethol y cyfryw ag oedd yn hollol adnabyddus a chynefin i'w gwrandawyr a'u darllenwyr. Gwelir, mai ar hyn, mewn gwirionedd, y mae eglurder iaith ffugrol yn dibynu i fesur helaeth: oblegyd prif ddefnydd arferiad cymhariaethau yw egluro y mater; eithr os yn lle meddylddrychau cynefin y bydd i awdwr ddefnyddio rhai newydd, nad ydynt yn hollol ddealladwy; os bydd iddo geisio eglurhau yr hyn sydd hollol amlwg drwy yr hyn sy ddirgel, yn lle gwneud peth yn eglurach, y mae yn ei wneuthur yn fwy dyryslyd ac anhawdd. Oni b'ai cywirdeb anghyffredin yr ysgrifenyddwr santaidd yn hyn, ni buasem ni, braidd, yn alluog i amgyffred gair o'u cyfansoddiadau.

Yn y lle nesaf, sylwir, fod yr Hebraid, nid yn unig yn tynu eu cyffelybiaethau oddiwrth wrthrychau eithaf adnabyddus, ond cadwasant un llwybr a modd yn y defnyddiad o honynt a'u cymhwysiad at eu gwrthrychau. Gellir golygu, mae yn wir, y ddullwedd ddamhegol yn un neillduol, yn yr hon y mae pethau moesol, gwladyddol, a dwyfol, yn cael eu hynodi, a'u gosod allan drwy gymhariaethau arwyddedig, neu hysbysedig; ac wedi eu mabwysiadu oddiwrth wrthrychau teimladol. Megys y mae mewn iaith eglur, gan hyny, ryw eiriau penodol yn gwasanaethu yn arwyddion meddylddrychau penodol; felly, gan mwyaf, yn y ddullwedd ddamhegol, y mae math o gyffelybiaethau naturiol yn gwasanaethu i egluro rhyw fath o feddylddrychau ag ydynt fwy anamlwg. Nid ydyw yr honiad hwn, mae'n wir, i'w ddyall, yn hollol heb eithriad; ond mor belled a hyn, beth bynag, gallwn gadarnhau fod y beirdd santaidd, wrth egluro yr un gwrthrych, yn defnyddio yr un cymhariaethau yn amlach na neb prydyddion

ereill; ac y mae yr arferiad hon yn effeithiol iawn i gadw eglurdeb.

Rhaid sylwi, yn y lle diweddaf, fod yr Hebreaid yn defnyddio, y gyffelybiaeth hono yn neillduol, yr hon a fenthycwyd oddiwrth y gwrthrychau mwyaf amlwg a chynefin, yn fwy rhydd, ac fod effaith ffugrol y cyfryw wedi ei sefydlu a'i hysbysu drwy arferiad gyffredinol a pharhaus. Hon, megys y mae yn gwneud cyfansoddiad yn eglur ac yn oleu, hyd yn oed yn y man lle y mae mwyaf o berygl o dywyllwch, a amddiffyna y beirdd santaidd rhag y cyhuddiad o ormoddiaeth, gerwinder a chwyddiaeth.

Gellir cadarnhau y nodiadau hyn a'u hegluro drwy ddwy engraff neu dair. Y mae y cyffelybiaethau o *oleuni* a *thywyllwch* yn cael eu harferu yn gyffredin yn mhob iaith i osod allan, neu ddynodi, hawddfyd ac adfyd, yn unol â'r synwyr cyffredin a'r dirnadaeth a fedd pawb o'r gwrthrychau eu hunain. Ond y mae yr Hebreaid yn defnyddio y cymhariaethau hyn yn amlach a chyda llai o amrywiaeth na phobl ereill.

Pan fydd y bardd santaidd yn addaw i'r bobl adnewyddiad o ffafr ddwyfol, ac ail gychwyniad llwyddiant cyffredinol, gyda'r fath liwiau ardderchawg y darlunia efe hyny! y fath nad all un cyfieithiad ei osod allan:

A bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul,  
A llewyrch yr haul fydd saith mwy.—ESAIAS xxx. 26.

Ond nid ydyw hyd yn oed hyn yn ddigon:

Ni bydd yr haul it' mwyach yn oleuni'r dydd:

A'r lleuad ni oleua yn llewyrch i ti:

[Ac yn y nos ni oleuir di à dysgleirdeb y lloer:]

Eithr yr Arglwydd [Jehofah] fydd iti yn oleuni tragywyddol,

A'th Dduw yn ogoniant it.

Ni fachluda dy haul mwyach;

[ni dderfydd dy haul].

A'th leuad ni phalla; [ni threulia];

O herwydd yr Arglwydd [JEHOFAH] fydd iti yn oleuni tragywyddol;

A dyddiau dy alar a ddarfyddant.—ES. lx. 19, 20. \*

\* Y geiriau rhwng ymsangau [ ] a ddangosant fel y goddefai y geiriau eu cyfieithu.

Ac ar y llaw arall pan y cyhoeddir dinystr yn erbyn brenhin balch yr Aipht, dywed Ezeziel :

Ie, cuddiaf y Nefoedd wrth dy ddiffoddi,  
 A thywyllaf eu ser hwynt,  
 Yr haul a guddiaf [a oblygaf] â chwaml,  
 A'r lleuad ni wna i'w goleuni oleuo.  
 Tywyllaf arnat holl lewyrch goleuadau'r Nefoedd,  
 [Holl oleuni goleuadau y nefoedd a dywyllaf uwch dy ben].  
 A rhoddaf dywyllwch ar dy dir, medd yr Arglwydd Dduw.  
 Ez. xxxii. 7, 8.

Y mae yr ymadroddion hyn yn hyf ac yn ëon; ond y mae y gymhariaeth yn ddigon adnabyddus, y mae'r arferiad o honi yn gyffredin, a'r ystyr yn ddyalladwy; gan hynny, y maent yn eglur, yn oleu, ac yn fawreddog.

Defnyddid cyffelybiaethau hefyd o afonydd a ffynhonau, a'r ddaiar yn cael ei hadnewyddu â gwlaw; y mae'n wir yr arferir y rhai hyn gan feirdd ereill; ond fe'u harferir yn fynychach gan y dwyreinwyr, lle yr oedd y gwlaw mor dderbiniol. Os parha gwynt y dwyrain i chwythu am ychydig ddyddiau, yn y gwanwyn, neu yn yr haf, bydd y maesydd wedi eu deifio yn gymaint fel na bydd yno prin laswelltyn wedi ei adael; bydd yr afonydd a'r ffrydiau yn sychu fyny, ac ereill yn ymddangos yn heliaidd, a natur fel yn ymyl ymddatodiad. Ar ol cawodydd trymion, pa fodd bynag, bydd y maesydd yn adnewyddu tu hwnt i ddysgwylid neb, yr afonydd yn ail redeg, a'r ffynhonau yn tywallt allan ddyfroedd mwy hyfryd; bydd holl wyneb natur wedi newid; yr hyn a ddyg feddyl-ddrychau mwy uchel am adnewyddiad a hyfrydwch nag a ddichon amgylchiadau o'r fath ddangos ini. Oddiwrth hyn y mae cynifer o gyfeiriadau yn cael eu gwneud at dir cras a sychedig, heb ddwfr, i osod allan wasgfa;— ac i ddarlunio cyfnewidiad o wasgfa i lwyddiant, sylfaenir eu cymhariaethau ar ddisgyniad cawodydd, a thoriad allan ffynhonau yn y diffaethwch.

Dywed y proffwyd fel hyn:

Yr anialwch a'r anghyfanedde a lawenychant,  
 A'r diffaethwch hefyd a orfoledda ac a flodeua fel rhosyn.



Canys dyfroedd a dyr allan yn yr anialwch  
 Ac afonydd [ffrydlifoedd] yn y diffaethwch :  
 Y crasdir hefyd [a'r tywod poeth] a fydd yn llyn,  
 A'r tir sychedig yn ffynhonau dyfroedd [tarddiol] :  
 Ac yn nghrigfa dreigiau a'u gorweddfa y bydd cyfle corsenau  
 a brwyn. [Y tyfa porfa gyda'r corsenau a'r brwyn].

Es. xxxv. 1. 6, 7.

Y mae yn y proffwyd hwn llawer o gyfeiriadau cyffelyb, y mae cyflwr ffafriol, neu anffafriol, y genedl wedi cael ei osod allan drwy yr un gyffelybiaeth yn fynych, yr hyn y mae llawer o esponwyr wedi ceisio ei egluro gyda sawy o fanylrwydd nag a oddefa meddyl-ddrych barddonawl. Y maent wedi cymeryd, weithiau, yr hyn oedd y proffwyd yn feddwl yn ffugrol, mewn ystyr lythyrenol; a phrydiau ereill esponient bob peth mewn ystyr gyflinol (*mystical*), ac wedi ceisio dyweyd pa beth a feddylir wrth y *dwfr*, pwy yw y rhai hynny sydd yn *sychedig* &c.; gan gymysgu llawer o adfyfyriadau duwiol, ond eithaf dweithr i'r testyn, ac yn gyfryw ag na feddylodd y proffwyd erioed am danynt. Oblegyd y mae yn ddiarnheuol mai nid ei fwriad ef oedd ysgrifenu damhegion, ond egluro ac addurno y ffugr prydfeth a osodai allan.

Y mae yn rhaid fod y ffugrau aml a dynai yr ysgrifenywyr santaidd oddiwrth fynyddoedd Palestina, yn adnabyddus i bob darllenydd y Bibl. Libanus a Carmel, un yn nodedig yn gystal am ei uchder ac am ei oed, maint, ac amllder, y cedrwydd a addurnai ei ben, gan osod allan ymddangosiad cadarn a tharawiadol, o nerth a mawredd; y llall, yn gyfoethog ac yn ffrwythlawn, yn llawn gwinwydd, olewydd, a ffrwythau danteithiol, yn y sefyllfa mwyaf blodeuog, wrth natur a thrwy ddiwylliad, ac yn meddu ymddangosiad hyfryd o ffrwythlonrwydd, harddwch, a thlysnï;—y ddau fynydd hyn ydynt y rhai mwyaf nodedig yn y farddoniaeth santaidd, ac ydynt yn rhoddi y cymhariaethau goreu a'r ffugrau mwyaf tlws. Gwel Can. v. 15. vii. 5.; Esaiah xxxii. 9. xxxv. 2. xxxvii. 24; Jer. xxii. 6. 23; Zech. xi. 1; Esaiah x. 34. xi. 13; Jer. iv. 26; Mic. vii. 14.

Yn eu cyffelybiaethau o'r arswydus a'r dychrynlyd, y rhai a gyfarfyddir yn aml yn y prydyddion santaidd, y mae yn amlwg eu bod hwy wedi tynu eu darluniadau oddiwrth ffyrnigrwydd yr elfenau, a chynhyrfiadau anian, y rhai yr oeddynt drwy natur eu hinsawdd, mor gynefin â hwynt. Nid oedd daeargrynfâau yn bethau dyeithr; a dilynid hwy weithiau â llithriad tir, drwy y rhai y byddai darnau o dir, a fyddent ar leoedd ochrog, yn cael eu symud. At hyn y cyfeiria y Salmydd pan y sonia am "dreigliad y mynyddoedd i ganol y môr," (Salm. xlv.) ; am danynt yn "neidio fel hyrddod a'r bryniau fel wyn defaid;" (cxiv. 4. 6.); ac y mae y profwyd Esaiah yn darlunio golygfa fel hyn gyda chryn fawredd,

Y ddaiar gan symud a ymsymudodd [yn ol ac yn mlaen] fel meddwyn; ac a ymsigla megis bwth. [Ac a symud y ffordd yma a'r ffordd acw, fel llety dros noswaith].—ESAIAH xxiv. 20.

Yr oedd corwyntoedd, a thywyllwch, mellt, a gwlaw, neu genllysg yn ystod y gauaf a'r tymor oer oedd yn Judea ac Arabia, yn mhell tu hwnt i ddim sydd yn ein gwlad ni. Y mae yr ysgrifenwyr santaidd wedi benthyca llawer o ffugrau nerthol oddiwrth y pethau dyeithr hyn. Dywed Mr. Morier, wrth ddarlunio corwyntoedd Persia, eu bod hwy yn ysgubo ar hyd y wlad mewn amrywiol ffyrdd, a hyny yn ddychrynlyd iawn. "Cludent ymaith dywod, canghenau, a sofr y maesydd, ac ymddangosent fel pe buasent, mewn gwirionedd, yn ffurfio trosglwyddiad rhwng y ddaiar â'r cymylau. Y mae cywirdeb y gyffelybiaeth a arferir gan Esaiah, pan y cyfeiria at y peth rhyfeddol hwn, yn darawiadol hynod: 'A chorwynt a'u dwg hwynt ymaith fel sofr.' (Es. xl. 24); 'A erlidir fel peiswyn mynydd o flaen y gwynt, ac fel peth yn treiglo yn mlaen corwynt.' (Es. xvii. 13). Yn y Salm (lxxxiii. 13) darllenwn, 'Gosod hwynt, O fy Nuw, fel olwyn; fel sofr o flaen y gwynt;' yr hyn a eglurir yn rhagorawl drwy gylchdroad y corwynt, yr hwn sydd yn mynych yru y sofr dros yr anialwch, yn debyg i olwyn wedi ei rhoddi ar chwyrn

dro." Ac yn yr amgylchiadau dychrynlyd hyny y darlunir ymddangosiad yr Hollalluog, yn Salm xviii, pan "Wnaeth efe dywyllwch yn ddirgelfa iddo; a'i babell o'i amgylch oedd dywyllwch dyfroedd a thew gymylau yr awyr; pan oedd ei lef yn genllysg ac yn farwor tanllyd; a phan wrth ei gerydd y dynoethwyd gwaelodion y dyfroedd, ac y gwelwyd seiliau y bryn-iau;" er y gallai fod yma ryw gyfeiriad at ddisgyniad Duw ar fynydd Sinai, eto ymddengys fod y ffugrau wedi eu cymeryd yn uniongyrchol oddiwrth gynhyrfiadau natur, â'r rhai yr oedd yr awdwr mor gydna-byddus.

Gallwn benderfynu fod pob prydyddiaeth, ac yn enwedig, prydyddiaeth yr Hebreaid yn tynu ei holl addurniadau, neu eu cyffelybiaethau oddiwrth wrthrychau naturiol: gan hyny, dyledswydd gyntaf y beirniad yw craffu, cyn belled ag y gall, ar sefyllfa ac arferion yr awdwr, hanesiaeth anianyddol ei wlad, a golygfa y farddoneg. Os na thelir sylw neillduol i hyn ni fyddwn, prin, yn alluog i farnu, gydag un gradd o sicrwydd, am ddillynder neu briodoldeb ymadroddion: dianga y mwyaf amlwg heibio ein sylw; a bydd y prydfferthwch a'r rhagoriaethau yn hollol o'r golwg.

## II.—ARFERION, CELFYDDYDAU, AC AMGYLCHIADAU BYWYD CYFFREDIN.

WRTH sylwi ar yr ail ffynhonell o'r hon yr ydoedd y cyffelybiaethau prydyddol yn cael eu tynu, rhaid cofio fod holl ystod a threfn bywyd cyffredin yn mhlith yr Hebreaid, yn yr amseroedd boreuaf, yn ddirodres ac yn unffurf i'r eithaf. Nid oedd yn eu plith yr amrywiaeth o astudio ac olrhain y celfyddydau, amgylchiadau, a galwedigaethau ag a allasid weled yn mysg cenedloedd ereill, y rhai a ymffrostient eu bod yn meddu ar radd uwch o wareiddiad; a hawdd y gallasent fostio hyny, yn wir, os gloddest, ysmaldod, a balchder, yw y profiedydd. Yr oedd pawb yn eu plith hwy yn mwynhau

rhyddid cyfartal; yr oeddynt oll, drwy eu bod wedi hanu o'r un boncyff, yn ymffrostio mewn cyfartaledd achyddol a gradd; nid oedd yn eu plith ddim teitlau gwag, nac arwyddion o au-ogoniant; dim gwahaniaeth nac uwchafiaeth, ond yr hyn a ddeilliai oddiwrth rinwedd neu ymarweddiad yn rhagori; oddiwrth urdddiant a phrofiad oedran; neu oddiwrth wasanaeth a wnelid i'r wlad. Yr oeddynt drwy fod wedi eu didoli oddiwrth ereill o'r hil ddynol, ar gyfrif eu crefydd a'u cyfreithiau, ac heb fod yn ymlynol wrth drafnidiaeth, yn foddllawn gyda'r celfyddydau hyny oedd yn rheidiol i gynai bywyd syml ac anniwylliedig, neu, yn hytrach anllygredig. Eu prif orchwylion oedd trin y ddaiar a gofalu am y praidd; yr oeddynt yn genedl o amaethwyr a bugeiliaid. Yr oedd y tiroedd wedi eu dosbarthu i'r amrywiol deuluoedd; ac nid ellid yn ol cyfraith y wlad werthu yr etifeddiaethau, ac o ganlyniad byddent yn dyfod i'w hil heb leihad. Ffrwyth y ddaiar, cynyrch ei dir a'i lafur, oedd yn gwneud i fynu gyfoeth pob un. Nid oedd hyd yn oed y mwyaf yn eu plith yn ei hystyried yn anmharch, nac yn iselhad ymaflyd yn y swydd iselaf o lafur gwladol. Yr ydym yn darllen, yn yr hanesiaeth ysgrythyrol, am ddynion enwog yn cael eu galw i'r swyddau mwyaf uchel a santaidd—arwyr, brenhinoedd, a phroffwydi, oddiwrth yr aradr, a'r gorlan. Samgar mab Anath, yn tarawo chwe chanwr o'r Philistiaid âg irai ychain, ac yn gwaredu Israel (Barn. iii. 31); Gedeon yn cael ei alw pan oedd efe yn dyrnu gwenith (pen. vi. 11); Saul yn cael ei alw yn frenin wrth chwilio am asenod ei dad (1 Sam. ix. 3); Dafydd yn cael ei alw o'r gorlan i'r orsedd (2 Sam. vii. 8; Salm lxxviii. 72, 73); Eliseus yn cael ei alw i broffwydo, pan oedd yn aredig yn y maes (1 Bren. xix. 19, 20); Amos yn cael ei alw o blith bugeiliaid Tecoa, (Amos i. 1.; vii. 14. 15). Gan mai dyma oedd amgylchiadau pethau, nid allwn ryfeddu wrth weled yr ysgrifenyddwr Hebraidd, yn tynu eu ffugrau oddiwrth y celfyddydau hyny yr oeddynt wedi eu dwyn i fynu o'u mebyd ynddynt.

Yn Habacuc iii. 12; darlunir y Jehofa yn cerdded y ddaiar mewn llid ac yn dyrnu y cenedloedd mewn digter. Yn Micah iv. 13. dywedir y gwneir corn merch Sion yn haiarn, a'i charnau yn bres; ac y byddai iddi ddryllio pobloedd lawer. Ac yn y Salm lxxxiii. 14, 15, sonir am i'r gelynion gael eu herlid â'r dymestl, a'u dychrynu â'r corwynt.

Gyda'r fath fawredd a nerth y mae y digofaint dwyfol yn cael ei osod allan drwy gyffelybiaeth o winwryf; dyma gyffelybiaeth a gyfarfyddir yn aml yn y beirdd santaidd, ond ni chafodd ei harfer gan neb ereill. Ond yn mha le y cyfarfyddwn ag ymadroddion o ardderchawgrwydd cyffelyb i'r gwreiddiol yn un o'r ieithoedd diweddar? Trwy ba gywreinrwydd yn nghyraedd y pwyntel (*pencil*) y gallwn ddangos cymaint a chysgod o'r darluniad a rydd Esaiah o'r Messiah yn y dial ar ei elynion?

Pwy yw hwn yn dyfod o Edom?

Yn goch ei ddillad o Bozrah?

[Gyda gwisg wedi ei lliwio yn ddwfn o Bozrah?]

Hwn sydd hardd yn ei wisg?

Yn ymdaith [yn mlaen] yn amllder ei rym?

Myfi, yr hwn a lefaraf mewn [neu wyf yn cyhoeddi] cyfiawnder, ac wyf gadarn i iachau.

Paham yr wyt yn goch dy ddillad, a'th wisgoedd fel yr hwn a sathrai mewn gwinwryf?

Sethrais y gwinwryf fy hunan;

Ac o'r bobl nid oedd un [nid oedd dyn] gyda mi;

Canys mi a'u sathraf [sethrais] hwynt yn fy nig;

Ac a'u mathraf [methrais] hwynt yn fy llidiawgrwydd;

A'u gwaed hwynt a daenellir [daenellwyd] ar fy nillad;

A'm holl wisgoedd a lychwinaf [lychwinais].—ESAIAH lxiii. 1—3.

Ond y mae'r engraffau o ddefnyddio cyffelybiaethau oddiwrth arferion a dulliau yr Hebreaid yn afrifadwy.

### III.—Y CYFFELYBIAETHAU A GYMERID ODDIWRTH BETHAU SANTAIDD.

Yr oedd crefydd yr Hebreaid yn cynwys cylch helaeth iawn o drefniadau dwyfol a dynol. Nid yn unig yr oedd yn cynwys y cwbl a berthynai i wasanaeth ac

addoliad Duw; ond yr oedd hefyd yn cyraedd at reol-eiddiad pethau gwladwriaethol, cadarnhad y cyfreithiau, ffurfiau a gweinyddiadau cyfiawnder, a phob peth, agos, perthynol i fywyd gwladol a theuluol. Gyda hwynt yr oedd pob amgylchiad mewn bywyd yn gysylltedig â chrefydd, naill ai yn uniongyrchol, neu yn anuniongyrchol. Oblegyd hyn, yn un peth, y mae cynifer o gyffelybiaethau yn y farddoniaeth Hebraidd wedi eu tynu oddiwrth bethau santaidd; ac y mae perygl i ninau golli golwg ar hyn, rhag ini edrych ar beth sydd yn ei natur yn ddwyfol, yn gyffredin ac yn isel.

Gallwn gael golwg ar y mater yma drwy ychydig o engraffau. Pan byddai arnynt eisiau dangos llygredigaeth cyffredinol meibion dynion, cymharent ef i beth aflan, a'u holl gyfiawnderau i fratiau budron, a'u bod oll wedi syrthio fel deilen, a'u hanwireddau fel gwynt wedi eu dwyn ymaith (Esaiah xiv. 6). Pan edliwid i'r genedl eu harferion halogedig, cymharent hi i un yn dangos ei noethni, a'i haflendid yn ei godre, &c. (Galar. i. 8, 9. 17). Buasai y cyffelybiaethau hyn, heb eu hystyried yn cyfeirio at aflendid seremoniaidd y genedl yn ymddangos yn annillyn, ac i raddau yn wrthwynebus; ond os olrheiniwn hwynt i'w ffynhonell eu hunain, sef, at ddefodau yr Hebraid, ymddangosant yn oddefol. Pethau tebyg yw yr amlygiadau o boen a gofid a rydd y proffwyd brenhinol; yn enwedig, pan y cwyna nad oes iechyd yn ei gnawd, fod ei gleisiau wedi pydru, ei fod ef wedi ei ddarostwng yn ddirfawr gan ei bechodau, a'i lwynau wedi eu llenwi â ffeiddglwyf.\* (Salm xxxviii.) Wrth ddarllen y rhanau hyn, y mae rhai esponwyr, ag oeddynt yn ddyeithr i awen y brydydd-

\* Y mae dynion o chwaeth isel ac anniwylledig, yn hoff iawn o drin cyffelybiaethau fel yr un uchod; ond gwnant hyny yn lled-chwith (*clumsy*) ryfeddol: a gyda gwresawgrwydd, a hwyl anarferol, y pregethant oddiar adnodau fel hyn, "Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun, a'r hwch wedi ei golchi i'w hymdreiglfa yn y dom." — "Mi a'th chwydaf di allan o'm genau," &c., &c.—ni raid hysbysu y darlennydd, y teimladau a feddiana y gynulleidfa wrth wrando ar ddyngarw yn pregethu oddi wrth destynau o'r natur yma.

iaeth Hebraidd, ac yn anwybodus am natur y cyffelybiaethau a arferid gan y beirdd ysbrydoledig, wedi bod mor ffol a cheisio chwilio i natur yr afiechyd hwn y cwyna y proffwyd gymaint rhagddo; ond buasai yn llawn cystal i'r cyfryw chwilio allan yn mha afon yr oedd efe pan lifodd y dwfr dros ei enaid. Aethai dros ein henaidd ddyfroedd chwyddedig" (Salm, cxxiv. 5). "Achub fi, O Dduw; canys y dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at fy enaid. Soddais mewn tom dwfn, lle nid oes sefyllfa: daethum i ddyfnder dyfroedd, a'r ffrwd a lifodd drosof" (Salm. lxix. 2, 3). Y mae llawer o gymhar-iaethau yr Hebraeid wedi eu tynu hefyd oddiwrth bethau hardd oedd yn eu plith, megys gwisgoedd cysegredig yr archoffeiriad. Y mae amryw gyfeiriadau at y rhai hyn yn yr ysgrifeniadau santaidd, pan fydd eisiau darlunio tlyzni a hawddgarwch anghyffredin. Pan y dengys Esaiah orfoleddiad a gogoniant yr eglwys, darlunia hi fel un wedi ei gwisgo "â gwisgoedd iechydwriaeth, ac â mantell cyfiawnder; fel y priodfab wedi ymwisgo â harddwisg," yr hon a gyfeiria, yn ddiau, at wisg yr offeiriad, "ac fel yr ymdrwsia y briodferch â'i thlysau" (Esaiah lxi. 10). Nid oedd gan yr ysgrifenydd Hebraidd un gyffelybiaeth gyfartal i hon i osod allan fawrhydi annherfynol Duw. Yn Salm xciii. 1, darlunir y *Jehovah* wedi ei wisgo âg ardderchawgrwydd ac â nerth. "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, efe a wisgodd ardderchawgrwydd; gwisgodd yr Arglwydd nerth, ac ymwregysodd." Cyfeiria hyn, mae yn amlwg, at wisg ac addurniadau yr offeiriad. Dylid sylwi fod agos yn annichonadwy, drwy gyfeithiad, ddangos tlyzni a rhag-oroledb eu cyffelybiaethau. Pe buasem yn fwy hysbys o'u harferion buasai y ffugrau a ddefnyddir yn ymddangos yn llawer cryfach.

#### IV.—Y CYFFELYBIAETHAU A DDEFNYDDIASANT ODDI WRTH YR HANESIAETH SANTAIDD.

GALLWN ni weled prydferthwch y cyffelybiaethau hyn i raddau; ond nid yn agos gymaint ag y gallent hwy;

oblegyd yr oedd y lleoedd y cyfeirir atynt mewn llawer o honynt, wedi eu gweled ganddynt hwy. Cyfeirir yn fynych iawn, gan y prydyddion santaidd at y cymysgedd (*chaos*) mawr, y sonir am dano yn nhu dalenau cyntaf yr hanesiaeth santaidd. Pan fydd eisiau gosod allan unrhyw gyfnewidiad nodedig; megys, dymchweliad teyrnasoedd; distrywiad yr ymerodraeth Iuddewig, gan y Caldeaid; neu, fygythiad cryf o ddinystyr yn erbyn gelynyon Israel, fe'i darlunir yn yr un lliwiau a phe byddai natur ar ymollwng i'w chymysgedd cyntefig. Darlunia Jeremiah, trwy weledigaeth uwchlaw barddonawl, yr anghyfanedd-dra oedd ar oddiweddyd Judea:

Mi a edrychais ar y ddaiar ac wele aflunaid a gwag oedd;  
 Ac ar y nefoedd, a goleuni nid oedd gandynt.—  
 Mi a edrychais ar y mynyddoedd, ac wele yr oeddynt yn crynu;  
 A'r holl fryniau a ymysgydwent.  
 Mi a edrychais, ac wele nid oedd dyn;  
 A holl adar y nefoedd a giliasant.  
 Mi a edrychais, ac wele y doldir [oedd wedi dyfod] yn anialwch;  
 A'i holl ddinasoedd a ddistrywiasid,  
 O flaen yr Arglwydd, [o flaen presenoldeb JEHOFAH]  
 Gan lidiawgrwydd ei ddipter ef.—JER. iv. 23—26.

Ac ar destyn cyffelyb dywed Esaiah,

Ac efe a estyn arni linyr anhrefn,  
 A meini gwagedd.—ESAIAH xxxiv. 11.

Yr oedd nid yn unig y cymysgedd cyntefig yn meddwl y proffwydi, ond arferent hefyd eiriau yr hanesydd dwyfol. Y mae yr un testynau yn cael helaethu arnynt a'u haddurno drwy bethau ychwanegol yn y darnau canlynol:

Yr haul a'r lloer a dywyllant,  
 A'r ser a ataliant [a dynant yn ol] eu llewyrch.  
 A'r Arglwydd a rua [a darana] o Sion,  
 Ac a rydd ei lef o Jerusalem;  
 A'r nefoedd hefyd a'r ddaiar a grynant.—JOEL iii. 15, 16,

Holl lu y nefoedd hefyd a ddatodir, [a dreuliant ymaith]:  
 A'r nefoedd a blygir fel llyfr; [memrwn neu rol-lyfr];  
 A'i holl lu a syrth [a wywa];  
 Fel y syrthiai deilen o'r winwydden,  
 Ac fel ffigysen [ddeifiedig] yn syrthio oddiar y pren.

ESAIAH xxxiv. 4.



## Pan y sonia am adferiad Israel dywed :

Eithr myfi yw yr Arglwydd [JEHOFAH] dy Dduw;  
 Yr hwn a barthodd y môr [a lonyddodd y môr ar unwaith]  
 Pan ruodd ei donau [er rhuo];  
 Ei enw yw Arglwydd y lluoedd [JEHOFAH, Duw y lluoedd yw  
 ei enw].  
 Gosodais hefyd fy ngeiriau yn dy enau;  
 Ac yn nghysgod fy llaw y'th doais:  
 [ac â chysgod fy llaw y'th doais]  
 Fel y planwn y nefoedd [y lledwn y nefoedd], ac y seiliwn y  
 ddaiar;  
 Ac y dywedwn wrth Sion fy mhobl ydwyt.—ESAIAS li. 15, 16.

Megys ag y gosodir allan anghyfanedd-dra y tir  
 santaid drwy ddychweliad y cymysgedd cyntefig, felly,  
 darlunir yr unrhyw amgylchiad â ffugrau a geir oddi-  
 wrth y dylif:

Wele yr Arglwydd [JEHOFAH] yn gwneuthur y ddaiar yn wag,  
 ac yn ei difwyno hi;  
 Canys efe a ddadymchwel ei hwyneb hi, ac a wasgar ei thrigolion.  
 O herwydd [y] ffenestri o'r uchelder a agorwyd;  
 A seiliau y ddaear sydd yn crynu.  
 Gan ddryllio yr ymddrylliodd y ddaiar  
 [Y ddaiar a ysgydwir yn drwm];  
 Gan rwygo yr ymrwygodd y ddaiar,  
 [Y ddaiar a hollol rwygwyd yn ddarnau];  
 Gan symud yr ymsymudodd y ddaiar,  
 [Y mae y ddaiar wedi ei symud yn orthrechol o'i lle];  
 Y ddaiar gan symud yr ymsymudodd fel meddwyn;  
 [Y ddaiar a symudodd yn ol ac yn mlaen fel meddwyn]:  
 Ac a ymsigla fel bwth; [ac a symud y ffordd hyn a'r ffordd acw  
 fel llety dros noswaith].—ESAIAS xxiv. 1. 18—20.

Y mae y rhai hyn yn feddylddrychau mawr, yn ddi-  
 ameu; nid all creadur dynol, yn hawdd, arferu rhai  
 mwy. Y mae gwaredigaeth Israel o'r Aifft, yn rhoddi  
 defnydd darluniadol ardderchog, o amgylchiadau cyff-  
 elyb. Os bydd Duw yn addaw rhyddid, cynorthwy,  
 diogelwch, a ffafr i'w bobl, daw yr *exodus* yn union i  
 feddwl y bardd; yr oedd rhaniad y môr, dinystr y gelyn,  
 yr anialwch yr hwn a deithiwyd yn ddiogel, a'r ffrydiau  
 yn pistyllio o'r graig, yn bethau mor ardderchog nes  
 yr oeddynt yn ei orlenwi.

Fel hyn y dywed yr Arglwydd: [JEHOFAH];  
 Yr hwn a wna [wnaeth] ffordd yn y môr,  
 A llwybr yn y dyfroedd cryfion;  
 Yr hwn a ddwg allan y cerbyd a'r march,  
 [Y marchogwr], y llu a'r cryfder; [a'r arwr];  
 Cydorweddant, ni chodant; [mwy];  
 Darfuant, diffoddasant fel llin;  
 Na chofiwch y pethau o'r blaen,  
 Ac nac ystyriwch y pethau gynt:  
 Wele, fi yn gwneuthur peth newydd;  
 Yr awrhon y dechreu, oni chewch ei wybod?  
 Gwnaf ffordd yn yr anialwch;  
 Ac afonydd yn y diffaethwch.—ESAIAS xliii. 16—19.

Pan y mae yr Hollalluog yn cael ei ddarlunio yn dyfod i dywallt ei farn, i wared y duwiol, ac i ddis-trywio ei elynion, neu, i ddangos ei allu dwyfol mewn rhyw fodd ar y ddaiar, addurnir y darluniad oddiwrth yr olygfa ddychrynlyd ar fynydd Sinai; nid oes nemawr gyffelybiaeth a ddefnyddir yn amlach na hon, na nemawr yn fwy goruchel (*sublime*).

Canys wele yr Arglwydd yn dyfod o'i le;  
 Efe hefyd a ddisgyn, ac a sathr ar uchelderau y ddaiar,  
 A'r mynyddoedd a doddant dano ef.  
 A'r glynoedd [dyffrynoedd] a ymholltant, [ar wahan]  
 Fel cwyr o flaen y tân,  
 Ac fel dyfroedd a dywelltir ar y gorwaered.—MICHAH i. 3, 4.  
 Yna y siglodd ac y crynodd [dychrynodd] y ddaiar,  
 A seiliau y mynyddoedd a gynhyrfodd ac a siglodd  
 [a siglodd gan ofn],  
 Am iddo ef ddigio [am fod digofaint JEHOFAH yn angerddol yn eu herbyn].  
 Dyrchafodd mwg o'i ffroenau [o flaen ei wyneb dyrchafodd mwg];  
 A thân a ysodd o'i enau [a fflam a ysodd o flaen ei bresenoldeb];  
 Glo a enynasant ganddo [tanau llosgedig a gyneuwyd ganddo];  
 Efe hefyd a ostyngodd y nefoedd ac a ddisgynodd,  
 A thywyllwch oedd dan ei draed [a chymylau tywyll]:  
 Marchogodd hefyd ar y cerub [ar esgyll y cerub],  
 Ie, efe a ehedodd ar adenydd y gwynt.  
 Efe a wnaeth dywyllwch yn ddirgelfa iddo  
 [cuddiodd ei hun mewn gorchudd o dywyllwch];  
 A'i babell o'i amgylch oedd dywyllwch dyfroedd, a thew gymylau  
 yr awyr.  
 [Yr oedd pabell o'i amgylch o ddwfr du, a thew gymylau o awyr].  
 SALM. xviii. 7—11.

Dengys yr engraffau hyn, er eu bod yn ymddifad o sain gynghaneddol, rym, ardderchawgrwydd, a goruchledd y cyffelybiaethau hynny a ddefnyddid gan y beirdd santiaid; yr hyn nad allodd neb o'r beirdd cenedlig eu cyrhaeddyd erioed.

Pan y mae Deborah yn canu mawl i Dduw Israel, tra y cerddai o faes Edom, gosoda y ddaiar i grynu, "a'r nefoedd a ddiferasant, y mynyddoedd a doddasant o flaen yr Arglwydd—o'r nefoedd yr ymladdasant; y ser yn eu graddau a ymladdodd yn erbyn Sisera. Afon Cison a'u hysgubodd hwynt; yr hên afon, yr afon Cison; fy enaid ti a sethraist gadernid." (Barn. v.) Pan y mae Eliphaz, yn llyfr Job, yn mynegi ei deimlad o sant-eiddrwydd Duw, rhydd y darluniad canlynol: "Ofn a ddaeth arnaf, a dychryn, ac a wnaeth i'm holl esgyrn grynu. Yna ysbryd a aeth heibio o flaen fy wyneb; ac a wnaeth i flew fy nghnawd sefyll. Efe a safodd ac nid adwaenwn ei agwedd ef; drychiolaeth oedd o flaen fy llygaid, bu dystawrwydd, a mi a glywais lef yn dywedyd, A fydd dyn marwol yn gyfiawnach na Duw?" &c. (Job iv.) Yn holl brydyddiaeth y byd nid oes dim yn rhagori ar weledigaeth Eliphaz; y mae dystawrwydd y nos, yr ymwelydd dirgel, y ddeiw ac heb ddelw, y llais dystaw main, a'r genadwri ddychrynlyd, yn ffurfio y fath gydgyfarddiad o amgylchiadau ag sydd yn ei wneud yn wir oruchel (*sublime*). Pan y darlunia efe ddiogelwch y duwiol, y mae yn ei guddio ef rhag ffrewyll y tafod; gwna iddo chwerthin am ben dinystr a newyn; y mae efe yn dwyn cerig y maes i gyngrair ag ef; ac yn gwneud i'r bwystfilod fyned i gyfamod ag ef (Job v. 21—23). Pan y sonia Job am y bedd, mor drwm yw yr olygfa a daena efe drosto; ardal ydyw lle gorfydd i ni fyned yn fuan, ac o honi ni ddychwelir; tir tywyllwch ydyw, tywyllwch ei hun ydyw; tir cysgod angau; y cwbl yn ddyrlyd, ac heb drefn; lle y mae y goleuni fel tywyllwch. Dyma fy nhŷ; yno y cyweiriais fy ngwely. "Gelwais ar y pwll, tydi yw fy nhad: ar y pryf, fy mam a'm chwaer wyt" (Job x. 21. a'r xvii.

13). Pan y mae efe yn ymostwng ger bron hollalluawgrwydd Duw, y fath gyffelybiaethau isel y mae yn ddefnyddio am dano ei hun, “A ddrylli di ddeilen ysgwydedig? A ymlidi di soffyn sych?” Yr wyf yn darfod “fel dilledyn a ysa gwyfyn” (Job xiii. 25). A all neb ddyfeisio meddylddrychau mwy dirmygus i osod allan y fintai gas, na'r rhai a ddefnyddiwyd gan Job, “ond yn awr y rhai sydd ieuengach na mi sydd yn fy ngwatwar, y rhai y diystyraswn eu tadau i'w gosod gyda chwn fy nefaid.—Gan angen a newyn, unig oeddynt: yn ffoi i'r anialwch gynt, yn ddiffaeth ac yn wyllt: y rhai a dorent yr hocys mewn brysglwyni, a gwraidd meryw yn fwyd iddynt. Hwyl a yrid ymaith o fysg dynion (gwaeddent ar eu hol hwyl, fel ar ol lleidr), i drigo mewn holltau afonydd, mewn tyllau y ddaiar, ac yn y creigiau. Hwyl a ruent yn mhlith y perthi: hwyl a ymgasglent dan ddanadl. Meibion yr ynfyd, a meibion rhai anenwog oeddynt; gwaelach na'r ddaiar oeddynt. Ac yn awr eu cân hwyl ydwyf fi.” (Job xxx.) Mor alarus a digalon yw iaith ei ofidiau ei hun! Y mae dychryniadau yn troi arno, ac yn erlid ei enaid fel gwynt, a'i iachawdwriaeth yn myned heibio fel cwmwl; y mae ei esgyrn yn cael eu tyllu oddifewn, a'i enaid a dywelltir allan; y mae efe yn cerdded yn alarus heb yr haul; yn frawd i'r dreigiau, ac yn gyfaill i gywion yr estrys; tra y mae ei delyn a'i organ wedi eu troi yn llais y rhai sy'n wylo.—Pan y sonia y beirdd santiaid am le preswylfod Duw, dywedant, “Yr hwn a breswylia dragwyddoldeb, a eistedd ar orseddfa ei santeiddrwydd.” (Esaiah lvii. Salm. xlvii.)—Pan grybwyllir am ei santeiddrwydd, “Y nefoedd nid ydynt lân yn ei olwg ef” (Job xv. 15).—Pan sonir am ei nerth, y mae efe “Yn alluog o nerth; yr hwn sydd yn symud mynyddoedd ac heb wybod iddynt; yr hwn sydd yn eu dymchwelyd yn ei ddigofaint. Yr hwn sydd yn cynhyrfu y ddaiar allan o'i lle, fel y cryno ei cholofnau hi. Yr hwn a ddywed wrth yr haul ac ni chyfyd, ac efe a selia ar y ser. Yr hwn yn unig sydd yn taenu y nefoedd, ac yn sathru ar

donau y môr.” (Job ix.) Ac wedi'r cwbl nid ydyw hyn ond “Rhanau o'i ffyrdd ef. Pwy a ddyall daranau ei gadernid ef?” Y mae ei benarglwyddiaeth, ei wybodaeth, a'i ddoethineb yn cael eu dadguddio i ni mewn iaith yn mhell uwchlaw holl hanesiaeth prydyddol duwiau cenhedloedd y byd.—Y mae efe yn gorchymyn i'r nefoedd ddefnyddu oddi uchod, ac i'r wybrenau dywallt cyfiawnder. (Esaiah xlv.) Y mae efe yn galw y ser wrth eu henwau. Y mae efe yn eistedd ar amgylchoedd y ddaiar a'i thrigolion sy fel locustiaid; y cenhedloedd a gyfrifwyd fel defnyn o gelwrn, ac fel mân lwch y clorianau ger ei fron ef. (Esaiah xl.) I ba un o holl dduwiau y cenhedloedd y cyffelybwn Dduw y nefoedd?—Ac i ba un o'r holl brydyddion paganaidd y cyffelybwn yr areithydd gogoneddus, a'r darluniwr santaidd hwn, o'r Duwdod? Nid ydyw holl areithwyr y byd ond megys dyddim ger ei fron; ac nid yw eu geiriau ond oferedd a gwagedd.—Trown ein golygon, yn awr, i'r ysgrifeniadau santaidd lle y sonir fod Duw yn creu y byd; a gwelwn mor wael ac isel y mae'r cenhedloedd yn son am y peth mawr hwn, pan ddygir hwy i ymyl Moses, “A Duw a ddywedodd, bydded goleuni, a goleuni a fu.” Dywedodd bydded cymylau, a moroedd, haul a ser, planhigion ac anifeiliaid, ac wele daethant i fod. Dyma weithio fel Duw, gyda hawsder anfeidrol, a hollalluog.—Pe buasai Homer neu Pindar yn myned i barotoi cerbyd i un o'r duwiau ddisgyn, efallai, y buasent yn defnyddio y daran a'r fellten, a chymylau a thân, i fyned i'r rhyfel; ond ni feddyliasent hwy byth am roi cerubiaid yn lle eu meirch tanllyd; nac am ei osod yn ngherbydau yr iechydwriaeth! Y mae Dafydd yn gweled y Jehofah, yn marchogaeth ar nef y nefoedd a'i enw yn Jah, ehedodd ar adenydd y gwynt. (Salm xviii.) Y mae Habacuc yn anfon yr haint allan o'i flaen ef a marwor tanllyd allan wrth ei draed ef. Y mae Homer yn gwneud cryn gynhwrf gyda ei *νεφεληγερετα Ζευς*, a Hesiod gyda ei *Ζευς ὑψιβρεμετης*: lau, yr hwn sydd yn cyfodi y cymylau i

fyny, ac sydd yn gwneud trwst, ac yn taranu yn yr uchelder. Ond bardd dwyfol a “wna y cymylau yn llwch ei draed;” a phan rydd y Goruchaf ei lef, fod cenllysg a marwor tanllyd yn dilyn! (Salm xviii.) Y mae y bardd dwyfol yn dwyn gwaelodion y dyfroedd i'r golwg, ac yn dangos seiliau natur yn agored, pan ddaeth Duw o “Teman, a'r santaidd o fynydd Paran, Ei ogoniant a dôdd y nefoedd: safodd a mesurodd y ddaiar; edrychodd, a gwasgarodd y cenhedloedd; y mynyddoedd tragwyddol hefyd a ddrylliwyd, a'r bryniau oesol a grynasant: llwybrau tragwyddol sydd iddo:” ac yna gwelai y proffwyd wersyllau Cuwsan dan gystudd, a lleni tir Midian yn crynu. (Hab. iii.) Ni waharddodd yr Ysbryd Glân, yr hwn a gynhyrfodd y dynion santaidd, iddynt yr arferiad o weledigaethau a breuddwydion, agoriad golygfäoedd dychrynlyd a hyfrydol. Y mae y drwydded ddwyfol yn hyn yn rhagorol ac yn rhyfeddol, ac y mae y cyffelybiaethau yn aml yn rhy gryfion, a pheryglus i ysgrifenwyr anysbyrdoledig eu kefelychu.

Y mae rhai llyfrau o'r Hen Destament, yn ddiddadl, yn brydyddol; megys y Salmau, Diarhebion, Galarnad, Caniadau, Pregethwr, a llyfr Job, gyda'r eithrad o'r bennod gyntaf a'r ail ynddo. Y mae ychydig o wahan-iaeth barn wedi bod yn mysg dysgedigion, gyda golwg ar y proffwydi, sef, pa un ai areithwyr ai prydyddion y dylid eu golygu. Nis gellir, y mae yn ddiameu, golygu holl gorff y proffwydoliaethau yn farddonawl, oblegyd nid ydyw rhai rhanau o honynt ond adroddiadol. Ac y mae mor ddiamheuol a hyny fod rhai o'r proffwydi yn llefaru wrthym gyda gwir enaid prydyddiaeth; a byddai, fel y crybwyllwyd, llefariad proffwydol yn cael ei gynorthwyo âg offerynau cerddorol. Y mae y rhan fwyaf o'r beirniaid goreu yn cyfrif i'r proffwydi ddull-wedd (*style*) nad ellir ei chymodi yn hawdd â'r meddyl-ddrych o iaith rydd, a gallwn, a chymeryd golwg gyffredinol, ystyried yr ysgrifenwyr prydyddol yn feirdd. Y mae holl lyfrau yr Hen Destament sydd wedi eu

cyfleu at hanesiaeth, adroddiad, a mynegiad am ddeddfau a seremoniau mewn iaith rydd, gyda'r eithrad, fod hyd yn oed yn y llyfrau hyny, pa bryd bynag y dygir i fewn broffwydoliaethau, bendithion, neu ganiadau o fawl, y ddullwedd yn dyfod yn union yn un farddonol. Y mae Campbell yn dosbarthu y proffwydi fel y canlyn, o ran trefn amser, Jonah, Amos, Hosea, Michah, ac Esaiah, yn llenwi yr amser o deyrnasiad Uziah ar Juda, a Jeroboam yr ail ar Israel, hyd deyrnasiad Hezekiah ar Juda. Wedi hyny Nahum, Joel, a Habacuc; ymddengys i'r cyntaf broffwydo yn fuan ar ol caethiwed y deg llwyth, y mae yn debygol yn mlynnyddau diweddaf Hezekiah. Gellir golygu fod Joel yn nheyrnasiad Manaseh, pan oedd y cymylau o beryglon yn tewhau uwch ben Jerusalem; ac megys y mae Habacuc yn son am y Caldeaid, gallai ei fod ef yn proffwydo ar ol goddiweddian Nineveh, pan oedd ystwm ddinystriol Judah yn dynesu.

Yr oedd Obadiah, Zephaniah, a Jeremiah, agos yn gyd-dystion o ddinystri Jerusalem—cyfansoddodd y diweddaf ei alarnadau yn nghanol ei hadfeilion. Traddododd Ezeiel ei oraclau mewn neillduedd ar draeth y Chaboras; a dygwyd Daniel i fyny yn llys y Caldeaid. Y mae Haggai, Zechariah, a Malachi, yn dal perthynas ag amser diweddaf y llenoriaeth Hebraidd, wedi dychweliad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon.

Adroddiad mewn iaith rydd hollol yw llyfr Jonah, oddigerth rhyw ychydig o adnodau o weddi yn yr ail bennod.

Y mae Amos syml yn cyfhwrrd â'r galon, drwy ei gydymdeimlad â'r tlawd a'r gorthrymedig, a'i wrthwynebiad i olud wedi ei enill drwy greulondeb a thrais; tra ar yr un pryd y mae yn boddhau y dychymyg, drwy wylltineb gwledig ei gyffelybiaeth, ac yn argraffu ar y cof drwy fanylder amgylchiadol yn ei darawiadau effeithiol. Bugail oedd efe yn Judah, yr hwn, a anturiodd yn hyf i Israel, er ei fod heb dderbyn un addysg mewn athrofa broffwydol, ac a geryddodd lygredigaethau y

wladwriaeth o dan deyrnasiad balch Jeroboam yr ail. Nid oedd ei wirioneddau yn gymeradwy gan yr arch-offeiriad yn Bethel, gan hyny costiodd iddo fyned yn ei ol i'w wlad. Y mae y gwladgarol Hosea yn nodedig am gyfyngu ei ragddywediadau at yr Hebreaid, heb ymyraeth dim â llywod-ddysg cenhedloedd ereill. Y mae ei ddull ef yn gryno, ond yn fyrbwyll; ac y mae efe yn dywyll yn nhrefniad y bendithion, a'r blinderau a ddarlunia. Y mae yn beth arferol i broffwydoliaeth Hebreaid agor gyda bygythion, myned yn mlaen i addewidion, a diweddu gyda blaen-brofiadau o fuddugoliaeth i bobl Dduw. Yn y radd esgyniaeth (*climax*) hon y mae Michah yn ardderchog ac yn hardd. Y mae efe yn galw ar drigolion y ddaiar—y mae efe yn apelio at Dduw ei hun i ddyfod yn dyst yn eu herbyn. Y mae efe yn ymwisgo â bygythiad yn erbyn Israel—y mae yn ysgafnhau y tywyllwch drwy ddarluniad o ddymchweliad eu gelynion—ac y mae yn ei chwalu drwy weddi ddwys at Hollalluawgrwydd (Michah vii. 18, 19).

Edrychid ar Esaiah bob amser fel un o'r beirdd penaf yn mysg yr Hebreaid; nid am ei fod ef yn rhagori ar y lleill mewn rhyw ranau neillduol; ond yn ei lawnder, nerth, mawreddogrwydd, a'i briodoldeb; y mae efe yn cynwys mwy o ragoriaethau y cymeriad prydyddol nag un o'r lleill. Y mae Esgob Lowth wedi dethol y 34 a'r 35 fel engraffau o ddullwedd y proffwyd, ac y mae wedi egluro yn rhagorol yr amryw geinion (*beauties*) sydd yn hynodi y gân syml, reolaidd, a pherffaith a gynhwysir yn y dosbarth. Ond y 14 bennod o broffwydoliaeth Esaiah sydd yn rhoddi yr engraff oreu o'i alluoedd barddonawl, y mae hon yn un o'r awdlau goruchaf yn y Bibl, wedi ei hynodi â'r dynsodiant (*personification*) mwyaf ëon yn holl restr prydyddiaeth. Gellir dywedyd fod Joel yn rhagori arno mewn crynodedb; ac y mae Joel a Habacuc yn fwy goruchel nag ef ar droiau. Ond y mae eu cyfansoddiadau hwy yn llawer byrach na'r eiddo ef. Y mae awen Esaiah yn myned yn mhellach ar aden wastad, ac yn llosgi yn hwy â than diysgog.



Y mae llyfr Nahum yn agor gyda darluniad goruchel o allu a daioni, cyfiawnder a thosturi Duw. Y mae efe yn dangos y "corwynt a'r rhyferthwy" o'i amgylch; a'r "cymylau" wedi eu gwasgaru fel "llwch ei draed;" y môr yn ymgilio, a'r afonydd yn sychu wrth ei gerydd. Yna y mae yr ystorm yn dystewi; a phob arwydd o ddychryn yn cael ei roddi o'r neilldu, fel y mae efe yn troi at ei bobl; ac y mae ei holl fawrhydi a'i allu yn cael cydymfyddino er diogelwch y rhai a ymddiriedont ynddo. Y mae yr ychydig ddarnau gwerthfawr sydd yn mhroffwydoliaethau Joel yn dra gorphenol ac yn ardderchog dros ben. Nid oes un darluniad tebyg i'r eiddo ef o'r locustiaid, a thywalltiad yr Ysbryd Glân. Y mae llawer o ddarluniadau tebyg yn llyfr y Dadguddiad yn y manau y sonir am locustiaid, distryw y gwingafn, a'r cryman yn cael ei roddi at y dwysen lawn, a thywylliad yr haul, a'r ser, &c.

Pwy bynag a ddarlleno broffwydoliaethau Habacuc, nid all lai na chael ei daraw gan ardderchawgrwydd ei arlun-iaeth (*imagery*), a gorucheledd ei ddull, yn enwedig yn y drydedd bennod, yr hon a olygir gan Esgob Lowth fel yr engraff benaf o brydyddiaeth oruchel. Y mae ei rybuddion bygythiol fel swm cloch alaeth yn nghanol nos, eto, nid ydyw efe heb obaith ac ymddiriedaeth dduwiol.

Y mae dull Jeremiah yn dlws, ac yn dyner, i raddau uchel, yn enwedig pan fydd ganddo achos i gynhyrfu teimladau tyneraf gofid a thrueni, yr hyn ni ddygwydd yn fynych yn nechreuad ei brydyddiaeth ef. Y mae hefyd yn ddilyn iawn, ac yn oruchel, yn enwedig, tu a'r diwedd, pen. xlvi. 6, yn yr hon y mae efe yn dynesu yn agos at ddull Esaiah. Pan gymerodd Nebuchadnezzar Jerusalem parchodd nodweddiad santiaid Jeremiah; a phan oedd yn trefnu lleoedd dëoliad i ereill, caniatu i Jeremiah gael aros yn y lle y mynai. Gallasai gael anrhydedd ac elw yn Babilon; ond yr oedd lludw Jerusalem yn anwylach ganddo na holl fawredd llys gorchfygawl, gwell oedd ganddo aros yn mysg adfeilion ei wlad.

Gorthymderau newydd a'i hysbeiliodd o'r diwedd o'r cysur torcalonus hwnw; a gorfu iddo ffoi i'r Aifft, lle, y mae yn debyg, y diweddodd ei ddyddiau.

O'r pryd hwn y dechreuodd darfodedigaeth yr iaith Hebraeg, a'i chymysgedd â'r Galdaeg. Ni feddwn ar ol hyn un bardd enwog, ond Ezeciel, ac nid yw ei ardderchawgrwydd ef, ebai Campbell, o'r nodweddiad symlaf a phuraf; ond dywed y Dr. Lowth nad ydyw Esaiiah ei hun ddim yn rhagori ar Ezeciel mewn gorucheled. Mewn llawer o bethau gallai fod y proffwydi ereill yn rhagori arno; ond yn y fath hwnw o brydyddiaeth, yr oedd efe wedi ei gymhwyso gan natur i'w gyfansoddi, sef, y grymus, angerddol, y mawr a'r difrifol, nid oes un o'r ysgrifenywyr santaidd yn rhagori arno.

Dywed Esgob Lowth mai Haggai yw y tywyllaf o'r proffwydi. Gellir ystyried ei waith, yn gyffredin, wedi ei gyfansoddi mewn iaith rydd, ond y mae ynddo rai darnau llawn o orucheled a theimlad.

Y mae prydyddiaeth Zechariah i'w gael oddeutu diwedd ei broffwydoliaethau, yr hwn a gynwys lawer o ddarnau ysplenydd. Y mae ei ddull mor debyg i Jeremiah fel y byddai yr Iuddewon yn arfer a dyweyd fod ysbryd y proffwyd hwnw wedi myned iddo ef.

Nid ydyw dull Daniel mor nodedig am ffugrau barddonawl, ag yw y proffwydi ereill; ond y mae yn cynwys mwy o esmwythder a symlrwydd hanesiaeth; er fod y gweledigaethau, y mae efe yn goffâu, yn dra ffugrol, ac arwyddluniol. Y mae efe, o herwydd cael ei ddwyn i fyny mewn hinsawdd estronol, a thrwy ei fod yn ysgrifenu, mewn rhan, yn y Galdaeg, yn cilio yn mhellach oddiwrth y chwaeth Hebraidd.

Malachi oedd y diweddaf a gysurodd yr Iuddewon ar ol dyfod o'r caethiwed. Y mae yn amlwg fod ysbryd barddonawl yn darfod yn ei ddyddiau ef, fel yr oedd oes y broffwydoliaeth yn darfod.

Y mathau gwahanol o brydyddiaeth yn yr ysgrythyrau yw yr hyfforddiadol, neu'r egwyddorol, y fugeil-

iol, a'r delydol. Y mae llyfr y Diarhebion yn perthyn i'r hyfforddiadol. Y mae engraff ragorol o'r dull marwnadol yn ngalarnad Dafydd am Jonathan. Y mae can y caniaidau yn ddarluniad o gan fugeiliol; ac y mae yr Hen Destament yn llawn o farddoniaeth delydol.

Gyda golwg ar ddull y cyfansoddwyr ysbrydoledig, y mae yn amlwg fod gwahaniaeth rhyngddynt. Y mwyaf enwog yn mhob peth yw llyfrau Job, Dafydd, ac Eisaiah. Y mae yn nghyfansoddiadau Dafydd amryw fath o ddull. Yn yr esmwyth a'r tyner y mae efe yn rhagori; ac y mae rhai darnau uchel yn y Salmu. Ond mewn cadernid darluniad y mae efe yn gildio i Job, ac mewn goruchedd y mae efe islaw Eisaiah. Yr ysgrifenydd mwyaf goruchel o bawb yw Eisaiah heb eithrad.

Llawer yn ychwaneg a allesid ddynodi o engraffau o farddoniaeth santaidd, ond hyderir y gweinydda y rhai a nodwyd i ddangos natur y cyfansoddiadau a'u goruchedd. Peth rhyfedd i'r ddawn farddonawl ddarfod cymaint fel y sylwyd, gyda'r oes broffwydol. Y mae yn rhyfedd hefyd na byddai y Salmu mewn mwy o arferiad yn ein cynulleidfaoedd; canys, yn ddiameu, y mae y rhai'n yn farddoniaeth gywir; y maent wedi derbyn cymeradwyaeth yr Iachawdwr ei hun: gellir dyweyd fod llawer o'n hemynau Cristionogol yn farddonawl hefyd, ond nid oes un o'r rhai hynny wedi eu cyfansoddi dan ddwyfol ysbrydoliaeth fel llyfr y Salmu.

## Y GYNGHANEDD GYMREIG.

CYN sylwi, yn neillduol, ar y mesurau, buddiol, er mwyn y dysgawdwr ieuanc, fydd egluro rhai pethau a ymddangosant yn dywyll o berthynas i'r gair *gyngghanedd*; wrth gyngghanedd y dyellir cydatebiad y cydseiniaid mewn braich, neu linell farddonol; ond sylwer, nid ydyw y llafariaid, neu y bogeiliaid, i gydateb; dim ond y cydseiniaid yn unig: yr enw sydd ar hyd llinell farddonol yw cyhydedd; y mae saith bath o'r rhai hyn; hynny ydyw, y mae saith hyd gwahanol yn perthyn i linellau barddonol neu gyngghaneddion:

Y mae un gyhydedd, yr hon a elwir cyhydedd fer, nad oes ynddi, ond pedwar sill; megys,

Gwaeledd gelyn.

Y mae pum sill mewn cyhydedd arall, sef, y nesaf ati, yr hon a elwir cyhydedd wen; megys,

Llon y modd llawn maeth.

Y trydydd hyd yw y gyhydedd las, ac y mae yn hono chwe sill; megys,

Heb wiwdeg wybodaeth.

Y bedwaredd gyhydedd yw yr un a elwir y gyhydedd gaeth, yr hon a gynwys saith sill; megys,

Mal cerub yn mol corwynt.

Y bumed yw y gyhydedd draws, yr hon a gynwys wyth sill; megys.

Naf a erys yn ei fawredd.

Y chwechfed yw yr hon a elwir y gyhydedd drosgl, ag ynddi naw sill; megys,

Lleuer haul awyr, lloer oleuwen.

Y seithfed yw y gyhydedd hir, yr hon a gynhwysa ddeg sill; megys,

Canpwyth cywreiniawl cnapwaith coronog.

Bydd rhai yn arfer unsillarddeg a deuddeg, er mai deg sill yw yr hyd sefydledig. Ffurfir yr holl freichiau, neu y llinellau a gyfansoddant awdl ar y pedwar mesur ar hugain o fewn y terfynau uchod. Yn bresenol, ymdrechir dangos natur cyfansoddiad cynghanedd; ac i'r dyben hwnw defnyddiwn y llinell deg sill; sef,

Canpwyth cywreiniawl cnapwaith coronog.

Haner y llinell hon yw pum sill; sef,

*Canpwyth cywreiniawl.*

Yr haner arall yw,

*Cnapwaith coronog.*

Yn awr, er gweled y gynghanedd, tyner y llafariad o'r ddau ddarn; megys,

c n p t h c r n l  
c n p t h c r n g

gwelir erbyn hyn fod *c, n, p, th*, yn y gair *cnapwaith*, i ateb i'r *c, n, p, th*, yn y gair *canpwyth*; *c, r, n*, yn y gair *coronog* i ateb i *c r n* yn y gair *cywreiniawl*; dalier sylw, pe buasai *l*, yn niwedd y gair *coronog* yn lle *g* buasai hyny yn feius; neu pe buasai *g* yn niwedd y gair *cywreiniawl* buasai hyny yn feius hefyd; ni waeth pa gydsain fyddo yn diweddu yr haner cyntaf o'r fraich, na'r haner diweddaf, ond iddynt beidio bod yr un peth; gwnaethai y llinell y tro hefyd, pe buasai llafariad yn niwedd yr haner cyntaf, os na buasai llafariad yn niwedd yr haner diweddaf; fel hyn;

Canpwyth ceir yno cnapwaith coronawg.

neu fel hyn,

Canpwyth cywreiniawl cnapwaith ceir yno.

Ond ni wnaethai y tro o ran synwyr fel yna; ond dengys hyn natur cyfansoddiad y gynghanedd a elwir y gynghanedd groes; ac etyb y cydseiniaid eu gilydd yn mhob cyhydedd ar y gynghanedd groes. Er eglurhad pellach sylwer ar y pethau canlynol:

Dwy brif gynghanedd sydd; sef, cynghanedd groes a chynghanedd sain; ac o'r rhain y deillia cynghanedd-

ion ereill; megys y deillia amryw ranau ymadroddion o Enw a Berf.

Ymddibyna y gynghanedd groes yn benaf ar y cyd-seiniaid, ac y mae tair rhyw o honi, sef, croes rywiog, croes o gyswllt, a chroes ddisgynedig.

1. Croes rywiog a genir wyneb a gwrthwyneb, a hi ydyw'r orau o'r cynghaneddion, oblegyd y mae'r holl gydseiniaid sydd ynddi yn gyd-atebol; fel hyn,

Cydradd à mi cedrwydd Môn, —wyneb  
Cedrwydd Môn, cydradd à mi, —gwrthwyneb.

Neu yn gyfan fel hyn,

Cydradd à mi cedrwydd Môn,  
Du Eryri, dewr wron.  
Cedrwydd Môn cydradd à mi  
Dewr wron du Eryri.

2 Croes o gyswllt y gelwir braich ag y bo y gydsain olaf yn y brif orphwysfa (h. y. y gydsain olaf yn haner y llinell, yr hyn a ddygwydd yn y drydydd neu y bedwerydd sill) yn ateb i'r gyntaf yn y fraich; cyfan gyswllt, fel hyn,

*Chwyddai serch y dduwies hon.*                    *ch—ch.*  
*Dw'r a thud awyr a thàn.*                            *d—d.*

Croes haner cyswllt yw bod haner grym *c, p, neu t*, yn y brif orphwysfa yn ateb *i g, b, neu d*, yn nechreu y fraich fel hyn,

*Gwr ieuanc yw rhy ehud.*  
*Bun orwemp wen iraidd.*  
*Dyn a welaist yn wylo.*

Croes o gyswllt ewinog yw bod dwy gydsain feddal yn ateb un galed; neu yr ebychnod *h* yn cymhorth *g, d, b*, *i ateb c, t, p*, fel hyn,

*Eu tra hynod dirionwch,*  
*Cywir enwog gâr ini.*  
*Tàn eiliad hwn a welir.*

Croes o ddwbl gyswllt, fel hyn,

*Gwneud digon o ategau.*

Croes o gyswllt ddisgynedig, fel hyn,

*Dyn a'i nôd yn enwedig.*

3. Croes ddisgynedig yw bod yr orphwysfa, yr hon a fydd bob amser yn un sill yn cynghaneddu â'r sill nesaf i'r brifodl, fel hyn,

Isel fan i'w sail-feini     *fan a feini.*

Croes ddwbl ddisgynedig yw bod gair yr orphwysfa yn disgyn ar ychwaneg nag un gydsain yn y gair prifodl-awg, fel hyn,

A dwyn gafr dan y gyfraith.  
Y môr dwfn mae rhaid ofni.

Gyda llafariad, fel hyn,

A hwn ddoe a wnae ddewis.

Deillia cynghanedd draws, neu groes ganolgoll o'r gynghanedd groes; sef, y rhai y gadewid cydseiniaid yn eu canol heb ddim yn ateb iddynt, gan fyned drostynt i gyrchu cynghanedd.

Traws gyferbyn, fel hyn,

Tyred (fyfyrdod) tirion.

Traws anghydbwys, fel hyn,

Gwiw ednaint (ar wydd) gwydnion.  
Bro hardd (arogl) bêr yw hi.  
Trenghaf (cyn y) tyr angen.

Traws o gyswllt ewinog, fel hyn,

Tiriawdd (y gwilliaid) dewrion.

Traws gyfnewid, fel hyn,

Awen (mor bêr a'r) ëos.

Traws ddisgynedig, fel hyn,

Da y twrn (gwedi) teirnos.  
Ar ôl (eu herydr) eilwaith.

Traws fantach, fel hyn.

Teg yw'r peth a wnaethost ti.

Gelwir hon yn draws fantach o herwydd ei bod mor wag o glöau, neu blethiadau o'r dechreu i'r diwedd.

## II.--AM GYNGHANEDD SAIN.

CYNGHANEDD sain yw cydodliad y gorphwysfäau o ddechreu y braich; neu y llinell i'r diwedd.

Sain unodl, fal hyn,

Tragwyddawl anfarwawl Fod.

Yr orphwysfa gyntaf yn y llinell hon sydd yn niwedd y gair *tragwyddawl*, sef, *awl*; yr ail orphwysfa sydd yn niwedd y gair *anfarwawl*, sef *awl*; gan hyny y mae y ddau *awl* yn cydodli fel hyn *awl, awl*; h. y. mae yr un sain yn niwedd y ddau air: ac y mae yr *f* yn y gair *anfarwawl* yn gafael yn yr *f* yn y gair *fod*; fel hyn, *anfarwawl Fod*; ond pe buasai *l* yn niwedd y gair *fod*, buasai hyny yn feius.

Sain unodl o gyswllt, fel hyn,

Yn ei fär rheibia rywbeth.

*Fär* yw yr orphwysfa gyntaf yn hon, a chyrchir yr *r* o ddechreu y gair *rywbeth* at yr *a* yn niwedd y gair *reibia* er cael sain; ac yna y mae y gair *reibia* yn seinio fel hyn *reibiar*; ac o herwydd hyny fe'i gelwir yn sain unodl o gyswllt.

Sain lefn, fel hyn,

Mawredd bro Wynedd bur iach.

Diwedd y gair *mawredd*, sef, *edd* yw yr orphwysfa gyntaf yn hon; a'r *edd* yn *Wynedd* yw yr ail; heblaw y cydodliad hwn y mae y cydseiniaid yn *bro* a *bur* yn ateb eu gilydd.

Sain gadwynog, fel hyn,

Dyn y sydd yn adyn sal.

Y mae hon yn cyfranogi o ansawdd cynganedd groes a chynghanedd sain; y mae *sydd* a *sal* yn ateb i'w gilydd; ac y mae *dyn* ac *adyn* o'r un sain gydodlawg, a: nid oes ond yr *n* yn yr arddodyn *yn* yn rhwystro iddi fod yn groes gyflawn.



Sain groes fel hyn,

Ior yn wiw Bor ini bydd.

Y mae *Ior* a *Bor* yn cydodli; ac y mae yr *r* yn *Ior* yn ateb i'r *r* yn *Bor*; a'r *n* yn yr arddodyn *yn* yn ateb i'r *n* yn *ini*; a *Bor* yn ateb i *bydd*.

Sain wydro, fel hyn,

Da ddyn doeth, gyfoeth gwiwfawr.

Sain ddisgynedig, fel hyn,

Anwybodaeth gaeth gethin.

Y mae *caeth* yn cydodli ag *aeth* yn y gair *anwybodaeth*; ac y mae yn disgyn ar *geth*, yn *gethin*.

Sain bendroch, fel hyn,

Y ffrwythlon, wyrddion erddi.

Ystyr y gair sain bendroch yw sain yn diweddu yn ddrylliog neu yn agored; megys uchod.

Sain ddyblyg, fel hyn,

Tad mad, rad rydd, sydd, fydd, fwyn.

Y mae yma dri *ad* yn cydodli, a thri *ydd*, ac y mae *fydd* yn gafael yn *fwyn*.

Sain gudd, fel hyn,

Daioni'r tir a fwyteuach.

Y mae yr *r* ar ol *daioni* yn cydodli ag *ir* yn y gair *tir*; y mae yn swnio fel pe darllenid hi fel hyn *daionir*. Rhywbeth debyg yw hon i sain unodl o gyswllt.

O'r gynghanedd sain y deillia cynghanedd lusg; h. y. pan ddodir rhyw sill o'r braich i gydodli â'r sill nesaf i'r brifodl.

Llwg lefn, fel hyn,

A'i wddf anwar fal taran.

Yma gwelir *ar* yn y gair *anwar* yn cydoli a'r *ar* yn y gair *taran*.

Llwg o gyswllt, fel hyn,

Gellir crybwyll *am Samson*.

Y mae yr *S* yn nechreu y gair *Samson* yn cydio yn yr *m* yn *am*, fel hyn, *ams*, a'r *ams* hwn yn cydodli a'r *ams* yn *Samson*.

Llusg o ddwbl gyswllt, fel hyn,

Mae llwybr fry yn y wybrfraith.

*Y br yn llwybr yn cydio yn fr yn fry fel hyn llwybrfr,*  
a'r rhei'ny yn llusgo at y gair *wybrfraith*.

Llusg ŵyrdro, fel hyn,

Clywed dy lais a geisiaf.

*Y mae ais yn lais yn gwneud y tro i gydoli a geis yn geisiaf.*

Llusg gysylltgudd, fel hyn,

Gwr a gwraig sy'n ddau agos.

*Yr a o flaen guraig yn gwneud sain ag, a hwnw yn cydodli ag ag yn y gair agos.*

D. S. Dylid gochel rhag rhoddi cynganedd lusg ar y fraich ddiweddaf o unrhyw benill, nac ychwaith ar ddwy fraich nesaf i'w gilydd. Ac ni chymeradwyir cynganedd lusg fel hyn, "Rhai o'r byd sy'n ynfydion," fel un berffaith, oblegid rhoddi yr *y* yn ei sain dywyll i ateb i sain eglur.

#### AM GYNGHANEDD GYMYSGEDIG.

CYNGHANEDD gymysgedig yw plethiad o amryw gynganeddion yn yr un braich.

Cynganedd seingroes rywiog, fel hyn,

Gwr sy'n dwr, â gras a'n deil.

Seingroes o gyswllt, fel hyn,

Dawn hynod iawn yw hono.

Seingroes gadwynog, fel hyn,

Iawn arwydd dawn hyrwydd deg.

Seindraws, fel hyn,

Na gwr un guflwr ag ef.

Seingroes o gyswllt ddisgynedig, fel hyn,

Llawn faith gell iawn fwth gwylliaid.

Trawsgroes o gyswllt ddisgynedig, fel hyn,

Un o'r bru'n rhyw bêr eos.

Cynghanedd drawslusg, fel hyn,

*Dilys, ni wél dawelwch.*

Croes o gyswllt a sain lefn, fel hyn,

*Iaith gu'n ei gwaith gan y gwr.*

#### AM Y CYMERIADAU.

CYMERIAD yw gosod cydatebolrwydd yn nechreu pob braich i'w gilydd.

Tri math o gymeriad sydd ; sef, 1. Cymeriad llythyrenol, yn yr hon y cedwir yr un gydsain i ddechreu y breichiau, fel hyn,

*Ciwed a sarug gywion  
Cant aml gwys a phwys ei ffon.*

Hefyd cymeriad llythyrenol y gelwir llafariaid a fyddont yn dechreu'r breichiau, er na fyddont o'r unrhyw, megys,

*O'r man y gwelir Menai,  
Yn ei threfn o lanw a thrai.  
E rydd hon i wr o ddysg  
Arwyddion cywir addysg.*

2. Cymeriad cynghaneddol cyfochrog, sef bod geiriau dechreuol y breichiau yn cydgynganeddu, fel hyn,

*Mawrwaith ei rwysg mor uthr yw  
Meithwaith di-adwaith ydyw.*

3. Cymeriad synhwyrol, sef, pan gyflawnir synwyr y fraich gyntaf yn yr ail, &c. fel hyn,

*Gwyrdd lysiau a gardd laswair,  
A ysent,—llyfent y llawr.*

Arall,

*Truenus, gwydus, a gwywedig—ddyn,  
Ni ddeil ond ychydig,  
O wên ei Dduw Ion, na'i ddig,—  
Greadur gwan, llygredig.*

## AM GANIATAD GODDEFOL YN Y CYNGHANEDDION.

Y GYDSAIN *n* a oddefir yn nechreu braich o gynghanedd groes, neu draws, heb yr un *n* i'w hateb, ond nid mewn un arall o'r fraich, ac fe'i gelwir yn *n* wreiddgoll, fel hyn,

Na'i dirionach drwy einioes.

Neu ar ol llafariaid, fel hyn,

Ein Duw haelionus, hyd eleni.

Ond ni oddefir yr un gydsain arall heb un i'w hateb oddieithr *h*, yr hon ni ystyrir yn berffaith gydsain, ond a elwir yn gyffredin yn ebychnod, o herwydd paham gellir ei goddef hi heb yr un i'w hateb; megys yn y llinell ganlynol,

Hyd wyliau canu'r delyn.

Goddefir hefyd dwy gydsain i ateb un, fel hyn,

Er cof fyth o'r cyfieithwyr.

Hefyd *g* i ateb *c* yn y cysylltiad *ac*, fel hyn,

Ac yn ei fedd gwyn ei fyd.

Hefyd goddefir i *b*, *d*, *dd*, *f*, *g*, *l*, lechu yn nghysgod *p*, *t*, *th*, *ff*, *c*, ac *ll*, a hyny yn ddifeius, o herwydd fod grym y *p*, *t*, &c. yn gorchfygu sain y lleill, fel hyn,

Gwyneb pres a'i ginio prin.

Mab penaeth gorwmp hynod.

Tueddes graig at doddi.

Y fath ddrain a feithrinir.

Ei phrif-ffyrdd drwy'r Dophraffeld.

Yr hawg cenir rhai canoedd.

Llythyreg gall lithrig goeth.

Hefyd egnia cydsain rymus un feddal weithiau, fel hyn,

Pwy a wél ostwng eich palasdai.

Hefyd dywedir y cyll *w* ei grym ar ol pob llythyren dawdd, megys yn y llinell hon,

Difeth rwygodd y plethwrych.

Hefyd ni ystyrir y geiriau hyn ond un silliaid, sef

*twrw, croyw, galw, meddw, hoyw, cadw, tusw, gwelw,*  
&c., megys,

Y mae'n cadw twrw fal taran.

ond fe y'u harferir weithiau yn ddausilliaid, megys

Marw wna'r carw'n y coed.

Caniateir arfer odl gudd hefyd mewn braich, sef, trwy gysylltu'r brifodl â'r llythyren nesaf ati, pa un bynag ai mewn gair cyrch, unodl union, ai mewn breichiau ereill, megys,

Hir adeg bum yn rhodio—drwy Wynedd  
Dirionwych a hyglod.

Arall mewn Deuair hirion, fel hyn,

Gwerthfawrocach harddach hi  
Na da olud aur dilin.

#### BEIAU GWAHARDDDEDIG CERDD DAFOD.

1. Twyll awdl, sef, bod amherthynas rhwng yr odlau; fel hyn,

Rhyw warthus dro pur wrthun,     *u*  
Hynod yw llysenwi dyn.             *y*  
*u* yn ateb i *y* yn niwedd y llinellau.

Neu,

Bro sy'n oruchel ei brig                     *ig*  
Yw'n hanwyl fro gynhenid                 *id*  
*ig* yn ateb i *id*.

2. Twyll cynghanedd;

Twyll gwreiddgoll yw bod cydsain yn nechreu'r fraich heb yr un yn ateb iddi; fel hyn,

*O'r ddrycin gynddeiriocaf.*

Twyll yn y sain yw doddi *u* i ateb *y*, neu *ai* i ateb *ae*, &c., fel hyn,

Mae'n amser drud enbyd iawn,             *u ac y*  
Gwaith Cain ar faen o fynor.             *ai ac ae*

Twyll yn y sain o fath arall fel hyn,

Un am gynal dadl yw'r dyn.

Twyll pengoll yw bod y gair nesaf i'r gair prifodlawg  
yn ol o gydsain neu ddwy, fel hyn,

Er ffrost a bost y bwystfil.

Nid oes yr un *f* ar ol *bost*; fel hyn gwnaethai y tro,  
bwystfil bostfawr.

Twyll o eisiau llythyren fel hyn,

Dwyn wnai gwraig dan ei gwregys.

y mae yr *n* yn y gair *wnai* heb un i ateb iddi.

Dywedir mai nid twyll yw doddi *ng* i ateb *n* ac *g*,  
fel hyn,

Anglod arall mewn gwladwriaeth.

3. Gormod odlau, sef pan fyddo gair un o'r gor-  
phwysfaau yn cydodli â'r brifodl fel hyn,

*Dawn* enwog serchog lwys, *iawn*.

yma y mae *dawn* a *iawn* yn cydodli.

Dywed rhai mai goddefol yw doddi un sill weithiau  
mewn braich er iddo gydodli â'r brifodl; fel hyn,

*I* un eiddil i'w noddi  
*I* allu sôn ei lles hi.

4. Proest i'r awdl, sef, pan fo'r brif orphwysfa â'r  
brifodl yn proestio â'u gilydd fel hyn,

Un yw a baid yn y byd	<i>baid, byd.</i>
Gwirionedd gwr o Wynedd.	<i>odd, edd.</i>

Proest llafarog, fel hyn,

Un bai ni welodd na bu.	<i>bai, bu:</i>
-------------------------	-----------------

ond dadleua rhai fod yr *n* yn nechreu *ni* yn gwneud  
hon yn oddefol.

Haner proest, fel hyn,

Un ydwyt heb newidiad. *wyt a iađ.*

5. Dybryd sain, fel hyn,

A chlywed hyfed ei haid. *ed, ed, aid.*

6. Camosodiad, h. y. y cydseiniaid, er bod o honynt un am bob un yn y braich, eto, y maent, wedi eu camosod, fel hyn,

Cywir un yw canwr iawn.

Rhaner y llinell uchod fel hyn heb y llafariad,

*c r n e n r.*

7. Gwest awdl, sef, bod yr un gair ddwywaith yn anghyfansawdd yn mhrifodl yr un englyn, fel hyn,

Cywrain wr sy'n caru ein *iaith*—yw'r gwr  
Rhagorol dilediaith;  
Gwr enwog am gywreiniaith,  
Drwy ei oes,—paladr y *iaith*.

*Iaith* yn y dechreu a *iaith* yn y diwedd heb fod yn gysylltedig â gair arall.

8. Trwm ac ysgafn, sef, bod geiriau yn y brifodl yn anghydbwys megys, tân, glàn; mân, màn; gwâr, gwâr; &c., fel hyn,

A siriol wedd daeth Israel *lân*—rai cu  
Drwy'r Môr Coch i Ganan,  
A'r rhyflwng Pharo aflan,  
Uthr ei lid ni ddaeth i'r *lân*. *glân a glàn.*

9. Lleddf a thalgron, fel hyn,

Hyfryd clywed, gweled *gwyr*, *wyr.*  
A soniant am werth syn*wyr*. *ŵyr.*

Arall mewn sain, fel hyn,

Byrbwyll yw'r tywyll wr tost. *pŵyll a gwyll.*

10. Crych a llyfn, sef camosodiad y cydseiniaid yn y brif-orphwysfa i ateb y brifodl, fel hyn,

*Gwr o fri'n agor ei farn.*

11. Ymsathr odlau, sef, pan fydd rhan o sill yr orphwysfa yn sathu ar sill y brifodl, fel hyn,

*Diau gwel nad yw ond gwael. el, ael.*

12. Garllaes, sef, pan fydd dwy brifodl yn lliaws-sill yn lle bod un yn un sill, fel hyn,

*Anenwog yw dyn annoeth,  
Er gafael mewn mawr gyfoeth.*

13. Tin ab, sef, pan fydd dwy brifodl yn un sill yn lle bod un yn lliaws-sill, fel hyn,

*Trwy y byd i isder bedd  
Awn i gyd yn wael ein gwedd.*

14. Rhy debyg, sef, pan fydd yr orphwysfa a'r gair prifodlawg yn yr un acen, ac mor debyg i'w gilydd fel na bydd efallai onid un lythyren yn eu hatal i gydodli yn gwbl, fel hyn, mewn cynghanedd sain,

*Hyfryd i droi byd y bydd.*

Arall mewn cynghanedd draws,

*Tiriodd fy nghyfaill tirion.*

15. Tor mesur, sef, pan fydd mwy neu lai o sillau nag sydd yn ofynol yn ol y rheolau mewn braich, fel hyn,

<i>Y dyn a fo'n meddu doniau</i>	<i>8 sill.</i>
<i>E gaiff hwn ei goffâu.</i>	<i>5 sill.</i>

Nid yw yn dôr mesur doddi cydsain neu lafariad i lechu yn nghysgod llafariad arall, fel hyn,

*Mawrion gyrff drwy'r mŷr yn gwau,*

Arall a llafariad ynddi,

*Mewn llawn hedd mae'u hanedd hwy.*



## BEIAU MEWN SYNWYR CERDD DAFOD.

1. Unig a lluosog yn nghyd, fel hyn,  
*Gwyr glew gaiſſ' ragor o glod.*
2. Gŵydd ac absen yn nghyd, fel hyn,  
*Gwelaf y dyn o'r golwg.*
3. Gwrrywaidd a benywaidd yn nghyd, fel hyn,  
*Cu rodd yw caffael gwraig cryf.*
4. Clod a gogan yn nghyd, fel hyn,  
*Rhywiog wr yw'r pry' garw.*
5. Drwg ystyr, sef, canu moliant amherthynasol,  
fel hyn,  
*Llewpart gwaraidd, blaidd heb lid.*
6. Cam amser, fel hyn,  
*Wuf yma yn ol f'amod,  
Drenydd, a beunydd, yn bod.*
7. Rhy ac eisiau, sef gormod o eiriau cyffelyb o ran  
eu harwyddocad, heb ynddynt ond ychydig synwyr,  
megys,  
*"Diwat wr anwar gor wyllt."*

## ENGRAFFAU

o

## FARDDONIAETH GYNGHANEDDOL.

Y MAE gormod o sylw wedi bod yn cael ei dalu i'r gynghanedd ar draul synwyr; boddlonid llawer un yn lled dda os gallai gyfansoddi cynghanedd dlws a champus, pe na buasai ynnddi un sill o feddylddrych; pa beth yw y gynghanedd wedi y cwbl, ond y wisg, i'r syniadau; a pheth ffol i'w talu mwy o sylw i'r wisg nag i'r peth a wisgir: dihatrer llawer llinell o glöau a dirgelwch y gynghanedd, ac ni fydd, yn ngweddill, ond y trueni a'r gwaeledd mwyaf. Y mae amryw o'r cynghaneddion a nodwyd y byddai yn beth nesaf i wallgofrwydd gweled dyn yn ymdrafferthu, ac yn ymdrechu i gyfansoddi arnynt: y maent yn eithaf pethau i ddangos *gwag* gywreinrwydd; ni welir un o'n prif-feirdd yn ymdrafferthu gyda y rhai caethaf o honynt; os deuant yn yn eu ffordd, ni wrthodant hwynt; y cynghaneddion mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan ein beirdd goreu yw y sain, y groes, y draws, a'r lusg; y mae rhai o'r rhai'n yn brydferth ac yn nerthol. Er mor ragorol yw y gynghanedd pan ddaw o law campwr, eto, y mae yn ddiamheuol, oni buasai hi, na welasid cynifer o wehilion beirdd ag sydd i'w cael yn y dywysogaeth yn awr; y mae rhyw swyn yn nghynghaneddiad y cydseiniaid ag sy ddigon a thwylo llawer o ddynion i feddwl fod rhywbeth yn eu gweithion, pan mewn gwirionedd na fydd ynddynt ddim ond crug o ffolineb. Y mae llawer dyn na allasai osod deuddeg meddylddrych wrth eu gilydd mewn iaith rydd, wedi troi allan fel bardd, ac am i bawb ei gydnabod felly; dygwyddai gael gan rywun symud y lleni i raddau oddiar y rheolau, a

dysgai y rhei'ny yn lled ganolig; ac yna crynhöai ychydig eiriau o'r geirlyfr yn nghyd, mewn mesur englyn, neu gywydd, a chafodd gan rywun a ddygwyddai fod yn *oracl* y pentref y pryd hwnw, ddyweyd mai barddoniaeth oedd y peth; a'i fod ef, yn sicr, yn feddianol ar alluoedd cryfion fel cyfansoddwr; ac ar y sail yma, aeth y dyn yn mlaen, am flyneddau, gan osod ei arswyd, fel bardd, ar holl drigolion y gymydogoeth; drwy fwrw llinellau cynghaneddol i gloi pob chwedl, a bod yn arglwydd y tafarndy; ac yn gadeirydd yn nghymdeithas dynion, na feddyliasant erioed am roi mynyd o'u hamser gymaint ag i geisio gwybod pa beth yw barddoniaeth; ac na chwynent byth pe byddent heb glywed llinell farddonawl yn eu hoes; ond llanwyd ef, hyd at yr ymylau, â meddyliau mawr am dano ei hun, a gwae y dyn hwnw a feiddia ameu ei alluoedd a'i gymhwysderau barddonawl. Dynion o'r fath yma sydd yn darostwng barddoniaeth, ac wedi bod yn foddion i gadw chwaeth y genedl mor isel yn ei chylch.

Rhoddaf, yn awr, rai engraffau o farddoniaeth heb ymgais at ddim ond cynghanedd ynddynt; a hono heb fod yn gywir.

### I GLOCHDY GWRECSAM.

“Cymry tjrion cym'rant eiriau  
Mad, dilysion am dy dlysau,  
Ddogyn benau, ddigon bonedd,  
Del i'th arswyd dylwyth Horsa,  
Gof o'n herddir gyfan hardda  
Ewrobia wiw arabedd.”

“Pelan a'i saflan a syflodd,—pwl sail,  
Pa les fu pan suddodd?  
Praffiawn cryno pryffwn crynodd  
Palas aelaw, p'le iselodd?  
Pabell iawnfain pa bill unfodd?  
Prain eith grymus praw ni'th grynodd  
Parchus a dilus daliodd—dichwain dwrf,  
Pobl dirfiai, pabl darfodd.”

Eto, i anerch bardd ac offeiriad, fel y dyellir wrth y rhagfynegiad. Y mae y rhai hyn yn lled ddifai o ran y gynghanedd.

“Ceni cis nedi cysonedig,  
Cerddi cu doedi cauadedig,  
Cani cain eili acen elwig  
Clymi can didi cunodedig,  
Ceri cau'r ddyri cyrddorig,---cyrchi  
Cwli ceryddi ceuwyr eiddig.”

“Dy fyd afaith dof a difyr  
Dewr od eryr dwyre dirion,  
Cwyn nod Einion dineu dynwyr  
Dwr i daerwyr deriaid wirion.”

“Onid nodedd i'n d'aneddi  
Etifeddi y twf foddion,  
Waneg coddod an nac heddi  
Iawn hyweddi yn hawyddion,  
Ar dy wleddi edrybeddi  
Aur a feddi i'r ufuddion  
Wyrth fucheddi it poed gleddi  
Yw prid weddi y prydyddion.”

Y mae yn anhawdd i un dewin ddyfalu pa beth a feddylir yn y darnau uchod; pe mynegasid wrthym am y fath gyfansoddiadau, ac heb ini gael cyfle i'w gweled, prin y credasem y gallasai undyn, yn meddu synwyr cyffredin, garneddu geiriau ar eu gilydd i ateb mor lleied o ddyben. Wele yn canlyn hefyd engraff o waith go debyg i'r un uchod; eithr y mae y geiriau ychydig yn eglurach, ond y mae y meddwl yn eithaf tywyll:

“O, ein Duw Ddofydd! hen yw dy ddwyfawl  
Ddogyffelyb, wir ethryb aruthrawl,  
O, dyma för i'r enaid myfyriawl  
I'w nofio—nodedd dod yn feunyddiawl,  
Pura dy fyllt pâr dy fawl;—pâr ddoniau  
I unig enau sydd annigonawl.”

Wedi i'r darlennydd cyffredin ddyall ystyron y geiriau *Ddofydd*, *ethryb*, *aruthrawl*, *fyllt*, nid all lai na rhyfeddu at waeledd y penill. Ystyr *Dofydd* yw Arglwydd; *ethryb*, yw *cause*, *occasion*; hyny ydyw, achos, her-

wydd ; megy<sup>2</sup>, o achos, o herwydd : *aruthrawl*, yw tra rhyfedd : *fyllt*, sy luosog o *boltt*, bollt yw *dart*, *bolt* ; hyny ydyw picell, tryfer : gyda'r ystyron uchod ymddengys ypenill fel hyn ;—

“O, ein Duw yr Arglwydd, hèn yw dy ddwyfawl ddigyffelyb, wir *herwydd*, neu *achos tra rhyfedd*. O dyma fôr i'r enaid myfyriawl i'w nofio. (Pa beth yw y môr ?) Pura dy *bicellau*, par dy fawl.”

Dalier sylw ni chymerir y rhyddid hwn gyda'r llinellau uchod, heb ystyried y goddefai y brydyddiaeth oreu, a mwyaf penigamp, wrth dynu y geiriau o'u lleoedd priodol ; yn debyg fel pe tynid ceryg nadd o fur adeilad ; ni edrychai y rhai hyny mor hardd yn wasgaredig ar wyneb y maes ; ond er y collid y ffraethlymder a'r tlyzni barddonawl o brydyddiaeth dda, i raddau, wrth ei difynu, eto, byddai yno synwyr yn ganfyddadwy, er ei gosod mewn geiriau cyffredin, diaddurn ac anfarddonawl ; ond ni ddaw ond hacrwch, gwaeledd, ac amherffeithrwydd gweithion fel hyn i'r golwg, os cyfhyrddwch âg un gareg yn eu mur. Hawdd fyddai dwyn lliaws o engraffau o'r fath, ond gwasanaethed hyn yna yn bresenol.

Dylid cadw tri pheth mewn golwg wrth gyfansoddi, sef, syniadau addas a barddonawl ; iaith ddillyn a dirodres ; a chynghanedd reolaidd ; ond yn gyffredin iawn bydd y bardd egwan yn fwy ar ol gyda'i syniadau na dim arall ; bydd yr iaith, efallai, yn ddifrychau ; a'r gynghanedd yn gref ; ond y syniadau yn isel, ac anfarddonawl. Os bydd y meddylddrychau yn oruchel (*sublime*) a'r iaith yn fratiog, bydd hyn yn debyg i wisgo tywysog mewn carpiâu ; ac os bydd yr iaith yn ddifeius, a'r gynghanedd yn gref, a'r syniadau yn wael, bydd hyn yn debyg i wisgo gwr gwellt mewn sidanau, a'i addurno â blodau a thlysau.

Nid ydis wrth wneud y sylwadau hyn yn meddwl collfarnu y gynghanedd ; pell fyddo hyny oddiwrthym ; oblegyd y mae tlyzni a chywreinrwydd yn perthyn iddi, pan fydd dan law y medrus ; y mae genym lawer o ddarnau wedi eu gosod allan yn gynghaneddol, y buasai

yn annichonadwy eu cyfleu yn gryfach, mewn iaith rydd; os gallesid dyfod i fyny â'r iaith gynghaneddol buasai hyn yn gamp go fawr; dyfynwn yn bresenol, rai darnau cynghaneddol o waith amryw o'n prif-feirdd, fel y gweler gyda pha ystwythder a nerth, y gallant drin y gynghanedd.

## MARWNAD LL. DDU.

\* \* \* \* \*  
 Mesurau, gwyddai bob agweddion,  
 Llun daiar ogylch, llanw dwr eigion;  
 Amgylchoedd moroedd mawrion,—a'u cymlawdd  
 Iawn y dangosawdd, mid anghyson.

Daiar a chwiliodd drwy ei chalon,  
 Chwalai a chloddiai ei choluddion,  
 A'i dewis wythi, meini mwynion,  
 A thew res euraid ei thrysorion,  
 A'i manylaf ddymunolion—bethau,  
 Deuai i'r golau ei dirgelion.

Olrheiniodd chwiliodd yr uchelion,  
 Llwybrau'r taranau a'r terwynion,  
 Fflamawg fellt llamawg foltau llymion,  
 Is awyr ganaid, a ser gwynion,  
 Nodau'r lloer, a'i newidion—hynt cwmwl  
 O fro y nifwl i for Neifion.

\* \* \* \* \* G. OWAIN.

## O'R CYWYDD GORYMBIL AM HEDDWCH.

\* \* \* \* \*  
 Cawn ddirwyllt fab cynddaredd,  
 Hyd ein gwlad, yn dwyn ei gledd;  
 Myfyria'n flin ei drin draw,  
 Yn agwrdd mae'n ffyrnigaw:  
 Car ef oddeithio trefi,—  
 Am waith broch mae'n groch ei gri;  
 Och ei waedd! gan ymchwyldaw,  
 A'i lid fel mellten o'i law;  
 A'i ddefawd, iddo'n ddifyr,  
 Bod dros ei draed mewn gwaed gwyr;

Lladd oll fo'n lluddio'i 'wyllys  
 Ei gais ef, i'w lef, o'i lys;  
 Hyll olwg! a'i holl elwch,  
 Yw gruddfan y truan trwch.

\* \* \* \*

IOLO MORGANAWG.

### AWDL AR ARDDWRIAETH.

\* \* \* \*

Boed helaeth toraeth ein tud,  
 A llawnder drwy holl Wyndud :  
 Llesâd ein anwylwlad ni  
 Droi'r aradr drwy Eryri ;  
 Ymerodres mawrhydri  
 Bob gauaf a haf yw hi ;  
 Nid iachach, haiach, na hon,  
 Bro *Carmel* na brig *Hermon*.

\* \* \* \*

Dygymydd yd â gwymon  
 A fwir ar dir o'r don ;  
 Da tywod glas, detyd glo  
 Daiar cyn ei blodeuo :  
 Gweddillion sebon y sydd  
 A thail o ffrwyth heolydd :  
 Lleisw, huddygl, arlloesion  
 Maeth i'r ddaiar hyar hon ;  
 Lludw mawn a llaid y mor  
 I'r ydfaes o'ruadfor ;  
 Llesol yw pob arlloesion  
 O halltrwydd, dyfnchwydd y don ;  
 Rhinweddol yw'r anoddyn,  
 A'r lli' a'i stor er lles dyn :  
 Rhyfedd, goris tuedd ton  
 Yw mân wigoedd mewn eigion :  
 Aml berllan o dan y dwr,  
 A man erddi mewn oerddwr :  
 Daw wellwell wedd diwyllwaith  
 Ar y morlan llydan llaith.  
 Tirion uwch ymylon mor  
 Arddwriaeth y werdd oror.  
 Claddu marl, cywilydd Mon,  
 O'r golwg mewn dirgelion ;  
 Allan yn gyfan ag e,  
 O'r geulan i'r tir gole ;  
 Ac o Fôn cyfion yw cael  
 Mynorau,---MEINI URAEL.

Dieiddil weithred addas  
 Yw tori croen y tir cras ;  
 Troi a thrin ys eithin sydd  
 Y tir gwyllt,---torau gelltydd :  
 Agor ffos, o gwr ei phen,  
 I dynu dŵr o donen :  
 Mynu agor mawnogydd,  
 Yn dir anmhur, segur sydd ;  
 Tynu'n glir o dyndir du  
 Grugwellt, a digaregu :  
 Diwreiddio, mewn byrdro bach,  
 Danaadl, a phob rhedynach :  
 Tra llesol, fuddiol i faes  
 Yru tafol o'r tewfaes ;  
 Dryllio, gŵyro'r droellgoryn ;  
 Dyfrhau'r tir, nid afraid hyn ;  
 Daw irddail lle rhed oerddwr,  
 Rhad a dail lle rheda dwr :  
 Gwaith teg ydyw gwthio tir,  
 Afrywiog, welltog wyllt-dir ;  
 Danfon calch i redynfaes,  
 I freuo, cymhwyso maes ;  
 Lloggi, nid lle i ysgall,  
 Dew groen nid yw hagr wall ;  
 Palu ac aru gorallt,  
 Tir yd a fyddo to'r allt ;

\* \* \* \* \*

Pob glyn, pob penrhyn, pob pant  
 A gwynant yn dwyn gwenith.  
 Holl Ferwyn, os llafurir,  
 Tirionach, tecach y tir ;  
 Hiraethog neilldu Rhuthyn,  
 Dan wlith yn dwyn gwenith gwyn.

\* \* \* \* \*

Wele dirfiog wlad Arfon,  
 Lle llawn lles, cymhares Mon ;  
 Tirion pob goleufron glau,  
 Ei llynoedd a'i pherllanau :  
 Ei goror, a'i theg irwydd,  
 Yn hyfryd, is haulfyd sydd.  
 Mwn addas ein mynyddau,  
 Parhâo'n hir heb brinhau ;  
 Boed creigiau'n mynyddau'n awr,  
 Meini'n cynyrchu manawr.

Bellach, dedwyddach y dôn,  
 Esmwythach, oes Amaethon :



Gwerthir o'r sir, mawr y son,  
 Dorfoedd o ddefaid Arfon ;  
 Rhif odiaeth, amhrofadwy,  
 Y chain a moch, dri chan mwy  
 \* \* \* \* \*

D. DDU, Eryri.

### Y DYLI F.

\* \* \* \* \*  
 Od eir i barthau'r Dwyrain,  
 Neu'r Gogledd ;---rhyfedd drwy rhai'n,  
 Miloedd sydd o gymylau  
 Tewion yn hylion amlhau ;  
 Du y wybren a dybryd,  
 Tywyll ac erchyll i gyd !  
 Golau ronyn nis gwelant  
 Ond cochion fellt gwynion gant ;  
 Taranau trwy y wiwnef,  
 Ce'nlli o ffenestri Nef.  
 Rheieidr fyrddiynau'n rhuaw  
 Yn ffrydiawg o lidiawg wlaw.  
 Gan amllder, llawnder a lfid  
 Y gwlaw, yn syn e glywid  
 Ar gyhoedd, drwy gymoedd gant  
 Arw hyll ferw y llifeiriant.  
 Afonydd a'u hollrydd hynt,  
 A chynhwrf mawr, wreichionynt ;  
 A'r awyr yn adruaw,  
 A mawr drwst gan y mor draw :  
 Ymwriaw mae'r mor mawrwyllt  
 Mewn bar yn ei garchar gwyllt,  
 Drwy ewynawg daranu  
 O'r llynclyn diderfyn du.  
 Rhai ynfydion, gwylltion, gau,  
 Am nawdd ffo'nt i'r mynyddau ;  
 Rhedai'r mor mawr rhuadwy  
 Ar fyrder i'w huchder hwy.  
 P'le'r ant, p'le safant, p'le sydd,  
 Rhag ei waeau tragwyd ?  
 Cydwybod dyst parod, pur,  
 Gwedi bod yn gysgadur  
 Yn fud yn mhlith ynfydion,  
 Mae bywyd o hyd yu hon.  
 \* \* \* \* \*

D. IONAWB.

## ANERCH GWILYM PERIS.

\* \* \* \* \*

Cyd dynem nythod bodau,  
 Yn y castell, o gell gau;  
 Dringem, cyd dynem, ein dau,  
 Nythod y cogfrain hwythau,  
 Ymdeithiem i Gwmdwythwch,  
 I fyny hyd afon Hwch;  
 I'r bad, ar Lyn twythiad hon,  
 O dda eigiau caem ddigon.  
 Dyna res o'n lles a'n llwydd  
 Yn oedran diniweidrwydd  
 \* \* \* \* \*

Dysgwyd ni mewn dewisgerdd,  
 Rheol iaith a gwaith y gerdd.  
 Prydem ddiddan gân mewn gwig,  
 Cydwau mewn llawer coedwig.  
 Difyr fugeilio defaid  
 Yn y cwm, weithiau y'n caid.  
 Y tai dail yn nghoed Ty du  
 Oedd hynod i'n diddanu,  
 Lle'r oedd adar gwar mewn gwydd,  
 Yn cydwau yn y coedwydd.  
 Llwyni heirdd, i'n llawenhau,  
 Caid ogylch y coedwigau.  
 Lleihau haner y llwyni  
 A wnaed yn ein dyddiau ni.  
 Peidiodd caeadlwyn Padarn;  
 O'i lwyn eirioes nid oes darn:  
 Lle bu mwyn ganu mewn gwydd;  
 Ar finion yr afonydd:  
 Yr afon Goch ar fin geillt:  
 A cheirniach ar y chwyrneillt,  
 A'i rhaiadr mawr yn rhuaw,  
 Canu ei glych cyn y gwlaw.  
 \* \* \* \* \*

GUTYN PERIS.

## ENGLYNION I HENAINT.

AETH blodau dyddiau dedwyddion, — drosodd,  
 D'ryswyd fy nghysuron, —  
 Mae pob lle o'm pabell hon  
 Ar waeth o lawer weithion.

## TRAETHAWD AR

Boreu o haf byr ei hynt---fu nyddiau,  
 Fwyneiddied eu helynt ;  
 Heinif bob dydd o honynt  
 Y down ac awn fel dyn gynt.

Dirwynodd oed ar waneg---hyd ugain  
 A'i degwech ireidd-deg,  
 Taer redodd uwchlaw trideg,  
 A chwai y daeth i chwe' deg.

Pan fu wiwlanc penfelyn,---ireiddiol,  
 A'i ruddiau fel rhosyn ;  
 Hwn heddyw,---oedd ddoe'n hoewddyn,  
 A gwedd dost, gwywodd y dyn !

Llawn dri ugain gywrain eu gwarant---heb ludd  
 O'm blwyddau hedsant ;  
 Fel y niwl o afael nant  
 Y dison ymadawsant.

O bu'n wan faban unwaith,---y gw'chaf  
 Wrth gychwyn i ymdaith,  
 E dry'r dyn, draw ar y daith,  
 I boen wael maban eilwaith.

Ymredodd fy moreudeg---amseroedd  
 Mesurwyd eu hadeg ;  
 Yn iach gan fyth ychwaneg,  
 Neu gyraedd dawn, na grudd deg.

Gorddwys yw'r hen pan gerddo,---a'i weinion  
 Ewynau'n diffygio ;  
 Gormod y bennod tra bo  
 Lle rhedodd, allu rhodio.

Er mwynhau rhadau rheidiol,---a meddu  
 Pob moddion tymhorol ;  
 Ni werthir yn ei wrthol  
 Ddoe i neb,---ni ddaw yn ol.

Ag i'r ffon yr ymfoddlonwyf. -bellach,  
 A chan bwyll yr elwyf ;  
 Blino wrth rodio'r ydwyf  
 Llusgo ar ol,---llesgâu'r wyf.

Y clyw'n wan drwstan a drydd,—a'r golwg  
 O'r gwaelu maent beunydd ;  
 Mawr roddion fy moreu-ddydd ;  
 Pa les son, yn pylu sydd.

Hyll weled y llaw eilwaith,---yn crynu  
 Ceir hon yn anmherffaith ;  
 Y dda gân ni ddwg unwaith  
 Neu bin du i ben y daith.

Ugeiniau yn mro Gwynedd,---mae cofion  
 O'm cyfoed sy'n gorwedd ;  
 A ddodwyd yn ddiadwedd  
 Druain bach, draw yn y bedd.

Myned sy raid i minau,---drwy wendid  
 I'r undaith a'm tadau ;  
 Mae mlinion, hwyrion oriau  
 Am hos hir yn ymnesâu-

Henffych wlad ! i rad rodio,---a mwynaf  
 Man i gael gorphwyso ;  
 Blinder, gorthrymder, na thro  
 Ni bydd un na bedd yno.

R. AB G. DDU, *Eifion.*

## MARWOLAETH SIR T. PICTON.

\* \* \* \* \*  
 Gwener \* daeth a'i gynwr dig,  
 Ymlenwai'r maes mileinig  
 O arfogion rif heigiau,  
 Rif y gwellt yn arfog wau :  
 Bu'r ail dydd a chynydd chwant,  
 Bu y Sabbath † heb seibiant !  
 Daeth yr anferth ryferthwy,  
 Diluw maes---er dial mwy !  
 A'r angeu, arwa' ringyll,  
 Ar goch farch, dihafarch, hyll,  
 O wg angerdd rhygyngai,  
 O filoedd, lluoedd wnaï'n llai.

Cyrau y lomwaen chwai carlamodd,  
 A thrwy'r ydau, uthr yr ehedodd,  
 Cyn ucher---O!r nifer anafodd,  
 A'u gwyar y ddaiar a dduodd !

Taerion bawb--- terwyna' byllt,  
 Hedai myrdd fel heidiau melltt ;

\* June 16, 1815. † June 18, 1815.

Nifwl â gwawr ufel gwyilt,  
Gerwin ddydd ! a gwyr yn ddellt !

Briw calonau, ocheneidiau  
A llesmeiriau lliaws meirwon ;  
Braw ! wel'd briwiau, darnau breichiau,  
A'u hesgeiriau yn ysgyrion !  
\* \* \* \* \*

Er cael helaeth oruchafiaeth,  
Buddugoliaeth---baeddu gelyn ;  
Drud y prynuwyd, pan ganfuwyd  
Rif a laddwyd---oer fael iddyn.'

Gorfoleddu a galaru,  
Llawenychu---llu yn ochain ;  
Caniad clychau, egraidd ddagrau  
A geirw lefau gwir wylofain !

Cymysgiadau llon ganiadau  
A marwnadau mirain awdwyr ;  
Pob gwladwriaeth mewn trwm hiraeth,  
Mwya' alaeth, am ei milwyr :

Prudd *Iwerddon*, a *Chelyddon*,\*  
Am eu dynion mwya'u doniau ;  
*Cymru* dirion, am ei PICTON,  
Wylai heilltion, ddyfnion ddafnau !  
\* \* \* \* \*

Erliadau, a gyrai, y rhai geirwon  
I'w braw, a'u brys, a'u chwys ar achosion,  
Tra'n feirw filoedd trwy nifer ofalon  
Trwy nentydd, a bronnydd, y *Barwynion* †  
Nes yfed o *Fidos* || afon---ei ran,  
Ac ar y lan curai ei elynion.  
\* \* \* \* \*

PICTON, ceir cwynion cur cant  
Lladdwyd yn mreichiau llwyddiant !  
\* \* \* \* \*

Er enill dydd, â'r un llaw y dorch  
*Prydain* a gwyn ar erchwyn ei *Arch*,  
Ei gawr aeth fel saeth---ufed o serch,  
A llefawd ei gwaedd hollfyd a gyrch.

\* Scotland. † The Pyrenees. || Bidouze, a river of France, &c.

Nis llewyrchaist---o ynys y Llachar!  
 Mal yn y dyddiau milein diweddar,  
 O eitha' nwyfiant, hi aeth yn afar,  
 Dy *Haul* o'r entyrch, a'i hoewgyrch hygar,  
 Duodd pan roed mewn daiar--dy Gymro,  
 Ymro' di i wyllo---mawr yw d'alar!

\* \* \* \* \* GWALTER MECHAIN.

## MOLAWD YNYS PRYDAIN.

\* \* \* \* \*  
 Bro hardd aroglber yw hi,---bro llawnion  
 Berllenydd a gerddi,  
 Dyffrynau, bryniau, llawn bri ;  
 Addurnawl y wedd arni.

Ar y dyffrynoedd hyfryd, ffrw enwawg,  
 Glaswyrdd orchudd, gwiw lysiau ardderchawg,  
 Pob ffrwythau melysion, aeron eurawg,  
 Cain yw cynyrch y llenyrch meilionawg,  
 A'i dewis goed, blodeuawg,---per rawn cair,  
 Oreuwawr ddysglair ar irwydd osglawg. †

Uwch y gwaelodion iach, a goludawg,  
 Wele'r bryniau, a'r creigiau cerygawg,  
 Echrys ac uthrol ochrau ysgythrawg,  
 A manau crebach uwch meini cribawg,  
 Gar parthoedd ardaloedd deiliawg,—cymoedd,  
 Mawrion fynyddoedd, a galltoedd gwelltawg.

Edrych ar un o'i odrau,---i'w hir ben  
 Ban yu y cymylau,  
 Caddug llwyd, a gwyd yn gau  
 Wisg addas i'w ysgwyddau.

I ddiosg hwn, twn, to od,---daw'n awel  
 O denuewynt uchod :  
 Gwelir deg mil o filod  
 Arno'n byw dan amryw nod.

Yn anrheg wrth angenrhaid,---cawn wisgoedd  
 Cynes gan y defaid ;

\* \* \* \* \*

† Llawn o gaughenau.

O'r creigiau mawr, Caerogwyrth,  
Liosawg poblawg eu pyrth,  
Hybarch ydyw eu hebyrth---yn ddysglair,  
Mwnai a gair a main gwyrth.

Gwelir oddiar freich-hir fryn  
Dewffrwyth amryliw'r dyffryn,  
Glaswellt, ardderchawg lysiau  
Gloewon, perarogl ein pau ;  
Ar fronydd, y coedydd cain,  
Dilledir à dail llydain ;  
Gwiw ednaint ar wydd gwydnion  
A'u ffraeth brydyddiaeth, bêr don,  
Canmawl yn hyfrydawl frau,  
Eurog engyl, ar gangau,  
Difyru à'u lleisiau llon  
Wybren nefawl, bro Neifion.

Gerddi lle sang ar gangau—eirin pêr,  
Aeron, pob afalau,  
Dan gnwd o heirdd dewion gnau,  
Ymyrant wrth y muriau.

O'r creigiau, drwy'r parthau pur,  
Ymdreiglaw mae dwr eglur,  
Elfen deneu, ysblenydd,  
Lyfnedeg yn rhedeg yn rhydd,  
Rinweddol, o lesol lan,  
Loew, oeraidd, o liw arian.

Uchelgadr raiadr, dwr ewyn,—hydrwyllt,  
Edrych arno 'n disgyn,  
Crochwaedd y rhedlif crychwyn,  
Synu pensyrdanu dyn.

O'i ffynhonau golau gant,  
Y ffrydiau hoff a redant,  
Dylifedd yn dolefain,  
Lle chwery pysg yn mysg main ;  
Yr afonydd, drwy faenor,  
Yn dwys ymarllwys i'r mor ;  
Grisial ar y gro iesin,  
Drych y ser, dwr iachus in'.

Pob pysg yn gymysg mewn gemau,—llanwant  
Y llynoedd a'r teiniau ;

Eogiaid—pob rhyw heigiau,  
Mawrion gyrff, drwy'r mŷr yn gwau.

O anifeiliaid sy'n felys—luniaeth,  
O! lawned yw'r Ynys:  
Saith ddeng muwch a ymddengys  
Ar y ddol draw, ger llaw'r llys.

Heb rus, hoewon ychain breision, uchel,  
Meirch chwai, cymaint a nemawr wych gamel,  
A cheirw, a bychod, chware heb ochel,  
Y maent, a hyrddod, myntai i'w harddel;  
Daw'r asyn llwydwar isel—i'w dychryn—  
A'i nadlef \* \* \* \*

Rhai milod ar y moelydd,—wych yroedd,  
Moch hirion mewn maesydd;  
Yr ych a'r march, drwy barch bydd,  
A'r carw o fewn i'r ceurydd.  
\* \* \* \* \*

Mwyn awen, i'r menywod,  
O egni glas, a gân glod;  
Gwridawg a hawddgar ydynt,  
O lun a gwedd Elen gynt:  
\* \* \* \* \*

Tra enwawg wladwyr yn trin goludoedd,  
Mor wychion ydynt, yn y marchnadoedd,  
Blagurog a dewr fywiog dyrfaoedd  
Yn syw dwyn ysgawn sidan wisgoedd;  
Aml ddysglair, ddiwair ddeuoedd—yn diflin,  
Hoew droediau'n iesin drwy y dinasoedd.

Gar dyfroedd hoff leoedd fflwch,  
Tan irwydd, mewn tynerwch,  
Yn gwau ceirdd, cair y beirddion,  
Eres hil, yn yr oes hon;  
Gloew asur iach, bur uwch ben,  
Llawn o adar, llin Eden;  
Awelon oerion, araf,  
Drwy hon yn cerdded yr haf;  
Adferu'r claf llesg, afiach,  
Bywiogi, sirioli'r iach:  
\* \* \* \*

DEWI WYN o *Eifion*.



## CYWYDD ANERCH D. WYN A R. AB G. DDU.

\* \* \* \* \*

Rhyw anghelfydd brydydd brau  
 O Eifionydd wyf finau.  
 Fe'm ganwyd o fam gynil  
 O fewn hon, wyf un o'i hil:  
 A phrydydd, hoff ei rediad,  
 Addfwyu o hon oedd fy nhad.  
 Ond heddyw, gwn nad dyddan  
 Yw fy llais, mi gollais gân.  
 Fy hen serchawg, fryniawg fro  
 Ni chaf ond prin ei chofio.  
 Nid yfir o Dwyfawr iach,  
 Darfu difyr dwrf Dwyfach.  
 Aeth y Garn ymaith o gof—  
 Bryn Engan, bron, i angof:  
 Ac nid oes am oes i mi  
 Un gobaith am Langybi.  
 Fy enaid am Eifionydd  
 Mewn hiraeth ysywaeth sydd.

\* \* \* \* \*

PEDR FARDD.

## HIRAETH CYMRO AM EI WLAD:

\* \* \* \* \*  
 Wylu wrth rodio yr ydwyf;—poeni,  
 Ie, pan eisteddwyf;  
 Llwy'r wael yw pob lle'r elwyf  
 O'm gwlad lân anniddan wyf.

\* \* \* \* \*  
 Er dewr rodio ar dir yr Eidal,  
 \* \* \* \* \*  
 Neu yn Nghanan pe cawn fy nghynnal,  
 Yn llawn—eto, ni allwn atal  
 Na dofi hiraeth dyfal,—fy nhrallod,  
 A'm myfyrdod am fy ardal.

Pa les wna ffrwythydd, dolydd deiliog,  
 Mwyn aur ethol, imi'n hiraethog?  
 Gwell ydyw creigiau gwyllt caregog  
 Muriau dedwydd Cymru odidog,

A'r anwyl reieidr enwog—i bynciaw,  
A gwres eiliaw wrth ei dwfr grisialog.

\* \* \* \* \*

Edrychaf fi drwy ochain,—ar fwyngu  
Derfyngylch y Dwyrain:  
Ond p'le mae gwedd Gwynedd gain,  
Bro odiaeth ynys Brydain?

Gwely, gobenydd galed—o geryg  
I orwedd mewn syched,  
Wylaw a'r ddwy law ar led  
Am gynes fro i'm ganed.

Ow! na chawn, mewn llonach hwyl,  
Droedfedd o Wynedd anwyl!  
O! na chawn o gwyn a chur,  
O hyll ofid a llafur,  
Bridd-dy, fal gwely gwael-lun  
O ddwy lath i eiddil un  
Orphwyso a gwywo gwedd,  
Brig einioes mewn bro Gwynedd!

\* \* \* \* \*

O'm serch yr wyf yn perchi  
Lyth'renau ei henwau hi.

\* \* \* \* \*

Fy mherth'nasau goreu, gynt,  
Dedwydd imi nid ydynt;  
Ow! son, fal meirwon i mi  
Ar hanes y'm Rhieni.

\* \* \* \* \*

Os fy Ner â doethder da  
A rydd im' orwedd yma;  
I'm mynwes mor ddymunol,  
Uwch fy nghlai, fyddai ar f'ol  
Arwyddo'r lle gorweddwn,  
Yn y llawr, a'r penill hwn:—

“Awenawg wr o Wynedd,—o hiraeth  
A yrwyd i'r llygredd,  
Ar arall dir i orwedd;  
Dyma fan fechan ei fedd.”

Fe allai, deuai ar daith,  
Damwain, ryw hen gydymaith,  
I ymdeithio heibio i hon,  
Ag wylo ar ei galon;

Darllenai'r pedair llinell,  
 Yn iaith fad, ei burwlad bell,  
 Gan och'neidio, wylo'n waeth,  
 O herwydd trymder hiraeth:  
 Tanau euraidd tynerwch  
 Gyffry, wrth fy llety llwch,  
 I erio prudd arwyrain,  
 A thrist wedd, wrth fy medd main,  
 Minau a'm bron yn llonydd. —

\* \* \* \* \* G. CAWRDAF.

### GWLEDD BELSASSAR.

\* \* \* \* \*

Ar ael y fron araul fry,  
 Saif yr hoewlon syw freinlys :—  
 Wyneb haul, a'i wymp belydr,  
 A'i serena'n gan mal gwydr.  
 Aur telaid llawer talaeth  
 A bro i'w euro a aeth,  
 Wrth ystlys y llys mae'r llon,  
 Grogedig erddi gwyrddion.  
 A'u haeron draw ar irwydd  
 Sy'n chwarae : a'u blodau blydd  
 Ym min nos y mynwesant  
 Wlych y nen a'i lochi wnant.  
 A phan y daw'r guwawr gain  
 I agor dor y dwyrain,  
 Agorant eu brig araul,  
 A'u mynwes i wres yr haul.

Euphrades sydd yn ffrydio—drwy ganol  
 Y dref wirodiaethol, drwy farw-deithio,  
 Fel un fai'n dymuno—rhoi adlewych  
 I bob rhyw wrthddrych iawnwych yno.  
 \* \* \* \* \* IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

### DINYSTR JERUSALEM.

\* \* \* \* \*

Ys anwar filwyr sy'n rhyfela,  
 Enilliant taniant gastell *Antonia* ;

Y gampus Deml a gwympa—cyn pen hir ;  
Ac o malurir gem o liw eira.

Wele, drwy wyll belydr allan—fflamol  
A si annaturiol ail swn taran,  
Mirain Deml Moriah'n dan—try'n ulw—  
Trwst hon clyw acw'r trawstiau'n clecian.

Yr adeiladaeth ddygir i dlodi,  
Be b'ai cywreiniach bob cwr o heni,  
Tewynion treiddiawl tân a ant drwyddi,  
Chwyda o'i mynwes ei choed a'i meini ;  
Uthr uchel oedd, eithr chwal hi—try'n llwch,  
A drych o dristwch yw edrych drosti.

Fflamau angerddol yn unol enynant,  
Diamau, y lwyswych deml a ysant  
Y dorau eurog, ynghyd a'r ariant,  
Y blodau addurn a'r cwbl a doddant,  
Wag anedd ddiogoniant—gyda bloedd  
Hyll bwyir miloedd, lle bu roi moliant.  
Llithrig yw'r palmant llathrwyn,  
Mor gwaed ar y marmor gwyn.

\* \* \* \* \* EBENEZER THOMAS.

Hyderir, bellach, fod y darllenydd wedi cael ei fodd-  
loni ag engraffau barddonawl diledryw ; y mae yr awd-  
wyr a ddetholwyd oll, yn dangos y gallant osod allan  
syniadau addas a theilwng, hyd yn nod, yn ol rheolau y  
gynghanedd, er ei manyled ; prin y gellir dywedyd fod  
nemawr air yn yr holl ddyfyniadau blaenorol, nad oedd  
ei lwyr eisiau yn y gwaith ; y maent yn darllen yn  
esmwyth, ac yn hyfryd ; ac yn sicr o gael argraff ar  
feddwl y darllenydd ; oblegyd y mae y gwrthrychau yn  
cael eu paentio, â llaw gelfydd o flaen ei lygaid. Y  
mae gwaith Gronwy Owen yn gelfyddgar, ac yn llith-  
rig ; darluniad Iolo Morganwg o echryslonrwydd rhyfel  
yn naturiol, ac yn rymus ; awdl arddwriaeth D. Ddu, yn  
addas o ran ei syniadau, a'i chynghaneddion yn dlws ac  
yn ddifyrgar ; y dylif gan D. Ionawr, yn gyffrous ac yn  
nerthol ; anerchiad Gutyn Peris, yn effeithiol, ac yn  
esmwyth ; englynion henaint R. ab Gwilym Ddu, yn  
brofiadol ac yn ddwys ; marwnad Sir T. Picton, gan

Gwallter Mechain, yn gampus ; y mae yr ysbryd sydd yn rhedeg drwyddi yn dangos mawr wrthwynebiad i ryfeloedd a thywallt gwaed ; ac fod y fuddugoliaeth fwyaf yn ddrud iawn i'r enillwr ; a theimladau yr enillwyr yn gymysgedig iawn o lawenydd a galar ; molawd Ynys Prydain, gan Dewi Wyn, yn gyfoethog mewn darluniadau mawreddog ; anerchiad Dewi Wyn a R. ab Gwilym Ddu, gan Pedr Fardd yn synhwyrol, ac yn gelfydd ; hiraeth Cymro am ei wlad, gan Cawrdaf, yn siarad iaith natur ei hun ; y darluniad o hen gydymaith yn dyfod at ei fedd, mewn gwlad estronawl, yn ddamweiniol, braidd, yn fwy nag a all natur ei ddal ; gwledd Belsassar, gan I. Glan Geirionydd, yn benigamp ; dinystyr Jerusalem, gan Ebenezer Thomas, yn danllyd, ac awenyddol dros ben.

## AM Y PEDWAR MESUR AR UGAIN.

DOSBARTHIR y pedwar mesur ar ugain yn dair rhan ; sef, Englyn, Cywydd, ac Awdl.

## AM ENGLYNION.

DAU ryw englyn, neu ynglyn, sydd ; sef, englyn unodl, ac englyn proest ; y mae tri math o englynion unodl ; sef, unodl union, unodl cyrch, ac unodl crwca.

## 1. ENGLYN UNODL UNION.

Y MAE pedair llinell i fod mewn englyn unodl union ; y llinell gyntaf yn cynwys deg sill ; yr ail yn cynwys chwech ; a'r ddwy olaf yn cynwys saith bob un. Gelwir y ddwy linell gyntaf yn baladr ; trefn gosodiad y geiriau yn y paladr sy fel y canlyn ; sef, os cynghanedd sain a ddefnyddir gofelir am i'r *rhagwant* \* neu yr

\* Y mae bardd Nantglyn yn galw *Gwant* yn *Rhagwant*, a *Rhagwant* yn *Gwant* ; hyny ydyw, rhagwant y geilw ef yr orphwysfa gyntaf mewn llinell, a gwant y geilw efe yr ail ; dywed fel hyn,

“Gellir rhoddi gosodiad cyntaf y sain, sef, y rhagwant, y'mhob Toddaid o'r sill gyntaf i'r bedwaredd ; ond rhaid i'r ail osodiad, sef y gwant, fod bob amser yn y bumed sill.”—*Gwel tudal. 124 o'r Ieithadur.*

Dywed Iolo Morganwg fel y canlyn,

“Toddaid a wneir o gysswllt dwyfraich o'r *Gyhydedd wenn* mewn modd neillduol ; neu fann o'r *Gyhydedd wenn* ag un o'r *Draws* yn yr un modd ; a llymma'r ffordd y bydd y bannau ; y bann cyntaf a fydd o'r *Gyhydedd wenn*, fel hyn ; sef o bedair rhann. *Gwant*, *Rhagwant*, *Gobenydd*, a gair *Toddaid* ; rhaid bod y rhagwant yn wastad ar y

ail orphwysfa yn y llinell gyntaf, fod yn y bumed sill, fel hyn,

Gwlad milwyr arwyr | eirioes

Yna diwedd y gair *arwyr*, sef, *wyr* yw y rhagwant; rhifer y sillau, a cheir fod pum sill o ddiwedd *arwyr*, i ddechreu y llinell. Y gwant, neu, yr orphwysfa gyntaf yn y llinell, yw diwedd y gair *milwyr*, sef, *wyr*; gellir gosod y gwant, sef, yr orphwysfa gyntaf ar y sill a fyner o'r gyntaf i'r bedwaredd: traethir ar hyn yn mhellach: gwelir mai *oes* yw y brifodl yn y llinell uchod, ac y mae saith sill yw ei hyd, gan hynny rhaid i'r darn sydd i'w dilyn, sef, y gair cyrch fel y gelwir ef, fod yn dri sill; ac yna bydd yn ddeg sill, fel hyn,

Gwlad milwyr, arwyr eirioes,—gwlad doniau,  
Gwlad dynion gwareiddfoes,

y gair cyrch yw *gwlad doniau*, yr hwn sy'n cynghan- haneddu gyda'r *gwlad dynion* yn yr ail linell. Rhifer y sillau yn y llinell uchod, a cheir ei bod yn cynwys deg; a'r ail yn cynwys chwech: a diwedd yr ail linell yn cydodli a'r *oes* yn y llinell gyntaf. Dyna y paladr. Gelwir y ddwy linell ddiweddaf mewn englyn yn esgyll; cynhwysant saith sill bob un, ac y mae diwedd y ddwy i gydodli â diwedd y ddwy fraich, neu, linell yn y pal- adr fel hyn,

Boed iti rwydd lwydd heb loes  
Du ragfarn nac un drygfoes.

DANIEL DDU.

a gofaler am fod y gair diweddaf yn y llinell nesaf, neu y diweddaf oll yn yr englyn yn un sillafog. Y mae gan

bumed sill, a'r gwant yn unodl a'r rhagwant ar yr un a fynner o'r pedair sill cyntefigion."—*Gwel Cyfrinach y Beirdd, tudal. 95.*

A dywed y Dr. Owen Puw fel y canlyn;—

"Rhagwant, The advanced division, a term in prosody for the ac- cented part of the second pause of a verse of *Unawdl union*, or the fifth syllable, concatenating with a preceding sound."—*Gwel y Geiriadur dan y gair Rhagwant.* Tybiwyd yn rheidiol wneud y sylw hwn fel na byddo y bardd ieuanc mewn dyryswch.

y bardd ryddid i arfer yr un a fyn a'i gair unsill, neu ddausill, neu yn rhagor yn y gair prifodlawg yn y llinell gyntaf, ond rhaid i un o'r ddwy linell ddiweddaf feddu gair un sillafog yn y brifodl.

Y mae dau fath o gyrch yn perthyn i englyn unodl union ; sef, cyrch cynghanedd fel yr un uchod, neu gyrch awdl ; fel hyn,

Y dduwiol dorf a ddeuant—o'r ddaiar  
A llachar llewychant.

Yma y diwedd y gair *llachar*, sef, *ar* sydd yn cydodli a diwedd y gair *daiar* yn y gair cyrch : *daiar*, *llachar* ; ac y mae y cydseiniad, sef, yr *ll a'r ch*, yn y gair *llachar*, yn ateb i'r *ll a'r ch* yn y gair *llewychant*, megys y sylwyd o'r blaen ar natur y gynghanedd. Rhoddwn yn awr engraffau a'r gwant ar wahanol sillau ; dyma un a'r gwant ar y sill gyntaf oll, nodir y sill lle bo y gwant a'r rhagwant â llythyrenau Italaidd :

Englyn a'r gwant yn y sill gyntaf,

*Gwen* a rhywiog *lén* ragluniaeth,—nwyfiant  
O nefawl wybodaeth ;  
Dylif o ysbrydoliaeth  
Yw dawn a ffrwd awen ffraeth. G. JAMES.

Arall a'r gwant yn yr ail,

Och *loes!* och, eil-*loes*, och, alar,—durew !  
Och ! dori mor gynar,  
Ireiddwen gangen a'i gwâr  
Flodeuyn i fol daiar. BARDD NANTGLYN.

Arall a'r gwant yn y drydedd,

Mae meillion gwynion ugeiniau,—lliwdeg,  
Yn dilladu'r caeau ;  
A gwisgir, paentir pob pau,  
Fel Eden â heirdd flodau. DANIEL DDU.

Arall a'r gwant yn y bedwaredd,

Cefais ormod clod am ddwyn cledd,—ces wg,  
Ces wen byd, a'i fawredd,  
Gwel y fan, i fychan fedd,  
Y deuais yn y diwedd. GUTYN PERIS.



Gellir wedi cael y gwant a'r rhagwant yn rheolaidd, megys yn yr engraffau dywededig, orphen y llinell gyntaf o'r paladr, trwy ddodi o un hyd yn bedwar sill yn y gair cyrch; ond sylwer ni ddylai y llinell fod yn hwy na deg sill trwy y gwant, rhagwant, prifodl, a'r gair cyrch; dyma englyn a'r gair cyrch yn un sill,

Gwiw fwa trilliw i fyd drylliog,—rhoed  
Er hyder calonog:  
Na anghred a hwn y'ngghrog,  
Nid dylif nod tawelog. N.

Arall a'r gair cyrch yn ddau sill,

Hedydd yn brydydd bwriadawl—a gyrch,  
A gorchest bylgeiniawl,  
I weini'n bur awenawl,  
Cynar ei gerdd, cân i'r gwawl. IOLO MORGANWG.

Arall a'r gair cyrch yn dri sill,

Oer len ei farwol anedd—o'i ogyrch  
A egr ar ddiwedd;  
Daw'r afrifawl dorf ryfedd,  
Feirwon byd, i farn o'u bedd. R. AB G. DDU.

Arall a'r gair cyrch yn bedwar sill,

Briw, braw, brwyn! mawr gwyn gaeth!—bradwy, yn awr,  
Brydain wen, ysywaeth!  
Dros Gymru llen ddu a ddaeth;  
Anhuddwyd awenyddiaeth. GUTYN PERIS.

Gellir dechreu englyn unodl union gyda'r gynghanedd groes, neu'r gynghanedd draws, neu'r gynghanedd lusg os dewisir; ac ni raid gofalu am want na rhagwant yn y rhai hyn; ond os caniata y synwyr, disgyna yr orphwysfa yn ddigon esmwyth ar y bumed sill; megys,

Paradwys wemp, prid y son,—Eden deg,  
Yn dwyn dail a meillion  
O'i hamgylch ogyrch—eigion  
Y mor hallt yw muriau hon. DEWI WYN.

Arall yn dechreu â chynghanedd lusg, a'r orphwysfa yn y bumed sill,

Mae ynnddi brid neint godidog,—coedydd,  
Ac adar asgellog;  
Ardal eirian lle cân cog,  
A'r dinam gor adeiniog.

G. PADARN.

Arall heb yr orphwysfa yn y bumed sill,

Dacw ruthriad y chwyrn gadau,—a'u swm  
Yn dadseinio'r creigiau,  
A dynion gwylltion yn gwau  
Drwy bylor a dur belau!

G. CAWRDAF.

Gellir diweddu englyn â phob cynghanedd ond y gynghanedd lusg, ond nid mor gymeradwy yw cynghanedd sain yn ei diwedd, er nad ellir dyweyd dim yn ei herbyn, gyda golwg ar y rheolau; dywed un awdwr dysgedig, “W. Wyn a feiodd Oronwy Owain am ei fynych arferiad o'r cynghaneddion *sain* a *llusg* yn ei Gywydd y Farn; er, fe allai, eu bod yn fwy goddefol mewn Cywydd nac Ynglyn. Y Du o Fôn a ymddiheurodd yn erbyn y Gwyn, fod iddo ryddid i ddewis y cynghaneddion a fynai. Mae hyn yn deg. Ond os cyfansodda bardd i foddio rhywun heblaw ef ei hun, mae rhyddid i'r rhywun hwnw farnu pa gynghanedd sydd yn seinio yn fwyaf peraidd yn ei glust ef. I gloi Ynglyn dymunem ni gael cynghanedd *groes*. Barned pawb yn ol ei archwaeth.”

## II. ENGLYN UNODL CYRCH.

CYNHWYSA englyn unodl cyrch bedair braich, a chynhwysa'r breichiau saith sill bob un; y ddwy fraich gyntaf yn cyfodli fel esgyll englyn unodl union; ac y mae y drydedd linell yn odli yn wahanol gan gyrchu sill o ganol y bedwaredd linell i'w hatal, a chyfodla y bedwaredd linell â'r ddwy gyntaf o hono fel hyn,

Ow dyn, bryfyn brau, afiach,  
Yn dwyn ei bwn, adyn bach;

Rhag ei weled rhed yr haul,  
Wres araul, yn brysurach.

DEWI WYN.

Arall,

Ni char yr lôn, union wr,  
Enaid un anudonwr;  
Cyn hir, e lyncir i lyn,  
Y gelyn a'r gwrthgiliwr.

D. DDU, *Eryri*.

### III.—ENGLYN UNODL CRWCA.

CYNHWYSA englyn unodl crwca bedair braich, y ddwy gyntaf yn saith sill bob un, fel paladr unodl cyrch, a'r ddwy olaf yn doddaid o un sill ar bymtheg rhyngynt fel paladr unodl union; ond fod y gosodiad yn y llinell olaf i gydodli â'r gair cyrch hyny, yn nghyd a'i osodiad yn y gwrthwyneb yw'r rhagor sy rhyngo ag unodl union, fel hyn,

Gwyr enwog o wroniaid  
Yn hanu o Gymru gaid;  
Y dydd blin da oedd y blaid—o ddewrion  
A mawrion Omeriaid.

PEDR FARDD.

Deuryw englyn proest sydd, sef proest cyfnewidiog a phroest cadwynodl.

### IV.—AM BROEST CYFNEWIDIOG.

CYNHWYSA proest cyfnewidiog bedair braich, a chynhwysa pob braich saith sill, a rhaid fod yr un gydsain yn niwedd pob braich, os cydsain fydd diwedd y brifodl; ond y mae'r llafariad terfynol i'w newid yn yr amryw- iol odlau, fel hyn,

I Adda hil eiddil oll,  
Aeth yn etifeddiaeth fall;  
Hen Hunan a'i hamcan hyll,  
Trodd y pwynt i raddau pell.

GWYNDAF ERYRI.

Arall, a rhai o'i geiriau prifodlawg yn lliaws-sill, fel hyn,

Chwimwth rhed fy nychymyg;  
Mi a'i gwelaf i'm golwg;

Hwnt i'w hir daith, antur deg,  
Ar y môr i'r Amerig.

GUTYN PERIS.

Arall chweban, o Ramadeg Sion Rhydderch, ac ynddo gymeriad llythyrenol; cyfansoddir proest hefyd o saith ban, sef nifer y llafariaid,

Llawn yw'r tir lle llenwir llid,  
Llawn rhwysg beilch, llyna y rhod,  
Llawer rhai a lloriau'r hud,  
Llwau mawr a rhoi llym wad,  
Llwgr a broch hyll a gair brwd,  
Llwyra bai mor ddall yw'r byd.

EDMUND PRYS.

## V.—PROEST CADWYNODL.

CYNHWYSA proest cadwynodl yr un rhif o freichiau a phroest cyfnewidiog, sef, pedair; a'r un rhif o sillau, sef saith yn mhob braich; a'r gwahaniaeth sy rhyngynt yw, am fod y llinell gyntaf o'r cadwynodl yn cydodli â'r drydedd linell, a'r ail yn cydodli â'r ddiweddaf, fel hyn,

Plwm du yn ysgythru'r coed,—  
Y gwellt yn fathrfa mewn gwaed—  
Malu a baeddu pob oed,  
Yn ddarnau,—drylliau tan draed.

G. CAWRDAF.

Arall,

Byth tra bo na cho na cherdd,  
Nac un byw, nac Awen Bardd,  
Na dwr oer, na daiar werdd,  
Pery ei glod hynod hardd.

GWALLTER MECHAIN.

Arall, a'r gair diweddaf yn lliaws-sill,

Aeth i fyd gwynfyd y gwawl,  
A'i ysbryd mewn hyfryd hwyl;  
Medi mae yn myd y mawl,  
Ardderchog urdd ei orchwyl.

BARD D NANTGLYN.

Arall yn terfynu mewn amrywiol acen,

Daethym o'm gwlad fad, fro ferth,  
Yma i fyw mewn ammorth;  
Och orfod gwybod ei gwerth,  
Er niwaid i'm bron eorth.

G. PADARN.

Arall yn terfynu mewn llafariad,

Beirdd a bôn ffyddlon yn ffoi,  
Gan anheddwch, drwch di drai,  
Mîn y cledd awchlym yn cloi  
Grymusion, wrolion rai!

DEWI WYNN.

AM GYWYDDAU.

TRI rhyw fesur cywydd sydd, sef, Cywydd deuair,  
neu deufraich; Cywydd llosgyrnog; ac awdl gywydd.

Dau rhyw gywydd deuair sydd; sef, deuair byrion a  
deuair hirion.

VI.—AM GYWYDD DEUAIR BYRION.

CYNHWYSA deuair byrion ddwy fraich o bedair sill bob  
un, prifodl un yn lliaws-sill, a'r llall yn un sill, ac ni  
waeth pa un a rodder yn nghyntaf, fel hyn,

Treiswyr trawsion,  
I'n hiaith wen hon.

GRO. OWAIN.

Arall, o Ramadeg Sion Rhydderch,

Gair clod gwr clau  
Geirwir gorau.

D. S. Cysylltir deuair byrion â rhyw fesur arall  
weithiau, o herwydd ei fyrdra, a'i wendid wrtho ei hun,  
megys y canlynol, â thoddaid,

Gwaeledd gelyn  
Yw gwawd a gwŷn:  
A fyddai doeth fodd y dyn,—drwy wrthladd,  
A barai angladd i bêr englyn?

P. FARD.

Arall, wedi ei gysylltu â deuair hirion ac awdl  
gywydd.

Haelaf hwyliad  
O les i'w wlad  
Er dygiad tra diwygiol  
Ein gwlad rydd o ffydd Pab ffol  
I loywdawn, trwy fawr ludded  
A nodded gwyr rhinweddol.

GUTYN PERIS.

## VII.—AM GYWYDD DEUAIR HIRION.

CYNHWYSA deuaire hirion ddwy fraich, o saith sill bob un, prifodl un yn lliaws-sill, a'r llall yn un sill, a gellir rhoddi yr un a fynir o'r llinellau yn nghyntaf, sef, y lliaws-sill neu'r un sill, a'u newid bob yn ail fel yr elir yn mlaen, fel hyn,

Och! arch, erchwyn, grystyn gro,  
Cist hirnos, ceuaist arno.

SION LLEYN.

Arall,

Gwae! wired yw gair y doeth,  
Y daw gofid o gyfoeth.

DEWI WYN.

Ar y gwir mae rhagoriaeth,  
O'm lleddir am wir, ba waeth?

IEUAN TEW.

Arall,

Ni chydfydd awenydd wâr  
A dynion dybryd anwar.

GRO. OWAIN.

Y tir gwyllt mewn tor gellydd,  
Egin a ddwg yn ei ddydd.

IEUAN BRYDYDD HIR.

Arferir deuaire hirion yn fynych mewn barddoniaeth, oblegyd fod y fath felysder yn ei sain, a'r fath rywiogrwydd yn ei blethiad; gwneir weithiau gywydd o gryn feithdra yn terfynu ar yr un brifodl megys,

Tynu mae'r byd at anwir  
Enllibio a gwawdio Gwir;  
Troi wyneb at yr anwir  
Bradychu, a gwerthu Gwir.

ROBERT WILLIAMS, *Eifionydd*.

D.S. Er y cyfrifir ei fod yn gryn orchest plethu cywydd yn synhwyrol, a'r un gair yn terfynu pob llinell megys uchod, eto cywydd a newidiodd ei brifodl a gyfrifir felysaf megys,

Hedodld, ymgasglodd pob gwynt,  
Dywibiodd i'r deheu-bwynt,

I gyd weithredu'n llu llon  
 A'r gygus ferwawg eigion.  
 Byddinoedd Iôr o'r môr maith  
 Taranawg, ant ar unwaith:  
 Cymylau fyrddiynau dd'ant  
 Yn heidiau chwai ehedant  
 Ar wyllt wasgar gyda'r gwynt  
 A'i adenydd chwynn danynt:  
 Duon oedd ei edyn ef  
 Yn llenwi yr holl wiwnef.

DAFYDD IONAWR.

## VIII.—AM GYWYDD LLOSGYRNOG.

CYNHWYSA cywydd llosgyrnog ddwy fraich, neu bedair,  
 os mynir, o wyth sill bob un, a braich o losgwrn o saith  
 sill yn nglyn ag ef, trwy i'w ganol fod yn cydodli â  
 phrifodl y breichiau blaenorol, a'i ddiwedd yn terfynu ar  
 odl wahanol; fel hyn,

Duw goreudeg a waredodd  
 Ei dda weision a ddewisodd;  
 E rwygodd y mawr eigion.

GWYNDODYN.

Gellir cysylltu dau o'r rhai'n yn nghyd, ac arferir weith-  
 iau awdl gywydd yn gysylltedig ag ef, megys,

Ond ei rinwedd, iawn dirionwch,  
 I ni rhoddodd Iôn yr heddwch,  
 O'i dadolwch da diiys;  
 Ar lwydd ei ras rhwydd rhoes râl  
 Ddiwalliad ei dda 'wyllys.

BARDD NANTGLYN.

Arall gyda thoddaid,

Pur y noddodd bob rhinweddau,  
 A chyhuddodd ddrwg fucheddau,  
 Yn ei deithiau bendithiol;—  
 Er neb ni throai yn ol;—llafuriai,  
 Treuliai a feddai yn ufuddol.

GUTYN PERIS.

## IX.—AM AWDL GYWYDD.

Y MAE mewn awdl gywydd ddwy fraich yn cynwys saith  
 sill bob un, ac y mae yr orphwysfa yn yr ail fraich yn  
 cydodli â'r brifodl yn y gyntaf, pa un bynag ai un sill ai  
 ychwaneg fyddo y gair prifodlawg, megys,

Dygn adwyth digwyn ydoedd,  
Tros oesoedd tra y Saeson.

G. OWAIN.

Arall a'r gair prifodlawg yn un sill,

Mewn cerdd lanwaith, berffaith bydd  
Awdl gywydd odlig awen.

P. FARDD.

Gellir cysylltu dau o'r rhai'n yn nghyd, neu ei gysylltu  
â rhyw fesur arall fel y byddo yn fwyaf cyfleus.

## AM AWDLAU.

DYWED y Cadben W. Middleton am awdl fel y canlyn ;  
“ Awdl yw caniad o amryw fesurau, yn ol arfer sathredig ; eithr wrth gerdd y tri phrif-fardd, a dull Cyn-ddelw, ac arfer holl ieithoedd Europa, ni ddylai onid un mesur fod yn yr un caniad ; a pha fesur y dechreuer, cynal hwnw drwy yr awdl, pe gorchest y beirdd fyddai : ac os hir fyddai'r caniad mae'n rhydd newid y brifodl. Wyth mesur awdl y sydd ; cyhydedd, toddaid, gwawd ; odyn, hupynt, cadwyn fesur, cyrch a chwta, clogyrnach, a gorchest y beirdd.”

Y mae newidiad wedi cymeryd lle yn hyn ; oblegyd defnyddir y pedwar mesur ar ugain mewn awdl, gan amryw o'r prif-feirdd ; ac awdl y gelwir cyfansoddiad a gynhwysa lawer llai na phedwar ar ugain o'r mesurau.

## X.—AM DODDAID.

CYNHWYSA toddaid ar ei ben ei hun ddwy fraich, y gyntaf yn ddeg sill fel unodl union ; a'r ail yn naw sill, a'r orphwysfa, yr hon, dymunol fyddai ei chael ar y bumed sill, yn cydodli a'r gair cyrch fel hyn,

Praw y seren, prysura !—gwel Gomer ;  
Tad yw a philer tud hoff Walia.

P. FARDD.

Dau yn nghyd fel hyn,

Ceir i'w adrodd fel 'rwy'n crwydro—daiar,  
Yn war heb gymar i ymgomio :



Mae'm iaith deg eilwaith ar gilio—yn lân  
Draw i ddiynan diroedd ango!

I. G. GEIRIONYDD.

Cysylltir y mesur lwn ag un arall weithiau, megys, yr  
un a ganlyn â deuair hirion.

Per awdl wen hyawdl o'n hiaith  
A gorona gywreinwaith :

Ei seiniau gwiw sy enwog waith,---os rhydd  
Synwyr, awenydd sain ar unwaith.

P. FARD.

#### XI.—AM FYR A THODDAID.

CYNHWYSA byr a thoddaid wyth braich, y ddwy gyntaf  
fel paladr unodl union ; yn un sill ar bymtheg rhyng-  
ynt, a phedair braich yn ddilynol o wyth sill bob un  
yn cydodli â'r rhai cyntaf, a thoddaid o un sill ar bym-  
theg yn nglyn wrth hyny, ar yr un brifodl ; fel hyn,

Torwyd, datodwyd tidau—gwyr Affrig  
Er hoffrwydd i'w breintiau,  
Acw, dyned fu'r cadwynau!  
Elwa dynion ail eidionau!  
Ni bu cyllyll neu bicellau  
Yn darwain noethach driniaethau ;  
STOR fu rydd rwygydd yr iau,—dadglymodd,  
Llwyddodd ei allweddau.

BARDD NANTGLYN.

#### XII.—AM HIR A THODDAID.

CYNHWYSA hir a thoddaid chwe braich ; pedair o  
honynt yn ddeg sill bob un, a thoddaid o ugain sill yn  
nglyn â hwynt, ac yn cydodli ; fel hyn,

Mae paganiaid yn mhob pau i gwyno,  
Mae digou o wahoddion o'u heiddo ;  
Hen Edom enwag hi yn dymuno,  
Hir bu anialwch Arabia'n wyllo  
O! cychwynwch ceuch yno—eich cyfarch  
Ar benau hybarch Horeb a Nebo.

DEWI WYN.

Arall,

Rhyw olwg hagr yw gwel'd mam a'i dagrau,  
Hyd ddwyrudd lwydion, wynion ddefuynau,

Ei baban tirion, a'i weinïon enau  
 Yn bur anwyl yn sugno'i bronau,  
 A'i dillad yn rhwyg dyllau,—ar dwmp grug  
 Gwael, a barug, yn disgwyl y borau. G. CAWRDAF.

A'r cymeriad llythyrenol ynddo,

Poenau a gofid ein Pen a gafodd,  
 Poen a du lafur, pan y dolefodd,  
 Poen a loesau mawrion, pan lesmeiriodd,  
 Poen i'w gorff anwyl, pan y gorphenodd,  
 Poenau arteithiau a'i todd,—a diau,  
 Poenwyd yr aŅgau ei hun pan drengodd.  
 R. AB GWILYM DDU.

XIII.—AM WAWDODYN BYR.

CYNHWYSA gwawdodyn byr bedair braich, dwy o honynt  
 yn naw sill bob un, a thoddaid o bedair sill ar bymtheg  
 yn nglŷn wrthynt, ac oll yn cydodli ; fel hyn,

Awel dyner fy hen wlad anwyl  
 A oedai ddyddiau, oriau f' arwyl ;  
 O ! brysia enwog breswyl —i'r meddiant  
 Cu y dynesiant—mîn cadw noswyl.  
 I. GLAN GEIRIONYDD.

Arall,

Parhaol wrthrin blin, heb lonydd,  
 Rhwng y ddwy gwiwdawd, difrawd efrydd !  
 Ys dir, gwisgasai Derwydd—ryw gudded,  
 Rhag eu gweled yn rhwygo'u gilydd ! GUTYN PERIS.

XIV.—AM WAWDODYN HIR.

CYNIWYSA gwawdodyn hir chwe braich, pedair o hon-  
 ynt yn naw sill bob un, a'r ddwy ereill sef y toddaid yn  
 bedair sill ar bymtheg, fel toddaid gwawdodyn byr, fel  
 hyn,

Er mawr lesiant o'r amryw lysiau,  
 Dyn diwybod sy'n dwyn ei dybiau  
 I Dduw osod rhai yn ddieisiau ;  
 Barnu yn aflesol, radol reidiau,  
 Aml ddail fel y mêl ddiliau —ddibrisir,  
 Y rhai ni wyddir eu rhinweddau. GUTYN PERIS.

Arall,

Cawn i'w yfed y cynhauaf-win  
 Eto o gerdded at ei gorddin,  
 Hafal i'r grisial yw'r gaer iesin,  
 Rhyfedd fawr anedd y nef Frenin ;  
 Mawl Iesu yw'r melyswin—pur wleddau  
 Nid arlwyadau dirol Odin. D. DDU, *Eryri*.

XV.—AM HUPYNT BYR.

CYNHWYSA hupynt byr ddwy fraich, y gyntaf yn bed-  
 air sill, a'r ail yn wyth sill, ar y gyhydedd draws, a  
 chydodla y bedwaredd sill o'r ail fraich â'r fraich gyntaf,  
 ac y mae ei ddiwedd ar odl wahanol fel hyn,

Yn ein cerddi  
 Gwallus ini gollu synwyr. P. FARDD.

Awdl o ddau yn nghyd,

Dy ddiddanwch  
 A'th ddifyrwch, waethaf fwriad,  
 Yw eu clwyfo  
 A'u dolurio, dial irad. DANIEL DDU.

XVI.—HUPYNT HIR.

CYNHWYSA hupynt hir dair braich, y ddwy gyntaf yn  
 bedair sill, a'r ddiweddaf yn wyth sill, ac yn cydodli fel  
 hupynt byr ; fel hyn,

Pob graddolion,  
 Dan eirf gloewon,  
 Is llywyddion, weis llueddawg.

Ac yn atebol iddo,

Pob cerddorion,  
 A'u llais mwynion,  
 Oll ymuno'n gorff lhumanawg. DEWI WYN.

Arall,

Ysgrifenydd,  
 Myg areithydd,  
 Deg areilydd, di gwerylon :  
 Hynafeithydd,  
 A chyfeithydd,  
 Iawn gyweirydd, enwawg wron. GWYNDAF.

## XVII.—AM GLOGYRNACH.

CYNHWYSA clogyrnach bum braich, y ddwy gyntaf yn wyth sill bob un, ac yn cydodli; a'r ddwy nesaf, yn bum sill bob un, ac yn odli yn wahanol; a'r olaf o chwe sill, a'i chanol yn cydodli a'r ddwy fraich nesaf ati, a'r diwedd yn cydodli â'r breichiau cyntaf, fel hyn,

Ni chair hylwydd wych reolaeth,  
Na gwiw syniad un gwasanaeth;  
Gafael na gofeg  
Mewn dim yma'n deg,  
Heb wiwdeg wybodaeth.

GUTYN PERIS.

Arall o Ramadeg Sion Rhydderch,

I'w thai eleni waith haelionedd,  
Aml yw lluniaeth mal y llynedd,  
I gaer ragorawl  
Ac arfaeth gwirfawl  
Amodawl ymadwedd.

S. FYCHAN.

## XVIII.—AM GYRCH A CHWTA.

CYNHWYSA cyrch a chwta wyth braich, o saith sill bob un, a'r chwe braich gyntaf yn cydodli; ac odl y seithfed yn wahanol, ac yn cydodli a'r orphwysfa yn y fraich olaf fel awdl gywydd, a diwedd yr olaf yn cydodli a'r rhai cyntaf, fel hyn,

Y gwyr doeth gywir deithi,  
Yn nghanol gwae, yn nghyni,  
Derbynient, rhag dirboeni  
Gyfodiad o'r gofidi:  
Duw a rydd ar daer weddi,  
Adnewyddiad i'w noddi;  
F' arwain y rhai'n i wir heddi,  
At rinwedd, o'u trueni.

D. DDU, *Eryri*.

Arall yn odli ar acen wahanol; fel hyn,

Neud heb wagedd, tebygu  
Mae ein Seren gymen gu  
I'r un hygar, wen, wiwgu  
A'i threm ar Fethl'em a fu;

At y preseb wynebu  
Wnai o bell dywell nos du:  
Yr un modd mewn llwyrfodd llon  
Tywysed hon at Iesu.

P. FARDL.

## XIX.—AM GYHYDEDD FER.

CYNHWYSA cyhydedd fer bedair braich, o wyth sill  
bob un, ac yn cydodli; fel hyn,

Aed, wâr enaid, aed, wr union,  
Aed ragorwalch diwair, gwirion,  
I fro Iesu fry a'i weision;  
I'r gain gaerau a gwen goron.

GRO. OWAIN.

## XX.—AM GYHYDEDD HIR.

CYNHWYSA cyhydedd hir dâir braich, y ddwy gyntaf  
yn bum sill bob un, ac yn cydodli; a'r drydedd fraich  
yn naw sill, a'r bumed sill o honi yn cydodli â'r lleill,  
a'i diwedd yn terfynu ar odl wahanol; fel hyn,

Er astrus rwystrau,  
Dyrus flinderau,  
Gwrthwynebiadau, gwarth enbydus,

Ac yn atebol iddi, fel hyn,

Digas eu dygwyd,  
Dilyth eu daliwyd,  
Iawn eu harweiniwyd yn orhoenus.

GWYNDAF.

## XXI.—AM GYHYDEDD NAW BAN.

CYNHWYSA cyhydedd nawbân bedair braich o naw  
sill bob un, ac oll yn cydodli; fel hyn,

Lle bu gwenwyn a hyll baganiaeth,  
I bawb oddef o dan babyddiaeth,  
Llaw goleuni yn lle gelyniaeth  
Dirymai'r chwil-lys, drom orchwyliaeth. D. DDU, *Eryri*.

Arall o chwe braich, fel hyn,

Yn awr y cwynaf, na wyr canoedd  
Mwy na'r 'nifail am Ner y nefoedd:  
Areithio molawd, wrth y miloedd,  
I *Huan* a *Lloer* wna llaweroedd;  
Rhoi addoliant i ryw eiddiloedd  
Na roe wybodawl er y bydoedd.

GUTYN PERIS.

## XXII.—AM ORCHEST Y BEIRDD.

CYNHWYSA gorchest y beirdd dair braich, y ddwy gyntaf yn bedair sill bob un, ac yn odli wyneb a gwrthwyneb; a'r fraich ddiweddaf yn saith sill, a'r bedwaredd sill o honi yn cydodli a'r lleill; ac wedi ei phlethu yr un fath; a bydd diwedd y fraich hon yn odli yn wahanol; fel hyn,

Iach lwydd, wech wlad  
Hylwydd hwyliad,  
O'i rwydd wiw rad rydd yr Ion. P. FARDD.

Gan fod y fath gaethiwed a chyfyngdra yn y mesur hwn wrtho ei hun, fe'i cysylltir yn gyffredin â rhyw fesur arall, megys yr hwn a ganlyn â chyhydedd hir,

Mwynhad mewn hedd  
O wlad y wledd  
Wiw fad a fedd i fod fyth.  
Unodd ei enaid  
Fwyn gerdd ber ddi baid,  
A dirfawr ddeliaid y fro ddilyth. GUTYN PERIS.

## XXIII.—AM GADWYN FER.

CYNHWYSA cadwyn fêr bedair baich, o wyth sill bob un, ac y maent yn cydodli bob yn ail braich, a phob braich yn cynghaneddu bob pedair sill, a rhaid i'r bedwaredd sill o'r drydedd fraich gydodli â'r bedwaredd sill o'r fraich gyntaf, a'r bedwaredd sill o'r fraich olaf gydodli â'r bedwaredd sill o'r ail fel hyn,

Gwypm odiaethol gamp y doethion,  
A'r hynawsion wyr hen, oesol,  
Gwau naturiol i gantorion  
O hil Brython hylwybr, ethol. GRO. OWAIN.

Arall,

Iach y glaniodd uwch gelyniaeth  
O dir alaeth daiarolion,  
Hylaw diriodd i wladwriaeth  
Yr uwchafiaeth wir a chyfion. GUTYN PERIS.

## XXIV.—AM DAWDDGYRCH CADWYNOG.

CYNHWYSA tawddgyrch cadwynog wyth braich o wyth sill bob un ; y pedair braich gyntaf fel cadwyn fèr a'r pedair diweddaf fel hupynt hir, a rhaid i'r bedwaredd sill o'r bumed fraich fod o'r un odl a'r bedwaredd sill o'r bedwaredd fraich ; fel y cysyllter y ddau ddarn yn nghyd ; a rhaid i'r sill ddiweddaf o'r chweched fraich gydodli â'r ddiweddaf o'r bedwaredd, fel hyn,

Sain ddireswm sy'n ddyrswch ;  
 Gwn y gwyliwch ganau gwaelion :  
 Iaith a chwlwm eitha' chwiliwch ;  
 O wyr ! ceisiwch eiriau cyson.  
 Synwyr, cofiwch, yw'r prif harddwch ;  
 A dymunwch wawdiau mwynion.  
 Byth nac ofnwch ddiystyrwch,  
 I'r byd cenwch, er bod cwynion.

P. FARDD.

Yma y terfyna y pedwar mesur ar ugain cerdd dafod, mal yr arferir hwynt yn Ngogledd Cymru. Nid ydyw yr awdwr yn bwriadu cynyg codi un math o ddadl, sef, pa un ai Llawdden, ai D. ab Edmwnt a ddiwygiodd y cynganeddion ; pa un a ddylid arfer pedwar ar ugain o fesurau, ynte mwy, neu lai, fyddai fwyaf priodol ; ond yn unig dymuna gael rhyddid i ddywedyd ei olygiadau ei hun yn bersonawl ar y mesurau hyn. Nid ydyw efe heb wybod fod llawer o ymlyniad mewn amryw o'r beirdd wrth hen ddulliau a arferid gan ein hynafiaid ; ond paham y meddylir nad oes angen diwygio pethau yn y gelfyddyd farddonawl yn gystal ag mewn rhyw gelfyddydau ereill ? a paham yr ydym ni yn rhwym, yn y 19 ganrif i gadw yn gaeth at ddull ein hynafiaid, mwy nag y mae cenhedloedd ereill yn gwneud hyny ? Pa beth oedd yr iaith Saesonaeg drichan mlynedd yn ol, i'r peth yw hi yn awr ? Pa beth oedd ei barddoniaeth y pryd hwnw mewn cymhariaeth i'r peth y daeth yn nyddiau Milton, Thomson, Young, Pope, Watts, ac ereill ? Pa beth oedd astronomyddiaeth cyn dyddiau

Newton? Gwel pob dyn diduedd fod cyfnewidiadau dirfawr, er gwell, wedi dygwydd yn yr holl bethau a nodwyd, a pha fodd nad ellir cyfnewid pethau er gwell yn ein mesurau barddonawl ninau? Paham y dysgwylir i ni, sydd wedi eingeni yn oes y Rhyddid, fod tan rwybau llyffetheiriol, y canrifoedd tywyll? Paham y rhaid i ni foddloni i garcharwisg y *deuair fyrion*, yr *unodl crwca*, y *cyrch a chwta*, *clogyrnach*, y *gyhydedd hir*, *gorchest y beirdd*, *cadwyn fer*, a *thawddgyrch cadwynog*, &c.? Paham y rhaid i ni ddilyn y *cymeriadau*, a chaethiwed llawer o'r cynghaneddion? Paham y rhaid i hyd y gyhydedd derfynu yn ddeg sill mwy nag yn ddeuddeg? Paham na fyddai englyn o fanau wythsill, yn annibynol ar y gair cyrch, mor gymeradwy a'r englyn banau saith? Paham na fyddai cywydd banau wythsill mor gymeradwy ag yw yr un presenol? Gwell fyddai penodi ar ddeuddeg mesur a fyddai yn deilwng, na chael pedwar ar ugain a chant o fesurau na fyddent yn deilwng, ond o oes farbaraidd. Y mae y Cymry wedi myned yn gaethion o'u bodd, ac y maent wedi aros yn y caethiwed; ond ymddengys wrth agweddiad llawer o'n beirdd ieuainc enwog sydd yn codi, y rhai nad ydyw o un pwys yn eu golwg pa un a gant eu cyfrif *yn feirdd wrth fRAINT a defod beirdd ynys Prydain* ai peidio, eu bod hwy yn penderfynu arferu eu rhyddid gyda golwg ar y mesurau: anaml y gwelwn neb o honynt yn ymrwymo i gyfansoddi ar y pedwar mesur ar ugain; ac ni chlywir neb yn bleidgar, i'r cwbl o'r mesurau, yn awr, oddigerth hurtiaid na adwaenant brydferthwch barddoniaeth; ac na foddlonir hwy â dim ond swm cydseiniaid yn ymfrwydro. Ychydig o'r llwyth hwn a geir yn Nghymru yn bresenol, wrth a welid ychydig o flynyddoedd yn ol. Yr hyn a wnai llawer o'r hen brydyddion gynt, wedi gwrandaw o honynt ar adroddiad, neu ddarlleniad englyn, oedd cyfrif ei sillau, a chwilio y gynghanedd, ac os byddai y rhai'n yn ddifai, caent foddlonrwydd perffaith yn y gwaith; anaml y clywid neb o honynt yn galw un



meddylddrych i gyfrif, gan ei gymeradwyo, na'i gollfarnu; gadawent i'r rhai'n fyned heibio yn ddisylw; ond yr oedd cywreinrwydd y gynghanedd, cleciadau y cydseiniaid, a chaethder llawer o'r mesurau yn rhoi gwledd iddynt. Ni fuasai yn ormod ganddynt dreulio noswaith gyfan i son am y pethau rhyfeddol hyn gyda'u cyfeillion: nid beio yr hen bobl yr ydys am fod yn fanwl yn hyn; ond synu yr ydys eu bod hwy mor hawddeu boddloni; a bod y wisg farddonawl yn gwneud y tro yn eu golwg heb enaid na chorff yn y gwaith. Yr oedd rhai gynt yn cymeryd eu rhyddid, ac yn tori y rheolau pan weinyddai hyny ryw gyfleusdra iddynt; nid oedd hyn yn deg, oblegyd os ydyw y rheolau caethion i gael eu goddef, yn rheolau barddoniaeth gymreig, dylid eu cadw hyd y byddo modd; gwell fyddai dileu y mesurau mwyaf barbaraid, a'r cynghaneddion mwyaf diles, neu eu gadael yn hollol, na chyfansoddi yn fon-gleraidd ac yn afreolaidd arnynt.

Yr oedd genym ddosbarth arall yn Nghymru o feirdd gwahanol i hyn, y rhai a allent farnu priodoldeb, neu amhriodoldeb meddylddrychau, ac ni ollyngent ddim oddi dan eu dwylaw heb ei fod yn deilwng o'r enw barddoniaeth. Nid ydyw yr awdwr wedi anturio ar y tir hwn, sef, gwrthwynebu nifer o'r pedwar mesur ar ugain, heb fod wedi ymgynghori ag amryw o brif-feirdd Tywysogaeth Cymru, yn nghylch y mater; y rhai oll, heb eithrad, a ddygasant eu tystiolaeth yn erbyn y mesurau a ddynodwyd: ond dymuna efe gael ei ddyall yn eglur nad oes ynddo un tuedd i gael dileu y gynghanedd pe byddai hyny yn ddichonadwy; ond yn unig dymuna am gael gwaith teilwng ar y gynghanedd, os byddir yn ei defnyddio, neu ei gadael yn llonydd yn gwbl oll; oblegyd, mewn gwirionedd, y mae llawer o'r darnau *dynwarded* barddoniaeth gynghaneddol a geir yn ein cyhoeddiadau misol o bryd i bryd, yn ddigon i fagu casineb yn meddwl pob dyn synhwyrol yn erbyn barddoniaeth, gan beri iddo feddwl mai sothach yw y cwbl a gynhygir i sylw y byd.

## EMYNAU.

Y CANEUON rhydd mwyaf cyffredin yn bresenol yn mysg y Cymry, yw emynau; ychydig a gyfansoddir o gerddi gan neb sydd yn alluog i wneud hynny; y mae yn wir fod ambell "gan ffyliaid" (Preg vii. 5), i'w chlywed ar hyd ein heolydd: a ffyliaid i'w gweled yn eu gwrandio; a ffyliaid yn eu prynu; yr hyn a ddengys iselder golygiadau amryw o'r Cymry ar farddoniaeth; a'u hanwybodaeth am yr hyn sy'n deilwng o'r enw. Cyfansoddiad caneuon anfoesol, ffol, ac annheilwng, yn nghyd a drwg fuchedd ac annuwioldeb rhai a ystyrid, gan y werinos, yn brydyddion, a fu yn achos yn ddi-ameu, i ddarostwng cymaint ar y ddawn santaidd yn ngolwg y byd. Dawn y cysegr yw y ddawn farddonawl, ac at wasanaeth dwyfol, rhinweddol, a moesol y dylid ei chyflwyno. Y mae hon wedi ei chynnal yn yr eglwys drwy yr oesau; fe sonir fod Iachawdwr y byd gyda'i ddysgyblion pan y canwyd hymn, ar ol swperu, cyn gwynebu ar yr ystorm fawr (Math. xxvi. 30). Yr oedd Paul yn cynghori yr eglwysi i addysgu a rhybuddio eu gilydd "Mewn salmau, hymnau, ac odlau ysbrydol (Col. iii. 16); a "Chanu a phyncio yn eu calonau i'r Arglwydd" (Eph. v. 19). Yr hyn a ddengys y dylai defnydd yr emynau, neu y salmau, fod yn ysbrydol, ac nid yn gnawdol, ac yn isel, fel y mae gormod o bethau a gyfansoddwyd dan enw emynau, gan ddynion anwybodus yn mhethau Duw. Y mae y ffiloreg (*stuff*) mwyaf anwedus a chyfeiliornus wedi bod yn cael ei ganu mewn cynulleidfaoedd lawer gwaith.

Dynion anwybodus yn cyfansoddi; dynion anwybodus yn rhoddi y cyfryw gyfansoddiadau allan; a dynion anwybodus yn eu canu. Y mae llawer o dro i dro, wedi cymeryd arnynt y gorchwyl o ddethol emynau o waith amryw awduron, a'r rhai hynny heb wybod dim eu hunain am farddoniaeth; a pha beth amgen yw hyn na'r dall yn tywys y dall. Nid ydyw fod dyn yn dduwinydd da, ac yn enwog mewn pethau ereill, yn ddigon i'w drwyddedu i ddethol emynau; os bydd yn anwybodus am farddoniaeth; megys yr oedd amryw a dorasant y gwaith hwn iddynt eu hunain; y gwir yw, ni chymerodd yr un o'n prif-feirdd y gorchwyl hwn arno; gan hynny, nid rhyfedd fod y gwaith wedi cael ei gyflawni mor salw lawer tro. Bai mawr llawer o'n hymnau yw iselder ac annhriodoldeb syniadau; anystwythder a chlogyrnwch; iaith fratiog a gwael; nid ydys yn golygu fod cymaint o angen am gynghaneddion cryfion a digoll mewn emynau; ond gweddus i'r prifodlau fod yn gywir o ran sain, neu beidio son am danynt; pa beth sydd hacrach na murnaw (*murder*) yr iaith drwy ysgrifenu *llo'r* am lloer; *o'r* am oer; *po'n* am poen; *gwa'd* am gwaed; *tra'd* am traed, a myrdd o'r cyffelyb? Gwell fyddai cyfansoddi emyn heb un cynhygiad am sain, nac odl, o'i mewn, nag anafu llygad y darllenydd â'r fath wrthuni. Hefyd y mae llawer o gyfansoddwyr emynau yn ddiotal dros ben gyda'r aceniaeth; ac felly yn cyfansoddi pethau nad oes fodd, o'r braidd, i neb eu darllen, na'u canu, ar eu hol. Y mae y mesurau y cyfansoddir emynau arnynt mor luosog, fel na ddeuir i ben yma, a'u nodi bob yn un; ond dodir rhyw nifer o'r rhai mwyaf hysbys ger bron y darllenydd. Dechreuwn gyda'r mesur 8 a 6, fel y gelwir ef:—

Mae dyddiau gruddfan imi'n hir,  
 Caethiwed Babel fawr;  
 O, na chawn deimlo'r Jubil fwyn,  
 Yn agor dorau'r wawr!

Cynwys y llinell gyntaf o'r penill uchod wyth sill; a'r ail chwe sill; ac y mae yr acen yn disgyn yn naturiol

ar y sillau canlynol;—sef, y sillau sydd wedi eu doddi  
mewn llythyrenau Italaidd,

*Mae dydd—iau grudd—fan i-mi'n hir,  
Caeth-iw-ed Ba-bel fawr;—*

byddai yr aceniad a'r darlleniad yn wahanol iawn pe  
dodid y llinell fel y canlyn, er na byddai ynnddi ond yr  
un nifer o sillau, ac er y byddai y brifodl yn terfynu  
mewn un sill fel o'r blaen;

*Mae am-ser-au grudd-fan-u'n hir :*

heb ei hacenu yn y dull uchod darllenai fel hyn,

*Mae amserau gruddfanu'n hir ;*

ac yna ni feddylai neb ei bod wedi ei bwriadu yn  
linell farddonawl; a gellid cysylltu y llall â hi fel y  
canlyn :

*Mae amserau gruddfanu'n hir  
Y caethiwed trwm mawr.*

*Y caeth-iw-ed trwm mawr.*

Hyderir y gwasanaetha yr eglurhad uchod gyda llin-  
ellau ereill, fel na byddo angen ond yn unig ddodi y  
llythyrenau *Italaidd* er dangos y gwahaniaeth: ond i'r  
darllenydd sylwi, gwel fod yr acenion i fod ar yr ail sill  
yn y llinellau cyntaf, sef, *dydd* yr hwn sydd ran o  
*dydd-iau*; a bob yn ail sill i ddiwedd y llinell, sef, ar  
*grudd, i, a hir.*

*Mae'r gwaed a redodd ar y groes,  
O oes i oes i'w gofio ;  
Rhy fyr, fydd tragwyddoldeb llawn,  
I ddyweyd yn iawn am dano.*

**Mae'r acenion ar y penill hwn fel y canlyn:**

*Mae'r gwaed a red-odd ar y groes  
O oes i oes i'w gof-io  
Rhy fyr fydd tra-gwydd-ol-deb llawn  
I ddyweyd yn iawn am dan-o.*

**Wele yn canlyn linellau o'r un hyd a'r gyntaf a'r**

drydedd o'r penill uchod; ond y mae yr acen yn ddrwg dros ben ynddynt :

Yr holl nefoedd yn dra hysbys:  
Neu fel un o adar y to:

Os dodir yr acenion ar y sillau priodol, darllenir hwy fel hyn:

Yr *holl nef-oedd yn dra hys-bys:*  
Neu *fel un o ad-ar y to:*

Yr holl nefoedd yn dra hysbys,  
A ddengys ei gyfiawnedd.

Neu fel un o adar y to  
A fai yn gwylio'i fywyd.

Gydag ychydig o wellâd gallesid eu cael yn fwy llithrig, fel y canlyn:

Yr *holl nef fawr, y ffordd i'w lys,*  
A ddengys ei gyfiawnedd:

Buasai hyn yn cyfnewid ychydig ar y synwyr, y mae yn ddiau; ond buasai yn llawer mwy ystwyth.

Yr *wyf fi fel ad-er-yn to*  
A fai yn gwylio'i fywyd.

Y nesaf y sylwn arno yw yr wyth ac wyth; sef penill yn cynwys pedair llinell, o wyth sill bob un:

*Myfyr-io am y nef-ol fro*  
*Sy'n dwyn dy-ddan-wch law-er tro;*  
*Beth am bob mun-ud o fwyn-had*  
*Yn oes-oedd mewn tra-gwydd-ol wlad?*

Nid ydyw yr acenion yn gywir yn y llinellau canlynol:

“Henffych i enw'r Iesu gwiw  
Syrthied o'i flaen angylion Duw.”

Dyma fel y derllyn wedi ei acenu yn rheolaidd,

*Hen-ffych i enw'r Iesu gwiw*  
*Syrth-ied o'i flaen angylion Duw.*  
*Ply-gwch yn isel wrth ei draed;*

oblegyd dylai yr acen fod ar *ffych, ied, ac wch*, ond byddai y darlleniad yn glogyrnaidd iawn felly.

Y nesaf a grybwyllwn yw y naw ac wyth; sef, penill wyth llinell o naw sill ac wyth sill bob yn ail, fel hyn,

Yn *Si-on* mae *cyf-raith* ra-*gor-ol*  
Gan *Dduw* yno'n *rhe-ol* fe'i *rhoed*,  
Un *wedd-us*, *dda-ion-us* i *ddyn-ion*,  
Ni *fu* deddf mor *un-ion* er-*ioed* ;  
Dim *mwy*, na dim *llai* na *chyf-iawn-der*  
Ni *of-yn* ni *chym-er* y-*chwuith* ;  
Heb *fod* gyda'r *Ies-u* mewn *un-deb*  
Ni *dder-byn* ein *gwyn-eb* na'n *gwaith*.

Yn nesaf crybwyllwn am y mesur saith a chwech, sef, saith sill yn y llinell gyntaf, a chwech yn yr ail, fel hyn :

Ang-*yl-ion* *doent* yn *gys-on*  
Ri-*fed-i* *gw lith* y *wawr*,  
Rhoent *eu* cor-*on-au* *eur-aid*d  
O *flaen* y *fainc* i *lawr* ;  
Dad-*sein-ient* a'u tel-*yn-au*,  
Yn *nghyd* a'r *saint* yn *un*,  
Byth, *byth* ni *chan-ant* *ddig-on*,  
Am *Dduw-dod* yn y *dyn*.

Yn nesaf crybwyllwn am y mesur wyth a saith, sef, wyth sill yn y llinell gyntaf, a saith yn yr ail, &c. megys,

“ O *llef-ar-a* *add-fwyn* *Ies-u*  
*Mae* dy *eir-iau* *fel* y *gwin*,  
*Oli* o'm *mewn* yn *dwyn* *tang-nef-edd*,  
*Ag* sydd o *an-feid-rol* *rin* ;  
*Mae* holl *leis-iau*'r *gre-ad-ig-aeth*,  
*Holl* *dden-iad-au* *cnawd* a *byd*,  
*Wrth* dy *lais* *hyf-ryd-af* *taw-el*,  
*Yn* *dys-tew-i*,—*ant* yn *fud*.”

*Mae dyddiau* *gruddfan* i mi'n *hir*.

Y mae yr acenion ar yr ail sill, y bedwerydd, y chweched a'r wythfed yn hon.

Y mae ar yr un sillau yn y llinellau hyn hefyd :

*Mae'r* *gwaed* a *redodd* ar y *groes* :  
*Mysfyrto* am y *nefol* *fro* :

a chan mai fel yna y mae i ddisgyn, dyna yr achos fod  
y llinellau canlynol yn feius ; sef,

Henffych i enw'r Iesu gwiw,  
Syrthied o'i flaen angylion Duw ;  
Plygwch yn isel wrth ei draed,

oblegyd rheol gyffredin yr iaith gymraeg yw i'r acen  
fod ar y sill olaf ond un o bob gair lliaws-sill, oddieithr  
mewn geiriau fel *cyffroi*, *neshau*, *lleshad*, &c., &c. ;  
fel y canlyn buasai y llinellau uchod yn ddifeius,

Rhowch glod i enw'r Iesu gwiw,  
Nesewch o'i flaen angylion Duw ;  
Yn isel plygwch wrth ei draed.

Y mae mesur arall ag wyth sill yn mhob llinell o hono,  
ond fod gair y brifodl, hyny yw, y gair diweddaf yn  
mhob llinell, yn cynwys mwy nag un sill : megys,

*"Melys ydyw y myfyrdod  
Am ddynoliaeth Crist a'i Dduwdod ;  
Melys cof io am ei gariad,  
Melys cael o hono brofiad."*

Bydd sylwi ar y pethau a nodwyd yn gymorth i'r cyf-  
ansoddwr ieuanc ; y neb a chwenycho gael ychwaneg o  
sylwadau ar hyn, gweled Cyfrinach y beirdd ; a'r gram-  
adeg cerddorawl, gan I. Glan Alarch.

#### CYFANSODDWYR EMYNAU.

ARCHDDIACON Meirionydd sy ragorol yn y Salmau ar  
fesur cerdd, o ran y syniadau ysgrythyrol ; y mae wedi  
cadw yn agos iawn at iaith a dullwedd y Bibl ; go glo-  
gyrnaidd yw amryw o honynt ar y mesur ; efallai, mai  
gwell fuasai i'r Archddiacon amrywio mwy o ran y don ;  
buasent yn llawn mor felys ; a chawsai yntau fwy o  
ryddid, mewn llawer mesur nag yn yr un a ddewisodd.  
Y mae amryw o honynt yn rhagorol ; dyma, yn ddiam-  
heuol, y farddoniaeth nesaf, o ran ei blas, i farddoniaeth  
yr ysgrythyrau, a feddwn yn yr iaith. Cael pigion o

honynt wedi eu llyfnhau, o ran y gynghanedd, gan rywun o gyffelyb chwaeth i Wallter Mechain, a fyddai yn drysor anmhrisadwy i'r Cymry.

Fel cyfansoddwr emynau, Mr. W. Williams, o Bantycelyn, sydd yn sefyll uwchaf ar y rhestr yn Nghymru, hyd yn hyn; ond cenfydd y dyallus frychau yn ei weithion, yn enwedig o ran iaith; y mae ei feddylddrychau, at eu gilydd, yn farddonawl, yn gryfion, ac yn brofiadol dros ben; gellid meddwl arno weithiau ei fod ef yn canu ar drothwy byd arall; y gwrthrychau yn dyfod i'w olwg yn eu gogoniant, ac yntau bron a chael ei gipio atynt i foli byth. Gollwng ei gyfansoddiadau drwy ei ddwyllaw yn rhy rwydd yr oedd y peraidd ganiadydd hwn; pe'r arferasid ychydig o fanylder, a gofal gyda hwynt, buasent, yn ddiamheuol, y caneuon goreu: ond y mae gwaeledd eu gwisg, a'r diofalwch a ddangoswyd wrth gyfansoddi llawer o honynt yn tynu oddiwrth eu rhagoroldeb yn fawr; y mae ganddo rai darnau y buasai yn rhyfyg yn neb osod ei fwyall arnynt. Bu ei waith ef yn fendithiol i filoedd, ac, y mae yn debygol na pheidiant a gweini cysur i'r saint tra byddo'r byd. Gweled gwell casgliad, neu bigion o honynt, nag a welwyd eto, fyddai yn ddymunol.

Yn nesaf at Mr. W. Williams, gellir gosod Mr. Edward Jones, o Faes-y-plwm: o ran iaith a chynghaneddion teilynga y gwr hwn y lle blaenaf, yn ddiameu; ond nid ydyw ei weithion mor ehedegog, nac mor danllyd a gwaith Mr. Williams. Syniadau dwys a difrifol, sydd yn rhedeg drwy holl waith E. Jones; y mae ganddo hefyd amryw emynau athrawiaethol; lle y dengys olygiadau eglur iawn ar benarglwyddiaeth Duw, a threfn gras i godi dyn. Ei lyfr cyntaf yw y goreu; y mae yr ail yn rhy gymysglyd o ganeuon o amryw fath. Gwych fyddai gweled pigion o oreuon y gwr hwn yn cael eu hargraffu; a'r rhai hyny wedi eu dethol, gan rywun galluog. Gwnaeth, yn aml, ormod o ymdrech am gael cynghanedd, a hyny, bron, ar draul y synwyr; ond da ydyw ei waith ar y cyfan.



Mr. D. Thomas hefyd a wnaeth ei ran yn y gorchwyl hwn; cyfansoddodd lawer o emynau blasus; cynhwysant, yn gyffredin, olygiadau cyson ac efengylaidd ar athrawiaeth y Bibl; a dangosir drwyddynt brofiadau y saint; yn enwedig y rhai a gyfansoddodd ar ystyr caniadau moesol y Dr. Watts.

Y mae cynifer ag a wnaeth Mr. R. ab Gwilym Ddu, yn rhy anhawdd eu gwellâu; ac nid ychydig o nifer a wnaeth efe. Y mae ei syniadau ef yn addas ac yn olau; ei iaith yn dda, a'i linellau yn llithrig, ac yn naturiol; nid oes dim modd darllen amryw o'r rhai hyn heb deimlo y meddwl yn ymgodi uwchlaw y byd gwael, a darfodedig presenol.

Ymdrechodd Mr. B. Fransis wasanaethu ei genedl drwy hyn hefyd; y mae amryw o'i emynau yn dda; ond nid mor dda, na allesid eu gwellâu mewn amryw fanau. Un peth sy'n feius ynddo yw ymgais cymaint at blethiadau cynghaneddol, a methu cyraedd y nod wedi hyny: os na byddir yn feistr ar y cynghanedd, gwell ei gadael yn llonydd, o gwbl, fel y gwnaeth Mr. W. Williams; ac os byddir yn feistr arni, cyfansodder yn gynghaneddol drwyadl, fel E. Jones; byddai un o'r ddau ddull yma yn well na bod rhwng y ddau ac heb wneud un o honynt yn iawn; ond y goreu o'r ddau yw cyfansoddi emynau yn lled rwydd; yn debyg i'r Dr. Watts yn Saesoneg; gofalu am syniadau dilyn, a golygiadau esmwyth; ond siomir y darllenydd yn ngwaith B. Fransis; o herwydd pan feddylir fod y gynghanedd yn ymyl, collir hi yn llwyr; neu, o ran ei ysbryd efengylaidd, cymeradwyir ef, yn gyffredin, gan bob cristion.

Cyfansoddwyd llawer o emynau blasus gan Mrs. Ann Griffith, o Sir Drefaldwyn; cyhoeddwyd amryw o honynt yn y flwyddyn 1806; gyda rhagymadrodd o eiddo y diweddar Mr. Charles; coll mwyaf y rhai hyn yw tor mesur mewn amryw fanau, a hyny yn gwneud y gân yn glogyrnaidd; y mae y syniadau yn ddestlus, a'r ymadroddion yn briodol, yn gyffredin. Hyfryd

fyddai gweled casgliad o waith y Gristiones awenyddol hon ar ben ei hun; a'r llinellau wedi eu hystwytho yn fwy at y mesurau, yn y lleoedd beius.

Ychydig o'n prif-feirdd a gyfansoddasant emynau; cyfarfyddwn, megys yn ddamweiniol, â chyfansoddiadau emynol o weithion Sion Lleyrn; Pedr Fardd; Gutyn Peris; Sion Wyn, o Eifion; Iago Trichrug; &c. &c. Cyfansoddodd T. Williams, Rhesycae, amryw emynau da a llithrig, y rhai a welir yn nghasgliad Mr. Jones, Treffynon: y mae yntau yn ymgais yn ormodol at gynghanedd; gwell fuasai i amryw o honynt fod yn fwy rhydd; ond a'u cymeryd drwyddynt y maent yn lled ragorol.

Gwnaed ymgais hefyd i gyfieithu Salmau a hymnau y Dr. Watts, i'r Gymraeg, ond go glogyrnaidd ac anystwyth yw y rhan fwyaf o honynt; y mae y cyfieithiad yn rhy lythyrenol, ac felly y mae blas rhagorol emynau y Dr. yn colli; gwell fuasai i rywun gyfansoddi emynau ar ystyr y Dr. Watts, ac nid ymgeisio at gyfieithiad llythyrenol o honynt.

Ystyrir llawer o'r emynau sydd yn nghasgliadau Gomer, Jones o Ramoth, a Jones Treffynon, yn dda. Y mae amryw dduwinyddion nad ydynt wedi ymyraeth ond ychydig â phrydyddiaeth oddigerth mewn emynau, wedi cyfansoddi yn adeiladol ac yn brofiadol: megys, y Doctoriaid Lewis, a Phillipps; Meistri Hughes, Dinas; Griffiths, Caernarfon; Llwyd a Jones, Dinbych; Griffiths, Glandwr; Jones, Penybont; Jones, Trelech; Hughes, Saron; Powel, Sir Fon; Jones, Dolgellau; Roberts, Llanbryn-mair; Davies, Aberteifi; Evans, Trewen; Shadrach, Aberystwyth; Jones, Amlwch; Jones, Le'rpwl; Griffiths, Caergybi; Davies, Abertawe; Elias a Llwyd, o Fon; Roberts, Tremeirchion; a Jones, Treffynon. Cyfansoddiadau prydyddol Mr. S. Roberts hefyd, o Lanbryn-mair, o bob natur, ydynt dlws, ac awenyddol. Pe cadwasai holl awdwyr emynau o fewn terfynau yn debyg i'r gwyr synhwyrol a chrefyddol uchod, ni chawsem gymaint o boen ag a gawsom oddi-

wrth gyfansoddiadau gorwag ac annheilwng a lusgwyd i'n haddoldai, y rhai oeddynt yn deilyngach o'r tân nag o'r cysegr. Pa bryd y dysg y Cymry, fel cenedl, wybodaeth yn hyn, ac y deuant i ddyall beth sy'n deilwng o gael ei ganu mewn addoliad?

Y mae gweled y fath fintai alluog o feirdd crefyddol ar y maes, ag a welir yn yr oes hon, yn rhagddangos fod genym obaith caneuon teilwng. Hoff fyddai gweled y ddawn wedi dychwelyd i'w bri a'i defnyddioldeb dechreuol; pob caniadau ynfyd, a masweddgar, yn cael eu hwtio o'r tir; dim yn gymeradwy, os na byddant naill ai yn grefyddol, neu o'r tueddiadau moesol puraf, a mwyaf diamheus.

Gresyn na throisai Meistri Christmas Evans, Williams, gynt o'r Wern, a Breese, Caerfyrddin, eu meddyliau at farddoniaeth, mewn mesur; yr oedd rhyddiaith Mr. Evans, yn llawn o dân awenyddol; ac y mae syniadau goruchel (*sublime*) Mr. Williams, yn llawn o ysbryd y farddoniaeth rydd mwyaf pur. Meddylasom lawer gwaith wrth ei weled yn paentio, ac yn dangos blodau tlysiion, o flaen ein llygaid, ein bod wedi cael ein cipio i ryw dalaeth uwchlaw y byd marwol a llygredig hwn. Y mae llawer o ergydion yn mhregethau Breese teilwng o Young neu Milton. Ychydig o deimlad (*pathos*) sydd yn areithiau neb sydd yn hollol ymddifad o syniadau barddonawl.

Y mae y ddawn hono yn tueddu at y sych, a'r diflas. Gall llawer un ddal am deirawr i areithio os bydd achos, heb gyffroi y gynulleidfa gymaint ag unwaith; i.e, heb dynu eu sylw; a'r noddfa fydd ganddo i ffoi iddi, efallai, fydd dyweyd ei fod ef yn *llefaru synwyr*; ac nad oes ar synwyr eisiau dim i'w argymhell i sylw. Digon prin y gellir credu fod un dyn o synwyr o'r farn hon, yn ei oriau mwyaf ystyriol, a phwyllog; oblegyd gwelsom ambell un o'r darluniad hwn, os dygwyddent gael blodeuyn tlws, a gwreichionen o deimlad yn ddamweiniol, yn ceisio gwneud y defnydd goreu o honynt. Nid oes un areithiwr byth yn meddwl

areithio, heb feddwl effeithio ar ei wrandawyr; oblegyd fel y dywed Chesterfield, 'Y ffordd i'r galon yw drwy y teimladau; boddhaer y llygad a'r glust, ac y mae haner y gwaith wedi ei wneyd:' a dylai y tri pheth canlynol fod yn ngolwg yr areithiwr, yn ol y Dr. Williams, sef, addysgu, boddhau, ac effeithio: ac y mae ambell feddylddrych barddonawl yn tueddu i foddhau ac i effeithio; y mae yn addurn i'r cwbl. Onid ydyw y rhanau o'r hen Destament sydd wedi eu llefaru yn farddonawl yn llawer mwy effeithiol, na'r rhanau hanesiol, ac adroddiadol?

---

## Y BRYDDEST NEU GAN RYDD.

Y MAE *Dyryf*, neu gan rydd, yn mysg y Cymry, er cyn cof, a cheir yn ngweithion yr hen feirdd lawer cyfansoddiad o'r natur yma; ond gofalent hwy am roddi cynganeddion ynddynt; eithr y mae y pethau a elwir *Pryddestau*, yn Nghymru, yn bresenol, yn hollol wahanol i'r caniadau hyny; oblegyd yn un peth, cyfansoddir rhai o honynt heb un odl, ac ereill, sydd yn odli, heb un gynghanedd; bu gwrthwynebiad mawr i hyn ar y cyntaf, gan *addolwyr* y mesurau caethion; ond y maent yn awr yn fwy goddefol. Y mae yn ddiddadl pe dilynid y dull hwn, yn fwy cyffredin, y gwnelai les mawr i brydyddiaeth; oblegyd, yna, rhaid fyddai i'r beirdd roddi meddylddrychau yn eu cyfansoddiadau; ac nid gollwng rhimynau gwaelion, a gweinion i'r byd, dan enw englynion, cywyddau, ac awdlau, heb fod ynddynt fwy o ysbryd barddoniaeth nag sydd ar gopa y

Wyddfa, neu Gadair Idris. Rhaid i waith fod yn dra barddonol pan y gafaela yn y teimlad, ag yntau yn ymddifad hollol o addurniadau a chelfyddgarwch y gynghanedd. *Meddwl*, mewn gwirionedd, yw barddoniaeth, ac nid ydyw y pethau neillduol sydd yn ngwisg pob iaith, ond pethau a gollir trwy gyfieithiad. Nid oes dim modd cyfieithu y tlydni a'r addurn perthynol i iaith neu gynghanedd: ac os na fydd y peth a gyfieithir yn gryf iawn, yn wreiddiol, y mae yn sicr o fod yn wanlyd mewn iaith estronawl. Pe byddid yn cymeryd trafferth i gyfansoddi dernyn prydyddol, a chadw at holl gywreirwydd a manylrwydd penaf cynghanedd a mesur; i.e., pe cyfansoddid yn ngorchest y beirdd, collid y wisg yn llwyr yn y cyfieithiad, ac ni fyddai i'w ddodi ger bron yr estron, ond meddylddrych noeth. Pa mor wael, gan hyny, yr ymddangosai llawer o gyfansoddiadau Cymru mewn rhyw iaith arall! Rhai nad oes ynddynt ond y tinc (*gingle*) yn unig i'n clustiau ni, yn yr iaith yr ysgrifenydd hwynt. Y mae gweithion o'r natur yma mor luosog, ysywaeth, yn y Gymraeg, fel nad ydyw o un dyben dechreu eu nodi; ond os ydyw y darlennydd mewn petrusder yn eu cylch, ac yn methu a gwybod pa rai ydynt, edryched yn fanwl yn ngweithion pwy y mae mwyaf o eiriau llanw,—yn mha le y camarferir geiriau,—a phwy sydd yn beiechio eu llinellau yn fwyaf âg ansoddeiriau afreidiol; gan ymfalchio yn fawr yn nghoegdrwsiad *bon y gler*. Chwilied pwy yw y rhai hyny sy'n ymhyfrydu mewn mwy o gywreingarwch *cydseiniadol* nag a ofynir gan y rheolau yn gyffredin. Y mae llawer o'r rhywogaeth hon yn hoff iawn o gynghaneddu â'r brifodlau anhawdd; cyffelyb i *gadr*, *gogr*, *medr*, *hagr*, *egr*, *cabl*, ac *esgawb*, &c. &c. &c. a rhyfedd y fath gywreindeb a ganfyddant yn eu cymalau; byddant yn eu hadrodd gyda'r fath bwys a phe byddent yn brif farddoniaeth yr oes!! Ond er y rhydd y bryddest lawer o fantais i gyfansoddwr; eto, nid ydyw hitbau, mwy na'r mesurau cynghaneddol, ddim heb ei

llygrwyr, a'i dynwardwyr beirdd. Y mae llawer iawn o sothach, yn y ffurf hon, wedi ymddangos yn ddiweddar; Blackwell a Gwenffrwd, yn ddiameu, a bia'r flaenoriaeth o ddigon gyda'r ddull yma hyd yn hyn: y maent hwy yn benceirdd, ond nid yw y rhan fwyaf o'u dilynwyr wedi prin gyraedd gradd dysgyblion yspas\* eto. Nid ydynt yn codi ond ychydig iawn. Y mae gormod o unfurfaeth yn rhedeg drwy y rhan fwyaf o'r caneuon hyn; y maent yn son yn rhy aml am y *cymyl*, yr *edn*, y *mor*, y *gwynt*, y *mynydd*, y *graig*, y *niwl*, a'r *aber*, &c. pan na fydd hynny yn dal un math o berthynas â'u testynau. Yr oedd gan Milton ei *Paradise Regained* yn gystal a'i *Paradise Lost*; yr oedd gan Pope ei *Essay on Criticism*, *Essay on Man*, a'r *Dunciad*, yn gystal a'r *Messiah*: yr oedd gan Thomson ei *Spring*, *Summer*, a'i *Autumn*, yn gystal a'i *Winter*; ond ni fedd llawer o'n prydestwyr ni ond yr un peth o hyd fel caniad y gog. Cyfansoddi yn dywyll, clogyrnaidd, ac yn ddideimladol, a gara lluwys mawr; ac y mae yn beth i'w ryfeddu trwy ba swyn y maent yn cael hyfrydwch mewn gweithion mor sych, ac mor farw. Y mae yn hyfryd i ni weled fod rhai yn rhagori yn y dull hwn.

Cael barddoniaeth dda yw dymuniad pob un a garant farddoniaeth, ac nid ydynt yn ymdrafferthu cymaint yn nghylch y wisg. Ac yn hytrach na cholffarnu y brydest, na'r awdl gynghaneddol, anoger y beirdd perthynol i'r ddau ddosbarth hyn, i lafurio am syniadau addas. Y mae y rhai a gollfarnant y gynghanedd, gan ddywedyd, nad oes dim modd cyfansoddi dim yn synhwyrol arni, yn myned yn rhy bell; oblegyd, y mae genym ddigon o brofion i'r gwrthwyneb: ac y mae collfarnwyr y brydest hefyd yn rhy lawdrwm yn aml; ceisiant ei gosod allan fel peth ffol a phlentynaidd; ond prin y dywed yr un o honynt mai awdwyr ffol oedd Milton, Young, Pope, Cowper, a Byron, &c. ychwaith,

\* That is in the act of passing.

er mor fawr yw eu rhagfarn yn erbyn eu dull hwy o farddoni. Cynyg canmawl yr awdwyr uchod fyddai yn debyg i geisio paentio y lili, neu roi golchiad ar aur pur! Pe dyellid hwy yn well gan ein beirdd, yn gyffredin, efelychid hwy yn fwy.

Y mae caniadau llawer o'n pryddestwyr yn ddrwg dros ben yn eu disgyniadau; y maent yn glogyrnaidd ac yn afrywiog; nid ydynt fel pe byddent wedi talu un math o sylw i acenyddiaeth, nac yn gofalu dim am y mesur: hawdd fyddai dynodi gwallau anafus o'r natur yma mewn amryw o bryddestau buddygol. Os byddir yn cyfansoddi yn ddiodl, neu yn ddiblethiadau, gydag odl, y mae yr esgusion yn llai fyth. Gormod o ryddid yw dystrywio pob rheol, ac i bawb gymeryd ei reol ei hun. Os addefwn fod rheol yn angenrheidiol, dilyner y rheol, neu dawer a son am dani. Nid yw y dull hwn mor newydd bellach yn Nghymru. Y mae genym amryw engraffau o'r bryddest y cymerwyd gofal wrth eu cyfansoddi. Gwnai darllen Pope a Milton les dirfawr i hoffwyr y bryddest er eu dwyn i gynefino mwy â'i rheolau, ac â'i llithrigrwydd. Ceir amryw gyfarwyddiadau yn Murray a Lennie's Grammars, hefyd, am natur y mesurau Seisnig; a gall y rheolau mewn perthynas i gyfansoddi emynau, weinyddu gyda golwg ar iawn acenyddiaeth, &c. yn hyn hefyd.

## GWALLAU Y SYRTHIR IDDYNT.

## I.—MEWN FFUGRAU YMADRODD.

Y MAE amryw o ffugrau ymadrodd (*figures*) yn cael cam dirfawr drwy yr arferiad amhriodol a wneir o honynt; nodwn yma i sylwi arnynt yn fwyaf neillduol y *gymhariaeth*, *gormoddiaeth*, a *graddeb*.

Y mae rhagor rhwng cymhariaeth (*similé*), a thraws-symudiad (*metaphor*). Dengys cymhariaeth y cyffelybrwydd sy rhwng y naill wrthrych a'r llall; megys,

Ef fydd *fel* pren plan ar lan dol.

Traws-symudiad sy fath o gymhariaeth heb yr arwydd-gymhariaethol *fel*, a *megys*, &c., fel pe dywedid,

Ef fydd yn bren ar lan dol.

Ef fydd *fel* colofn,

sy gymhariaeth;

Ef fydd *yn* golofn,

sy draws-symudiad.

Arferai un *bren* yn gymhariaeth o brudd-der, yr hyn sydd eithaf amhriodol; megys,

“Och brudded wyf fel pren.”

Peth marw yw pren, ac nid peth *prudd*, na *di-brudd*.

Galwai un arall mewn modd traws-symudiadol, y bedd yn *dý*, a gwaliau pridd iddo; ac yn *wely pren*; megys,

“I dy oer mewn daearen,  
Gwaliau pridd a gwely pren.”

Buasai naill ai *tý* ai *gwely* yn ddigon, ar yr un pryd; y mae yn anhawdd gwybod beth a foddylir wrth y



'*gwaliau pridd*;' nid ydyw y pridd yn un arwydd o gaderid, na dyogelwch; ond gŵyr pawb mai lle dyogel yw y bedd; pa fodd yr aeth y *tý* yn *wely* hefyd, ac yn '*wely pren*?' Os am yr arch (*coffin*) y meddylid, y mae hono yn debycach i amwisg nag i wely.

Dylai cymhariaeth bob amser fod yn naturiol; ac yn hysbys i'r darllenwyr. Cymhariaeth eithaf amhriodol fyddai dyweyd fod cleddyf, fel paladr melin; neu fod gwaewffon, fel coeden wedi ei thynu o'r gwraidd, &c., &c. Y mae rhai mor ffol a hyn wedi eu harferu gan ddynion anwybodus.

Gormoddiaeth (*hyperbole*) sy ffugr yn dangos gwrthrychau yn fwy neu yn llai, yn well neu yn waeth nag y byddont mewn gwirionedd; gormoddiaeth a arferir gan Ddafydd, pan y dywed am Saul a Jonathan,

Cynt oeddynt na'r eryrod, a chryfach na'r llewod.—2 SAM. i. 23.

Dylid arfer gormoddiaeth mewn darluniadau cyffredin gyda gofal mawr. Os byddir yn darlunio daiargryn, neu ystorm, neu os cludir ein dychymyg i ganol maes y frwydr, gellir goddef gormoddiaeth gyda boddhad; ond pe'r elid i ddarlunio gofid menyw, drwy ddyweyd ei bod hi "yn wylo cynifer o ddagrau, ag a allent pe gesglid hwy at eu gilydd, ddiffodd *Ætna* neu *Vesuvius*," nid ellid llai na ffeiddio y fath ormoddiaeth wyllt ac afresymol. Y mae yn anhawdd tynu y llinell derfynol i'r ffugr hwn, drwy unrhyw reol benodol. Os bydd dyn yn feddianol ar synwyr cyffredin, ac ychydig o chwaeth, daw i wybod yn mha le i osod y terfyn.

*Graddeb* yw codi holl amgylchiadau gwrthrych neu weithred yn uwch, yr hon a ddymunwn ei gosod mewn goleuni cryfach; megys, "Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf?"—(Rhuf. viii. 35.) Dylid bod yn ofalus am fod y pethau a chwanegir y naill ar ol y llall, yn ychwanegu ac nid yn lleihau. Y mae graddeb yr apostol yn briodol iawn; y mae efe yn dechreu gyda

*gorthrymder*, ac yn dringo o radd i radd, neu o ris i ris, nes y mae efe yn dyfod at y *cleddyf*; *pe rhoddasid y cleddyf* yn y canol ni fuasai y ffugr mor effeithiol; gall dyn fyw dan *orthrymder*, *ing*, ac *erledigaeth*; a gall oddef *newyn* a *noethni* i raddau, ond pan dynir y *cleddyf* allan i'w drywanu, y mae angau sicr a buan yn canlyn hwnw.

Yn y llinellau canlynol gwelir y raddeb (*climax*) yn cael ei chymysgu; ac y mae yn diweddu yn wan:

“Pe bai *llew* dudew'n dadwrdd,  
Garw ei ffurf, ar gŵr y ffordd,  
Er *dwl ofn* i'w ardal werdd,  
Trwy y boen tröai y bardd.  
I'r hen fad fwynwlad fan  
Tynwn yn ngwrth y *tonau*  
\* \* \* \*

Nid *gwynt*, er helynt oer hell  
Diau na *noswaith dywell*,  
Nid *gwlaw* blin yn erwin na  
Rhwyg oerwynt *rhew* ac *eira*,  
Ac nid *mellt* uwch feltt y pau  
Uthr enyn a *tharanau*.

Ni ddeil hen *dd*—*l* ei hunan—mo honof,  
Mae hwn yn rhy druan,  
*Daiar* a'i thwrf, *dwr*, a *than*  
Llawn agwrdd oll yn egwan.

Nid *bar*, *gwyr anwar* gerwinol,—nid *arf*,  
Nid *oerfel* dinystriol,  
Ni fedd anian fodd unol,  
Tan y nef a'm tynai'n ol.”

Y mae graddeb y bardd yn rhedeg fel y canlyn; sef, *llew*, *dwl ofn*, *tonau*, *gwynt*, *noswaith dywell*, *gwlaw*, *rhew* ac *eira*, *mellt* a *tharanau*, *diabolos*, *daiar*, *dwr* a *than*, *bar*, *gwyr anwar*, *arf*, ac *oerfel*.

Y mae dynion wedi gallu teithio ar nosweithiau tywyll, a thrwy wynt a gwlaw, rhew ac eira; a chawsant eu dyogelu hefyd o'r tonau, ac a'r stormydd o feltt a tharanau, a gwardedwyd rhai o grafanc y llew: y pethau mwyaf dychrynlyd yn y raddeb, yn ddiameu, yw y llew, y tonau, y melltt, a *diabolos*; ond wedi son

am y *llew*, â'r bardd i son am *ofn*; ac wedi son am y *tonau*, â i son am y *gwynt*, a *noswaith dywell*, *gwlaw*, a *rhew* ac *eira*; ac wedi son am y *mellt*, a *diabolos*, â i son am *ddwr* ac *oerfel*, &c. a *bâr*, hyny ydyw, digofaint *gwyr anwar*, sef, gwyr gwylltion, annof; y mae hyn yn gwneud y raddeb yn gymysglyd, ac yn wanellyd; dylasai ddechreu gyda'r peth oedd ef yn ofni leiaf o'r pethau a ddynodwyd; ac ychwanegu at hwnw, o radd i radd, nes cyraedd pen uchaf y gradd-ddring (*climax*), ac nid disgyn yn ei ol: pa beth bynag oedd ei olygiadau ar y pethau cyntaf, yn y raddeb hon, gwyr pawb fod *diabolos* yn fwy ofnadwy na digofaint *dyn*, y mae dyfod at ddigofaint *dyn*, *dwr*, ac *oerfel*, &c. wedi rhoddi her i'r *ysbryd drwg* yn lleihau ei grym, ac o ganlyniad y mae yn diweddu yn llipa.

## II.—CAMARFERIAD GEIRIAU.

Y MAE yn amlwg i bob un mai cyfryngau yw geiriau i drosglwyddo meddylddrychau; a dysgwylir i bob gair a arferir gynwys rhyw feddwl, neu ran o feddwl; hyny ydyw, dysgwylir fod ei osodiad mewn brawddeg, o iaith rydd, neu mewn llinell farddonawl yn ateb rhyw ddyben; ac onidê ni fyddai yn waeth ini gymeryd geiriau o eirlyfr a'u pentyru ar eu gilydd heb reol na threfn. Anaml y gwelir neb yn arferu geiriau mewn rhyddiaeth heb fod rhyw ystyr iddynt, yn y lleoedd yr arferir hwynt; ac anaml y gwelir un awdwr galluog yn arferu mwy o eiriau nag fyddo yn angenrheidiol i amlygu ei feddwl; ac y mae ei ddewisiad o honynt yn iddoeth; ond y mae barddoniaeth Cymru wedi cael cam dirfawr yn yr ystyr hyn; dynion wedi ffurfio geiriau i ateb eu dyben hwy, a'r rhei'ny, lawer o honynt, yn hollol ddiystyr, ac anmhriodol yn y cysylltiadau yr arferid hwynt: a thrwy fod barddoniaeth, wedi bod yn lled isel yn ngolwg y dysgedig, hyd adgyfodiad yr Eisteddfodau diweddar, cawsant lonydd i'w harferu;

nid aeth neb i drafferth i ddynoethi y twyll. Yr oedd y werinos yn eithaf anwybodus am iaith; ac am y rheolau barddonawl; a phan gyfarfyddent hwy â geiriau nad allent eu dyall, na gweled eu priodoldeb, tybient mai eu diffyg dyalltwriaeth hwy yn y dirgelwch perthynol i farddoniaeth oedd yr achos o hyny; fod y geiriau, yn sicr, yn ateb dyben eu gosodiad; a phe buasant hwythau wedi eu gollwng i fewn i gyfrinach yr awen; ac wedi eu dwyn i amgyffred y dirgelwch rhyfeddol a berthynai iddi, y gwelsent yr holl ragoroldeb ar unwaith. Gellir rhanu camarferiad geiriau i ddau ddsbarth; sef, 1. Yr arferiad o gymeryd gair ansathredig neu ddau mewn llinell er cyraedd cyngghanedd. 2. Yr arferiad o gymeryd amryw eiriau afreidiol mewn englyn, neu benill, er cyraedd meddyl-ddrych: ond,

1. Sylwn ar yr arferiad o gymeryd gair neu ddau ansathredig mewn llinell er cyraedd cyngghanedd. Y mae mwy yn Nghymru o seiri cyngghaneddion, nag sydd o feirdd. Byddai yn hawdd cyfeirio y darlennydd at amryw o weithion, nad oedd gan yr awdwyr ond cyngghanedd fel y prif beth i gyfeirio ato ynddynt. Gellir gweled, yn amlwg, yn wyneb cyfansoddiadau llaweroedd nad oedd ganddynt yr un cynllun i fyned wrtho, ond a wnaed ganddynt ar hyd y ffordd, wrth gyfansoddi; oblegyd y mae eu gweithion mor ddigysylltiad, mor gymysglyd, ac mor annhrefnus: os caent ambell gyngghanedd dlws boddlonent ar hyny. Yn mhlith y geiriau a ddyfeisiwyd, ac a ffurfiwyd i gyraedd cyngghanedd, gellir nodi y rhai canlynol: byddai llawer o honynt yn ddigon priodol, mewn lleoedd priodol, ond pan arferir hwynt yn unig er cael cyngghanedd y maent yn hollol wrthun: megys,

Bywfaeth, bywfad, bywlon, bywner, bywnerth, bywrwysg; caindeg, cainlwys, cainferth, cainfyg, cainwiw, croewfwyn, croew-wen, croew fawr, croew lwys, croewlon, croewfyg, cudeg; dewrfad, dwysfad, dewrfyg, dewrwiw, dewrlon; gwiwfaeth, gwiwfad, gwirfad, gwiwfyg,

gwirddwys, gwiwddwys, gwiwner, gwiwnerth, gwiwferth, gwiwgain, gwiwgu, glwysgu, glanber, gloewfyg, glanfyd; hoewfad, hoewfawr, hoewferth, hoewfyg, hoewlwys, hoewfrwd, hoewdeg, hoewlon, hoewlys, hoewgain, hoewrin, hoewber, hoewgoeth, hoewgall, hoewbur, hoewdlws, hoewfaint, hoewgerth; lwysfad a fadlwys, lwysgain a gainlwys, lwysfawr a fawrlwys, lwyswiw a wiwlwys, lwyslun a lonlwys, lonfad a fadlon, lonwiw a wiwlun, lonfwyn a fwynlon, lonferth a ferthlon; mwynfad, mwynlon, mwynferth, mwynfaeth, mwynfawr, mwynwiw; rwyddfad, ryddlwys, ryddlun, radfwyn; tirfwyn, tirfad; sywfawr, sywdeg, sywfyg, sywner, sywnerth; a gelwir am wasanaeth y geiriau *hoew, gwiw, gloew, croew, mad, lon, lwys, fflur, fflwch, ter, &c.* ar eu penau eu hunain, bron, yn ddiwedd. Y mae y rhai hyn yn eiriau da pan fydd eu heisiau; ond y mae eu harfer hwy yn unigol, neu yn gysylltedig, â geiriau ereill, pan na bydd un mymryn o synwyr ynddynt, yn brawf, naill ai o ddiffyg meddwl, neu ddiffyg medr i gyfleu y meddwl, neu o ddiffyg ymdrech: y mae yn boenus gweled, agos, haner barddoniaeth yr oes hon wedi ei gorlwytho â sothach o'r fath. Ni wiw haeru mai caethder y gynghanedd yw yr achos, oblegyd nid ydyw yn rhy gaeth † i ddynion o alluoedd i fedru ei harferu. Noder yn ngweithion Iolo Morganwg, D. Ddu, Eryri, Dewi Wyn, R. ab Gwilym, Pedr Fardd, Gwallter Mechain, neu Gutyn Peris, eiriau fel y cyfryw a grybwyllwyd yn hollol ddieisiau.

Nid ydys yn enwi yr awdwyr uchod am yr ystyrir hwynt yn *oraclau*, nac am fod pob peth a gyfansoddasant hwy, mwy nag ereill, yn berffaith ddigoll; ond fe'u henwir fel rhai sydd wedi cyraedd *perffeithrwydd* mewn cymhariaeth i lawer ereill a ystyriant eu hunain, ac a ystyrir gan ereill, yn feirdd; i.e., rhai ag ydynt wedi eu hynodi fel campwyr mewn Eisteddfodau, ag eto, eu gweithion yn llawn o eiriau gweiniaid fel y

† Meddylir yn awr am y cynghaneddion sain, draws, a'r groes, &c.

nodwyd; y rhai, yn ddiameu, fyddant yn warth i'r oes, wedi y tyner y mwgwd oddiar lygaid dynion. Pe difynem rai o'r geiriau cyfansawdd a ddynodwyd, y fath wrthuni a ddeuai i'r golwg.

Rhyfedd y fath alwad y mae *gwiw* a *hoew* yn gael, yn anad dim geiriau ereill; y mae pob peth yn *wiw*, neu, yn *hoew*; daioni *hoew*, (*hoewfad*); mawrder *hoew*, (*hoewfawr*); brwdaniaeth *hoew*, (*hoewfrwd*); llys *hoew*, (*hoewlys*); rhinwedd *hoew*, (*hoewrin*); pereidd-dra *hoew*, (*hoewber*); callineb *hoew*, (*hoewgall*); purdeb *hoew*, (*hoewbur*); braint *hoew*, (*hoewfaint*); dychryn *hoew*, (*hoewgerth*)!!! Y mae gweled y fath ddefnydd yn cael ei wneud o'r gair *hoew*, yn ddigon a pheri i ni ymofyn yn fanwl pa beth yw ei ystyr; rhag ofn fod yn ei gymalau ryw ddirgelwch na feddyliasom erioed am dano. Ystyr y gair *hoew* yw bywiog, heinyf, &c. Dyma fel y dywed y Dr. O. Puw. *Hoew*, *alert*, *sprightly*; *lively*; *spruce*. Ond anfynych y mae *hoew* yn cael dangos ei wyneb mewn iaith rydd, os na fyddir yn son am ddyn, neu ryw greadur bywiog: ac y mae, yn ddiamheuol, na chyfarfyddasid ag ef mor aml mewn prydyddiaeth, oni buasai ei fod yn lled wasanaethol i'r gynghanedd. Yn nghyfrif llawer, geiriau yn clecian yn eu gilydd, fel y canlyn, yw barddoniaeth:

Hawddgar heddgu; ymgais, amgen; gobaith gwiwbur; gofyn gwiwfad; fadlon sefydliad; gamlas morgymlawdd; ystlen tymhestloedd; englyn angladd; crychias crochan; treiglo trwy wiwglod; edlym odlau; fflur fflwch; celfydd coelfawr; ergyd wyrgam; ceinmyg canmawl; hystyng hawsder; siolfad iselfawr; Glyndwr glandeg; dagoch degaidd. Y mae yn well darllen darn o brydyddiaeth i'r mwyaf anwybodus am y cleciadau cydseiniol, nag i grachfardd fyddo wedi ei lygad-dynu â swm; oblegyd ni fydd gan yr anwybodus am y cleciadau, ond yn unig gwrando ar y syniadau; eithr ni chymer y llall un sylw o'r meddyliau pe byddent yn deilwng o Milton, Young, neu Pope, os bydd digon o swm llifeiriant y cydseiniaid yn bwrlymu.

2. Arferir llawer o eiriau afreidiol weithiau er cy-raedd meddylddrych; ond ysywaeth, rhai o'n beirdd goreu sydd wedi bod yn euog o hyn; megys y gwelir yn y darnau a ganlyn:

“Fe naid uchenaïd a chwynion—æthus,  
O eitha' fy nghalon,  
Rhyfeddais, *mewn rhyw foddion*,  
*Noeth arw hynt*, na thorai hon.”

Y meddylddrych yw hwn,

Fe naid uchenaïd a chwynion—æthus,  
O eitha' fy nghalon,  
Rhyfeddais \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_ na thorai hon.

Gan hyny, nid ydyw “*mewn rhyw foddion*” a “*noeth arw hynt*,” ond llanw.

“Nis caed yd, yn oes co' dyn,  
*Mawrdda bwys*, mor ddibeiswyn.”

Nis caed yd, yn oes co' dyn,  
\_\_\_\_\_ mor ddibeiswyn.

“Och o'i ddwyn! *cali addwyn llwyr*,  
Morus enwog mawr synwyr.”

Och o'i ddwyn! \_\_\_\_\_  
Morus enwog mawr synwyr.

“Adroddiad mor berffaith drwyddo—da oll  
Nad ellir rhoi ato,  
Na dwyn chwaith, *ganwaith ei glo*,  
*Urdd ei werth*, air oddiwrtho.”

Na dwyn chwaith, \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_ air oddiwrtho.

*Glanwaith ei glo, urdd ei werth*, sy lanw.

“Tair Ann i'r un man ran meth---yr einioes  
Arweiniwyd *yn gydbleth*;  
A'r tair *Ann o'r un plan pleth*,  
Ydyw Ann a'i dwy eneth.”

Tair Ann i'r un man ran meth---yr einioes  
 Arweiniwyd ;—————  
 A'r tair—————  
 Ydyw, Ann, a'i ddwy eneth.

“ *Yn gydbbleth o'r un plan pleth,*” &c. sy lanw.

“ Mae clustiau rhai, *mal sai'r son,*  
 Gwrandawyr yn grwyn dewion.”

Mae clustiau rhai—————  
 Gwrandawyr yn grwyn dewion.

“ Epiphanes *gormes gerth,*  
*Hyll dynfa, mewn llid anferth,*  
 Deugain mil, *dig iawn y modd*  
*Di ludd, o'r genedl laddodd.*”

Epiphenes —————

Deugain mil—————  
 ————— o'r genedl laddodd.

Dyna sylwedd y llinellau hyn.

“ *Cwyn mawrddwys, dau can myrddiwn, — dyn odwyd*  
*O eneidiau, cofiwn,*  
*Dwys hanes, os cydsyniwn,*  
*Och! oedd yn y gwarchae hwn.*”

————— Dau can myrddiwn —————

O eneidiau,—————

Oedd yn y gwarchae hwn.

“Buwch deg gadd am bech ei dwyn  
 Dros ddyn, *i'r hwn perthyn poen,*  
 I Dduw *er cael huddaw'r cwyn,*  
 Bu arwydd eich, bwriodd oen.

Sylwedd y llinellau hyn yw, Buwch a ddygid i'w ha-  
 berthu a fwriodd oen.

“A'i fod hefyd, *fraenllyd fri,*”  
*Poen i'w drin, yn pendroni.*

A'i fod hefyd, —————  
 ————— yn pendroni.

“*Pwyll hynod, pwy eill heno,*  
*Gwelwch frad o gylch y fro,*



*Dawn ewybr a'i adnabu  
Mwyn i bawb, a'r man y bu,  
A'r man yr aeth, i'r mân ro,  
Lengated, lai nag wylo."*

————— pwy eill heno,  
————— a'i adnabu

————— a'r man y bu,  
A'r man yr aeth, —————  
————— lai nag wylo!

"Am draws ei ysgwydd *rwydd ran*,  
*Cras grap*, mae'n cario 'sgrepan."

Am draws ei ysgwydd —————  
————— mae'n cario 'sgrepan.

Gellir gyda phriodoldeb, alw geiriau o'r fath a ddy-nodwyd yn *eiriau llanu*; y mae llawer o'n beirdd wedi cael eu hudo i ddefnyddio geiriau fel hyn, drwy darawo wrth feddylddrychau tlws, a methu cael ffordd hwylus i fyned atynt; ond gormod peth i'w aberthu haner cyfansoddiad er cyraedd ychydig o feddylddrychau. Y mae y blodeuyn y gorfyddir cripiaw y dwylaw, wrth ei geisio, yn rhy ddrud. Y mae rhai o'n beirdd yn fwy daros-tyngedig i'r diffyg hwn, nag ereill. Y mae pob un sydd yn agored i hyn, yn ymddangos fel pe byddai ar ei oreu yn cyraedd pen y tir. Gellwch farnu mai trwy drafferth fawr y cafwyd geiriau y cynghaneddion at eu gilydd; nid oes ynddynt ddim llithrigrwydd na naturioldeb; y mae y cymalau yn anystwyth, ac fel yn gwrthod asio: tra ar y llaw arall y mae cyfansoddiadau y bardd naturiol mor llyfn a digeinciau a phe byddid yn llefaru mewn iaith rydd. Pa beth sy fwy naturiol na'r darnau canlynol:

Y meilwng a'i gymalau—sy egwan,  
Ysigais er's dyddiau;  
Mae'r esgyrn yn chwyrn iachau;  
Go weinion yw'r gewynau.

DEWI WYN.

Ar obenydd oer, Robyn Ddu—Meirion  
Yma roed i bydru,  
Gwiw fardd godidog a fu:  
Gwel ei fedd;—gwyliu'i faeddu.

GUTYN PERIS.

Mae Robert heb ymreibiau — yn esmwyth,  
 O naww mwyn yn llwyddaw;  
 Ei dda hael i'w ddeheulaw,  
 Mwyaf a ddyd — mwyaf ddaw! BARDD NANTGLYN.

Paham y gwneir cam â'r cymod — neu'r Iawn,  
 A'i rinwedd dros bechod?  
 Dyweder maint y Duwdod,  
 Yr un faint yw'r Iawn i fod. R. AB GWILYM DDU.

\* \* \* \* \*  
 Tawed am fy mrawd Dewi:  
 Dim drygair am Mair i mi.  
 Du air ehud i Rahel,  
 Na chas, am Ddorcas, na ddel,  
 Os sonir am Susana,  
 Canmoler, d'weder ei da,  
 Byth na ddatgan drwstan dro,  
 Er ei ogan, ar Iago.  
 Gwed am fai, na wyddai neb,  
 I Hana yn ei hwyneb.  
 \* \* \* \* \*

PEDR FARDD.

Efallai y dadleua y beirniad nad ydyw y gair *chwyrn* yn briodol yn yr englyn cyntaf; na'r gair *pydru* yn yr ail; ond dylid cofio mai am lithrigrwydd, a pheidio beichio llinellau â geiriau llanw, yr ydys yn dadleu yma, ac nid am chwaeth; y mae dewisiad geiriau yn dibynu yn hollol ar chwaeth (*taste*): gan fod esgyrn y bardd yn gwella yn ebrwydd, yr oedd eisiau gair i arwyddo hyny yn y llinell,

Mae'r esgyrn yn *chwyrn* iachau.

er, efallai, y buasai y gair *ebrwydd*, neu *buan*, yn fwy priodol.

Gellir dyweyd yr un peth gyda golwg ar y gair *pydru*; nid *llanw* ydyw; y mae arfer rhyw air i arwyddo dodiad y cyfaill yn y bedd, a'r dyben o hyny, yn ddigon goddefol; ond, efallai, y buasai gair arall megys, i *orphwys*, neu i huno yn fwy chwaethus na *phydru*: ystyr y gair *pydru* yw braenu, *to rot, to putrefy*; ac nid dyben pertbynasau a chyfeillion wrth gladdu eu meirw yw eu doddi yn y bedd i *fraenu*. Y

mae y darnau a ddynodwyd, ar y cyfan, yn hynod lithrig, nid oes cymaint ag un gair ynddynt y gellir dyweyd am dano, dyma air *llanw*. Dylid ymgais am i'r meddyliau fod yn eglur, ac yn rymus, fel na byddo yn boen i neb geisio darllen y cyfansoddiadau. Pe buasai mwy o naturioldeb ac eglurder yn ein barddoniaeth buasai mwy o ddarllen arni, fel sydd yn mysg y Saeson a chenhedloedd ereill. Ni ystyrir neb yn eu plith hwy yn ysgoleigion gorphenedig (*accomplished*), heb fod ganddynt ryw faint o chwaeth at farddoniaeth.

### III.—YR ARFERIAD GORMODOL O ANSODDEIRIAU.

PAN ysgrifeniwr mewn iaith rydd byddir yn ofalus i beidio arfer ychwaneg o ansoddeiriau (*adjectives*) nag a weddo i'r sylweddair (*substantive*) y ceisir dangos ei ansawdd; ond mewn prydyddiaeth y mae dynion yn myned dros ben pob rheol yn hyn; arferir weithiau chwech, neu saith, neu fwy na hynny i ddangos ansawdd gwrthrych; yr hyn fyddai yn dra hagr mewn iaith rydd; megys,

“ Elfen ei awen loew, fenywaidd,  
Lon, e: es, olau, lân, risialaidd,  
Oedd gwau sain foddog, iesin, feddaidd,  
Ber a dewisol baradwysaidd.”

nid oes dim llai na *thri-ar-ddeg* o ansoddeiriau yn y penill hwn!! a hynny i ddangos ansawdd dau wrthrych; sef, *awen*, a *sain*: dywedir fod yr *awen* yn *loew*, yn *fenywaidd*, yn *llon*, yn *eres*, yn *oleu*, yn *wen*, ac yn *risialaidd*: yr oedd *sain* yr *awen*, yn *foddog*, yn *iesin*, yn *feddaidd*, yn *bér*, yn *ddewisol*, ac yn *baradwysaidd*! Y mae yr awen yn

“ Gywir, wresog, awen-loew, emog”

mewn llinell arall; gallai ei bod hi yn teilyngu yr holl glod hwn, ond y mae y llinellau a ddynodwyd wedi myned yn weiniaid wrth ei chanmol: nid oes ganddynt, braidd, ddim ond ansoddeiriau.

“ Mae'r awen *burwen, barod,—fwyn, oleu,*  
*Fanylwyd, a hyglo,*  
 Yn *rhinweddawl, nerthawl, nod,*  
 I'w chwnu \* yn *iach hynod.*”

Dyma un-ar-ddeg o ansoddeiriau yn mhen un sylweddair!! Gwall ydyw hwn y syrthir iddo yn fynych: nid oes dim llai na saith ansoddair yn yr englyn budd-ygol canlynol:

“ *Gloew was siriol glyw seirian,—gwiw, nawsaidd*  
*Gynheswr holl aniau,*  
 Ydyw'r haul, *araul, eirian,*  
 Bywyd y dydd, byd o dân.”

*megys, gloew, siriol, seirian, gwiw, nawsaidd, araul, eirian!*

Nid dyben y sylwadau hyn yw ceisio dangos nad oes eisiau ansoddeiriau, ond fe'u gwneir er dangos beth mor amhriodol yw defnyddio cynifer o honynt yn yr un man; yn enwedig, pan fydd yn eglur i bawb mai llenwi lle geiriau ereill y byddant. Y mae gormod o ansoddeiriau yn ymddangos mor segur mewn cyfansoddiadau, ag yw y llythrenau segur sy mewn canoedd o eiriau Seisnig. Y rheol oreu i ochel hyn, efallai, fyddai i'r bardd ystyried pa eiriau a ddefnyddiasai mewn iaith rydd, ac egnio, hyd y byddo modd, cael y rhai hyny i fewn: prin y credwn y defnyddiasai neb o'r awdwyr a ddynodwyd y fath grug o ansoddeiriau pe buasent yn ysgrifenu rhyddiaeth. Nid diffyg galluoedd, bob amser, yw yr achos o hyn; oblegyd cyfarfyddwn a'r diffyg yma mewn gweithion beirdd da; gan hyny bai ynddynt hwy ydyw. Pan welir diffyg galluoedd mewn dyn, nid ellir llai na thosturio wrth ei ffolineb, am ymgais at beth sydd uwchlaw ei wybodaeth. Nid oes nemawr beth y mae dynion yn camgymeryd mwy yn ei gylch nag yw barddoniaeth; pe byddai llawer un haner mor hurt a bongleraidd gyda rhywbeth arall ag ydyw yn hyn, canai yn iach am byth i feddwl dyfod yn mlaen, ond glynodd amryw ar hyd eu hoes i geisio gwneud rhyw fath o brydyddiaeth.

\* Codi.

Nid ellir llai na gofidio dros ddynion a ant i draferth fawr i gyfansoddi cant neu ddau o linellau, a'r synhwyrol yn diflasu arnynt cyn y darlleno chwe llinell o honynt; ac heb deimlo un awydd drachefn i ail edrych drostynt byth. Y mae yn naturiol gofyn i bwy y mae y eyfryw yn cyfansoddi. Nid i'r doeth a'r synhwyrol, canys ni edrych y rhai hyny ar eu gweithion; ac nid i'r ffol, a'r diarchwaeth, at farddoniaeth gynghaneddol, canys â chaniadau gwag ac ynfyd, pen-yr-heolydd, y boddlonir y rhai hyny yn fwyaf; rhaid gan hyny mai iddynt eu hunain yn gwbl y maent yn cyfansoddi.

#### IV.—CYNGHANEDDION HEB WEITHREDEIRIAU NEU BARWYDDIAID YNDDYNT.

GWEITHREDAIK (*verb*), neu berwyddiad, a arferir i osod allan beth fyddwn yn gadarnhau mewn perthynas i unrhyw wrthrych, neu yn ei briodoli iddo. Nid oes dim bywyd yn ymddangos yn yr holl ranau ereill o ymadrodd heb berwyddiad. Y mae perwyddiad, mewn ymadrodd, yn debyg i'r galon yn y corff, yn ergydio y gwaed drwy y cwbl o'r aelodau. Drwy berwyddiadau yr amlygir bodoliad, gwneuthuriad, a goddefiad; ac y mae enwedigaethydd heb berwyddiad yn afreolaidd:

“Dadguddiad Iôn mad i'n mysg —goreuddawn  
Ior hyddawn, er addysg;  
Goleuni Duw, gleiniau dysg,  
A gemau'r gwir digymysg.”

Dylasai ein hawdwr fynegu am ba beth yr oedd efe yn meddwl. Y mae'r englyn o gynghaneddiad da, ond nid oes ganddo yr un pwynt.

“Gruffydd ab Cynan, wiw eirian arwr,  
Hir ysbaid didawl, a Rhys ab Tewdwr,  
A Gruffydd ab Rhys ddilys arddelwr,  
A Rhys ab Gruffydd dda lywydd, loew-wr:  
Rhys ab Thomas da syw dwr,—cadernid  
Ei wlad a'i ryddid, hylaw darweddwr.”

Nid oes un awgrym yn cael ei rhoddi beth oedd yr enwogion uchod yn wneuthur neu yn oddef: er cael eu henwau ar glawr, yr ydym yn y tywyllwch am eu rhinweddau. Y mae y cynghaneddion yn blethedig, ond beth yw'r synwyr? Gall y frawddeg fod weithiau yn lled hiranadlawg, eto os bydd ynddi berwyddiad bydd hono yn rhwymo y cwbl yn nghyd, fel maen clo; megys, y gwelir wrth yr engraffau canlynol:

Hynaws *adroddai* hanes derwyddon;  
 Defodau ein hên dadau diwydion,—  
 Eu treigl drwy fyd,—a'u traglew drafodion,—  
 Eu gwybodau a'u doniau diweinion,  
*Oedd* ddiawl mewn celfyddydion,—eu hedd,—  
 Eu hir fawredd,—eu dysg,—a'u harferion. GUTYN PERIS.

Os difai ei ystafell,—ei fwyd,  
 Ei fir, a'i lawn lyfrgell,  
 A'i ddaiaf neuadd ddiell;  
 Ei ddysg a'i gynghor *oedd* well. Ero.

Ni fuasai y penill cyntaf ond pentwr o eiriau gwasgaredig heb y perwyddiaid *adroddai* ac *oedd*: ac y mae y perwyddiad *oedd* yn y diweddfaf yn cloi yr holl ymadroddion blaenorol, ac yn eu gwneuthur yn un cyfanwaith.

#### V.—MEWN CHWAETH.

CHWAETH (*taste*) yw y gallu neu'r galluoedd meddyliol hyny a effeithir gan weithion y dychymyg, neu'r celfyddydau ag a ffurfia farn o berthynas iddynt; neu, y gallu i dderbyn hyfrydwch neu boen oddiwrth geinion (*beauties*) a diffygion natur a chelfyddyd. Nid oes dim mwy cyffredin yn mhlith dynolryw na'r blas a geir ar yr hyn fyddo yn dlws, yn rheolaidd, yn gyfartal, yn ardderchog, yn gyd-darawiadol, yn newydd, neu yn hoew; ac nid oes dim a rydd fwy o ddiflasder na'r hyn sydd yn drwsgl, yn anghyfartal, yn annhrefnus, ac yn anghyd-darawiadol. Y mae plant yn dangos egwydd-

orion chwaeth yn fore, mewn mil o ffyrdd; yn eu hoffder o wahanol wrthrychau. Y mae y werinos mwyaf hurt yn cael hyfrydwch oddiwrth ystorion, a cherddi, &c. Y mae y gallu hwn mewn gwahanol ddynion yn dra gwahanol. Nid oes ond ychydig o chwaeth i'w weled mewn llawer, a hynny sydd, y mae o'r natur arwaf a mwyaf anniwylliedig. Nid ydyw y rhan fwyaf o weithion athrylith ond pethau dynwardol o natur; danghosiad o gymeriadau, gweithrediadau, ac ymarferiadau dynion. Y mae yr holl hyfrydwch ydym ni yn ei fwynhau oddiwrth y fath ddynwardiadau wedi ei sylfaenu ar chwaeth; ond i'r dyall y perthyn barnu pa un a ydynt wedi eu gwneud yn iawn, yr hwn a gymhara y darlun, neu y dynwardiad â'r gwreiddiol.

Arwydda tynerwch chwaeth berffeithiad y teimlad naturiol hwnw, ar yr hwn y mae chwaeth wedi ei sylfaenu. Y mae yn cynwys y galluoedd coethedig sydd yn ein cynorthwyo i ganfod y ceinion (*beauties*) sy guddiedig oddiwrth lygaid y werinos (*vulgar*).

Arwydda cywirdeb chwaeth y gwellâd y mae y gallu hwnw yn ei dderbyn drwy ei gysylltiad â'r dyall. Nid ellir byth dwyllo y dyn o chwaeth cywir â phrydfertwch ffugiol; oblegyd y mae efe yn dwyn yn wastad yn ei feddwl ei hun brofedydd o synwyr cryf, wrth yr hwn y mae efe yn barnu pob peth.

Diffyg mewn chwaeth fyddai rhoddi menyw i siarad mewn iaith gref fel arwr. Neu ddodi hyawdledd Brougham yn ngenau bugail.

Diffyg chwaeth yw yr achos o arferu geiriau ac ymadroddion isel mewn darluniadau; a gyru cyffelybiaethau yn rhy bell; y mae ambell un, pan gaffo flodeuyn, yn ei wasgu ac yn ei anffurfio, yn gymaint, wrth geisio dangos ei brydfertwch, nes y bydd yn hyfryd genych ei weled yn ei ollwng o'i law rhag achosi dim ychwaneg o boen i chwi. Y mae dynion o'r darluniad hwn, am gael dyweyd y cwbl a ellir ei ddyweyd ar fater, heb adael dim lle i'ch meddwl chwi weithredu.

Dengys y llinellau canlynol iselder chwaeth:

DINYSTR JERUSALEM.

“A gweled llueddawg alon—afwys,  
Yn hel yr eglwys yn dail a rhuglon.”  
\* \* \* \* \*

“Lladd a rhwygo *sagio* sydd.”

“Eto mynant lwyr chwilio'r *tomenau*,  
Mewn ysig adwyth am hen *esgidiau*,  
Neu *grwyn drewltyd*, *esgyrn a drylliau*,  
Neu *olion bawlyd* i lenwi eu *boliau*,—  
*Gwasarn* a hen *wregysau*—a *gnöant*,  
Y *dom* a *ysant*—O dyma *eisiau*.”

“*Blingant*, *berwant*, heb *eiriach*,  
Bob yu *bwys y baban bach*.”  
\* \* \* \* \*

“Y wraig dyner a *rwya* â'i *danedd*  
Ei *baban anwyl*.”—  
\* \* \* \* \*

“Yn ei chur a *gwyn* o'i cho,—yn *gwanu*  
Ei *gwyn blentyn sugno*,  
Gan ei *drin* a'i *gnoi*.”—  
\* \* \* \* \*

“Wedi'r *boen* i *waedu'r bach*  
*Diaelodi'r diledach*.”  
\* \* \* \* \*

“Profwch *rhyw larp* o'r *afu*,  
*Darn* o'r *fron* neu'r *galon gu*.”  
\* \* \* \* \*

*Salem* sy'n llawn o *gyrff seilion*—*drwyddi*  
*Mae'n arogl fel tomen ruglion*.”

Y mae y darnau uchod, o'r braidd, yn rhy erchyll i'r rhai a feddant '*taste for the horrible*;' ac y maent yn dangos iselder chwaeth i'r eithaf; nid oedd gan ein hawdwr un ffordd i fyned at ein teimladau ond drwy eu haredig a'u rhwygo yn y modd mwyaf arswydus: aeth a ni i'r *dissecting room* ar unwaith; a pha deimlad a all oddef ei ddarluniadau garw: y maent yn isel ac yn arw. Y rhagor sy rhwng y darluniad a rydd Jeremiah o hyn; mor gynil y llefara y proffwyd am dano; nid ydyw yn defnyddio un sill, na gair, nad oedd ei eisiau, “Dwylaw gwragedd tosturiol a ferwasant eu plant eu hun: eu hymborth oeddynt yn ninestr merch



fy mhobl" (Galar. iv. 10). Ond y mae awdwr y llinellau a ddynodwyd yn trin y peth, ac yn troi o'i amgylch, yn barhaus, nes yr ydys yn ffeiddio y darlun.

Y mae llawer o'n beirdd yn chwanog (yn enwedig wrth gyfansoddi marwnadau) o ddynodi y gwrthrych y galerir ar ei ol, yn barhaus : megys, y *gwr, wr, Gymro, gwron, gwladwr, fel,*

" Ail Owen Gwynedd *wr* rhieddog ;  
A *gwr* ydoedd ail i Garadog ;  
Hafarch fel Llywarch Hen alluog  
Oedd yr hynod *llueddwr* enwog ;  
Bu mewn llafur fal Arthur wyrthiog,  
Am wir Ryddid :—*filwr* mawreddog."

Dyma *gwr* ddwywaith, a *llueddwr* o *filwr* yn y penill hwn.

Gellir rhifo mewn un awdl, yr hon nad ydyw ond o hyd canolig, y gair *gwr* wedi ei arferu dros ugain o weithiau, a hyny heb ei eisiau gymaint ag un waith ; ond y mae yn wir y newidir y dull ; bydd ambell waith yn blaenori yr ansoddair ; waith arall ar ei ol ; megys, *wr enwog, enwog wr ; wr hoew, hoew wr ; ÷on wr, wr ÷on ; &c., erfai wr ; wr dewrfyg, fyg wr, &c.* heb son am enwau ereill, megys Cymro, gwron, llueddwr, arwr, noddwr, &c. &c. &c. Y mae hyn yn tueddu i wanychu cyfansoddiad yn fawr. Onid gwell a mwy priodol fyddai arferu rhagenwau, yn lle beichio llinellau yn y fath fodd trwsgl ?

## VI.—Y CHWYDDIAETH.

CHWYDDIAETH sy gynhwysedig mewn gwthio gwrthrych cyffredin a gwael o'i le priodol, gan geisio ei godi i sefyllfa oruchel ; neu drwy geisio codi gwrthrych sydd ynddo ei hun, eisoes, yn oruchel (*sublime*), tu hwnt i bob terfynau natur a phriodoldeb. Y mae yr ysgrifenywyr a hoffant y dull hwn o gyfansoddi yn tybio os cant ddigon o eiriau ysplenydd i ddysgleinio ar lygaid y dar-

llenydd, pentwr o ansoddeiriau, a nifer o ymadroddion chwyddedig, uwchlaw a arferir gan y cyffredin, eu bod hwy yn sicr yn ngafael y dull goruchel (*sublime*); ond nid ydynt wedi dyall mai yn y meddwl, ac nid yn yr iaith, y mae y gorucheledd yn bodoli. Ceir gweled rhai o'r llwyth hwn yn cymeryd cymaint o drafferth arnynt eu hunain, i chwilio am eiriau mawr a chwyddedig, i ddyweyd am ddiffoddiad canwyll frwynen, a phe byddai *Georgium Sidus* yn cwmpo; dodant gymaint o'u nerth ar waith i osod allan chwaliad sypyn o bridd y waudd, ag a fyddai eisiau i ddyweyd am y Wyddfa yn neidio oddiar ei gwadnau. Y maent am wneyd y diffyg sydd yn eu meddylddrychau i fyny â geiriau swnfawr a chwyddedig. Ceir eu gweled yn dechreu hwylio eu camrau tu a *Parnassus*, yn galw am gymorth *Apollo*, yn yfed o *Hippocrene*, ac yn cyfarch *Calliope*, *Clio*, ac *Erato*, pe na byddai arnynt ond eisiau cyfansoddi cerdd i'r *llwynog melyn*, ar fesur triban! Y mae y rhan fwyaf o'r marwnadau cyffredin a gyfansoddir yn llawn o chwyddiaeth afresymol. Llauer dyn oedd yn ystod ei fywyd yn orthrymus, yn genfigenllyd, yn anghyfiawn, ac yn feddw, &c. mor gynted ag y byddo farw, ceir gweled amryw ymgeisyddion yn cyfansoddi marwnad iddo; a phriodolant iddo luaws o rinweddau na wybu efe erioed beth oedd meddianu cymaint ag un o honynt. Bydd creigiau y gymydoggaeth yn wlo; y blodau yn gwywo; ac anian yn pruddhau gan alar; bydd tlodion yr ardal yn gwelwi gan ddigalondid, o herwydd marwolaeth un, a fuasai yn gynt yn anos ei gwn i drueiniaid nag yr estynasai law o gymorth iddynt: yr oedd yn ddysgedig, er nad oedd yn medru darllen iaith ei fam; yr oedd yn engraff o rinwedd, er nad oedd erioed wedi plygu ei liniau i ofyn am drugaredd: yr oedd wedi bod yn fendith i'r holl wlad, er nad oedd o un cymorth i neb yn yr un fro ag ef. Pe'r atebasai llauer gwrthrych a folwyd, ac a ddyrchafwyd gan y beirdd, i'r cymeriad a roddwyd iddynt, ni fuasai y cyfryw rai yn addas i fyw yn mhlith dynion marwol a llygredig. Yr oeddynt yn

debycach i rai o breswylyddion bro anfarwoldeb, nag i neb ar y ddaiar. Y fath symiau mawr o arian sydd wedi cael eu gwastraffu i geisio codi cofgolofnau i rai y mae eu henwau yn pydru; tra y mae y rhinweddol, a'r duwiol, mewn llawer ardal, wedi ei esgeuluso yn gymaint, fel na wŷyr yr hynaf yn y fro, yn mha le y mae ei fedd; er hyny, y mae gweithredoedd y cyfryw un, er ei farw, yn llefaru eto.

Chwyddiaeth yw hefyd ceisio codi gwrthrych, sydd eisoes yn oruchel, uwchlaw holl derfynau natur a phriodoldeb; megys, pe dywedid fod pen Samson gymaint a Charnfadryn, a'i gorff a'i aelodau mewn cyfartaledd i hyny; neu fod digon o waed yn ngwythienau Goliath i nofio llong; neu fod un o gedrwydd Libanus, wedi ei thynu o'r gwraidd, yn rhy fach i fod yn llawffon i un o gawri meibion Anac. Seiniau pethau fel hyn yn rhyfedd yn nghlustiau yr anwybodus, a byddent yn barod i ryfeddu at alluoedd cryfion y dyn a gai allan y fath ddirgelwch; pan, mewn gwirionedd, na fyddai y fath afresymoldeb, ond yn dangos, naill ai hollol amddifadrwydd o athrylith, neu ddirfawr dlodi a gwaeledd yr athrylith a feddianid.

Clywir llawer o chwyddiaeth mewn areithiau yn gystal ag mewn barddoniaeth; yr hyn a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw *froth* (ewyn). Mewn cynhwrf mawr, chwys a llafur; geiriau tywyll, hirion, a chlogyrnaidd yn cael eu bwrlymu; cymylau o dawch yn codi; y gwrandawyr yn foddfa o chwys; a mawr y rhyfedda yr anwybodus a'r diddysg at fedrusrwydd yr areithydd; ond ni fydd ganddynt ddim i'w ddyweyd am dano wedi y darfyddo, ond ei fod ef yn gryf iawn; ac fod ei lais o yn dal yn dda; tra y bydd y synhwyrol yn myned ymaith wedi ei glwyfo gan anwybodaeth y cyfryw. Peth ffol fyddai ceisio cynhyrfu yr *Atlantic Ocean* i foddi gwybedyn!

## Y BEIRDD CYMREIG, &c.

### I.—ANFANTEISION BEIRDD CYMREIG.

GAN fod prydyddiaeth mor fore yn y byd, wedi ymagor gyda natur ei hun, gan fod Llyfr y llyfrau mor lawn o farddoniaeth, a phrif weision Duw, megys Moses, Job, Dafydd, Solomon, Esaiah, &c. &c. wedi cyfleu ini feddwl y Goruchaf yn y ffordd hon, a'r caniaidau a gyfansoddwyd ganddynt hwy yn nyfnder eu trallodion, ac yn uchder eu profiadau, yn mhethau Duw, wedi bod o gymorth i'r eglwys yn mhob oes, y mae yn syndod na fyddai mwy o sylw parchus yn cael ei dalu iddi. Onid rhyfedd fod caniaidau Dafydd pan yn cael ei erlid o flaen ei elynion, a phan fyddai y Goruchaf yn gwenu arno yn ei drallodion, yn foddion dyddanwch, ac yn ffynhonau cysur i Gristionogion y bedwerydd ganrif ar bymtheg. Crefydd, moesoldeb, a rhinwedd a bia'r gân; ond bu amser ar Gymru pryd nad oedd ond dynion llygredig yn talu un math o sylw iddi; halogent hi yn ddirfawr, a llygrent yr oesau â'u cyfansoddiadau; y mae llawer o ddarnau prydyddol nad ydynt yn deilwng o weled goleuni dydd; dylid eu bwrw i'r waudd, ac i'r ystlumod, fel na chaffo ein cenedl ei llygru mwyach â'r fath ffeidd-dra: ond y mae genym hefyd ddarnau teilwng iawn; ydynt yn addurn ac yn fri i'n cenedl; ac y mae hyny yn syndod pan feddyliom yn mhlith pa ddosbeirth y coleddid yr awen yn Nghymru; sef, dynion, yn gyffredin, ag oeddynt mewn amgylchiadau isel, crefftwyr a gweithwyr: y mae yn wir fod genym rai yn wahanol; ond dynia y dosbeirth mwyaf cyffredin; rhai a breswyliant mewn parthau dinod, yn nghilfachau y

creigiau; rhai a ymdrechent lawer â thlodi, ac anfan-  
teision ereill; rhai na wyddent ond un iaith; ag  
oeddynt heb weled y byd drwy brofiad na thrwy  
lyfrau; yn rhy isel o ran eu hamgylchiadau, i gael  
cyfeillachu â'u huwchradd, ac â'r dysgedig, yn  
gorfod ymsymud mewn cylchoedd cyffredin, ag ym-  
wneud â phobl gyffredin; heb ganddynt unrhyw gy-  
nhorthwy i fyned wrtho ond gweithion y beirdd a aethai  
o'u blaenau; ac yn fynych wrth geisio efelychu rhag-  
oriaethau y rhai hyny, byddent yn dilyn gormod ar eu  
gwendidau; tra y mae gan y Saeson eu boneddigion  
a'u hathrawon yn feirdd; eu W. Cowper, Ysw., T.  
Campbell, Ysw., J. Montgomery, Ysw., R. Southey,  
Ysw. Eu Sir R. Blackmore; Meistri Fenton, Gran-  
ville, Somerville, Dr. Swift, Pope, Dr. Watts, West,  
Dr. Young, Denham, Milton, Iarll Rochester, Iarll  
Roscommon, Waller, Dryden, Dr. Parnell, Rowe,  
Addison, Thomson, Sheffield, a'u Lord Byron, a'r cwbl  
wedi cael y manteision dysgeidiaethol goreu; rhai o  
honynt yn y prif athrofaoedd; amryw o honynt wedi  
hanu o ieirll ac arglwyddi; braidd i gyd mewn am-  
gylchiadau cyfoethog. Peth anarferol fyddai gweled  
meibion pobl ganolradd, ac iselradd, yn troi allan yn  
feirdd yn eu plith hwy. Yr oedd Cowley yn fab i  
fasnachwr; Butler yn fab i amaethwr; Akenside yn  
fab i gigydd; Smith yn fab i drafniwr; Prior yn fab  
i saer; a Collins yn fab i hetiwyr; ond cafodd y rhai'n  
fanteision a barodd iddynt ragori: os bydd gyda nhwy  
eu Henry Kirkwhite, a'u Thomas Ragg, †

“ Yn dwys barhau i ganu a gwau  
Tra dalia oriau'r dydd,”

a'u Robert Burns, who,

“ *Drove his plough along the mountain side,*”

bydd yn syndod; a sonir am danynt fel rhyfeddodau;

† Thomas Ragg sydd wehydd o Nottingham, mewn amgylchiadau  
isel, ond y mae yn fardd rhagorol; gwel adolygiad ar ei weithion yn  
yr *Evangelical Magazine*, am Dachwedd, 1837, tu dal. 525, lle y

ac am anwastadrwydd (*fickleness*) yr awen yn ei hymweliadau; ond nid allwn ni synu at hyn yn Nghymru; oblegyd i'r gwrthwyneb y mae: aeth yr awen heibio i lysoedd pendefigion ein gwlad; gadawodd y dysgedig; a thrigodd yn mhlith ein gofaint a'n seiri; ein gwehyddion, ysgenyddion, a'n cyfrwywyr; ein hamaethwyr a'n cloddwyr; ein cylchwyr, a'n hesgidwyr, &c. &c. a galwai, ar ddamwain efallai, heibio i ambell athraw ysgol; ond nid ydys wrth hyn yn golygu nad oes dynion dysgedig yn coleddu yr awen, yn awr, yn Nghymru: oes, y mae; ond eto rhaid addef mai ar y cyfrif eu bod yn feddianol ar awen gref, y cawsant eu holl fanteision i ddyfod yn ddysgedig. Y mae llawer, yn bresenol, yn weinidogion doniol, a defnyddiol, yn eglwys Loegr, na welasent, yn ol pob

sonir am dano gyda'r teilyngdod a'r parch sy'n gweddu i'w ddawn; nid ellir ymatal yma heb roddi un engraff o waith y bardd uchod; yr hwn, hyderir, na fydd yn flin gan ein cydwladwyr ei weled:

THE ADVENT ON SINAI.—Ex. xix—xx.

His robe was of the cloud,  
The light'ning braided o'er;  
His heralds the trump-note loud,  
And the echoing thunder's roar.

On the whirlwind's wing he came,  
And the mountain's awful height  
Was wrapp'd in smoke and flame,  
By the God's descending might.

He spake, and earth was dumb,  
Like the sea when the winds are laid,  
Like the night when the insect hum  
Is hush'd in the verdant glade.

He gave his fiery law  
In many an awful word,  
And the nations shook with awe  
As his threat'ning voice they heard.

Again to earth He came,  
In guise of a man forlorn,  
And chang'd was his crown of flame,  
For one of rending thorn.

tebygolrwydd, y fath ddyrchafiad, oni buasai yr awen; ond yn mha le yn Nghymru y mae un pendefig a dim tuedd ynddo at y fath beth? Eawer cymaint ag un Yswain, neu arglwydd o Gymro sy yn meddu un wreichionen o awen yn ei fynwes. Sonir fod D. ab Edmwnt, Iolo Goch, a Gutyn Owain, &c. &c. yn wyr cyfrifol; ac yr oedd Edmund Prys yn Archddiacon; ond pwy oedd Goronwy Owain? O ba le yr hanodd Lewis Morris, Jonathan Hughes, Thomas Edwards, D. Thomas, G. Williams, R. Davies, a lluaws sydd yn awr yn fyw? Nid ellir dyweyd fod gwaed arglwyddi nac ieirll, yn eu gwythienau; ond yr oeddynt yn ddynion digon parchus yn eu sefyllfäoedd cyffredin, fel dynion; a dygwyd hwy i sylw goruwch y cyffredin drwy rym eu galluoedd cynhwynol. Daeth rhai o honynt i amgylchiadau uwchlaw tylodi eu sefyllfäoedd dechreuol, ar gyfrif eu doniau a'u galluoedd yn unig; yr hyn a barodd lawer o lid a chenfigen iddynt, oddiwrth y cenfigenllyd oedd yn methu gweithio ei ffordd drwy y byd, ond yn gorfod aros, yn y man y ganed ef, ar hyd ei oes.

Y mae amryw hefyd o weinidogion yn mhlith yr Ymneillduwyr, nad allant ymffrostio o waedoliaeth bendefigaidd, eto oeddynt barchus yn eu cylchoedd, yn feirdd campus, ac yn meddu cymaint o ddysgeidiaeth, a gwybodaeth gyffredinol, ag sydd yn eu

The law his hands had given  
 He now fulfill'd and kept,  
 And opened the way to heaven,  
 For those who in anguish wept.

And He again shall come,  
 Thrones shall before him fall,  
 And every voice be dumb,  
 Or own him Lord of all.

Then heaven, along with earth,  
 Shall to its centre shake,  
 And up to brighter birth  
 The whole creation wake.

T. RAGG.

galluogi i gyflawni eu swydd bwysig gyda graddau lled helaeth o gymeradwyaeth; ond a sylwi yn gyffredinol, â dynion mewn sefyllfaoedd lled anfanteisiol y mae yr awen wedi ymweled yn Nghymru, yn enwedig, yn y triugain mlynedd diweddaf, gan fyned heibio i foneddigion a mawrion y wlad. Efallai, y dadleua rhywun nad yw y boneddigion yn dysgu yr iaith, ac fod hyny yn rhwystr iddynt; ond a chaniatâu hyny, nid ydynt hwy yn feirdd mewn unrhyw iaith arall.

Er fod llawer o ddarnau tlws yn ein barddoniaeth yn y blynyddau diweddaf, eto, rhaid addef mai go isel y bu wedi dyddiau Goronwy, hyd o fewn deugain mlynedd yn ol. Torodd allan rhyw gyffnod (*era*) newydd oddeutu y pryd hwnw; daeth y beirdd i chwilio mwy ar farddoniaeth cenhedloedd ereill, ac i weled y gellid dyrchafu yr awen gymreig i rodfaoedd uwch, nag a ganiateid iddi gan y dull byranadlog, a diarhebol, am yr hwn yr oedd llawer o'r hen feirdd yn dra nodedig; ac felly gollyngwyd hi o'i hualau, a chaniatawyd iddi esgyn y ffurfafen gyda Newton; tramwy llwybrau y moroedd gyda Columbus a Cooke; a dwyn ei marsian-diaeth o bell; dilynodd Josephus, Fox, Gibbon, a Hume, Goldsmith, Sturm, Franklin ac Ossian; casglodd flodau o bob gwlad, ac oddiar bob maes, ac ymgyfoethogodd yn ddirfawr; ac, y blynyddoedd diweddaf, hyn teithiai gyda Parry, a Ross; Williams, ac Ellis; Esgob Heber, a H. Martin; Dr. Morisson, a'r Dr. Carey; a mynai olwg ar barthau pellenig y byd; a chymer wibdaith yn aml gyda Herschel a'r Doctor Dick: a chysegrir hi yn fwy nag erioed at wasanaeth moesoldeb a rhinwedd; a gellir ei gweled yn eistedd wrth draed Howe, Edwards, Henry, Hall, Chalmers, a Wardlaw, ac yn cymeryd ei haddysgu gan yr enwogion hyn yn mhethau Duw. Dygwyd i ni, drwy y wasg, doraeth ar doraeth o gyfansodd-iadau gwerthfawr; ac y mae llyfrau barddonawl yn parhaus ddylifo i'n cenedl: a mwy o egni, yn y blynyddau diweddaf hyn, wedi cael ei wneud o blaid awen nag a wnaed er ys canrifoedd o'r blaen.



Prif ragoriaeth ein beirdd cyn dyddiau D. Ionawr, &c. oedd cynganeddu syniadau canolig yn rheolaidd a difeius, o ran yr iaith; trin pob testyn yn debyg i'w gilydd; a dim o'r ffordd gyffredin gydag un peth, nac uchder syniadau, na dychymygion awenyddol yn eu gweithiau. Yr oedd llwybr llawer un o honynt yn debyg i'r gledrffordd (*railway*); yr un lled yn mhob pen; ond nid oeddynt yn teithio yn debyg ag y teithia y cerbydau tân; ond yn hytrach, yn fwy tebyg i fadau camlas (*canal*), yn teithio yn araf, ar hyd wyneb dwfr llonydd; beunydd drwy leoedd gwastad, ac isel; nid oedd na mor na mynydd; na chraig na chlogwyn; na gradd na choedwig; na glyn na rhaiadr i'w weled, braidd, un amser yn y llwybr yr elai llawer o honynt; ond byddent yn lled debyg o gyraedd pen y daith megys rhwng dau ganllaw. Nid annhebyg oeddynt i'r morwyr pan oedd morwriaeth yn ei babandod, yn ofni myned llawer o olwg y tir: ond ag ystyried eu manteision, ac ystyried sefyllfa gwybodaeth yn mhlith rhai o'r un graddau a hwy yn Lloegr. Y rhyfeddod yw, eu bod wedi gwneud pethau cystal.

## II.—TESTYNAU I FARDDONI ARNYNT.

Y MAE yn amlwg i bob un fod gwahaniaeth dirfawr rhwng testyn a thestyn. Y mae ambell destyn, gyda yr enwir ef, yn lenwi y meddwl â meddylddrychau; megys, pe sonid am y fellten a'r daran, y storm, llongddrylliad, rhyfel, dinasoedd ar dân, &c. a gwaith mawr yw cadw yn lled gyfartal â gorucheled y rhai hyn; ond rhodder yr anfedrus a'r diawen i gyfansoddi arnynt, diflana eu mawredd o dan ei ddwylaw; ni fydd ei daran ef, ond fel ergyd o lawdryll; na'i storm prin yn ysgwyd y dail; ei longddrylliad heb ddychrynu neb o'r edrychwyr; ei ryfel, fel ymgiprys Porth Beli; a'i ddinas ar dân, fel ffagl wellt yn cyneu. Wrth ystyried fod gan Goronwy Owain y fath ddefnyddiau wrth ei law,

pan yn cyfansoddi cywydd y farn, nid ymddengys y rhagoroldeb yn gymaint; y mae dyfod i fyny, yn lled agos ar destyn felly yn gymaint ag a ellir ei ddysgwyl gan farwol ddyn. Yr oedd hanes y farn a'i hamgylchiadau genym, eisoes, wedi eu darlunio gan bin ysbrydoliaeth ei hun; ac ni buasai raid i Goronwy ond peidio llygru a lleihau y darluniadau hyny, na chawsai efe ei ystyried yn rhagorol. Y mae mwy gorchest mewn amryw o'i gyfansoddiadau nag sydd yn hwn, megys, yr awdl ar farwolaeth L. Morris, &c. Prinaf fo'r defnyddiau, a mwyaf o waith dychymygu fo gan y bardd, mwyaf rhagorol ydyw. Pa orchestgamp fyddai mewn troi hanes ar gân, wrth a fyddai mewn cyfansoddi cerdd newydd o ran ei meddylddrychau. Y mae rhagor rhwng myned i goedwig eich cymydog i dori pren, a chymeryd pren fyddo wedi tyfu ar eich tir eich hun. Tlws ddigon yw pennodau o'r Bibl wedi eu troi ar fesur cerdd, ond pwy bïa y meddylddrychau? Nid ydyw dawn fel hyn i'w dirmygu, sef, dawn i aralleirio; ond ni ddichon hon, a hi yn unig, wneud dyn yn ddyn mawr. Dylai y dyn a ddysgwylia gael ei alw yn fardd, fod yn lluniedydd ei hun, ac yn meddu "llygad yn gweled anian, calon yn teimlo anian, a glewder a faidd gydfyned ag anian," ac nid boddloni ar ddarluniadau pobl ereill.

Y mae ein beirdd wedi cael cam dirfawr, lawer gwaith, drwy eu cyfyngu yn ormodol at fesur, neu hyd; megys, rhoddi Pont Menai yn destyn chwe englyn; ni fuasai waeth ceisio crynhoi afon Menai i blisgyn wy; deuddeg englyn ar arch Noah, amgylchiad a ofynasai gân hwy nag Iliad Homer; pan, efallai, y rhoddid *Nimrod*, neu *Pharaoh*, mewn cymydogoeth, yn destyn awdl, a gwobr helaeth am *wneud* mawl iddo.

### III.—PA BETH YW AWEN?

Pe gofynid, Pa beth yw iaith? ceid atebiad, iaith yw casgliad o seiniau, neu nodau, a arferir gan unrhyw

genedl neu bobl i ddangos eu meddyliau i'w gilydd: pe gofynid, Pa beth yw gramadeg? atebid, Mai y gelfyddyd o amlygu ein meddyliau, mewn geiriau, yn drefnus, ydyw.

*Pa beth yw Awen?* Rhoddwn ger bron y darlennydd farnau y beirdd am dani, ac wedi hyny dyfaled yntau; fe'i gelwir yn y 'Powysion,' yn "Wen Rhagluniaeth;" yn "Ddylif o ysbrydoliaeth;" yn "Aw;" yn "Ysbryd Glân;" yn "Dan ysbrydol;" yn "Ddirgel lef;" yn "Anian o Nef;" yn "Em;" yn "Feddwl a Thuedd;" yn "Rhodd o Nef;" yn "Drigianydd y fynwes a'r ymenydd;" yn "Nwyf;" yn "Ganwyll;" yn "Wreichionen;" yn "Nerth anian;" yn "Synwyr;" yn "Adenydd enaid;" yn "Ddawn cân;" yn Ber ffrwd o win Duw;" yn "Brif addurn gwybodaeth;" yn "Ganwyll o Nef;" yn "Ferch hynaf y Nef;" a'i theithi yn "Ddysg;" yn "Gof;" yn "Grebwyll;" yn "Iaith;" yn "Bwyll pen;" yn "Duedd ddoeth;" yn "Elfen;" yn "Seren;" yn "Llais Rhên;" yn "Ysbryd;" yn "Gyneddf;" yn "Wy o Nef;" yn "Wawl enaid;" yn "Serch;" yn "Fyfyr;" yn "Ddygwyddiad oes;" yn "Ymgais;" yn "Gallineb;" yn "Ddeall;" yn "Forwyn;" yn "Ddawn natur;" yn "Reddf anian;" yn Fanon nefol;" yn "Dafod tân;" yn "Ddawn cerddawl;" yn "Rhanau ymadrodd;" yn "Ddoniau Eden;" yn "Fagwres pob dychymygion;" yn "Synwyr;" yn "Fri synwyr;" yn "Nwyd;" yn "Greawdyddes anian;" yn "Elw;" yn "Syniad;" yn "Dri bywyd;" yn "Bum heol;" yn "Ffrwyth pren yn Eden;" yn "Ffraeth ymadrodd;" yn "*Gamrig*;" yn "Uchel ehediadau;" yn "Haul ofydd;" yn "Wibseren;" yn "Flodau crebwyllion;" yn "Broffwydawl seren;" yn "Delyn aur;" yn "Anadliad Duw;" yn "Dan ysawl."

Ni wyddir yn iawn pa un a yw yn haws dyweyd yn bresenol, pa beth yw Awen, wedi clywed cynifer yn dyweyd eu barnau, nag oedd cyn gofyn i un o honynt. Gellid tybio, a hyny nid ar gam, fod llawer wedi ceisio

dyweyd pa beth yw, heb erioed wybod hyny drwy brofiad. Y mae llawer o'r darluniadau hyn yn arswydus; ac ereill yn ffol dros ben, a gellid tybied fod amryw ereill yn dyfod yn lled agos i'r nod. Gan fod cynifer o farnau gwahanol yn nghylch pa beth yw Awen, a ydyw yn rhyfedd clywed cynifer o farnau gwahanol, ar ol pob Eisteddfod, yn nghylch pwy fydd y cyfansoddwr goreu ar y testynau. Gellid meddwl, mai mewn anwybodaeth dynion yn nghylch pa beth yw Awen, y mae camdybiau llawer am eu cyfansoddiadau yn ffynhoni. Hyderir y daw y Cymry i fyfyrion mwy ar y mater hwn, ac yna cawn gyfansoddiadau teilyngach yn ein Heisteddfodau, a llai o rwgnach wedi yr elont heibio. Gan fod barddoniaeth wedi cael ei thrin yn lled helaeth yn y tu dalenau blaenorol, a barnau enwogion wedi cael eu gosod ger bron y darllenydd, ystyrir y sylwadau hyny yn atebiad gwir i'r gofyniad, Pa beth yw Awen?

## IV.—Y BARDD GYNT.

YSTYR y gair bardd yn yr amseroedd gynt, yn ol y Dr. O. Puw, oedd dysgawdwr, offeiriad, neu athronydd, a chan mai drwy brydyddiaeth y cyfrenid gwybodaeth i'r bobl yr oedd angenrheidrwydd iddo fod yn brydydd hefyd. Nid oes un ystyr ond prydydd yn nglyn ag ef yn awr. Yr oedd y bardd mewn parch mawr yn ynys Prydain. Wedi iddo fyned drwy y graddau gofynol fel *Awenydd*, neu berchen awen, fe'i gelwid yn *Fardd ynys Prydain*. Yr oedd ei wisg yn unweddog, o liw yr awyr, arwyddlun, fel y tybient, o heddwch a gwirionedd; ystyriod ei berson yn gysegredig; gallai efe fyned drwy wledydd gwrthwynebus a rhyfelawg yn ddyogel; ni fyddai efe byth yn ymddangos mewn byddin ond fel cyhoeddwr, neu o dan faner gyngreiriol; ac ni fyddai byth yn dwyn arfau; ac nid oedd arf noeth i gael ei ddal yn ei bresenoldeb. Y cyfryw o honynt a gyf-

lawnent ddyledswyddau crefyddol a elwid *Derwyddon*: ac *Ofyddion* oedd bersonau a ordeinid drwy radd lythyr, o herwydd eu rhinweddau, heb fyned drwy gylch rheolaidd o addysg. Pan ddaeth Cristionogaeth gyntaf yma, yr oedd y *Bardd* yn gweinyddu fel offeiriad; ond o ddeutu y bedwaredd ganrif, pan gafodd eglwys Rhufain yr uwchafiaeth, ysbeiliasant y *Bardd* o'r rhagorfreintiau hyn. *Bardd taleithiawg* oedd y cadeirydd mewn *Gorsedd daleithiol*; ond ni feddai efe na *Bardd ynys Prydain* hawl i unrhyw uwchafiaeth ond tra y gweinyddent, ac y detholid hwy i'r gadair. Y *Bardd teulu* oedd yr wythfed swyddog yn nheulu y tywysog. *Bardd* wedi ei raddoli a elwid yn *Fardd wrth fraint a defawd Beirdd ynys Prydain*: fe'i gelwid mewn amseroedd diweddarach yn *Fardd Caw*, *Cadeirfardd*, a *Bardd Cadeiriawg*. Arferir y gair *Bardd Cadeiriawg* eto am un fyddo wedi enill y prif destyn mewn eisteddfod daleithiawl. Er pelled yr ydym, yn awr, yn Nghymru, oddiwrth ffolineb coelgrefyddol, eto, gwych fyddai gweled mwy o drefn a dysgyblaeth yn mhlith y rhai sydd yn ei hystyried yn rhyw anrhydedd cael bod o nifer *Beirdd wrth fraint a defawd Beirdd ynys Prydain*, yn lle bod pob math yn honi yr enwad o fardd pa un bynag ai teilwng ai peidio fyddo.

Y mae beirdd wedi bod, yn ddiameu, yn euog o honi rhyw ysbrydoliaeth anghyffredin, ac wedi cael gan y werinos gredu eu bod hwy yn rhyw fodau uwchlaw eu cyd-ddynion, a hyny yn llawer drwy eu harferion rhyfedd a'r neillduedd hwnw a honent oedd mor angenrheidiol i'r awen. Er y cara yr awen neillduedd, ffolineb yw meddwl na ddylai beirdd ymgymysgu â chymdeithas; oblegyd, yn ddiameu, pe cawsent y fantais yma yn helaethach, buasant yn rhagori llawer ar y peth ydynt o ran chwaeth, a gweddusder; ac ni chawsem olwg mor ddifoes, hurtaidd, ac yswil ar lawer o honynt, pan ddelent i blith eu huwchradd. Yr oedd llawer o honynt mor wladaidd a garw, o ran eu hymddangosiad, ac mor dderwyddaidd, o ran eu moesau, a'u harferion, nes yr

aeth edrychiad prydydd yn ddiareb; ac y dywedid am ddyn a edrychai yn syn, ac yn hurt ynfyd, ei fod ef yn edrych fel prydydd; meddylid ugain mlynedd yn ol fod aflerwch mewn gwisg; arafwch mewn ymadroddion; edrych tu a'r ddaiar; gadael y gwallt yn annhrefnus; barf heb ei thori, yr hosanau am ben y traed; penau y gliniau heb eu cylymu; a methu cael llonydd yn nos heb godi o'r gwely, i groesawu yr awen, yn hanfodol i fardd; ac ni ystyririd neb yn meddu hawl i'r teitl, heb ddwyn y nodau uchod, a lluaws o bethau ffol cyffelyb: a chredai llawer mai ysbrydoliaeth, wedi disgyn yn ddigyfrwng, o law Duw ydoedd yr awen; ac fod pob un a gynysgaeddid â hi yn un o anwylion y Nef, yn ddiameu; ac ystyriai y rhai a roddent goel ar y breuddwydion hyn, bob bardd dysgedig, yn annheilwng o gael ei alw yn fardd, oblegyd dywedent mai bardd trwy *lyfrau* ydoedd; ac nid bardd natur; bardd natur, yn eu tyb hwy, oedd dyn aflerw o'r darluniad a nodwyd; yr hwn a ffraeth barablai luaws o linellau cynghaneddol, trwy ddylanwad y pot a'r bibell, er difyru y gymdeithas; dyn o awen bardd y gelwid dyn fel yma; ond y mae chwaeth y genedl wedi gwellâu llawer, ac yn parhau i wellâu yn hyn; y mae ein beirdd, gydag ychydig iawn o eithriadau, wedi dianc oll o gymdeithas ynfydion yn bresenol; nid oes ond ychydig iawn o'r rhai iselaf eu cymeriadau yn aros yn ol i ddifyru y cyfryw.

## V.—EISTEDDFODAU.

Y MAE yn ddiamheuol fod yr Eisteddfodau diweddar wedi gwneud llawer o lesâd i lenoriaeth gymreig; ac y maent wedi gwneud niwed dirfawr i lawerodd o ddynion. Meddylid bob amser mai dyben cynal Eisteddfodau oedd rhoddi anogaeth i ddynion o alluoedd gyfansoddi pethau teilwng o fod ar gof a chadw. Y mae yn wir fod genym gynyrchion myfyrdodau beirdd a rhyddieithwyr y bydd yn werth eu cofio a'u cadw; ond

y mae genym bethau ereill, ysywaeth, wedi eu cymeradwyo mewn Eisteddfodau, a fyddant yn warth i'r oes. Nid ydyw y profiedydd wedi cael ei ddal yn ddigon uchel. Y mae dynion ffol yn meddwl, ac y mae beirniaid ffol (*soi-disant*) wedi meddwl hefyd, y dylasid gwobrwyo y goreu mewn ymgais, pa un bynag fuasai ei waith yn rhagorol ai peidio, os byddai yn well na'i gyd-ymgeisyddion. Y mae hyn, yn ddiddadl, yn gyfeiliornad arswydus: pa fodd y dysgwylir i ddynion ymdrechu felly, os bydd gwobr i'w chael mor hawdd. Y mae tlysau wedi myned agos mor aml, mewn llawer ardal â botymau; nes y mae braidd, yn fwy o anrhydedd i ddyn fod heb yr un na bod yn meddu nifer o honynt. Pe yr arferasid y gyllell ysgythru yn amlach, cawsai y gof arian lai o waith. Ymddengys, os na ddaw rhyw dro buan y bydd yr Eisteddfodau wedi gorweithio eu hunain i ddyddimder. Y mae yn warthus meddwl drwy y fath gastiau y mae llawer wedi dyfod i feddianu tlysau. Byddai yn harddach i amryw eu gwerthu yn lle hen arian na'u gwisgo; ni ddangosent felly eu ffolineb yn gymaint. Poenus raid fod i feddwl y dyn, os gall ef boeni, glywed rhywun yn gofyn ar ddangosiad ei dlws,

“Bathodyn am beth ydyw?”

Y mae llawer yn gwisgo tlysau pobl ereill, ac ereill wedi prynu tlysau; pa anrhydedd yw hynny iddynt? Dylid codi y profiedydd yn uwch, ac onid è, bydd ein barddoniaeth fuddygol mewn llawer man yn hollol anheilwng. Nid ydys heb olygu fod llawer wedi enill yn deilwng; ie, mor deilwng ag y gall beirniaid sefyll wrth gefn eu penderfyniad dranoeth ar ol yr Eisteddfod, heb wrido. Y mae y rhagoriaeth yn ddigon amlwg; ac y mae ereill wedi cael eu gwobrwyo am gyfansoddiadau na dderllyn un dyn sy'n dyall barddoniaeth byth mo honynt yr ail waith, os na wna hynny, er cael golwg ar feiddgarwch dynion yn gwobrwyo pethau mor anheilwng. Rhaid cael diwygiad yn hyn, ac onid è awn dan warth fel cenedl.

## BEIRNIADAETH.

## EISTEDDFOD LLANERCHYMEDD.

DAU O'R TESTYNAU oeddynt chwe englyn i etifedd Llwydiarth, ac Awdl ar Drafnidiaeth. Yr hwn a gydweithredai â'r awdwr yn hyn oedd, Joseph Jones, Ysw., Caerynarfon. Bwriedid i Mr. David Owen, o'r Gaerwen (Dewi Wyn), gydweithredu hefyd, ond dymunai ymesgusodi, fel y gwelir wrth y llythyr canlynol:

Pwllheli, Mai 8, 1835.

HYBARCH SYR,—Derbyniais eich llythyr o law y Parch. Wm. Williams; ymdeimlaf yn ddiolchgar i'ch dirprwyaeth am eich tyb dda o honof yn cynyg i mi yr anrhydedd o fod yn gydfarnydd â Mr. Williams, ar y canïadau y rhai a ddyg gydag ef; darlenniad pa rai a fu yn ddifyrwrch nid bychan i mi, gan eu bod, yn fy nhyb i, yn cynwys llawer o ragoriaethau, a gorchestion awenyddol; ond o herwydd amrywiol resymau afreidiol eu hadrodd, nid allaf ar un cyfrif eu darllen gyda'r fath ddichlynwch ag a weddai i'w cymharu a'u barnu: gan hyny gobeithiaf yr esgusodwch fi, ac i dystio fy mharch a'm hewyllys da atoch chwi a phob eisteddfodau, goddefwch i mi eich anog i beidio gollwng cynyrch y fath lafur a medrusrwydd i fro angof, drwy esgeuluso neu wrthod cyhoeddi y goreuon, fel y gwna eisteddfodwyr yn gyffredinol. Yr eiddoch yn ostyngedig,

*To Mr. John Hughes, Secretary.*

D. OWEN.

*At Ddirprwywyr Eisteddfod Llanerchymedd.*

FONEDDIGION,—Yn ol eich dymuniad, darllenasom y cyfansoddiadau a anfonasoch atom gyda manylrwydd; y mae llawer o'r englynion yn waelion ac yn ddinerth; y mae ereill yn ganolig; eithr nid oes nemawr



un dosbarth o honynt yn gampus iawn : ni chymerasom drafferth i'w dosbarthu a'u gosod o oreu i oreu, eithr sylwasom fod dau yn rhagori ar y lleill. Yn bresenol cymerwn ein rhyddid i fynegu ein golygiadau arnynt oll; gan eu rhestru fel y dygwyddasant ddyfod i'n llaw, wedi dethol o honom y ddau oreu o blith y twr:

“ Y mae englynion “ Cyfaill iddo,” yn lled ystwyth; ac y mae yr awdwr wedi cyfansoddi un englyn o'r chwech i ofyn pa fodd y cyfansoddai efe y pump ereill; nid allwn ystyried hyn yn gamp ynddo: gwnaeth ddefnydd hefyd o un gair mewn llinell, nad oes ynddo un math o synwyr yn ei gysylltiad â'r geiriau ereill; sef, “ abrwysg,” yn y llinell hon “ *Dail abrwysg hyd ei lwybrau;*” ystyr yr hwn yw, *anhylwyth; amrosgo; trwm; meddw; wedi alaru drwy orlwytho y cylla!* “ *Ail iddo yn Lywyddion,*” yw un llinell arall, dylasai'r *L ddiweddaf fod yn Ll,* a thrwy hynny buasai y gynghanedd wedi ei distrywio. Y mae ychydig o bethau ereill, ag ydynt, yn nghyd a'r pethau a nodwyd, yn ddigonol i beri i'r gwaith hwn gael ei farnu yn anheilwng; eto, rhaid addef, pe llithrigrwydd dawn a rhwyddineb cynghaneddol, yn unig, a ofynasid, heb sylwi ar synwyr nag ystyr geiriau, buasai gan “ Cyfaill iddo ” hawl i fod yn mhlith y rhai blaenaf, oblegyd y mae yn llithricach na hwynt oll; ond y mae gwylltineb ei awen wedi ei gario yn mbell dros y terfynau.

Ymddengys i ni fod “ Ewyllysiwr da i deulu Llwydiarth,” wedi cyfansoddi ei englynion yn fwy er difyrwch iddo ei hun, nag ar feddwl eu hanfon i'r eisteddfod; y mae amryw o feiau cynghaneddol anafus yn y rhai'n; megys,

“ *Da fydd d'etifeddion—d—t*  
*Iddo ef—A'i holl ddyddiau'n ddiloes—dd f—dd dd*  
*Na anghofed wlad ei dadau—tor mesur*  
*Aed rhagddaw o daw adeg—dim cynghanedd*  
*Dros ei wlad—sy lydan ei breindeg—coll r.”*

Y mae “ Ap Ceridwen ” wedi dysgu y gamp o osod y cydseiniaid yn rhesau i ymryson, a dulio eu gilydd,

yn dda. Yr un peth a ellir ddywedyd am gyfansoddiad "Huw Arwystl" hefyd; nid oes yn un o'r ddau hyn, ddim a dŷn sylw neillduol y darllenydd heblaw brwydr y cydseiniaid.

Y mae "Carwad" yn dyall natur y cynghaneddion yn ganolig; efallai, mai nid drwg fyddai ganddo ef i ni ei hysbysu, fod gormod o *eiriau llanw* yn ei waith; gweiniaid a llesg hefyd yw ei feddylddrychau; eithr y mae efe wedi rhoddi tân mawr yn un o'i linellau; sef,

" Etifedd gwir hedd gyrhaeddo—wawl wlad  
Ar ol i Lwydiarth fflamio."

y mae hon yn *fflamio*!—

Cynghorem "Malldraeth Môn," i beidio er dim a meddwl cyfansoddi ar y gynghanedd gaeth, nes y byddo wedi yfed ychwaneg o ysbryd barddonol. Efallai, y dichon iddo ef gyfansoddi dyriau er difyrwch i'w gymydogion.

Meddyliem ar ymgais "Sion Brwynog," yr ewyllisiai efe fod yn fardd; pe buasai holl linellau yr awdwr hwn mor ddilyn ac mor farddonol a'r ddwy linell hyn,

" Atal adwyth tylodion  
Oddiar ei fwrdd hir i Fon."

buasai yn debygol o gael eu rhestru gyda'r pigion; ond y maent mor annhebyg i'r lleill, fel na feddyliai neb byth mai gwaith yr un gwr ydynt.

Y mae gormod o ansoddeiriau yn ngwaith "Gwyneddwr," a'r rhai hyn yn rhy *ddiansawdd*, wedi y cwbl, i ddangos ansawdd y gwrthrych a foliennir ganddo, gydag un math o ddeheurwydd.

Gallodd "Gwelwlyd Gafaelfawr" fod mor gampus a chyfansoddi un englyn heb gymaint ag un ferf ynddo; cymaint gorchest, onidê, ag oedd cyfansoddi englyn y pryf copyn heb un gydsain ynddo? *Gafael fuch*, ac nid "Gafael fawr," sydd ganddo yn ei destyn pa fodd bynag.

Yn ein tyb ni, y ddau sydd yn rhagori ydynt

“Dyfnwal,” a “Prydain ap yr Aedd mawr;” ond nid ydyw y ddau hyn mor ragorol ag y gallasant fod; nid ydynt yn hollol rydd oddiwrth feiau cynghaneddol; y mae eu meddylddrychau mewn rhai manau yn rhagori: er fod “Dyfnwal” wedi cyfansoddi rhai cynghaneddion yn fedrus, eto y mae wedi dangos anwybodaeth mewn hanesiaeth pan ddywedai,

“Tros oesau traha Saeson—afhonydd  
A flinai’n Derwyddon.”

Onid y Rhufeiniaid a flinai y Derwyddon? Y mae ganddo hefyd rai llinellau hynod anystwyth; y rhai, gydag ychydig o ofal a allasai eu gwellâu.

Y mae meddylddrychau “Prydain ap yr Aedd Mawr,” yn llawnach ac yn gryfach; ac er nad ydynt yn hollol rydd oddiwrth feiau cynghaneddol, gwnelid gwell cyfieithiad o honynt nag o un o’r lleill. Y mae yn y gwaith hwn y beiau a elwir ‘Trwm ac ysgafn,’ a ‘Thwyll cynghanedd.’

Nid oes genym ni yn awr ond gadael y peth i farn y Dirprwywyr yn hollol pa un a roddant y wobr ai peidio am yr englynion hyn; gallasai pob un o honynt gyfansoddi yn well, yn ddiamheuol; ond a chymeryd pob peth at eu gilydd y mae englynion “Prydain ap yr Aedd Mawr” yn rhagori.

Gellir dywedyd am yr Awdlau ar “Drafnidaeth” eu bod yn gyfansoddiadau da, ac fod yn mhob un o honynt bethau rhagorol. Cyfansoddodd ‘Cambr’ Gywydd, gyda’r eithrad, dybygem, o ddwy linell Toddaid. Y mae meddylddrychau cryfion a gwreiddiol yn y Cywydd hwn; ond Cywydd ydyw; ac nid Awdl; am *Awdl* ar Drafnidaeth yr oedd y Dirprwywyr wedi cynyg y wobr; gan hyny ni allwn ei roddi yn y glorian.

Daeth Awdl ‘Gwyddno’ i law yr Ysgrifenydd yn rhy ddiweddar; dymunol fyddai i’r Dirprwywyr er hyny, roi ryw gydnabyddiaeth i’r gwr hwn am ei lafur; oblegyd y mae ynndi bethau campus a theilwng.

Ymddengys i ni mai difaterwch a darawodd ‘Per-

icles' ar y ffordd, ac onidê cawsem Awdl hirach ganddo; gall pob dyn, a fedro ddarllen, wybod, yn hawdd, mai nid diffyg galluoedd a barai iddo roddi i fyny mor fuan. Y mae'r Awdl hon, cyn belled ag y mae yn cyrhaedd, yn cynwys pethau rhagorol: y mae yn fer hynod, i.e., yn rhy fer i'w roddi yn y glorian gyda'r lleill dan feddwl iddi gael y blaen arnynt. Y mae yr awdwr yn deilwng o barch am ei ewyllys da. Meddyliem ni ar ei waith yn cychwyn ei fod ef wedi llawn fwriadu cyfansoddi gorchestwaith ar y testyn hwn.

Y mae Awdl "Nefudd" yn cynwys llawer o bethau ardderchog, mewn perthynas i helyntion ein cenedl a'i rhyfeloedd, a'r annhrefn oedd ar ein gwlad gynt, cyn cael Trafnidaeth i wenu arni. Y mae ynddi draethawd rhagorol ar Astronomyddiaeth, a phwy oedd y campwyr yn y gangen hon o wybodaeth fuddiol, yn mhlith y Cymry a'r Saeson. Ac fod dyall hyn yn anhebgorol angenrheidiol i gynnal Trafnidaeth, &c. Yna y mae yn sylwi ar Drafnidaeth dramor, ac anturiaethau Prydain, a'r pethau gwerthfawr a ddygir i'n gwlad gan y llongau sydd yn myned allan 'o flaen awelon,' a'r llwyddiant sydd yn dilyn y dduwies hon yn mhob man lle yr êl.

Y mae yr iaith yn dda, a'r cynghaneddion yn rymus; dengys y gwaith fod yr awdwr yn gydnabyddus iawn â hynafieithau y Cymry, ac à dull cyffredin yr hen feirdd o gyfarch yr awen, a'i gorchymyn at ei gwaith; eithr nid ymddengys ei fod ef wedi meddwl cymaint ag a feddyliodd "Owain Gwynedd" am gyffredinolrwydd ei destyn; nag ychwaith ei fod ef wedi sylwi cymaint ar y lleolrwydd (*locality*) a berthyna iddo. Y mae India, Amerig, Arabia, Abysina, &c., yn seinio yn burion yn nghlustiau y Cymro; ac y mae yn hyfryd gan bob gwladwr glywed y geiriau cymreig megys Prydain, Môn, Arfon, Menai, Paris fynydd, Llundain, Caerodor, Llynlleifiad, Caerynarfon, Lleyn, Cemlyn ac Amlwch, a chlywed hanes y Drafnidaeth a ddygir yn mlaen ynddynt hwy.

Y mae "Owain Gwynedd," yn ddiamheuol, wedi

rhoddi golwg fwy cyffredinol a llëol hefyd ar ei destyn; ac yn ein tyb ni y mae yn rhagori oblegyd hyn; canys os bydd dyn yn cymeryd arno wybod mwy am wledydd pellenig nag am y wlad y ganwyd ac y magwyd ef ynddi, bydd gormod o duedd ynom i'w ameu, hyd yn nod pan y dywedo y gwir wrthym; nid felly "Owain Gwynedd," y mae efe, heblaw dywedyd am ragoroldeb gwledydd ereill a'u Trafnidaeth, yn ein harwain drwy wledydd a chymydogathau yr ydym yn hollol gyd-nabyddus â hwynt; ac yn lle creu amheuaeth ynom, y mae'n bywiocâu ein hysbrydoedd drwy ddangos ini ogoniant a gwerth ein gwledydd, bryniau, a'n bronydd ein hunain.

Dechreua ei Awdl gan ddangos darpariaeth helaeth duwies Trafnidaeth ar gyfer y byd—yn gwylio pob gorchwylion ar dir a môr—yn bendithio anturiaethau dynion—yn codi y rhai isel o'r llwch—na wena ar segurwyr—fod elw yn ei llafur—ei bod yn ymwneyd â cyfoeth pena'r byd—yn dwyn eu haeron, pêrlysiau, ei hýd, a phob ryw hadau—gwin ac olew, llin a gwlan—dail yr India a'u nodd—yn fywyd dinasoedd, porth-laddoedd a threfydd—yn rhwygo llwybrau y moroedd—ei phedrolfeni, cerbydau, agerdd-gerbydau, agerdd-longau yn ymsymud "tan ruaw gwylltiaw a gwau"—cyflymder trosglwyddiadau y llythyr-god—ffyrdd drwy fryniau a chreigydd—agor camlesydd—ffyrdd haiarn yn amlhau—codi y pantau—Pont Menai—môr a thir yn llawn bywiogrwydd yn gweini i'r dduwies hon—llesoldeb yr argraff-wasg—ymdrechiadau y llafurwr amaethyddol—dyben holl lafur a thrafferthion y llafurwr tlawd—cyfleusderau yr ymdeithydd ar ol lludded y daith—hwylusdod trefniant ariandai, diogeldai, &c.—new-idion marchnadyddiaeth—pwysau a mesurau, eu defnydd—cloddio i grombil y ddaear a dwyn trysorau allan—Paris Fynydd a'i gyfoeth—y ffyrnau haiarn a chopr—cyfoeth mynyddau Arfon—sidanau, 'arian bathol'—'nod ygrifau yn daliadau y dyledion'—llawer teulu yn dysgwyl wrth ei dôr—gofal am ei chyllidau—teithiau

Lander, Parry, a Ross—Trafnidaeth y brifddinas—Llynlleifiad—Caerodor—Caerynarfon—Môn a'i thor-aeth—y môr yn gylch iddi—cwyn rhag gorthrymder—y gribddeiliaeth Indiaidd wedi dar fod—y Negro yn rhydd—y drwg o geisio rhwymo olwynion rhagluniaeth—dymuniad am ei llwyddiant yn mhob man.

Yn hyn yr ydym yn golygu fod yr Awdl hon yn rhagori ar “Nefudd,” sef, yn ei chyffredinolrwydd o ran ei hegwyddor, ac yn ei lleoldeb hefyd; y mae ynddi grynodedeb o wybodaeth gelfyddydawl; sylwa ar Draf-nidaeth dramor, ac ni lya y lleoedd sydd o gylch Môn ac Arfon. Y mae rhai cynghaneddion campus iawn yn yr Awdl hon; y mae y rhai gwaelaf o honynt heb ddim beiau anafus ynddynt. Hwyrach y gallasai yr awdwr fod yn fwy gofalus wrth eirio ambell frawddeg, er mwyn eglurdeb; ond nid ydym ni yn gweled dim ynddi nad ydyw yn hawdd i bob dyn ystyriol ei ddyall, a'i ddefnyddio.

#### CYNGAN LLWYDIARTH.

CYNGAN Llwydiarth ydoedd gyfarfod a gynhelid mewn coffadwriaeth am Eisteddfod Llanerchymedd. Y prif destyn oedd chwe englyn i'r telynor ieuanc Master Hughes. Y rhai a gydweithredent, yn y feirniadaeth hon, â'r awdwr, oedd Joseph Jones, Ysw. Caerynarfon, a Chlwydfardd.

#### *A Ddirprwywyr Eisteddfod Llanerchymedd.*

FONEDDIGION,—Derbyniaisom ddau ar ugain o gyfansoddiadau ar destyn eich cyngan, sef Master Hughes, y rhai a ddarllenasom gyda gofal a manylder. Y mae yn ddiamheuol genym y siomir ugain, neu un-ar-ugain, o'r nifer, beth bynag; oblegyd yr oedd pawb, y mae yn debygol, wrth gyfansoddi yn dysgwyl enill y gamp; a phob un cyn anfon ei waith o flaen y frawddeg wedi pen-

derfynu nad oedd dim modd i neb gyfansoddi yn rhag-orach nag ef ei hun. Y mae yn ddymunol iawn genym weled cymaint o ysbryd awenyddol yn y wlad; ac, fod mor hawdd galw allan y fath fintai o feirdd ar fyr rybydd; a'r rhei'ny, lawer o honynt, yn meddu ar alluoedd nid anenwog. Nid ydym heb ystyried pwysigrwydd ein sefyllfa fel beirniaid, a'r anhawsder tra b'om byw o foddhau pawb; dymunem fod o gymaint a hyny o anrhydedd i'r ymddiriedaeth a roddwyd ynom, beth bynag, o gael gwneyd pob peth 'yn llygad haul, ac yn wyneb goleuni;' ac yn y pethau y methom a dyfod i benderfyniad yn eu cylch, hyderwn y cawn eich cynorthwy chwi fel Dirprwywyr. Pe dywedem ni ein dymuniad, dyna a fyddai, sef, ar fod i bawb gyfansoddi mor ragorol nes y teilyngent ryw gydnabyddiaeth am eu trafferth, gofal, a'u pryder; y mae hyd yn nod y cyfansoddwr gwaelaf a mwyaf diaddurn yn ewyllysiwr da i'r gelfyddyd farddonol, gan nad pa mor belled y byddo heb gyraedd y nod; gan hyny, nid ein hoff waith fyddai archolli teimladau y cyfryw, hyd y gallem ymgadw rhag gwneyd hyny heb aberthu cyfiawnder; y mae nodi allan wallau a diffygion cyfansoddwr ieuanc yn tueddu at ei lesâu yn hytrach na'i ddigaloni, os bydd efe yn ei adnabod ei hun a'i alluoedd mewn cymhariaeth i ereill; ond lle y byddo anwybodaeth, prinder manteision dysgeidiaethol, diffyg chwaeth, hunanoldeb, a dallineb wedi cyd-gyfarfod mewn prydydd ieuanc, ac yntau heb gymorth neb a w'yr yn well nag ef ei hun, i'w gyfarwyddo yn nghychwyniad ei daith, ond yn cael pawb o'i berthynasau a'i gyfeillion, a'r rhei'ny mor anwybodus a'r *orang outang*, am natur gwir farddoniaeth, i'w ganmol, i'w ryfeddu, a'i dderchafu goruwch pawb a fu, sy, neu a ddaw, bydd y cyfryw yn teimlo yn chwith pan glywo rywrai yn beio ar ei gyfansoddiadau, neu yn ameu ei fedrusrwydd. Ac wedi colli y dydd yn lân, mewn Eisteddfod, ni bydd ganddo, i ddal ei feddwl i fyny, yn wyneb y siomedigaeth, ond cyhoeddi mewn tref a gwlad, "Y mae pawb yn dyweyd,

fy mod i wedi cael cam; y fi oedd y goreu pe cawswn chware teg:" a hyny sydd yn syndod, bydd y rhigy-mwr distadlaf yn nosbarth Robyn Cludro yn dyweyd yr un peth. Y mae hyn, yn ddiameu, yn taflu diflasdod rhyfeddol ar y swydd o feirniadu cyfansoddiadau barddonol, pan na fydd gan y beirniaid, ond yn unig lesâu eu cydgenedl a diwyllio chwaeth prydyddion ieuanc mewn golwg, pan yn mynegi eu golygiadau ar y gwahanol gyfansoddiadau a anfonir atynt.

Nis gwyddom ni pa fodd yr eisteddodd y feirniadaeth o'r blaen ar feddyliau yr ymgeiswyr, ac nid awn i ymdrafferthu yn nghylch hyny; ond gwyddon ini wneud pob peth yn eithaf cydwybodol a diofn gwrthwynebiad ar dir teg a chyfiawn; a gwyddom hefyd nad oedd ond un ffordd drwy yr hon y gallesid boddhau pawb, sef, gadael i bawb fod yn feirniad ar ei waith anwyl ei hun; pe caniatesid hyny, nid oes un amheuaeth ynom i bwy y barnesid y tlysau yn deilwng.

Yr ydym wedi dosbarthu yr englynion hyn yn bedwar dosbarth; dechreuwn gyda'r dosbarth diweddaf yn gyntaf, sef, y pedwerydd; cynhwysa y dosbarth hwn un cyfansoddiad, sef, gwaith "Mona bach," yr hwn, yn ddiameu, a ellir ei alw, gyda phriodolder, yn *beth annarluniedig* (*non-descript*); dywed yr awdwr mai dyma y tro cyntaf iddo geisio cyfansoddi englynion; dymunol fyddai darllen y cyfansoddiad hwn er difyrwch i'r cyd-ddrycholion.

Cynhwysa y trydydd dosbarth "Asaph ab Bardus," "B—d du Mon," "Ei ewyllysiwr da," "Idwal ab Anarawd," "Owain Glandwr," a "Philo Melodia;" nid ydyw y rhestriad hwn yn un arwydd rhagoriaeth na gwaeledd.

Ni chynhwysa cyfansoddiad "Asaph ab Bardus" ond pentwr o chwyddeiriau gorwageddus (*bombast*), ac ambell air o hunan-gyfansoddiad yr awdwr. Y mae "B—d du Mon" yn gyfansoddwyr gobeithiol; ychydig o gyfarwyddyd a wnelai iddo lesâd mawr. Y mae y cyfarchiad hwn "Nawr f'awen gymen, fwyn, gu" wedi myned yn rhy hên.



Y mae “ Ei ewyllysiwr da ” heb ddysgu sillebu yn gywir; “ *iniawn*,” “ *cawrain*,” “ *bysuidd*,” &c.

Dymuna “ Idwal ab Anarawd,” ar y beirniaid wneyd “ Chware teg yn y North yna;” hyny a wnawn; gan hyny ni chymer efe yn angharedig arnom am ei hysbysu fod amryw o wallau anafus yn ei waith ef; gellid tybio ei fod yn dyall gramadeg, oblegyd y mae efe wedi treiglo y ferf *dodaf*, ar ymyl y ddalen yn y modd a ganlyn:

“ Y dynsawd 1. *Dodaf*  
2. *Dodi*  
3. *Dyd*.”

er cyfarwyddyd, yn ddiameu, i'r beirniaid wneyd “ chwarae teg ” â'r gwaith. Dymunol fyddai i'r awdwr hwn, a phob un cyffelyb iddo, beidio gwneyd mor hyf ar breswlyddion santaidd byd arall wrth rimynu i farwol ddyn; meddyliem ni fod yn rhaid cael rhywbeth mwy na swm tanau telyn i beri i “ angelion ” y nef “ wenu,” fel y ‘ dychymygodd ’ “ Idwal ab Anarawd.”

Y mae gwaith “ Owen Glandwr ” yn debyg i waith prydydd ieuanc; efallai, pe byddai iddo ymarfer mwy â chynghaneddion cymreig, a chael ychydig o gynorthwy athraw deallus yr elai rhagddo; ei ymgais sy ganmoladwy er fod rhai beiau o bwys yn ei waith.

Meddyliem fod “ Philo Melodia ” wedi cael cipolwg ar natur cyfansoddiad cynghaneddion, ond y mae efe yn gollwng ei awen yn rhy benrydd; mal pe byddai heb feddu un math o lywodraeth arni; y mae diffyg gwybodaeth a barn yn “ *berwi* ” drwy ei waith; cynhygia at raddesgyniaeth (*climax*), ond dechreua yn y pen chwith i'r ysgol; ac y mae efe yn cymysgu ei gymhariaethau yn druenus; dywed yn un o'i englynion am Master Hughes,

“ Gwenoliaid sy'n gwau'n eilydd  
Heibio ar daith drwy wybr dydd.”

“ Philo,” pa un ai dwylaw Master Hughes sydd yn gwau yn debyg ar y tanau, i'r “ Gwenoliaid ” yn gwau (neu'n gwibio) drwy'r awyr, ynte swm tanau ei delyn

sydd yn debyg i swm "Gwenoliaid" wrth ehedeg a llyncu gwybed? Pa un bynag o'r ddau olygiad hyn sy gan "Philo Melodia," ymddengys i bob dyn rhesymol mor lledchith a phe buasai "Cyfaill iddo" yn taenu,

"Dail abrwysg hyd ei lwybrau."

Yma y terfyna y trydydd dosbarth.

Cynhwysa yr ail ddsbarth gyfansoddiadau "Cynddelw," "Un didderbyn wyneb," "Dinasydd," "Perorydd," "Taliessin," "Alfred," a "Sion chwarae teg."

Dechreuwa "Cynddelw" ei folawd i "Blegwryd ab Sitsyllt," yn "*wyllt*," ac yn "*orwyllt*;" dyn gwyllt yw dyn heb ei wareiddio; nid ydyw edrych ar ddyn "*gwyllt*," neu ddyn wedi *gwylltio*, na chlywed dyn yn chwarae telyn yn "*wyllt*," neu yn "*orwyllt*" yn tueddu dim at foddhau y teimladau, na lleddfu yr anwydau; nag yn cyfateb mewn un modd i seinber donau hyfryd y delyn; yr oedd Saul brenin Israel yn debycach i ddyn wedi *gwylltio* na Dafydd, pan y gelwid ef i chwarae ger bron y brenin; canys "pan fyddai y drwg ysbryd" ar Saul y cymerai Dafydd delyn i'w chwarae, "a byddai esmwythdra i Saul."

Nid ydyw "Un didderbyn wyneb," yn gyfansoddwr aiferw; y mae tair o frawddegau lladin yn ei lythyr, er na chynhwysa ond chwe englyn cymreig wedi eu hanfon i Eisteddfod Llanerchymedd, Mon! a dywed ar ymyl y ddalen, "*This is perfectly grammatical*," am rywbeth; methasom, er bod mor "ddidderbyn wyneb" ag y gallem, a barnu y teilyngai gael ei restru yn y dosbarth cyntaf. Ni welsom ond dau wall cynghaneddol yn ei waith; sef, tor mesur, a thwyll cynghanedd. Nid oes cymaint ag un llinell ganddo a dim yn neillduol o'r ffordd gyffredin ynddi.

Cyffredin ryfeddol yw englynion "Dinasydd;" ond y mae rhywbeth yn "*wylltawg*" ynddynt; oblegyd efe a ddywed fod Hughes dirion yn

"*Gwylltawg* wau tanau tynion."

Ysgrifennodd yr awdwr hwn *Gymry* yn lle *Gymru*.

Y mae "Ei ewyllysiwr da" heb ddysgu silleb  
gwir; "mancra," "carrain," "bysuidd," &c.

Dymuna "Iŵal ab Anarawd," ar y beirniaid  
- "Chwre teg yn y North yna;" hynny a wnawt  
hynny ni chymet ebe yn angharedig arnom am  
hysu fod amryw o wallau anafus yn ei waith e'  
tydus ei fod yn ddrull gramadeg, oblegyd y mae  
wraig y ffrd dndaf, ar ymyl y ddalen yn  
gwahen:

- 1. Ddndaf
- 2. Dndf
- 3. Dndf

ac ewyllysiwr, yn ddiannu, i'r beir  
"chwre teg" i'r gwair. Dymun  
awdwr hwn, a phob un cyffelyb iddo,  
mae hwn ac hyswylyddion santuidd l  
mewn i ffrwd hyn; meddyhem ni fo  
chwre hwn na swm tanau telyn i beir  
y mae "weni," iel y "dychymygod  
Anarawd."

Y mae gwair "Owen Glandwr" -  
pwybwl iannu: efallai, pe byddai iddo  
chwnganeddion cynreig, a chael yd  
athrw osalus yr eia rhagddo; ei  
moloddy ar fod rhai heiau o bwys y.

Meddyhem iol "Philo Melodia"  
ac nstar cyfansoddiad cynghaneddi  
yr golwng a awen yn rhy benr  
bot teidr un math o lywodraeth  
gwchodaeti, a harn yn "berwi"  
hyn a raddescyniaeth (climax)  
pau chwiti i: esgot; ac y mae  
gumharnethau yn druenus; dyw  
an Master Hughes.

"Owenohaid yn y gwair ei y  
Hedon ar dath drwy wre dy

"Philo" pa un ai ddyllaw  
gwair yn debyc ar y tanau, i'r  
mewn gwirho drwy'r awyr, yn

"west  
man,"

&c.;  
megys

welsom

fyddyd ber-  
styn yn well

id ynddo; ond  
ny isel, megys,

*hurly-burly*; am  
barned y dyallus.  
dyngu" wrth gy-

deutu."

dwyn "Sanddef bryd  
i feddyliau "Gwalch-  
haneddion, buasai yn  
r blaenorion, eithr nid

abwysiad sydd mor lawn  
re y mae yntau yn euog o



Nis gallwn ddyall pa beth a olyga “Perorydd,” pan dywed am Flegywryd,

“Gwea hwsig a’i fysedd— a dyfal  
Ei dafod a’i ddanedd  
Wrth gwarae’r tant, ei fant fedd.”

Pa beth sy gan ei *dafod* a’i *ddanedd* i’w wneyd â’i delyn? Nid llawer o wallau cynghaneddol sydd yn ei waith; ychydig o sylw ac ymchwil a wnelai lesâd iddo.

Y mae englynion “Taliesin,” yn rheolaidd, eithr ymddengys ei fod ef wedi cael cryn drafferth i asio geiriau wrth eu gilydd yn gynghaneddol; nid da y seinia y llinellau hyn,

“A geir un fel Blegywryd— ap Seisyllt  
Heb bwys oes arferyd.”

y mae meddylddrychau da yn y rhai’n, ond ymddengys fod yr awen yn lled ystyfnig ac anufydd.

Cyffredin ac isel ywenglynion “Sion chwarae teg;” treuliodd un englyn cyfan i ddywedyd mai Cymro yw Master Hughes; nid ydoedd hyny yn “chwarae teg.”

“E gwyd enaid gyda i danau,” *twyll cynghanedd.*  
Yn synu pob talaith.”—talaith, *e diadem*; talaeth, *province*

Y mae terfynau a llyffetheiriau cynghaneddion cymreig yn rhy gyfyng i awen “Sion chware teg” allu ymlwybro ynddynt.

Nid oes cymaint ag un gynghanedd gampus yn ngwaith “Afred,” y maent oll yn lled reolaidd oddigerth un coll s;

“Ap Seisyllt pa was a ystyriwyd?”

Prin y gallwn ni gredu y llinell hyn,

“Gwenawdd nef pan ei ganwyd.”

Yma y terfyna yr ail ddosbarth.

Cynhwysa y dosbarth cyntaf “Tubal Cain,” “Arwest ddyd,” “Perorydd,” “Gwalchmai,” “Alaw Salmon,” “Ab Deiniol,” a “Thudur Aled.”

Meddyliem fod "Tubal Cain," wedi cyfansoddi ar ormod o frys; y mae ganddo, er hyny, rai tarawiadau gwreiddiol. Y mae tor mesur mewn un llinell.

"Arwestddyn," sy gyfansoddwr go dda; gwna ei englynion ef y tro i'r telynor campus a fyner, ond tynu y ddwy linell hyn ymaith,

"Egori wna Blegywryd—ab Sitsyllt,  
Bwys adsain tra hyfryd."

Nid ydyw y llinell hon gystal a'r lleill,

"Cyn curo ei gainc arial."—c. g;

Arial yw *nwyf, bywiogrwydd, dewrder, nerth, &c.*; gan hyny, nis gellir gwneud ansoddair o hono megys uchod.

"Perorydd," sy gynghaneddwr cywir; ni welsom ond un twyll cynghanedd yn ei waith; sef,

"Fe gludant fel gawodau."

a meddyliem ei fod ef yn hyddysg yn y gelfyddyd beroriaethol, eithr y mae ereill yn dilyn y testyn yn well nag ef yn y dosbarth hwn.

"Gwalchmai," sydd a pheth teilyngdod ynddo; ond y mae wedi anurddo ei waith â phethau rhy isel, megys,

"Trabludd ei danau'n treblu."

Trabludd yw *trallod, poen, terfysg, hurly-burly*; am briodoldeb ei arferiad yn y llinell hon barned y dyallus. Paham yr oedd raid iddo son am "*dyngu*" wrth gynghaneddu ar destyn fel hyn; megys,

Fi dyngwn fod engyl o'm deutu."

Nid oedd un angen ychwaith am ddwyn "Sanddef bryd angel" i fewn. Pe dygwyddasai i feddyliau "Gwalchmai," fod mor gywir a'i gynghaneddion, buasai yn debygol o gael ei restru gyda'r blaenorion, eithr nid felly y mae.

"Alaw Salmon," o ran ei gynhwysiad sydd mor lawn a nemawr un a ysgrifennodd, eto y mae yntau yn euog o

ddwyn i'w waith bethau anmherthynasol, megys hanes "Sanddef," &c.; anhyfryd yw gweled llawer o nodau cyfeiriol yn canlyn chwe englyn; go glogyrnaidd yw y llinellau hyn,

"Ba lai gwr na Blegywryd—ab Seisyllt  
Heb swysawl arferyd." "swysawl."

Olaf yn y dosbarth hwn yw "*Experior quanti me facios*." Y mae yr awdwr a roddes y gynffon hon wrth ei englynion yn gynghaneddwr cywir a chryno, tebyg i'r hên feirdd gynt; ond gellid tybio ar ei waith, ar yr olwg gyntaf, fod y gwr yn dipyn o rodreswr. "*Young Handel*, a'i "*Experior quanti me facios*" yn dystion; pell fyddai oddiwrthym ni, feddwl, na dyweyd ei fod ef wedi treulio ei holl Saesoneg a'i Ladin i gyd yn y tro hwn. Deil yr englynion hyn i graffu arnynt er yr holl goeg-ysgolheigddod a grybwyllwyd; y mae ynddynt ambell air go daglyd, megys, *s'u* a *frydd* yn y llinellau hyn,

"Er *s'u* ddarfu a dderfydd"  
"Eulun frwyn y galon *frydd*."

Rhydd ddarluniad teg o'r telynor yn chware; megys,

"Ei droed a'i law, draw a drydd."

Ond nid oes cymaint o fywiogrwydd ac o dân awenyddol ynddynt ag sydd yn ngwaith "Ab Deiniol," a "Thudur Aled." Dyma y ddau ragoraf yn ddiameu; ond drwg genym nad allwn ddyweyd fod digon o deilyngddod yn yr un o honynt ar ei ben ei hun i haeddu y tlws: y mae rhyw ddau neu dri yn mhob un o'r cyfansoddiadau hyn o englynion campus; i.e., mwy campus nag sydd yn yr un o'r cyfansoddiadau ereill. Gellid meddwl wrth ddarllen cynghaneddion esmwyth a hyfryd "Ab Deiniol," yn y ddau englyn cyntaf, na fyddai dim dadl yn nghylch ei deilyngddod, nad efe a enillai y gamp; ond y mae y trydydd englyn yn wanlyd, ni chynhwysa ond haerriad o eiddo yr awdwr nad ydoedd "*Paganini*, yn ail i'n Hughes ni."

Y mae diffyg barn yn y pedwerydd englyn; sef, y ddwy linell gyntaf,

“*Gwingo*’i law deg—angel ai dyn?—ydyw  
Caniedydd y delyn.”

nid oes un math o briodoldeb yn arferiad y gair “*gwingo*” yn y llinell hon; *gwingo* y bydd dyn pan mewn caethiwed, gwasgfa, neu gyfyngder, ac nid wrth chware telyn; heblaw hyny, “Caniedydd y delyn” sydd anmhrïodol; nid ydyw fod Goronwy Owen wedi arfer hyny, i.e. hyd yn nod cyfieithwyr yr ysgrythyrau, yn cyfiawnhau dim ar yr arferiad; oblegyd ni ddichon un dyn *ganu* â’i law; y mae y modd, hyn o ymadroddi yn debyg fel y bydd y Cymry anystyriol yn dyweyd eu bod yn *clywed* â’u llaw, yn clywed â’u genau, ac yn clywed â’u ffroenau! Y mae y ddwy linell ddiweddaf o’r englyn hwn yn gampus dros ben,

“Ar bob tafod ei glod glyn  
Mud wrando nis medr undyn.”

Diwedd y pumed englyn sydd lesg a rhy gyffredin,

“Llunia dôn yn well na dau.”

Y mae dau yn rhifedi go fach i sefyll am nifer an-  
nherfynol.

“O fewn tref ni fu un tro.”

Nid ydyw mor orchestol a rhai o’r lleill sy ganddo.

Ymddengys i ni fod “Tudur Aled,” a chymeryd y gwaith drwyddo, yn rhagori ar “Ab Deiniol;” eto, pe caniateid ini gymeryd dau englyn, a dwy linell o ddau englyn ereill, o waith “Ab Deiniol,” at bigion o waith “Tudur Aled,” caem chwe englyn da i Master Hughes. Y mae rhai pethau gorchestol a phrydferth yn ngwaith “Tudur Aled,” ond y mae yn diweddu rhai o’i englynion yn dra dinerth.



## EISTEDDFOD LE'RPWLL.

Y RHAI a gydweithredent â'r awdwr yn yr Eisteddfod hon, oeddynt Meistri Daniel Jones, Lle'rpwll; Richard Parry, Conwy; ac Isaac Lloyd, o Lle'rpwll.

Derbyniwyd pedwar-ar-ugain o englynton ar yr Enllibiwr; sef dan y ffugenwau, Gwalchmai ab Meilir; Goronwy Gethin; Rhys ab Cynwrig Goch; Bleddyn; Trahaiarn ab Caradawc; Llifon; Iota; Bran ab Beli; Cymydog; Pererin Glan Mersey; Tarw Hwyl-iog; Dyoddefwr; Ianto; Caradog; Cynan; Cymro; a Heddychol; eithr ni fernir yr un o honynt yn teilyngu y wobr; y mae yn wir fod rhai o honynt yn rhagori, ond nid ydynt yn dyfod at y peth a fwriedid wrth rod-di y testyn allan. Y mae y rhan fwyaf o honynt yn ddiffygiol mewn chwaeth; megys y gwelir yn ngwaith Bleddyn y geiriau isel a ganlyn: "gegwr, gogan;" "weflau, aflan;" "poer," a'r gair "d—l," gan Iota, Tarw Hwyl-iog, a Cymydog; y gair "lleban," gan Pererin Glan Mersey; y gair "llabi," gan Cynan; nid ydyw rhoddi enwau drwg, hyd yn nod ar yr enllibiwr fawr lai na chyfranogi o enllib ynddo ei hun; pa bechadur erioed a ddychwelwyd oddiwrth unrhyw fai wrth roi enwau drwg arno; y mae Caradog, Ianto, Dyoddefwr, Bran ab Beli, Llifon, Trahaiarn ab Caradawg, Gwalchmai ab Meilir, Goronwy Gethin, Rhys ab Cynwrig Goch, yn rhydd oddiwrth y cyhuddiad o rod-di enwau drwg a dieffig ar yr enllibiwr; ond nid oes dim bywyd na min ar ddim y maent yn ddywedyd; ond cyffredin ac isel iawn ydynt oll. Y mae Bran ab Beli yn ceisio dynwared awen hedegog, pan y cymhara yr enllibiwr i "seren wib, o ffwrnas uffernol y temtiwr," ond dylasai y gwr ddyall mai mwg a gwreichion fydd ffwrneisiau yn fwrw allan, ac nid "ser gwib," na ser sefydlog chwaith! Y ddau ymgeisydd sydd yn rhagori yw "Cymro" a "Heddychol;" englyn da yw englyn

“Cymro,” ond meddyliem mai i weneithwr y cyfansoddwyd hwnw, ac nid i'r enllibiwr, dywed am dano—

“Yn wyneb pawb gwna wenu,  
A'i wen deg yn wenwynu du.”

Da iawn, Cymro, ond eich bod wedi methu y marc. Englyn da a gyfansoddwyd gan “Heddychol,” ond ei fod yn rhy dywyll, ac aneglur; byddai raid i'r darllenydd cyffredin gael geiriadur wrth ei benelin tra y darllennai hwn, neu nodau eglurhaol gydag ef cyn y gallai ei ddyall; dylai englyn, yn enwedig pan na fyddo ond un ar destyn, fod yn gynghaneddol, yn amlwg, ac yn darawiadol, yn dywedyd ei feddwl ar unwaith i'r darllenydd, heb ddim petrusder yn ei gylch, ac onid ê, y mae yr holl hyfrydwch yn colli; y mae yn debyg i adrodd chwedl heb ddim pwynt iddi. Pe buasai hwn yn eglurach, ac heb wneuthur arferiad o air mor anhriodol ag yw “eban,” ag o air mor dywyll ag yw “drinydd,” buasai yn lled debyg o gyraedd y nod; dysgwylid gan fod cynifer o enllibwyr yn y byd, i'r englyn fod mor eglur, cryno, a tharawiadol a diareb, ac yna buasai yn ateb dyben y cyfansoddiad.

Derbyniwyd pedwar cyfansoddiad ar y Winwydden; sef, dan y ffugenwau T. T.; Seiriol; Un yn Ystyrio Trugareddau; ac Urban. Y mae T. T. mal pe buasai dan effeithiau drwg ysbryd gwaeth nag yfed gormod o ffrwyth y winwydden, yn ei rhegu ac yn ei melldithio yn arswydus; y mae y geiriau y mae yn arfer am y pren yn rhy frwnt i'w hadrodd yn nghlywedigaeth cynulleidfa barchus fel sydd yma; buasai yn llawn mor briodol iddo dywallt ffiol ei felldith am ben yr haidd; neu am ben y coed afalau, neu y coed eirin, ag oedd iddo felldithio a rhegu hwn; pa fath ddefnydd bynag y mae dynion yn wneyd o ffrwyth y pren, nid ydym yn dyall fod dim yn cyfiawnhau ymddygiad dyn o fath T.T.; dylid cadw mewn terfynau gweddeidd-dra gyda phob peth, ac yn enwedig, ofalu am beidio rhegu dim o waith y Créawdwr. Cynghorem T. T. i astudio ychwaneg ar

reolau barddoniaeth cyn y rhyfygo droi yn awdwr, hwyrach, pe troai fwy o'i feddwl y ffordd hono y cadwai hyny ef rhag dysgu rhegu. Ni chynhwysa gwaith "Seiriol" ond syniadau canolig; ac y mae amryw wallau cynghaneddol ynddo, megys, "henwog anwylyd;" "Poen loes pan leinw;" ond nid oes ynddo ddim i dramgwyddo fel y llall. Y mae rhai pethau go dda yn ngwaith "Un yn Ystyrio Trugareddau," ond nid ydyw dyweyd fod y winwydden wedi ei "chysegru gan angylion;" ei arfer o'r gair "urddin;" ac am Grist yn "hidlo ei win gwaedlyd," pan ar y groes, yn dangos fawr o ofal, nid *hidlo* ond *tywallt* ei waed a wnaeth efe drosom; nid ydyw y gair "lluniaeth llon" yn briodol am fwyd; ac y mae galw gwin yn lluniaeth llon yn fwy anhriodol byth. "Urban" a ystyrir yn oreu ar y testyn hwn; buasai yn well genym iddo arfer rhyw air fuasai yn briodolach nag "aden y prydydd," pan y sonia am effeithiau adfywiol y gwin ar y llesg a'r gwan! Sonir am aden eryr, aden y golomen, aden angel, ac aden dychymyg, eithr y mae y gair aden y prydydd yn swnio yn lledchwith, oblegyd nid y prydydd fydd yn ehedeg, ond ei ddychymyg. Y mae yr awdwr hwn hefyd wedi ysgrifenu "gofyd" yn lle gofid; *y* yn lle *z*, yr hyn a fydd fel anaf ar wyneb ei linell; ond ar y cyfan, dyma y goreu ar y testyn o lawer; y mae y gynghanedd yn naturiol, ac yn newydd, y iaith yn esmwyth, a'r syniadau yn addas a dirodres.

Derbyniwyd chwe chyfansoddiad ar "Gymdeithas yr Hen Frython;" sef, Gleisiad Glyn Llifon; Ivor Mawrth; Cymro; Brytaniad; Clydro; a Thaliesin. Meddyliem mai cyfansoddwr ieuanc yw "Gleisiad Glyn Llifon;" i'r gymdeithas fel Cymreigyddion y cyfansoddai hwn, y mae efe wedi llên-yspeilio, gydag ychydig gyfnewidiad, ddwy linell adnabyddus o waith Goronwy. Y mae syniadau "Ifor Mawrth" yn lleddda, gwych fuasai eu cael mewn gwell diwyg; y mae yn ymddangos yn ormod ar ei oreu, fel ceffyl gwan yn tynu yn erbyn yr allt; yr ydys yn bartotach i dosturiau wrtho nag i ymhyfrydu yn ei waith fel

awenyddiaeth; ymadrodd digrif yw o "gylch" y "gylch-wyl;" "*cylch, cylch.*" Llawer o eiriau llanw sydd ynddo hefyd. Tywyll yw syniadau "Cymro," dylasai anfon nodau eglurhaol i ganlyn ei waith; ymddengys ei fod yn lle anghynefin a rhodio yn ngwisg y gerdd dafod, neu wedi cyfansoddi ar ormod o frys; y mae amryw o'i gynghaneddion yn rhy gyffredin ac isel. I'r gymdeithas fel Cymreigyddion y mae "Brytaniad" wedi cyfansoddi; y mae'r englynion hyn yn debyg i bob englynion braidd a gyfansoddwyd i'r iaith, er ys pymthed mlynedd yn ol, yn ei dyrchafu hyd y nen, ac yn son am ei phurdeb. Y mae gwendid mewn amryw o'r llinellau o ran y gynghanedd, megys, "Dros ein hiaith loewiaith yn blaid," a chlogyrnwch mewn ereill, megys,

"Yn daer doethi'w chadw ar dir,  
On'd yw well na phan deilliodd?"

Cynghanedd sain yn y ddwy linell olaf, megys,

"Er sôn y Saison sisiawl,  
Safwn a honwn ei hawl."

Gwell gadael llonydd i'r Saison bellach, a pheidio a'u henllibio; yr ydym yn gymydogion, ac y mae y ddwy genedl wedi ymgymysgu cymaint â'u gilydd; fel mai gwell ini beidio ail enyn hen farwydos sydd wedi diffodd. Y mae yr holl awdwyr ar y testyn hwn wedi camgymeryd y nod; y mae un dosbarth yn cyfansoddi i'r gymdeithas fel Cymdeithas Gymreigyddol yn unig; a'r llall yn cyfansoddi iddi fel Cymdeithas y Cleifion yn unig; ond dylesid cadw y ddau beth mewn golwg; a dangos fel y mae "Cymdeithas yr Hen Frython," yr hon a gynwys blant y genedl yn ddigymysg, ac a gynorthwyant eu gilydd mawn adfyd a thrallod, yn noddi yr Awen gymreig, ac yn cefnogi cyfarfodydd llenyddawl; nid yn unig y maent am fod yn gynorthwywyr i wella iechyd eu cyrff, ac i'w cynal mewn henaint, ond y maent am gael difyrwch ac adeiladaeth i'r meddwl oddiar fyrddau llawn llenoriaeth gymreig, a hyny mewn

gwlad estronawl; nid ydynt wedi boddloni eto i gael eu toddi i lawr i'r Saeson, a cholli eu gwaed cymreig mewn gwladestronawl; y mae rhyw deimlad yn rhedeg drwyddynt dros "Fy iaith a gwlad fy ngenedigaeth;" yn nghanol holl ddwndwr y masnachdai, acenion y gwahanol genhedloedd o barthau pellenig y ddaiar, y tröant yn eu mysg. Cofiant y dyffryn—y ddol—y rhaiadr—y mynydd—yr ardd—yr afon a chwareu-fäau eu hieuenctyd, pan oeddynt mor ddiniwaid, ac mor ddiotal, ag yw yr ŵyn a chwareuant hyd lethrau y fron. Pe buasai eisiau chwe englyn i "Gymdeithas y Cleifion," buasai englynion "Taliesin" yn mhlith y blaenaf, er fod ynddynt amryw bethau tywyll, a gwendidau nad ellir edrych drostynt yn ddisylw; megys arfer y gair "*brodoriaeth*" am "*frawdoliaeth*," a'r gair brawdoliaeth wedi ei arferyd o'r blaen mewn terfyniad llinell, yr hyn a wna west awdl. Tywyllwch oddeutu y llinell "A'i gwyr llesg egyr ei llaw." Gosod y gymdeithas allan fel un yn rhoi elusen

"I'w gwir les gyr elusen—o'i darbod  
I'w derbyn yn llawen."

Pan mewn gwirionedd mai rhoddi eu heiddo eu hunain i'w haelodau y bydd; cynifer a saith o ansoddeiriau, a'r rhai hyny agos yn gyfystyr, yn perthyn i un sylweddair, megys, "*lesg, eiddil, wan, afiach, lesg, druan, egwan*," yn yr englyn canlynol:

"Y weddw *lesg, eiddil wan*---dan ofid  
Yn *afiach, lesg, druan*,  
O lwg, a'i theulu *egwan*,  
Wedi'r loes cyfyd i'r lan."

Y mae englynion "Clydno" yn lled dda, ond y mae tri o honynt wedi eu cyfansoddi i gynghori y Gymdeithas yn hytrach nag i ddangos beth yw ei natur. Y mae y geiriau "*claf, clefyd, plwyf, pla*," a rhyw fan bethau ereill yn anghymeradwy: efallai, o blith y cyfan y gellid pigo chwe englyn i'r Hen Frython, ond ni byddai hyny yn enill y gamp.

Derbyniwyd tri thraethawd ar "Foeboldeb," eithr nid ymddengys fod cymaint ag un o'r awdwyr wedi dyall y testyn; *meddwl* am wneyd traethawd a ddarfu "Carwr Mocsoldeb," debygem, oblegyd nid ydyw ei gyfansoddiad fawr hwy na rhagymadrodd. Nid ydyw yn gallu sillebu yn gywir: dynia y wers gyntaf a ddylid ddysgu ar ol adnabod y llythyrenau; peth chwithig yw troi yn awdwr a meddwl rhoi meddyliau wrth eu gilydd cyn dysgu cymalu geiriau. Y mae yr hwn a "Olyga foeboldeb yn sylfaen dedwyddwch Cenhedloedd," am ini gredu ei fod ef yn ysgolaig mewn ieithoedd ereill, canys coffa ddywediadau dynion dysgedig; ond nid ydyw wedi talu digon o sylw i iaith ei fam, os Cymro ydyw. Traethawd tywyll ac anfedrus yw hwn, hyd yn nod, ar yr egwyddor y mae efe ei hun wedi ei mabwysiadu. Y mae "Glasfryn" wedi ysgrifenu peth tebyg i bregeth ar *dduwioldeb*, ac nid traethawd ar "*foeboldeb*." Y mae yn faith, costiodd iddo gryn drafferth i ysgrifenu; drwg genym nad yw yr un o honynt wedi dyall y testyn yn iawn, nac yn gywir o ran yr iaith, yr hyn sydd hanfodol angenrheidiol.

Ni dderbyniwyd ond un cywydd, a hwnw gan "Gwalchmai ab Meilir," nid ar "Undeb Cymdeithas," ond ar "Undeb;" pe dilynasai yr awdwr hwn y wythïen a gychwynodd, buasai yn debyg o fod ar y testyn, ond y mae yn colli hono yn lân, ac yn gwibio dros yr holl fyd i son am y pethau nerthol a wnaethwyd drwy "undeb;" sef, palu mynyddoedd, rhwygo creigiau, gwneyd cledrffyrdd, gyru agerddfadau dros yr eigion, anfon efengyl i baganiaid, a lluaws o bethau ereill; ond nid oes yma un gair o son am genhedloedd yn eu cyflwr gwyllt a gwasgaredig yn yr anialwch, ac am ffurfiad cymdeithasau a theuluoedd, a dedwyddwch teuluoedd, a deiliaid teyrnas, &c.; dyma yn ddiameu oedd y testyn, sef, *social union*. Nis gallwn farnu yr awdwr hwn yn deilwng o'r wobwr, am nad yw ar y testyn, er bod y cywydd yn gampus mewn pethau ereill.

Barnem fod tuedd well mewn atal y gwobrwyon oddi-wrth yr awdwyr a allesid eu hystyried yn oreu o ran cyfansoddiadau cynghaneddol, gan nad oeddynt wedi cyfansoddi ar y testynau yn ol fel yr oeddynt i'w dyall, nag yn eu gwobrwyo, gan eu bod yn annheilwng; bydd hyn yn foddion i beri i feirdd ac ereill gymeryd mwy o ofal i ddyall y testynau yn iawn, ac i wneyd gwaith teilwng arnynt. Nid ydyw rhoi gwobr am y farddoniaeth oreu, neu y traethawd goreu, os na byddant yn dda ac yn rhagorol yn un dyrchafiad i lënoriaeth gymreig, ond yn hytrach yn tueddu i'w hiselâu; y mae llawer o Awdlau, Pryddestau, &c. wedi cael y gair o enill y gamp, nad ydynt o un clod i'w hawdwyr, nac yn un llesiant i lënoriaeth gymreig.

Derbyniwyd tair Awdl ar "Haman a Mordecai;" sef, dwy gan Apolo, ac un gan Harbona; ond yr un peth yw dwy Awdl "Apolo," oddigerth fod ychydig o gyfnewidiadau mewn ambell linell, a mwy o ychydig o linellau yn un na'r llall. Y mae "Apolo" yn gynghaneddwr naturiol, a'r iaith yn dda, yn gyffredin; ond y mae yn rhedeg dros yr hanes yn lled arwynebol, gan adael llawer o bethau go bwysig heb eu crybwyll; nid ymddengys ei fod wedi ymsuddo i'w destyn, ond y mae wedi cyfansoddi mal pe buasai wedi clywed rhyw un yn adrodd hanes amherffaith am amgylchiadau Haman a Mordecai; ac yntau wedi cofio yn amherffaith, yn cyfansoddi Awdl ar y testyn: pe buasai ei fynegiad o'r hanes mor gyflawn, mor fanwl, ac mor brydferth a champus ag yw rhai o'r cynghaneddion, buasai ganddo hawl gyfiawn i fod yn mlaenaf; ond y mae efe yn mhell yn ol yn y prif beth, sef yn nefnydd y gân; talodd fwy o sylw i'r wisg, ac i ddull y wisg, nag i'r peth oedd i gael ei wisgo. Y mae llawer hefyd o linellau yn ei waith tebyg i'r pethau a elwir yn ddifyfyr, sef llinellau y gwnelai rhywun sydd wedi arfer a chynghaneddu, fil yn y dydd o honynt, megys

"Yn Susan yn oes oesoedd," &c.

Nid ydyw gallu rhimynu llawer heb feddwl ond ychydig yn un prawf o ragoroldeb dawn ; nid peth sydd yn tyfu yw barddoniaeth, neu beth i fod fel siarad cyffredin, ond peth anghyffredin; prydyddion arwynebol a diafael oedd pob un a fu yn Nghymru erioed a deilyngai yr enw *prydydd parod*. Y mae rhagor mawr rhwng gwaith bardd teilwng ac ystyriol, a'r prydydd gwamal ac arwynebol, sydd yn rhimynu yn barhaus; yr achos ein bod yn dyweyd hyn yw, am y dymunem i feirdd ieuainc gymeryd gofal, a pheidio gadael i'w gwaith ddwyn un tebygolrwydd i'r cyfryw. Y mae y llinell,

“Yn bybyr, yn ei babell,  
Yfai win efo ei well,”

yn dangos diffyg chwaeth; ystyr y gair *pybyr* yw cryf, nerthol, cadarn; nid yn *bybyr* y bydd neb yn yfed; cerdded yn bybyr, rhwyfo yn bybyr, ergydio y graig yn bybyr, neu ryw waith y mae yn gofyn nerth ac egni corfforol; pe dywedasai ei fod ef yn ddyn pybyr i yfed gwin, buasai hyny yn briodol. “Gwae y rhai cryfion i yfed gwin, a'r dynion nerthol i yfed diod gadarn.”

“Fwyned y ceir elfenau,  
Yn weithwyr *pybyr* i'n pau.”

DEWI WYN.

“Mewn sach salw a lludw llwyd,—ei enaid mau,  
Hyd ogof angau diau gyfyngwyd.”

Enaid *mau* sy feius; enaid *mau* ddylasai yr awdwr ddywedyd am ei enaid ei hun; ond enaid *tau* am enaid Mordecai. Arferwyd y gair *swccwr*, yr hwn sydd amheus. Nid yw y llinell ganlynol ond cyffredin iawn,

“Yn grogedig o dan Gaergwydion,”

oblegyd gwyr pawb mai o *dan* Gaergwydion y bydd pob drwg-weithredwr yn cael ei ddienyddio. Pan y mae y brenin Ahasferus yn gorchymyn i Haman anrhydeddu Mordecai, cawn yr englyn hwn,

“Yn deg felly y gwnai di—i'r Iuddew  
A roddaist i'w gollu,



Dos Haman nid oes siomi,  
Dy erwin frad dry yn fri."

Buasai yn well gadael y ddwy linell olaf allan, oblegyd y mae ei dygiad i fewn yn dywedyd gormod; nid oes dim lle i'r meddwl weithredu. Dyma fel y dywed yr ysgrythyr, "Yna y brenin a ddywedodd wrth Haman, Brysia, cymer y wisg a'r march, fel y lleferaist, a gwna felly i Mordecai yr Iuddew, yr hwn sydd yn eistedd yn mhorth y brenin; na ad heb wneuthur ddim o'r hyn oll a leferaist." Y llinellau

"Crogwch ef y corgi chwyrn,  
A llosgwch ei holl esgyrn,"

a swniant yn lled chwith; nid tebyg i *gorgi* oedd Haman, ond yr oedd yn debycach i fastiffgi neu flaidd o lawer; heblaw hyny nid yw corgi yn chwyrn; milgi chwyrn fuasai yn briodol. Nid ydyw *llosgi yr holl esgyrn* ond rhywbeth i gyflawni y llinell. Y mae diffyg mawr arall yn y gân hon; sef, fod yn rhy anhawdd gwybod pwy fydd yn siarad heb ddodi enw y person o flaen yr ymadrodd; dylasai hyn fod wedi ei weithio yn y peth. Gobeithio yr ystyria y bardd yr awgrymau hyn, ac yr ymestyna at ddiwygiad, canys ymddengys mai diffyg gofal, a diffyg meddwl yn unig, ydynt y cyhuddiadau yn ei erbyn ef, ac nid diffyg galluoedd i gynghaneddu. Y mae rhai o'i gynghaneddion yn naturiol ac yn dlws dros ben, ond nid ellir ystyried ei waith ar y testyn hwn ond fel golygiad cyffredinol (*synopsis*) heb fod yn neillduol nac yn fanwl mewn dim.

Yr awdwr arall ar y testyn, yw "Harbona;" y mae ambell air a llinell yn yr Awdl hon a allesid eu gwellâu; y mae yn resyn fod dim brychau ar wyneb gwaith mor ragorol. Y mae ganddo yn yr ail benill chwe llinell heb un ferf ynddynt:

"Susan brenhinllys oesawl,  
Gwlad mwy ei golud a'i mawl  
Ahasferus heb rus bron  
O'r India draw i'r wendon

Hyd Ethiopia—gwycha'i gwedd  
Olygus ddiwael agwedd."

Y llinell

"Yn y wledd wedi meddwi "

sydd bur wir, a gwir galarus i'w adrodd, ond y mae yn rhy isel i'w harfer mewn barddoniaeth; y mae yn rhy gyffredin; nid geiriau y werin a wna y tro mewn gorchestwaith prydyddol.

"I foddio swp o feddwon ;"

Swp o rawn y winwydden, neu swp o bridd; ond nid swp o ddynton, llu o ddynton.

Y mae naw o ansoddeiriau wedi eu harferu hefyd mewn un englyn, megys, *addas*, *lwys*, *anwyl*, *lân*, *gweddeiddlwys*, *rhinweddol*, *dduwiol*, *ddwys*, *priodol*, yr hyn sydd yn ormod ar unwaith.

"Mordecai pan welai o,—*haner proest*.

"Bryd araul fod bradwriaeth."

Y gair bryd *araul* sydd amhriodol; araul, *sunny*: *ffortunus* sydd air diawdurdod.

"Ddwl agwedd, a'i lygaid yn fflamiaw."

Os oedd yn *ddwl*, pa fodd yr oedd ei lygaid yn fflamiaw?

"I'r araith ddiffaith aphwys;"

aphwys, *bottomless gulf*, y mae yn amhriodol yma.

"Gyfarwydd scrifenyddion."—*lleddf a thalgron*.

"Myn'd tan lefain mewn sachliain

A gorïain a wna'r gwr hoywedd."—*Goriain*, amheus.

"Cyn pen blwyddyn syn y sias."

*Sias*, llygredig, *chase*; amhriodol yma.

Ac Esther a wnaeth wledd gostus—i'r brenin

Ar beirianau clodus."

"Ar beirianau clodus," rhy dywyll.

"A gaf fi eich cwmni cu?"—*haner proest*.

"Ond Mordecai ni wnai e'."—*eto*.

“Dyna Seres ddynes ddig  
Hen geudod feildigedig.”

“Hen geudod feildigedig.” sydd led arw.

“At y brenin, mewn blin bla.”

“Mewn blin bla.”—llanw.

“Dyddwyn darllenwyd iddo  
Hoenus fraint, hanes ei fro.”

“Dyddwyn ddarllenwyd iddo,”—dyddwyn, *to carry, to bear*,—diystyr yma.—“Hoenus fraint,”—llanw.

“Bloeddiadau, lleisiau y llu---hoff hyglood,---*haner proest.*  
Banffaglau a saethu.”

“Banffaglau a saethu,”—nid oedd dim pylor yn y byd y pryd hwnw.

“Trwy hyllu’n addiant yr holl newyddion.”

*Addiant*, hiraeth,—diystyr yma.

Ystyriwn y pethau a nodwyd yn frychau ar wyneb y gwaith, ond cofier mai brychau ydynt. Y mae Awdl “Harbona,” a’i chymeryd drwyddi, yn gyfansoddiad campus; ymddengys fel dyn wedi dyall ei destyn; ac nid hyny yn unig, ond trina ef yn ddeheuig ac yn fedrus; y mae yn cadw ysbryd y peth drwy yr Awdl oll; pe na buasai genym hanes arall, y mae hwn yn gyflawn: gellir ystyried yr Awdl hon o ran cynwys y testyn, yn rhestru yn uchel yn mhlith cyfansoddiadau prif-feirdd Cymru. Nid oedd y materion sydd yn llyfr Esther yn hawdd eu trin â dawn cyffredin; y mae y cymeriadau yn newid mor aml, a chynifer o amrywiaethau yn y stori o’r dechreu i’r diwedd, yn nghylch Haman a Mordecai; ond meddylir fod awdwr y gerdd hon wedi cymeryd i fewn yr holl amgylchiadau, cyn eistedd i lawr i gyfansoddi, ni adawodd un peth yn yr hanes heb ei grybwyll; ac nid yn unig y mae wedi cadw at yr hanes, ond y mae ei ddarluniadau rai troau

yn dra ardderchog, naturiol, ac anghyffredin; y maent yn tueddu i roi blas newydd i ni ar ddarllen llyfr Esther, lle y gwelir cwmp arswydus balchder a dichellon, a chodiad anrhydeddus gostyngeiddrwydd a rhinwedd, ac yn enwedigol rhagluniaeth Duw yn cyfryngu i amddiffyn y diniwaid.

Y mae gwrthgyferbyniadau sydd yn cael eu dal yn wynebau eu gilydd, drwy y gwaith, yn dra effeithiol; ac y mae ein hawdwr yn llithro o'r naill gymeriad (*character*) i'r llall, mor esmwyth, nes yr ydys yn cael ein difyru o'r dechreu i'r diwedd ganddo. Y mae fel pe byddai yn ein cario i Bersia, ac yn paentio, â llaw fedrus a manwl, yr holl amgylchiadau o flaen ein llygaid. Darllun hardd a chyfan ydyw, ac nid haner adroddiad, isel ac anmherffaith. Peth y mae y gwr megys wedi ei weled â'i lygaid ei hun, ac nid wedi ei glywed gan arall. Y mae ysbryd a bywiogrwydd drwyddo oll; gan ei fod yn gyfanwaith mor gyddilydol, anhawdd dyfynu un rhan o hono i ddangos ei ragoriaeth ar y llall; y mae yn rhaid darllen yr awdl drwyddi cyn y gwelir ei rhagoroldeb: y mae ambell farddwaith mor ddigysylltiad ac annhrefnus, fel na waeth pa un ai yn y pen olaf ai yn y pen cyntaf y dechreuwch ddarllen, ond nid felly hwn. Y mae yn rhaid ini addef ei fod ef wedi cadw at y prif beth mewn barddoniaeth, sef, y mater, ac wedi trin hwnw yn fedrus ac yn awenyddol; nid ydyw wedi colli ond ychydig mewn chwaeth; ac yn yr arferiad o ambell air; y mae y cynghaneddion, ar y cyfan, yn gywir ac yn nerthol; gan fod yr awdwr hwn wedi llwyddo mor ragorol i allu cyfansoddi cyfanwaith barddonawl mor gyson, mor fywiog, ac mor ardderchog ag ydyw hwn, ni ryfeddwn, os tal efe ychydig mwy o sylw i'r pethau a ystyrir yn ddiffygiol yn y gân hon, nad ellir ei restru, yn fuan, yn mhlith prif-feirdd yr oes; pa fodd bynag, yn ol ein barn ni, y mae efe yn dirfawr ragori ar "Apolo" yn y pethau a nodasom, ac yn teilyngu y gamp.

## Y BEIRDD BUDDYGOL.

Y BEIRDD buddygol yn y gwahanol Eisteddfodau blaenorol oeddynt y rhai canlynol :

EISTEDDFOD LLANERCHYMEDD, MEHEFIN, 1835.

Ar Etifedd Llwydiarth, Mr. T. Parry, Llanerchymedd.

Ar Drafnidiaeth, Mr. Richard Parry, o Lanerchymedd, y pryd hwnw, eithr, yn bresenol, o Gonwy.

## CYNGAN LLWYDIARTH.

Englynion ar Master Hughes, Mr. Robert Williams, Frondeg, Bangor.

EISTEDDFOD LLE'RPWLL, 1839.

Ar y Winwydden, Mr. W. Ambrose, Porth Madog.

Ar Haman a Mordecai, Mr. T. Pierce, Lle'rpwll.

AWDL AR DDRYLLIAD

YR

AGERLONG ROTHSAÏ CASTLE,

&c. &c. &c.



## C R I T I C I S M.

---

THE Rev. Thomas Richards, Llangynniw, stated that there were nineteen compositions on this subject, some of which were considered much superior to the others. Their merits were all stated in a letter which had been addressed to the secretary, by the Rev. Walter Davies, which he would read :—

Penmaen Dovey, Aug. 1, 1832.

MY DEAR SIR,—You will recollect that I marked the several Odes you gave me for inspection with a *number* upon each, as I happened to take them in succession. These numbers are for the sake of future reference, and are no indexes whatever of the *merits* or *demerits* of the respective compositions. I have in my own mind, reluctantly, formed some idea *which* might be considered the *first* Ode, and which the *second*; but I can scarcely be positive on the subject, where so many write well. I have noticed only one line containing “*Twyll cynganedd*” in the whole *eight* or *nine* Odes.

As many as I read, I have classed thus :—

1st Class. { No. 1, by “Un a gar fyw yn Nglan y Môr.”  
..... 7, by “Seiriol Wyn o Ben Mon.”

2d Class. { ..... 3, by “Seiriol.”  
..... 5, by “L—d Byron.”  
..... 8, by “Junius.”

3d Class. { ..... 2, by “Seiriol.”  
..... 4, by “Percin Glan Menai.”  
..... 9, by “Gwawdrydd Godrist.”



It is observable that several stanzas and passages in the Odes of the 2d, and even of the 3d class are equal, if not superior to any in those of the 1st class; but I consider Nos. 1 and 7, *upon the whole*, to have been more uniformly successful in their compositions. I wish the gentlemen of the committee, and their secretary, would take the opportunity of reading over attentively the *two* Odes, Nos. 1 and 7, and thereby to form their opinion which of the two deserves the *first* prize, and the other to take the second. There are *three* more, and even *six*, who deserve some remuneration for their loss of time, from the liberality of the President, Vice-presidents, and Committee.

The writer of the Ode, No. 1, begins it oddly, and ends abruptly. He seems to be master of his subject; not only notes explanatory, but also commas, colons, periods, accents, &c. are beneath his notice. He seems to think that his composition does not require such helps and tinsel trappings; and, indeed, I think he is right. It must be an ordinary piece that requires many marginal illustrations. His prosody is correct and smooth, and yet so connected as the best written prose, without the interpolation of any unnecessary words. He seems to have been hard pressed as to time, otherwise he might have added a better conclusion to his Ode. In this respect, in the opinion of many, he may be inferior to numbers of his competitors. He ends abruptly, by offering a few lines of incense to a kind Providence, which saved the few who escaped the wreck; and a stanza of four lines, the meanest by far in the whole Ode, intended as a compliment to Sir R. B. W. Bulkeley for his prompt and humane exertions in saving the lives and property of the remnant of the deplorable wreck. There are writers among the candidates, who have spent a great portion of their odes in complimenting the President; but this was not the subject laid before the public for competition. The subject was simply this—“*The Wreck of the Rothsay Castle.*” The writer No. 1, followed his subject closely to the conclusion: that was *The Wreck*; and his description of it is majestically terrific. Indeed, many of his rivals equal him in this; but they have introduced topics not required by the subject proposed to them.

No. 1 begins oddly, as observed before, by upbraiding the sea for its deceitful appearance during its “*gwen deg*” upon a fine morning. He then abruptly introduces the catastrophe of the *Rothsay Castle*, without naming the vessel.—The pleasing anticipations of the strange

passengers, coming to enjoy the rural and picturesque sceneries of *Gwynedd*—their hilarity and conviviality anticipated during their excursions—the several objects to be admired—the salubrious air of *Mona* and *Arvon*—its effects upon invalids—*Menai Bridge*—a fine description of it—its usefulness, compared with the former Ferry of *Porthaethwy*—the *Marquis of Anglesey's* column—its history—*Waterloo field*—ruins of castles—rocks—cataracts—mines—*Snowdon*—a sun-rise view from its summit. Natives of *Wales* on the *Rothsay* steamer, returning from England, after many years absence, to their once “sweet homes”—their anticipations of meeting once more their dearest friends—and enjoying the scenes of their youthful mirth and pastimes. These, trusting themselves on board of the *Rothsay*, full of the most exhilarating sensations—preparations for sailing—description of the steam apparatus—the musical band on board.—

But oh!—the storm—the storm—its violence—the horrors of it terrifically described—steam ineffectual—the sun, moon, and stars hide themselves in thick darkness from observing the woeful sight—nothing apparent to the distressed passengers, but the jaws of death yawning upon them from between the rolling surges—the cries of the passengers, though loud in the extreme, far less audible than the roar of the tempest—steam annihilated—the dreadful catastrophe at its height—the sea taking full possession of its prey—some fine touches of pathos—respecting parents and their infant children—an apostrophe to the ocean to save one newly born—the cries of the distressed re-echoed from the rocks of *Priestholme* and *Orme's Head*; but both the one and the other, overpowered by the shriller roars of the two contending and furious elements—*Providence* interposeth, and saveth a few—an ejaculation of praise to the Ruler of the winds and waves—an encomium of four lines on the humane and active conduct of *Sir R. B. W. Bulkeley*, and the *Mona* men, in saving lives and property.

I remain, dear Sir, yours sincerely,

WALTER DAVIES.

The Secretary, the second judge on this subject, addressed the meeting and said, that after the very learned judgment of the Rev. *Walter Davies*, it would be presumptuous in him to occupy much of their time. In accordance with the recommendation of the rev. gentleman, and in compliance with the wishes of the committee, he had carefully perused the two best Odes on this subject, and he was of

opinion, that the one signed "*Un a gar fyw yn Nglan y Mór*," excels. This poem is one of the finest bursts of poetic genius, and one of the most striking ebullitions of the Welsh *awen*, which had ever fallen under his observation. The author had, it is true, lingered much too long in the description of scenery, and other irrelevant matter, but the softness and beauty of every line, amply make up for these digressions. He might instance, among a variety of others of these adventitious beauties, the ascent to the top of Snowdon.

When he comes to the more immediate part of his subject, the wreck, he treats upon it with a masterly, glowing, and eloquent grandeur. The flight of his ideas knows no bounds, and the vigour of his language is unrivalled.

The Secretary announced that the second prize was awarded to Mr. Griffith Williams, of Llandegai (Gutyn Peris).

The Rev. John Blackwell said, that though this composition was adjudged to take the second prize, it was of very great merit, and was second only because it had been excelled by one of the first compositions they had in the language.

## BEIRNIADAETH.

---

SYLWEDD y llythyr blaenorol, o eiddo y<sup>l</sup> Parch. Walter Davies, a ymddanghosodd yn Gymraeg, yn y 'Gwyllydydd,' am Ionawr, 1833, fel y canlyn :—

“Ar gymhelliad gohebydd caredig, yr wyf yn anfon ichwi dreigl-  
ieithiad o'm llythyr at ysgrifenydd Cymmrodorion Gwynedd cyn  
Eisteddfod Beaumaris. Gan nad ydyw y llythyr cyhoeddedig yn y  
Newyddiadur yn fy meddiant, nis gallaf ond casglu ynghyd rai o'r  
côf-nodau ysgrifenedig sydd genyf, ac os ymddangosant yn helaethach neu  
yn brinach, bydded hyny yn faddeuol.

“ATHRYLITHIAWG GYMRO.—Cofus genych i mi ddynodi yr Awdlau  
ar golled y *Rothsay Castle*, bob un â rhifyn, fel y damweiniodd i mi  
osod fy llaw arnynt, a gwyddoch nad yw y rhifau hyny yn argoelion  
rhagoriaeth na gwaeledd; gwyddoch hefyd na bu yr Awdlau ond  
ychydig oriau dros y pedair ar hugain dan fy sylwad, cyn ichwi eu  
llogellu yn ol o Lan yr Iw i Lan yr Elwy: ond yn hyny o ysbaid,  
penderfynais fod yr Awdlau rhif. 1, a rhif. 7, yn rhagori ar y lleill.  
Pa un o'r ddwy a gyfrifir yn oreu, gadawaf i farn yr Ysgrifenydd a'i  
gyd-reithwyr dysgedig.

“Y mae rhif. 1, [sef awdwr yr Awdl hon] yn dechreu ei Awdl yn  
farddonawl, gan senwi y môr am ei hudedd dau-wynebawg—y boreu  
mor llyfn ei wyneb â môr tawdd Solomon, a'r prydawn mor erchyll  
glogyrnawg ag an-nhrefn ei hun, cyn i'r Peryf mawr erchi Trefn, a  
Threfn a fu.

“Gwedi crybwyll chwilfriwiad llong, gan feddwl y *Rothsay Castle*,  
ond heb ei henwi, y canlyn dychymmygiad o barotoïdau y mor-  
dwyaid—eu helwch yn blaen-olygu rhwyddhynt cysurus—Dieithriaid  
yn addaw iddynt eu hunain y mwynhad o ymweled â cheinion a

rhyfeddodau Môn ac Arfon—Darluniadau o'r gwrthrychau penaf—Pont ar Fenai, a'i rhagoriaeth ar hen fadau serfyll Porthaethwy—Colofn Ardalydd Môn—ei golled o'i aelod wrth ennill buddugoliaeth Waterloo—Mwynder Cymdeithas—Hyfrydwch dystawrwydd allan o gynhwrf a dwndwr eu caerdrefydd masnachol—Iechineb awelon a gloywon ddyfroedd Eryri, er hybu anhwyliant y corph a'r meddwl—Creigiau diffwys—Mynyddoedd cribog, rheieidr—Mwngloddiau—Taith foreuol i ben Clogwyn Carnedd y Wyddfa—Meithder y terfyn-gylch—Prydferthwch y Dwyrain ar godiad yr haul, &c.—Teimladau y Cymry cynhenid yn dychwelyd o Loegr i ail olygu bröydd eu genedigaeth—chwareufäau eu mebyd—ac i fwynhau o newydd gymdeithas y rhai a gerynt fwyaf—Eu rhagddarpariadau i'r daith—Eu cyflead oll ar glawr yr Agerddlong—Peiriannau yr agerdd—Y Cydgor Alawon, eu sain mal clych yn entrych nen—Cychwyn y fordwyaeth—Ond Och! y dymhestl yn codi—ei chynnyddiad anfeidrol—darluniad o'i herchyllod—y goleuadau wybrenol yn ymwisgo â mantelli o dywyllwch rhag bod yn dystion o'r canlyniad—boddiaid yr agerdd—ei ebwch diweddaf—Rhuad y gwynt a'r môr, mewn cyd-gor dychrynadwy, yn fwy croch drimilwaith nag ysgrechiadau y truenusion a diaspedain craig lefain Gogarth a Seiriol—Dim yngolwg y dychryn-edigion ond ymddyfaliad o safn-rwth yr angeu yn ysgyrnygu arnynt oddirhwng agenau diffwys y tonau mynyddig—Y môr mewn cyflawn feddiant o'r llong a'i llwyth—O'r Wbwb erchyll!—Gwaeddiadau calon-dreiddiol rhieni a phlant—Erfyniad ar y môr i arbed bywyd un newydd ei eni—Moddion diangfa i'r gweddill oedd i'w gael—Ar ddarnau o'r Castell drylliedig.

“Dywedyd am yr Awdl hon, i'w hawdwr ei diweddu yu swta. Gwir yw hyny; a gwir hefyd iddo ganlyn ei destyn i'r diwedd: pan orphenodd ei destyn, efe a ddiweddodd ei Awdl, yr hon sydd yn farddonawl yn ei dychymmygiad, rheolaidd, rhwydd, a llithrig yn ei chynghaneddiad, a phur oddiwrth y gwrthuni cyffredin a'r sothach o *eiriau llanw*. Gwir arall, y gallasai efe dacluso ei Awdl ag ambell nod ac acan, ond ni ddarfu hyny, fel y gwelir wrth ei ddull yn ysgrifenu ei ffug-enw. Efallai mai ei dyb ydyw—“nad rhaid i Arthur wrth ffyn baglau.”

# AWDL AR DDRYLLIAD

YR

## AGERLONG ROTHSAY CASTLE,

GERLLAW BEAUMARIS, Awst 17, 1831.\*

---

TESTYN YN EISTEDDFOD FRENHINOL BEAUMARIS,  
YN Y FLWYDDYN 1832.

---

WYLLT wênwr hallt ei waneg  
Llawn o dwyll yw ei wên deg ;  
Llyfn iawn ydyw, heddyw, heb  
Arw dòn ar hyd ei wyneb ;  
Y dòn flin, erwin, orwyllt,  
Effro'i naws, gyffröai'n wyllt,  
Nes ydoedd yn arswydaw  
Pob bron, llenwi pawb a braw,  
Sy heddyw, mewn naws addien,  
Yn lle cyffro'n gwisgo gwên ;--  
Och ! ffalsder, digter y dòn,  
A'i dinystr ar feib dynion.

\* Barnwyd yr Awdl hon yn fuddygol, a derbyniodd yr awdwr y wobwr o 20p., a'r tlws cadeiriol ; ac yn ychwanegol at hyny, dlws cydroddedig gan ei Huchelder Brenhinol y Duchess of Kent, a'r Princess Victoria, y pryd hyny, eithr yn bresenol, Brenhines Prydain Fawr.

O !'r waedd oedd ddoe, a'r weddi,——o ganol

Y gwynwawr groch weilgi ;  
Wyn fôr, rhoes i niferi,  
Wely llaith, yn mol y lli' !

Llon oeddynt, tybiynt gael taith,  
A mwyniant teg am unwaith ;  
A gwel'd, y llestri yn gwau,  
Hyd wyneb gwyrddion dônau,  
Heb ofni gwynt, heb ofn gwg,  
Na gwaelod môr na'i gilwg ;  
Cael iach daith, gwibdaith, deg wedd,  
Drwy ganol rhandir Gwynedd,  
I ganfod teg wynfyd hon,  
A'i glwyswawr fryniau gleision :  
Tynu anadl, tan wenu,  
Heb flinder neu dosder du,  
Mewn iachus, haelionus le ;  
Awyr bur hwyr a bore ;  
A chael, cyn eu dychweliad,  
Wel'd ceinion glwysion ein gwlad.

A byw'n llawen ar ben bwrdd ;  
Mordeithio, neu rodio'r ardd ;  
Taith ddestl, heb dymhestl, heb dwrdd,  
I fyny hyd Fenai hardd.

Neu gerdded drwy'r coed gwyrddion,  
Lwyni heirdd, ar lanau hon,  
I wrando ar gywreindeg  
Gerdd lon y cantorion teg,  
Sy'n plethawl, doniawl gyd wau  
Yn nghanol y canghenau ;  
A rhodio llawer adeg,  
Drwy'r Morfa,\* rodianfa deg.

\* Beaumaris.

Lle i dawel ymneillduo——o boen

Twrf y byd a'i gyffro ;  
Yr harddaf, hyfrydaf fro  
Is haulwen, i'w phreswyllo.

Niferi fydd o fawrion,  
Yn llu, yn tynu at hon.

Pigion enwog, goludog y gwledydd,  
Erioed, a lanwant yr ardal lonydd ;  
Yno cyd-wleddant,—yfant yn ufydd  
Awyr ei Menai o'r môr a'r mynydd ;  
Ymlwybrant, rhodiant, yn rhydd—drwy'r wlad dda,  
Yn iach eu gwala, yn mreichiau'u gilydd.

Llawer gwr fu'n llwyr gurio——yn ei bryd,

Nes oedd bron diffygio,  
Ddaeth i hon, hyfrydlon fro,  
A rhôdd iachâd llwyr iddo.

Rhydd ei thiroedd, lleoedd llon,  
Deg olwg gŵyd y galon ;  
Hyd drumau hon, ceir tremyn,  
Ar siriawl wawr SEIRIOL wyn  
A GOGARTH fawr, freinfawr frig,  
Graig o adail grogedig ;  
Y cydiol greig fel cadwyn  
Gan y wlad o Gonwy i L'yn.

Eu banawg, uchel benau——yn saethu

Yn syth i'r cymylau ;—  
Y mae yn werth i'n gael mwynhau—gwibdaith,  
I lwybro unwaith hyd ael eu bryniau.

Er gweled harddfawr golofn,  
Dra destl ein gwladwr di ofn ;  
Drych rydd edrych ar hon,  
A golwg draidd i galon.



Darluniad o'r elyniaeth——trywel oedd  
 Yn Waterloo ddiffaeth ;  
 A'r distryw, ddistryw na ddaeth,  
 Un o'i ail, ar ddynoliaeth.

Cofir trwm loesau, rhwygiadau ergydion,  
 Mwg a niwl tramawr magnelau trymion :  
 Mawrwyh garlamiad y meirch gorlymion ;  
 Y drylliad ar fagad o arfogion ;—  
 Ac aberth mawr, mawr lew Môn,—cael dyrnod  
 Nes tori'i aelod yn nistryw'i alon.—

Cestyll rhyfedd Gwynedd gain,  
 A'i chaerydd sy dra chywrain ;—

A'r gadarn Bont grogedig,——i fyned  
 Dros Fenai chwyddedig ;  
 Heb ofyn dim,—heb ofn dig  
 Rhuadwy'r môr berwedig.

Uchelgamp i'r croch weilgi——yw syflyd  
 Ei saflawr na'i meini ;  
 Deil tra bo mawr, lasfawr li'  
 Uthr dôn, yn rhuthro dani.

Yn lle'r cychod oedd yn bod, a'r badau,  
 Y rhai, gan ddyrnod, a rwygai'n ddarnau,  
 Wele drosglwyddiad rhad, wrth bob rheidiau,  
 O gyraedd dinystr y garw-wedd dônau,  
 A bloeddiog, groch gabledau—porthweision,  
 A gwaedd ëon eu diefflig weddiau !

A dynion a'u meirch danynt  
 Ar garlam, garlam drwy'r gwynt ;  
 Nid ofnant y deifr dyfnion,  
 Llonant, pan y teithiant hon ;  
 Degau o gerbydau'r bôn,  
 Uwch agwrdd ddyfngrych eigion.

Yn rhedeg yn rhuadwy,——a chroesi  
 Echrysawl ryferthwy,  
 O olwg ! a fu olwg fwy  
 Nodedig a chlodadwy ?

Mae twrf olwynion chwyrnion a charnau,  
 Y meirch nerthawl, trinawl fel taranau ;  
 Cywirlym ydynt y carlamiadau  
 Geir goruwch danedd yr egr groch dônau ;  
 Danynt, yn y gwynt yn gwau,——drwy ei phyrth,  
 Wele lu engyrth, yn hwyliaw o longau.—

Bawb un dull, myn'd bob yn ddau  
 Hyd lenydd pysgodlynau ;  
 A sylwi ar risialwawr  
 Gloew ddwfr glân, a'i wiwlan wawr ;  
 Dwr o'i yfed, yr afiach,  
 Gwan ei wedd, a ddwg yn iach ;—  
 Lle mae'r pysg, yn cymysg wau,  
 Mor lon, mewn amryw luniau.

A gweled, gyda'u gilydd,——ugeiniau  
 O agenawg greigydd ;  
 A'r rhaiadr ar raiadr rydd,  
 Dwrw gwyllt drwy y gelltydd.

Bistyllia, ffrystia'n dra ffrom ;  
 Chwyrna wrth edrych arnom ;—

Cael rhoi gwib hyd grib y graig,  
 Iach aelgref, yr uchelgraig ;  
 Chwilio'i chau fângloddiau glân,  
 A'i chelloedd yn wych allan ;  
 Dringo'r Wyddfa, gopa gwyn,  
 A chware ar ei choryn ;  
 Lle'r nifwl, gwmwl teg yw,  
 Cam i wlad cwmwl ydyw ;  
 Ceir yma olygfa lon  
 Ar ddirfawr froydd Arfon.

Gwelir o'r cwr bwygilydd — i lawer  
 O luoedd o wledydd ;  
 A'r haul mad, ar doriad dydd,  
 Yn agoryd ei gaerydd.

Ei dêr wynebpryd eirian,  
 Aur liw, wrth ddringo i'r lan,  
 A'i wrid, yn ymlid y nos,  
 O'i ddorau yn ddiaros.

Ceir yno deimlo'r gwyn darth,  
 Sydd heibiau'n nofiaw mewn nerth ;  
 Chwalu bydd, drwy'r uchel barth,  
 Uwch creigiau, uwch cymau certh. —

Rhai ereill oedd am forwrio — o Loegr,  
 I'w hên wlad i rodio ;  
 Yr oeddynt, drwyddynt, am dro, — ar frig tôn,  
 Yn llawn o galon, hawdd gallwn goelio ;

Cysuron hen gofion gynt,  
 Yn ddiau, 'n mlaen a ddeuynt.

Oeddynt yn ymawyddu — am weled  
 Moelydd hawddgar Cymru ;  
 Gwel'd rhiant, gwel'd ceraint cu,  
 A gwyneb pawb yn gwenu.

Cofio'r gwyn ddyffryn a'r ddôl,  
 Y llenyrch heirdd meillionol,  
 Y fron wech, y glasfryn hardd,  
 Lle tyf blodau, fathau fyrdd,  
 Y doreithiog, enwog ardd  
 Lad ei gwawr, y deildý gwyrdd.

A'r diddan le roed iddynt,  
 Ochrawg wedd, i chware gynt,  
 Yn rhyddion, cyn cyrhaeddyd  
 Tan bwys helyntion y byd ;

Oeddynt yn cofio addysg  
Tad a mam dinam, a'u dysg.

A hallt alar yr holl deulu—y dydd  
Y deddynt o Gymru,  
A'r trymion ofidion fu,  
Trwy'u henaid, yn trywanu.

Cyn rhoi'n olau, amlygiadau,  
O'u bwriadau i fyn'd o'u brodir,  
A throi, weithion, ar daith ëon,  
Drwy y wendon, i estrondir,

Anhawdd iawn oedd, yn ddinam,  
Dyweyd am hyn, wrth dad a mam.

Troi draw, ag wylaw o galon, — yn rhwydd,  
Yr oeddynt ddeigr heilltion;  
A'u gruddiau teg, lliwdeg, llon,  
Un ffünud a dwy ffynon.

Fel yr hwyliant, colli tremynt,  
Yno'r oeddynt, arni'n raddol;  
A chaddug llwyd, gorchuddiol—ar drumau,  
Aelïau ei bryniau, a niwl wybrenol.

O'u golwg hi a giliodd,  
Y niwl tew â'i law a'i tôdd.

Disgwylient, tybient, gael taith, — a dychwel.  
I'w gwlad iachus eilwaith;—  
Heb baid, eu llygaid yn llaith,  
Am eu hardal, drwy'u mordaith.

Rhoddi eu hyder, yn bur ddioedi,  
Yn yr agerddlong, y nofïai'r gwyrddli,  
Ac yna meddwl, meddwl am iddi  
Rwygo'i wyn gesig, a'u brigau'n gwysi,

A'u dwyn i'r lan, ar hyd anwar li',—heb  
Orn trychineb na môr yn trochioni.

Nid oedid,—rhoddid yn rhydd,  
Olew ar ei hechelydd;  
Ffrystio gwneud corff o eiriasdan,  
A pharotoi 'i hoffer tân.

Yr agerdd yn dyrwygo,——yn bybyr,  
Drwy'i bibell dan ruo,  
Poeri'n wyllt o'r pair wnai o,  
A chyffröwyllt groch ffrio.

Gwedi, yn nghanol godwrdd,  
I bawb ddyfod ar ei bwrdd,  
Acw chwanog gychwynynt,  
Fawr lu hardd, i'r farwol hynt,  
O Lynlleifiad i'r wlad lon,  
Diriondeg drwy y wendon.—  
Llwyth gwerthfawr o drysawr drud  
Anhefelydd,—prif olud;  
Heb feddwl, heb feddwl fawr  
Am y drom ystorm dramawr,  
A'r greulon, annhirion nos  
Erwin, oedd yn eu haros.

Yn ddir, ydoedd ei rhodau,——drwy agerdd,  
Yn dyrwygaw'r tônau;  
Dyrchodd ei mwg yn dorchau,  
Hyd y nen, yn dew dan wau.

Hwythau y peroriaethwyr,  
Drwy ainc, rhoddent gainc i'r gwyr  
Tybient y meiddient â'u mawl,  
Yn ei chastell, gorchestawl,  
Herio'r môr, a'i rym mawrwyllt,  
Ac eigion y wendon wyllt;

Ond och! y garw siom du  
 Ddeuai arnynt i ddyrnu;  
 Eu holl obaith ymaith ai,  
 Fel iâ unnos diflanai;  
 Y môr ffrochwyllt, orwyllt wedd,  
 A'i ddwr yn llawn cynddaredd;  
 Twrw a dinystr ei donau  
 A'u trem hyll yn cyd-drymhâu.

Crychferwai, ymrwygai y mawr eigion,  
 Ewynai'i aflonydd dônau'n flinion;  
 Unwedd a 'mwriawl fynyddau mawrion,  
 Och! oedd ei grothawg, fawr chwydd hagr, weithion;  
 Ymluchiai, tafiai pob tòn—hyd y sêr,  
 Yn eu gorwyllter, eu dagrau heilltion.

E ddeuai eilwaith yn nerthol ddyli',  
 O entrych hoewnef, gan wyllt drochioni,  
 Nes rhwygo y safngerth, aelgerth weilgi  
 Anferthawl, a'i ddreigiawl gynddeiriogi;  
 Y llong yn mherfedd y lli'—ymsiglodd,  
 A tharanodd pob peth ei thrueni.

Duw, arwr y gorddyfnderoedd,  
 A'i enwog lais, yn galw oedd,  
 Ei filoedd i ryfela;  
 Ni welid pelydr haulwen,  
 Y ne'n ddu, bygddu uwch ben;  
 Twrf corwynt, drowynt o draw,  
 Yn yr awyr yn rhuaw.

Dan chwiban da'i allan o'i 'stafellau,  
 A heriai fydoedd, drwy'i gynhyrfiadau;  
 A Duw a roddodd, lacâd i raddau,  
 I ffrwyn gadwynog y ffyrnig dônau;  
 Rhuthrodd, fe ddyrnodd y ddau—'sglyfaethgar,  
 Drwy'u bâr anwar, nes duo'r wybrenau!

A'r ROTHSAY, hithau ar hynt,  
I dir angau, 'n myn'd rhyngynt.

Weithiau i frig dig y dòn——y dringai,  
Drwy angawl ymdrechion,  
Wed'yn lluchid, hyrddid hon  
I'r gwgus, ferwawg eigion.

Ymroliodd drwy'r môr heli,——ac eilchwyl  
Golchai yntau drosti;  
Ail ydoedd, yn ei ch'ledi,  
I flewyn llesg o flaen lli'.

Gwibiai'r dyfnfor, gefnfor gwyn,  
Anfoddog fel hurt feddwyn;  
E lynai ei holwynion,  
Eu tro chwai a dagai'r dòn;  
Cryfder yr ager a'i waith,  
A'i hoffer yn ddieffaith;  
Hi droe o'i phwynt, yn dra phell,  
Dan ysgwyd ei hun asgell;  
Yna'n ol i hwn eilwaith,  
Yn erbyn y moryn maith,  
Nes syrthiai'i lif, gefnllif gwyn,  
Erech aruthr ar ei choryn:  
Ysigwyd hi, nes agor  
Ochrau ei muriau, i'r môr.

Ac e lanwyd calonau——y dynion,  
Ag ofn dinystr angau;  
Gwel'd ei safn anferth, gerth, gau,  
Yn agor drwy'r gwanegau!

A'r llong ar y garwfor llaith,  
Myn'd waelach, waelach eilwaith.

Tra anhawdd dyweyd trueni,——neu helynt,  
• Yr olwg oedd arni;

Llu'n ubain, llefain, uwch lli'  
Rhyfeddol, bron ar foddi.

Ac ereill yno'n gorwedd—yn gleifion,  
Mewn gwylofus dromwedd,  
A'u henaid mewn anhunedd,  
Yn wael eu gwawr,—gwelw'u gwedd.—

Er i wyr, amryw eiriol,  
Yn daer yn awr, am droi'n ol;  
Er gweled drwy argoelion,  
Mai'u lle fyddai dyfrlle'r dòn,  
Yn mlaen ae'r llyw mileinig,  
Drwy dorau'r dyfnderau dig.

Treiddio yr oedd bloedd ei gabledau—'r aig,  
Wrth regu'r elfenau;  
Creulon oedd, ei galon gau,  
At enwog lyw y tonau!

Ei forwyr, yn llafurio—yn ëon,  
Mewn awydd cael glanio,  
A'r môr a'r gwynt, trymwynt tro,  
Annhiriawn yn eu herio.

Baeddent, ymdrechent yn drwm,  
A mawr rwysg y môr a'i rym;  
Toddi mewn cyni, bob cam,  
A phoen dost, heb ffynu dim:

Y ddryghin flin, aflonydd,  
Wedi dal ar hyd y dydd,  
Nes oedd yr haul yn soddi,  
I'w wely llaith,—bol y lli',  
A hwythau, druain, weithion,  
A llef hallt, yn mhell o Fon,  
Ac eirf dinystr, cryf dônau,  
Wyneb certh, yn bywiocâu,



A llawer, uwch dyfnder du,  
 Yn llegach, bron llewygu;  
 Y sêr, rhag trymder y tro,  
 O'u gŵydd, yn llwyr ymguddio;  
 Nid ellent, 'nawr, dyallwn,  
 Edrych yn yr hagrddrych hwn;  
 Gwel'd grym angau llym gerllaw,  
 Mor aethus yn ymrithiaw.—

Dan ysboncio, neidio'n wyllt,  
 Yn hir, ar y dòn orwyllt,

Hwy gyrhaeddent, yn wlybion eu gruddiau,  
 I le eu dinystr, drwy lu o dònau;  
 Ymagorodd, gor-rythodd dwfn grothau  
 Y dyfroedd yn ganoedd o agenau;  
 Gwelid, yn ddigon golau,—ofn bedd llaith,  
 Drwy anobaith, yn duo'r wynebaw.

Ac ar hyn, twrf gerwinawl— a glywid,  
 Nes oedd glewion nerthawl  
 Yn syn, mewn dychryn di dawl,  
 “*Yn y man annymunawl.*”

Y llong ar draethell angau,— yn gerwin  
 Guro'i hun yn ddrylliau;  
 Ydoedd ei thrwm ddyrnodiau  
 Gerwin, fel daeargrynfâau.

Gan uban, mewn gwan obaith— yn eu ffrwst,  
 Deffroes pawb ar unwaith,  
 Ond uwch na llef, fonllef faith,  
 Tair mil, oedd y 'storm eilwaith.

Bwriai y cefnllif berwwyn,— tra uchel,  
 Ei heillt drochion gorwyn;  
 Ysgubai, rheibiai'r gwyr hyn,  
 I aneddau'r annoddyn.

Drymed oedd eu caledi!— O!r wylo,  
 O!r olwg oedd arni;  
 Pwy wna ddrych i edrych i  
 Haner y mawr drueni?

Rhai'n och'neidio, rhai'n gweddio,  
 Ac yn wylo'n drwm gan alar;  
 Rhai'n gwallgofi, rhai'n ymroddi  
 I'w trueni, ddistryw anwar.

Ereill wyr, mewn rhyw hyll wedd,  
 Tynu'u gwallt yn eu gwylltwedd;

Rhedent, mewn cyffroadau,——i geisio  
 Osgoi iâs oer angau;  
 A'i eirf hyll, ail ymgryfhau,  
 Yn ei antur, wnaï yntau.

Yn ei wŷn, gwelai'n honaid,  
 Y paith blwng,—pob peth o'i blaid.

Y nos wedi gorchuddio'r nen,——caddug  
 Yn cuddio pob seren,  
 A'r rholfawr, anwar elfen,  
 A'i bâr yn ffyrnig dros ben.

Anal y llong yn nghanol lli'——hyllig  
 Yn hollol ddiffoddi;  
 Llifeiriant yn hyll ferwi,  
 Rhwng ei chandryll estyll hi.

O le tost! wele y tân  
 Wedi hollol fyn'd allan;  
 A'i holwynion yn glynu  
 Ar draethfan y *Dutchman* du;  
 Ac er i'rgwyr oer eu garm,  
 Chwilio am y gloch alarm,

Er fod ei sŵn hynod hi,  
 Garw sôn, yn llawn gresyni,  
 Eto, er rhoddi ateb  
 Iddyn' nhwy, ni chlywodd neb :  
 O'r diwedd, uwch deifr duon,  
 Pallodd dyrnod tafod hon.

Yn awr, y gwelir pob argoelion  
 Gyda'u gilydd, y gwaeda y galon ;  
 O ! pa deimladau, aethau, weithion,  
 A feddiana'r fath dorf o ddynion ;  
 Rhai nad ynt, uwch gerwin dôn,—yn gweled,  
 Un ymwared, mwy nag i'r meirwon !

Dychryn enaid sy'n dechreu enynu,  
 Yn ei wylltineb, gan erchyll felltenu,  
 Drymach, drymach mae angau'n hyll dremu  
 Yn eu hwyneb,—a'r môr yn ewynu,  
 A danedd hallt y dôn ddu——'nawr ydynt,  
 Oll am danynt yn erchyll ymdynu.

Y tadau tirion, trymion yn tremu  
 Ar eu haneisor ddinystr yn nesu ;  
 Ymwylltient, a cheisient ymlochesu,  
 Ow anhap hyllig !—pob peth yn pallu ;  
 Y ne'n ddwl, pob man yn ddu,——a'r halltfor  
 Garw yn agor dan ysgyrnygu.

Y Fam druan a'i bychan yn beichio,  
 Yn ei alaeth, a hithau yn wylo,  
 Heb wybod, ar yr hynod awr hono,  
 O annedwyddwch, beth i'w wneud iddo ;  
 Er i eglur ddeigr dreiglo——ar ei grudd,  
 I angau diludd aeth rhwng ei dwylo.

O ! fôr cuchiog, gwranddo gri,  
 Nodda un, newydd eni,

Rho wiwfad estyniad dydd  
I'r hwn sydd bron a soddi.

Eu llwyr annedwydd, erchyll oernadau  
A dreiddient, ac a rwygent y creigiau,  
Ond sŵn y ddryghin erwin am oriau,  
Och! yno, weithion, oedd uwch na hwythau;  
Er eu llafur a'u llefau,——eu gwatwar  
A wna'r du, anwar, ddwfn fôr a'i dônau.

Wele rai, gan alar hallt,  
Yn ymrwygo, 'n wallgo' wyllt,  
Eu llygaid yn danbaid oll,  
Troent, ymwibient fel mellt.

Ereill yn gallu ymdyru yn dirion  
I alw ar enw eu Duw, lywiwr union;  
Yn lôr gafaelent, gan fwrw'u gofalon,  
Ar eu Nêr agwrdd sy'n ffrwyno'r eigion;  
Ereill yn suddo'n oerion——mewn trymder,  
A hallt flinder i wyllt fol y wendon.

Rhai oedd yn serchog, galonog lynu  
Yn eu gilydd, er ymddiogelu,  
Hyn ni chollent, er i'r mor erchyllu,  
Yn y tywyllwch, tra meddent allu,  
Ond y groch dôn, ddigllon ddu,——yn ddibaid,  
A wasgai'u henaid nes eu gwahanu.

Golchai'r tonau'r ROTHSAY'n ddrylliau,  
A'u hergydiau trwm, rhwygiadol,  
Cipio degau, gyda'r darnau,  
Wnae y tönau anghytunol.

Gwel fabanod mewn dychryndod,  
Hwnt i'r gwaelod ânt o'r golwg;  
Er yn wyneb mor a'i wg——rhag eu lladd,  
Llodynt hir ymladd, ni dd'ont i'r amlwg.

Wele fenyw'n ceisio dal i fynu  
 Yn eigion gwyn drochion, gan ymdrechu,  
 A nerth anwar y don ar ei thynu  
 I'w choluddion,—Ow ! dacw li'n ei chladdu ;  
 Ni chaiff ei cheraint tra chu——roi i hon fedd,  
 Wely oerwedd, nag arno alaru.

Lluoedd ar luoedd â i lawr,  
 I'r eigionau tra gwynwawr,  
 Er ceisio neidio'n nwydwyllt,  
 I frig y don, wendon, wyllt,  
 O'u gofid, er cael gafael,  
 Yn narnau'r llong, wiblong wael,  
 Er hyn, y mor gerwinol  
 A'i lawn nerth, a'u tafiai'n ol ;  
 Ond rhai, yn eu hanffawd trwm,  
 O un galon yn gwllwm.

Yno daliasant, er eu du loesion,  
 A'u hynod ddychryndod, uwch oer wendon,  
 A Rhagluniaeth a'u neurog olwynion,  
 A'u noddai, a'u dygai'n waredigion ;—  
 Rhown fawl, yn hyfawl, i'n Hion——am ei rât,  
 Orwiw gariad a'i amryw ragorion.

Gair mawr a haeddai gwyr Mon——ereswiw,  
 A Syr Risiart dirion,  
 Am eu nawdd—ys hawdd fydd son,  
 Am danynt tra trem dynion.

## AWENYDD.

AWENYDD a adwaenir—wrth ei gwedd,  
Ac wrth y gwaith wnelir;  
Nid yw pob peth a blethir,  
O'r un waed a'r awen wir.

Nid rhydd awenydd anian—ydyw swm  
Cydseiniaid yn clecian;  
O dinc i dinc, yn rhincian,  
Mae oer gerdd rhigymwr gwan.

Llwyd wau rhimynau meinion,—dienaid,  
Dyna wna ynfydion;  
Awen uchel, annichon,  
I'r dyn hurt wir adwaen hon.

E ddyrydd ansoddeiriau—heb ochel,  
Nes beichio'r brawddegau;  
Swm, a gwynt, yw'r cwbl sy'n gwau,  
Yn ei hyllion linellau.

Gwehilion beirdd, gwaelion byd,—ni wyddant  
Rinweddau'r gelfyddyd:  
Ond llarpiant, hacrant o hyd,  
Wyneb awen, a'i bywyd.

Toraeth ar doraeth dyrant—o eiriau,  
Twrw mawr a gadwant;  
Dwyn nerth ein hiaith, dan warth wnant  
Beirdd o awen bardduant.

Os gellant *ddyfeisio* gwallau—gofrestr,  
Neu gyfrif mân feiau,

Rhodreswyr, rhigymwyr gau,  
Ni ddaliant ar *feddyliau*.

Plisgyn yr englyn a rydd—ddifyrol  
Wledd fawr i grach brydydd;  
Ni wiw son, nad hyny sydd,  
Wrth hwn, yn nerth awenydd.

Rhoi meddwl a grym iddo,—yn ei waith,  
Ni ŵyr ddim am dano;  
Byw ar waeledd, a brolio,  
Efo thwyll wna ei fath o.

Dwl, a dyrus, dlawd eiriau—ag arnynt,  
Glogyrnog gymalau,  
Dyna geir i gyd, yn gwau,  
Yn marddoniaeth myrddiynau.

Yn nwyllaw meddwon halog—bu'r awen  
Dan ei briw'n flinderog,  
Gan wyr llaith o gânwyr llog,  
A ganent am y geiniog.\*

Difyrwch uwch dyferyn—o ddiod  
Oedd awen boleddyn;  
A chas aeth, o achos hyn,  
I deilwng fardd ei dilyn.

Awenyddion rhinweddol—yw rhif fawr  
O feirdd sy'n bresenol;  
Bolerwyr, glerwyr y glol, †  
I daw sy'n cael eu deol.

\* Sef, y clerwyr (*strollers*), a'r bolewyr (*spungers*), a fwrient englyniou, &c., yn y tafaru-dai, er ffoli ynfydion am bres i gael diod.

† Clolian to talk idly, to gabble.

## SUBSCRIBERS' NAMES.

**Her Royal Highness the Duchess of Kent, Patroness.**

### ANGLESEY.

William. B. Hughes, Esq. M.P.  
10 copies  
The Hon. W. O. Stanley, M.P.  
4 copies  
H. J. Evans, Esq. Surgeon,  
Llanerchymedd  
Rev. Ishmael Jones, Hermon,  
2 copies  
Rev. W. Griffith, Holyhead  
Rev. W. Jones, Amlwch  
Rev. E. Davies, Llanerchymedd  
Rev. D. Davies, Llanddeusant  
Rev. T. Owen, Llanfechell  
Rev. D. Roberts, Sion Chapel  
Rev. D. James, Rhosymeirch  
Rev. H. Rees, Pentraeth  
Rev. W. Davies, Bryngwran  
Mr. Thomas Roberts, Foel bach,  
near Llanfechell  
Mr. John Roberts, Cefn coch,  
near Do. (Edeyrn Mon)  
Mr. Rich. Jones, Ogof, near Do.  
Mr. H. Jones, Schoolmaster,  
Cemaes  
Mr. O. Thomas, Clegyrog, Llan-  
badrig  
Mr. R. Jones, Llanrhuddlad, (R.  
ab Ieuan Prys)  
Mr. H. Roberts, George and Dra-  
gon, Llanerchymedd  
Mr. J. Roberts, Ceidio, Do.  
Mr. Thomas Parry, Saddler, Do.  
(Llanerchydd)

Mr. J. Forsyth, Llanerchymedd  
Mr. O. Parry, Currier, Do.  
Mr. J. Hughes, Ll. Esgob, Do.  
Mr. G. Williams, Druggist, Do.  
Mr. J. Thomas, Butcher, Do.  
Mr. Ed. Parry, Currier, Do.  
Mr. J. Jones, Eirianellt  
Mr. J. Jones, Chwaen  
Mr. E. Jones, Clorach Fawr  
Mr. W. Jones, Do.  
Mr. D. Owen, Trewyn  
Mr. O. Jones, Pentraeth  
Mr. O. Roberts, Do. (Owen  
Llwyfo)  
Mr. J. Hughes, Bardd, Bod-  
edern, 8 copies  
Mr. Escu Davies, Newborough

### BRECONSHIRE.

Rev. Mr. Blow, Brecon  
Rev. E. Davies, Classical Tutor of  
the Brecon Independent College  
Mr. D. Roberts, Student at Do.  
Mr. Isaac Francis, Do.  
Mr. Edward Williams, Do.  
Mr. J. Hughes, Do. (Ieuan o Leyn)  
Mr. John Edwards, Do.  
Mr. Robert Fairclough, Do.  
Mr. Evan Lewis, Do.  
Mr. Elias Jacob, Do.  
Mr. Daniel Ace, Do.  
Rev. W. Moses, Libanus  
Mr. T. Prothero, Bard, Aber,  
4 copies



## CARDIGANSHIRE.

Rev. W. Jones, Hawen, 12 copies  
 Rev. Daniel Davies, Cardigan  
 Rev. Richard Owen, Lampeter,  
 2 copies  
 Rev. A. Shadrach, Aberystwyth  
 Rev. J. Saunders, Do.  
 Rev. O. Owens, Talybont  
 Rev. Daniel Thomas, Penrhiw-  
 galed  
 Mr. Abraham Thomas, Do.  
 Mr. J. Jones, Newcastle Emlyn  
 (Iago Emlyn), 6 copies  
 Mr. Robert Jones, Printer, Aber-  
 ystwyth, 6 copies  
 Mr. Robert Edwards, Draper, Do.  
 Mr. J. Jones, Bookseller Llan-  
 badarn Fawr, 12 copies  
 Mr. W. Owen, Talybont  
 Mr. R. Rowland, Erglawdd, Do.

## CAERMARTHENSHIRE.

Rev. D. Davies, Theological  
 Tutor of the Carmarthen Ac-  
 ademy.  
 Rev. D. Lloyd, Classical Tutor,  
 of the Carmarthen Academy  
 Rev. John Breese, Carmarthen  
 D. Charles, Esq.  
 Mr. S. Evans, Editor of the  
 'Seren Gomer'  
 Mr. W. Thomas, Bard, (Gwilym  
 Mai) 6 copies  
 Mr. T. Thomas, Student, at the  
 Carmarthen Academy  
 Mr. D. Anthony, Do.  
 Mr. T. Job, Do.  
 Mr. W. Davies, Do.  
 Mr. G. Phillips, Do.  
 Mr. W. Jones, Do.  
 Mr. S. Thomas, Do.  
 Mr. J. Williams, Do.  
 Mr. D. Josuah, Turner, near Car-  
 marthen, 2 copies  
 Mr. D. Gravell, Cwmyfelin, near  
 Carmarthen

Rev. J. Williams, St. Clears,  
 12 copies  
 Rev. D. Rees, Llanelli  
 Mr. J. Thomas, Printer, Do.,  
 (Glan Towi) 5 copies  
 Mr. W. Howell, Cross Inn

## CAERNARVONSHIRE.

Major-General Sir L. P. J. Parry,  
 Madryn, 4 copies  
 J. Williams, Esq., Tuhwnt i'r  
 Bwlch, High Sheriff, 3 copies  
 O. O. Roberts, Esq., Surgeon,  
 Bangor, 3 copies  
 A Friend, 20 copies  
 D. Williams, Esq., Solicitor,  
 Pwllheli  
 J. Williams, Esq., Brecon Place,  
 Port Madog  
 J. J. Davies, Esq., Surgeon, Pen-  
 y-groes  
 D. R. Pugh, Esq., Coch-y-big  
 W. Jones, Esq., Solicitor, Glan  
 Beuno  
 Rev. W. Hughes, Saron  
 Rev. W. Ambrose, Porth Madog,  
 16 copies  
 Rev. R. Parry, Conway, 10 copies  
 Rev. D. Griffith, Bethel  
 Rev. Ll. Samuel, Bethesda  
 Rev. T. Edwards, Ebenezer  
 Rev. O. Thomas, Tal-y-sarn  
 Rev. R. Ellis, Rhoslan  
 Rev. J. Jones, Capel Helyg  
 Rev. J. Morgan, Abererch  
 Rev. S. Edwards, Ceidio  
 Rev. R. P. Griffiths, Pwllheli  
 Rev. R. Jones, Llanllyfni  
 Mr. J. Jones, Aberdaron  
 Mr. R. Thomas, Llangybi  
 Mr. E. Parry, Llanwnda  
 Mr. D. Rowland, Pwllheli  
 Mr. O. Owens, Bodnithoedd,  
 Lleyn  
 Mr. R. Williams, Bettws fawr  
 (R. ab Gwilym Ddu)  
 Mr. Eben. Thomas, Bard, Clynog

Llyfrgell y Capel Helyg  
 Mr. R. Thomas, Abercegyd, Bangor  
 Mr. J. R. Pritchard, Bangor  
 Mr. Mark Hughes, Bontnewydd  
 Mr. Charles Williams, Clogwyn  
 Mr. W. Roberts, Bookseller, Dwygyfylchi, 12 copies  
 Mr. R. Thomas, Cerig llwydion  
 Mr. D. Hughes (Cefn uchaf), Student, Glasgow  
 Mr. H. Hughes, Tre'r garth, (H. Tegai)  
 Mr. Lloyd, Tan-y-bwlch  
 Mr. W. Owen, Pen-isa'r-nant  
 Mr. W. Owen, Brynllwyd  
 Mr. D. Williams, Braich melyn  
 Mr. J. Williams, Red Lion, Llanllechyd  
 Mr. J. Thomas, Perthi, Llandegai  
 Mr. J. Thomas, Bethesda  
 Mr. D. Thomas, Do.  
 Mr. B. Jones, Druggist, Do.  
 Mr. W. Thomas, Tai'n-y-coed  
 Mr. G. Rowland, Grisiau cochion  
 Mr. M. Davies, Cae'r berllan  
 Mr. J. Thomas, Bethesda  
 Mr. R. Kelcum, Llandegai  
 Mr. J. Jones, Ty'r capel, Bethesda  
 Mr. R. Jones, Royal Oak, yr Achub  
 Mr. R. Williams, Bethesda  
 Mr. R. Thomas, Do.  
 Mr. E. Williams, Braich  
 Mr. J. Williams, Caegwigyn  
 Mr. B. Williams, Do.  
 Mr. W. Edwards, Llanberis, (G. Padarn)  
 Mr. D. Williams, Ty Ddewi, (Dinorwig)  
 Mr. R. Griffith, ieu. Tyddyn Siarles  
 Mr. O. Roberts, Snowdon, Betws  
 Mr. E. Hughes, Bethlemwth  
 Mr. James Jones, Bontnewydd  
 Mr. Richard Lloyd, Pen-y-bwlch  
 Mr. W. Hughes, Buarth  
 Mr. R. Williams, Ffridd, Llandwrog  
 Mr. J. Williams, Do.  
 W. Hughes, Esq. Surgeon, Trefriw

Mr. Ioan Pritchard, Llanberis  
 Mr. Pierce Davies, Do.

## CAERNARVON.

W. Ll. Roberts, Esq., Solicitor, 6 copies  
 Joseph Jones, Esq., Segontium Terrace, 3 copies  
 T. H. Evans, Esq., 2 copies  
 W. Roberts, Esq., Surgeon  
 E. Parry, Esq. Twthill  
 R. A. Poole, Esq., Do.  
 George Harding, Esq., Do.  
 R. M. Preece, Esq., Bron-y-gaer  
 John Williams, Esq., Surgeon  
 Messrs. Potter & Co., 6 copies  
 Rev. J. H. Bransby  
 Rev. J. Griffith (B.M.)  
 Rev. M. Thomas (W.M.)  
 Rev. D. Jones, Turf-square  
 Mrs. Williams, Segontium Terrace  
 Mr. D. Griffith, (Clwydfardd)  
 Mr. H. Jones, at Mr. Ll. Roberts  
 Mr. W. Williams, Druggist  
 Mr. H. Humphreys, Printer  
 Mr. W. Williams, Twthill  
 Mr. John Hughes, Watchmaker  
 Mr. R. D. Williams  
 Mr. J. Parry, Hatter, 2 copies  
 Mr. Morgan Jones, Baker  
 Capt. J. Owen  
 Mr. H. Thomas, Cabinet-maker  
 Mr. J. Huxley, senior  
 Mr. Richard Griffith, Draper  
 Mr. J. Williams, at Messrs. Potter, &c.  
 Mr. R. Roberts, Castle-green  
 Mr. D. E. Davies, at Mr. Ll. Roberts  
 Mr. W. G. Thomas, Builder  
 Mr. H. S. Hayden, Organist  
 Mr. H. Griffith, Druggist  
 Mr. O. Roberts, Innkeeper  
 Mr. W. Ellis, Mariner  
 Mr. W. Hughes, Mariner  
 Mr. J. Jones, Saddler  
 Mr. R. Williams, Carpenter  
 Mr. J. Thomas, at Mr. R. Williams

Mr. W. Roose, Portrait Painter  
 Mr. W. Parry, Bull's Head  
 Mr. R. Davies (Segontium Terrace)  
 Student Blackburn, 3 copies  
 Mr. R. Rowlands, Cabinet-maker  
 Mr. J. Evans, Chandler  
 Mr. R. Griffith, Pen-yr-allt  
 Mr. Meurig Edwards, Auctioneer  
 Mr. Richard Owen, Nailor  
 Mr. Owen Edwards, Stone-cutter  
 Mr. O. Ellis, Segontium Terrace  
 Mr. W. Hughes, Tobacconist  
 Mr. R. Ll. Ellis, Surveyor  
 Mr. R. Roberts, Flour-dealer  
 Mr. J. Lloyd, Builder  
 Mr. D. Jones, Bangor-street

## CHESTER.

Rev. E. Evans, Christleton, near  
 Chester (I. G. Geirionydd),  
 3 copies  
 Mr. E. Parry, Exchange, 3 copies

## DENBIGHSHIRE.

Rev. Walter Davies, M.A. (G.  
 Mechain) Llanrhaidr Moch-  
 nant, 3 copies  
 Rev. William Rees, Denbigh (G.  
 Hiraethog) 12 copies  
 Mr. R. Williams, Do., 12 copies  
 Mr. J. Evans, Llansantffraid (I.  
 D. Ffraid), 2 copies  
 Mr. D. Owen, Skinner, Llanrwst  
 Mr. John Jones, Printer, Llan-  
 rwst, 6 copies  
 Mr. J. Edwards (Meiriadogyn),  
 Rhosymedre  
 Mr. J. Jones (Llewelyn pensfelyn  
 fardd), Do.  
 Mr. William Roberts, Do.  
 Mr. John Morris, Do.  
 Mr. John Price (Ioan Alun)  
 Cefnmawr  
 Mr. Richard Roberts, Do.  
 Mr. Henry Williams, Do

Mr. Robert Evans, Cefnmawr  
 Mr. Owen Vaughan, Do.  
 Mr. David Davies, Do.  
 Mr. Thomas Richards, Do.  
 Mr. John Valentine, Do.  
 Mr. Robert Blunt, Do.  
 Mr. John Williams (I. ab Gwil-  
 ym) Do.

## FLINTSHIRE.

Right Honourable Lord Mostyn,  
 6 copies  
 Rev. D. Jones, Holywell  
 Rev. E. Hughes, Do.  
 Rev. H. Pugh, Heol Mostyn  
 Mr. Hughes Artist, 3 copies  
 Rev. Owen Owens, Rhes-y-cae  
 Mr. T. Parry, Printer, Holywell

## GLAMORGANSHIRE.

W. Williams, Esq. Aberpergwm  
 Rev. Mr. Lewis, Llangatwg  
 Rev. D. Rhys Stephan, Swansea,  
 4 copies  
 Rev. W. Hughes, Morristown,  
 12 copies  
 Rev. R. Owen, Cwmbychan,  
 12 copies  
 Rev. Morgan Evans, Caerphili,  
 (Morgan Fwynfawr) 12 copies  
 Rev. J. Hughes, Dowlais, 12 cop.  
 Rev. W. Jones, Pen y Bont ar  
 Ogwy, 2 copies  
 Rev. Daniel Evans, Castell Nedd  
 Rev. W. Jones, Cardiff  
 Rev. B. Owen, Merthyr  
 Rev. T. B. Evans, Ynysgau,  
 5 copies  
 Mr. E. Evans, Schoolmaster,  
 Mathew's Terrace, Swansea,  
 4 copies  
 Mr. Joseph Maybery, Neath,  
 12 copies

CYMDEITHAS GYMREIGYDDOL  
CASTELL NEDD.

Y Parch. D. Ll. Isaac, (Llywydd)  
3 llyfr  
Mr. D. Benjamin, Bardd, (Dewi  
Bach)  
Mr. Thos. Jenkins, Ysgrifenydd  
Mr. W. Williams  
Mr. Morgan Rees  
Mr. William Rees  
Mr. John Morgan  
Mr. Phylip Morgan  
Mr. Ebenezer Thomas  
Mr. Griffith Owen  
Mr. Samuel Jones,  
Mr. Theophilus Davies  
Mr. John Thomas, Shopkeeper,  
Glyn Nedd.  
Mr. W. Lewis, Secretary of the  
Cymreigyddion Society, Aber-  
dare, 6 copies  
Mr. Evan Davies, Bedwlwyn  
(Ieuan Myfyr uwch Celli),  
2 copies  
E. Williams, Esq. Surgeon, Cow-  
bridge  
Mr. J. T. Jones, Printer, 12 cop.  
Mr. W. E. Jones (Cawrdaf), Do.  
Mr. E. Williams, (Iolo Fardd  
Glas), Do.  
Mr. J. Reynolds, Do.  
Mr. T. J. Pritchard, Do.  
Mr. T. Morris, Maltster, Do.  
Mr. Morgan Rhys, (Mathew  
Dew)  
Mr. D. Evans, Llanharan (Dewi  
Haran), 2 copies  
Mr. Jones, Llys y Fronydd  
Mr. H. Evans, (H. Ddu o Ddy-  
fed), Cardiff, 12 copies  
Mr. Ll. Jenkin, Printer, Do.  
19 copies  
Mr. Thomas Jones, (Eos Glan  
Rymi), 12 copies  
Mr. Taliesin Williams, Bard,  
(Taliesin ab Iolo), 4 copies

Mr. Wm. Williams, Printer,  
Mèrthyr Tydfil, 6 copies  
Mr. E. Williams, Bardd, yr  
Alarch, 10 copies  
Mr. Joseph Jones, Dyffryn Arms,  
Do. 3 copies  
Mr. Thos. Evans, Miner

CYMDEITHAS CYMRODORION  
MERTHYR.

Mr. D. Jones, Llywydd  
Mr. Morgan Edwards, Rhag-  
lywydd.  
Mr. D. Lloyd, Trysorydd  
Mr. J. Rees, Ysgrifenydd  
Mr. Richard Jones, (Rhydderch  
Gwynedd), Bardd  
Mr. Roger Williams, Bardd,  
12 llyfr  
Y Parch. J. Bartley  
Mr. Richard Lewis, Printiwr  
Mr. John Lewis  
Mr. Rees Lewis, Llyfrwymwr  
Mr. Morgan Davies  
Mr. D. Davies  
Mr. Nicholas Jones, Saer  
Mr. W. Ellis, Mwnwr  
Mr. W. Evans, Bardd (Cawr  
Cynon).

## PONT Y TY PRIDD.

Rev. D. Davies  
Rev. James Richards  
Rev. R. Edwards, Dinas, 6 copies  
Mr. Ebenezer Davies, Ysgrif-  
enydd Cymreigyddion y Maen  
Chwyf, 12 copies  
Mr. John Jones, Millman Cych  
y Gwas

## LONDON.

Rev. Dr. Rees, 2 copies  
Mr. J. Parry, (Bardd Alaw)

## LIVERPOOL.

Rev. Wm. Williams, (late of  
Wern)

Rev. Daniel Jones, 10 copies  
 Rev. T. Pierce, 10 copies  
 Rev. W. Roberts, 12 copies  
 Mr. E. Pugh, 10 copies  
 Mr. R. Ll. Morris, Printer  
 (Rhufoniawc), 12 copies

## MERIONETHSHIRE.

Thomas Hartley, Esq., Llwyn  
 Evan Williams, Esq., Brongader  
 L. Pugh, Esq., Bank, Dolgelley  
 Rich. Williams, Esq., Surgeon,  
 Do., 3 copies  
 Lewis Evans, Esq., Surgeon, Do.  
 David Owen, Esq., Surgeon, Do.  
 John Jones, Esq., Solicitor, Do.,  
 2 copies  
 W. Griffith, Esq., Solicitor, Do.  
 John Jones Williams, Esq., So-  
 licitor, Do.  
 Robert Prys Roberts, Esq., Do.  
 G. E. Wynne, Esq., Cwmyrafon,  
 Llanbedr  
 Griffith Davies, Esq., Surgeon,  
 Dolgelley  
 Griffith Evans, Esq., Maesypanyd  
 Rev. David Pugh, Curate  
 Rev. William Batten, (W.M.)  
 Rev. E. Evans, Abermaw  
 Mr. Lewis Jones, Lawnt Cottage  
 Mr. David Evans  
 Mr. Thomas Payne, Surveyor  
 Mr. Griffith Jones, Coroner  
 Mr. David Owen, Pantyronen  
 Mr. D. Pugh, Finsbury-square  
 Mr. Thos. Roberts, Confectioner  
 Mr. R. Jones, (B. Mawddach)  
 4 copies  
 Mr. Ellis Rees, Star Inn  
 Mr. R. Jones, Printer, Eldon-row  
 Mr. R. Roberts, (late Caerynwch)  
 Mr. John Roberts, Tymawr  
 Mr. William Pugh, Joiner  
 Mr. Robert Jones, Draper  
 Mr. Robert Lloyd  
 Mr. Evan Jones, Printer  
 Mr. M. Davies, (Meurig Ebrill)

Mr. Morris Jones, (Meurig Idris)  
 Mr. D. Griffith, Timber-merchant,  
 Llanilltyd  
 Mr. Robert Williams, Draper,  
 Dolgelley  
 Mr. Edward Jones, Shoemaker  
 Mr. Evan Jones, Swan  
 Mr. Evan Jones, Ty'nysimnai  
 Mr. E. O. James, Chandler,  
 Dolgelley  
 Mr. L. Jones, Flour-merchant,  
 Barmouth  
 Mr. Lewis Oliver, Draper, Dol-  
 gelley  
 Mr. John Rees, Cabinet-maker  
 Mr. Wm. Williams, Do.  
 Mr. Watkin Anwyl, Grocer  
 Mr. Robert Roberts, *Henudur*  
 Mr. Wm. Jones, Mercer  
 Mr. William Price, Saddler  
 Mr. James Jones, Saddler  
 Mrs. Pugh, Plasuchaf  
 Mr. Robert Jones, Clerk  
 Mr. Hugh Jones, Mercer  
 Francis Hallows, Esq.  
 Mr. Evan Griffith  
 Mr. Robert Pugh, Architect  
 Mr. Edmund Evans, Wesleyan  
 Preacher  
 Mr. John Williams, Limeburner,  
 Ty'nycelyn, Arthog  
 Mr. Evan Lewis, Llynypenman  
 Mr. Cox, Junior, Printer, Aber-  
 ystwyth.  
 Mr. O. Jones, Froheulog, Dol-  
 gelley  
 Mr. John Thomas, Ffestiniog,  
 5 copies  
 Mr. Wm. Morgan, Fronwen,  
 Harlech

## MONMOUTHSHIRE.

Sir B. Hall, Bart., M.P., Llan-  
 over, 3 copies  
 Lady Hall, (Gwenynen Gwent)  
 3 copies  
 R. Hopkins, Esq., Victoria  
 Rev. Mr. Williams, Machen

Rev. H. Jones, Tredegar (Cromwel o Went), 12 copies	Mr. D. Morgan, Machynllaith, 12 copies
Rev. J. Roberts, Do., 12 copies	Mr. D. Howell, Do., 6 copies
Rev. E. Rowlands, Pont y Pool, 2 copies	Mr. D. Lewis, Bard, Do., 2 copies
Rev. D. Stephenson, Nant y Glo	Mr. J. Jones, Bank, Do.
Mr. W. Jones, Machen (G. Ilid), 5 copies	Mr. Wm. Williams, (Gwilym Llechyd), near Machynllaith
Mr. E. Mathews, Mynyddyslwyn, 6 copies	Mr. John Hughes, Llaugynog
Mr. D. Davies, Glyn Arthen	Mr. S. Evans (late of Travellers Inn)
Mr. D. Seys Lewis, Coalbrook Vale (Ifor Gwent), 6 copies	
Mr. D. Lewis, Blaenau Gwent (Ehedydd Gwent), 6 copies	<b>OXFORD.</b>
Mr. D. Jones, Sirhowi, 6 copies	Rev. John Jones, M.A., Christ Church (Ioan Tegid), 2 copies
<b>MONTGOMERYSHIRE.</b>	<b>SALOP.</b>
Rev. Samuel Roberts, Llanbrynmair (S. Brynmair), 6 copies	Rev. J. Jones, Marton
	Mr. R. Jones, (R. Glan Ogwen)

NAMES RECEIVED TOO LATE TO BE INSERTED IN THEIR PROPER PLACES.

Sir R. B. W. Bulkeley, Bart., Baron Hill, 6 copies  
 Rev. Mr. Rowlands, Plasgwyn, 6 copies  
 Rev. Daniel Evans, B.D. (Daniel Ddu), 3 copies  
 Rev. T. Davies, Curate of Dihewyd, Cardiganshire  
 Rev. T. Parry, late of Blackburn  
 W. Mason, Esq., M.D., Caernarvon  
 W. Jones, Esq., Solicitor, Abchurch-lane (Gwrgant), London  
 O. W. Thomas, Esq., Milk-street, Do.  
 Mr. J.W. Thomas, (Arvonwyson), Superintendent, Royal Observatory, Greenwich, 2 copies  
 Mr. G. Thomas, Milk-street, London  
 Mr. H. Hughes, St. Martin's-le-Grand, Do.  
 Mr. J. Thomas, Bucklesbury, Do.  
 Mr. R. Thomas, Lombard-street, Do.  
 Mr. Robert Jones, Rhydfawr, Llanddeiniolen  
 Mr. Thomas Williams, Llanfawr, Anglesey  
 Mr. E. Jones, Brithdir, Dolgellau  
 Mr. Thomas Pritchard, Rhosllanerchrugog  
 Mr. Richard Solomon, Plasgwyn  
 Mr. David Williams, Tinman, Caernarvon  
 Mr. D. Harries, Castle-square, Do.

O.Y. Drwy fod yr awdwr yn gorfod darllen rhai o'r prawfleni gyda mwy o frys nag y chwenychasai, diangodd rhai gwallau argraffyddol yn y gwaith, y rhai nid ydynt, gyda'r eithrad o ddau neu dri, ond lled ddibwys; dymunir ar y cyfarwydd eu gwellâu â'i bin; sef yn lle addysgiadau, darllen ddygwyddiadau, yn tu dal. 12; yn lle prydyddol y mae proffwydol i fod yn ngwaelod tu dal. 33; diangodd laswair yn lle laswawr, yn 'Gwyrdd lysiau a gardd laswawr;' dylasai rhif 6 fod yn lle 5 yn tu dal. 51; yn tu dal. 64 rhoddwyd d yn lle l yn y gair ufel; yn tu dal. 77, rhoddwyd al yn lle eb yn y gair ateb; ac f yn lle p yn y gair pellt, yn tu dal. 109; argraffwyd ganwaith yn lle glanwaith, tu dal. 114; ac eich yn lle erch, tu dal. 115; a gradd yn lle gardd, tu dal. 132. Nid ydyw y gwallau ereill ond llythyrenol, a digon hawdd eu gwellâu.

---

Y mae'r gefnogaeth gref a gafodd yr awdwr hyd yma, gan rai o brif ddysgedigion Cymru, yn Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, i ddwyn y traethawd hwn o'r wasg, wedi calonogi llawer arno yn ei anturiaeth, ragor yr oedd yn nghychwyniad y gwaith. Y mae awgrymau yr amryw awdwyr uchelddysg (*classical*) a ymostyngasant i ysgrifenu ato mor dirion yn nghylch y llyfr, o werth amhrisiadwy yn ei olwg; a bydd yn gysur mawr iddo os cyferfydd yn lled agos â'u dysgwyl-iadau. Gwnelsid y sylwadau yma yn gynarach yn y gwaith pe daethai yr amryw lythyrau a dderbyniodd yr awdwr i law yn gynt.

